# Y sector cyfreithiol yng Nghymru - adolygiad cyflym

ADRODDIAD GAN
JOMATI CONSULTANTS LLP
MEHEFIN 2019

jomati
consultants LLP

# Cynnwys


| *Pennod* | *Thema* | *Tudalennau* |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb gweithredol | 4 |
| 2 | Trosolwg o'r adroddiad | 7 |
| 3 | Trosolwg o'r farchnad gyfreithiol yng Nghymru | 1 |
| 4 | Sector addysg gyfreithiol prifysgolion Cymru | 24 |
| 5 | Prentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru – y sefyllfa gyfredol a chyfeiriad posibl yn y dyfodol | 32 |
| 6 | Cymorth Llywodraeth Cymru i'r sector cyfreithiol | 42 |
| 7 | Caffael gwasanaethau cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru | 51 |
| 8 | Caffael gwasanaethau cyfreithwyr a bargyfreithwyr gan y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru | 62 |
| 9 | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach – y canfyddiad am y farchnad gyfreithiol leol | 67 |
| 10 | Pa gymorth yr hoffai'r sector cyfreithiol ei gael gan Lywodraeth Cymru | 70 |
| 11 | Awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân – barn y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru | 77 |
| 12 | Awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân – y cyflenwad o wybodaeth arbenigol | 85 |
| 13 | Effaith Brexit ar y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru | 91 |
| 14 | Cymorth i'r sector gwasanaethau cyfreithiol yn y DU ac mewn gwledydd eraill | 93 |
| 15 | Modelau busnes newydd posibl ar gyfer darparu gwasanaethau cyfreithiol, gan gynnwys effaith technoleg | 104 |
| 16 | Casgliadau, ystyriaethau polisi a chynllun gweithredu awgrymedig | 115 |

# Ynglŷn â Jomati

Jomati yw'r ymgynghoriaeth gyfreithiol strategol arbenigol fwyaf blaenllaw yn y DU sy'n gwasanaethu cwmnïau cyfreithiol a chwnsleriaid cyffredinol. Mae Jomati, a sefydlwyd yn 2002, wedi cynghori cwmnïau mewn dros 50 o wledydd ar ystod eang o faterion strategol, gweithredol a materion sy'n gysylltiedig â phartneriaid.

Dyfarnwyd Gwobr y Frenhines ar gyfer Menter: Masnach Ryngwladol i Jomati Consultants LLP yn 2012. Mae'r wobr yn cydnabod llwyddiant Jomati o ran tyfu refeniwiau rhyngwladol o un flwyddyn i'r llall ac am gynghori nifer cynyddol o gleientiaid yn fyd-eang.

# Gwybodaeth Cysylltu

Jomati Consultants LLP
3 Amen Lodge, Warwick Lane
Llundain EC4M 7BY
Y Deyrnas Unedig

Pennaeth, Tony Williams
Cyswllt: +44 (0) 20 7248 1045, tony.williams@jomati.com

Dilynwch @Jomati_Consult

**Cydnabyddiaeth a diolchiadau**

Hoffai Jomati ddiolch i'r holl arweinwyr practisiau cyfreithiol, academyddion, rheoleiddwyr a chyfranogwyr eraill yn y farchnad gyfreithiol yng Nghymru a gyfrannodd at yr adroddiad hwn.

**Hawlfraint © 2019, Jomati Consultants LLP**

# Pennod un: Crynodeb gweithredol

Fe wnaed y gwaith ymchwil ac ysgrifennu ar gyfer yr adolygiad cyflym hwn o'r farchnad gyfreithiol yng Nghymru gan Jomati Consultants dros gyfnod o bum mis yn unig. Eto, er gwaethaf yr amserlen dynn ar gyfer ei lunio, rydym ni o'r farn bod ein hadroddiad yn cynnig mewnwelediadau defnyddiol ynglŷn â ble y gallai Llywodraeth Cymru ymyrryd yn ddefnyddiol – neu beidio ag ymyrryd – yn y sector cyfreithiol yng Nghymru, yng ngoleuni'r amcanion strategol a nodir yn ei Chynllun Gweithredu ar yr Economi.

Ym mhennod tri o'r adroddiad hwn, rydym yn darparu amlinelliad byr o'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru. Mae ein hadroddiad yn crynhoi ble y mae cyfreithwyr yn tueddu i weithio, beth maent yn tueddu i arbenigo ynddo, a sut y mae'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru'n cymharu â'r proffesiwn cyfatebol yn Lloegr. Un o'r canfyddiadau sy'n achosi'r pryder mwyaf yw bod y ganran o gyfreithwyr ifanc yn amlwg yn uwch yn Lloegr nag yng Nghymru. Mae hyn yn awgrymu bod risg y bydd y proffesiwn cyfreithwyr yng Nghymru'n wynebu pwysau demograffig sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Yn fwy cadarnhaol, mae'r bennod hon hefyd yn amlygu bod y farchnad gyfreithiol yng Nghymru'n cynnwys nid dim ond practisiau cyfreithiol confensiynol, sy'n cyflogi niferoedd mawr o gyfreithwyr rheoleiddiedig. Yn y rhan hon o'n hadroddiad, rydym felly'n cynnig enghraifft o sefydliad mawr yng Nghymru sy'n gyflogwr llawer mwy arwyddocaol yn y sector cyfreithiol nag y mae ei gyfanswm o gyfreithwyr yn unig yn dynodi y gallai fod.

Ym mhennod pedwar, rydym yn amlinellu natur y sector addysg gyfreithiol uwch yng Nghymru, gan gynnwys symudiadau myfyrwyr sy'n astudio'r gyfraith yng Nghymru, i mewn ac allan. Canfyddiad allweddol ein hymchwil yw bod gan y sector addysg gyfreithiol yng Nghymru ogwydd aruthrol tuag at allforio talent, a bod y cyflenwad o raddedigion yn sylweddol fwy na'r galw lleol yn y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru. Yn y bennod hon, rydym hefyd yn amlygu menter gan Brifysgol Abertawe i roi anogaeth i newid tuag at ddefnyddio Technoleg Gyfreithiol yn y farchnad gwasanaethau cyfreithiol.

Ym mhennod pump, rydym yn archwilio prentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru. Er bod ein hymchwil yn dynodi bod prentisiaethau cyfreithiol presennol wedi mynd yn segur yng Nghymru i raddau helaeth, rydym hefyd yn cydnabod bod y gwir ddarlun o ran y farchnad prentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru'n anodd i'w bennu'n gywir, oherwydd ansawdd gwael y data swyddogol sy'n ymwneud â'r mater hwn. Yn y bennod hon, rydym felly'n awgrymu sut y gellid gwella ansawdd data o'r fath. Rydym ni'n dadlau y bydd data o ansawdd gwell yn ei gwneud yn bosibl cael trafodaeth fwy seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn â strategaeth Llywodraeth Cymru yn y dyfodol tuag at brentisiaethau cyfreithiol yn y wlad.

Ym mhennod chwech, rydym yn gwerthuso mentrau blaenorol Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i'r sector cyfreithiol – yn arbennig, ymgeisiau yn y gorffennol i roi anogaeth i fuddsoddi mewn canolfannau gwasanaethau cyfagos. Yn gadarnhaol, mae ein hymchwil yn dynodi bod Caerdydd wedi dod yn agos iawn yn flaenorol at lwyddo i ddenu nifer o fewnfuddsoddiadau ar raddfa fawr ar gyfer canolfannau gwasanaethau. Yn y bennod hon, rydym hefyd yn adnabod math newydd posibl o ganolfannau gwasanaethau cyfreithiol cyfagos yn ychwanegol at gwmnïau cyfreithiol traddodiadol. Yng ngoleuni ein canfyddiadau, ac yng ngoleuni'r ymdrechion gan brifysgolion Caerdydd ac Abertawe i ailgyfeirio eu cyrsiau yn y gyfraith tuag at arloesi mewn ymarfer cyfreithiol, rydym ni'n credu bod gobaith realistig yn awr y bydd buddsoddiadau ar raddfa fawr mewn canolfannau gwasanaethau cyfagos yn y dyfodol yng Nghaerdydd. Rydym yn egluro pam mewn mwy o fanylder ym mhennod 14 o'r adroddiad hwn.

Rydym yn ymdrin â chaffael gwasanaethau cyfreithiol gan y sector cyhoeddus yng Nghymru ym mhenodau saith ac wyth o'r adroddiad hwn. Yn y penodau hyn, rydym yn mynegi amheuon ynglŷn â gallu Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach i ddefnyddio caffael fel offeryn ar gyfer cyflawni'r amcanion yn ei Chynllun Gweithredu ar yr Economi lle mae'r sector cyfreithiol yn y cwestiwn. Rydym yn dod i'r casgliad, yn blwmp ac yn blaen, bod grym prynu Llywodraeth Cymru – ac, yn wir, grym prynu'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn ei gyfanrwydd – yn rhy fach i wneud unrhyw wahaniaeth ystyrlon i lwyddiant nifer o'r cwmnïau cyfreithiol a gyfarwyddir, heb sôn am y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru'n fwy eang. Ym mhennod wyth, rydym yn trafod sut yr hoffai'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru i'r broses gaffael gan awdurdodau cyhoeddus Cymru gael ei newid. Mewn perthynas â'r proffesiwn cyfreithwyr, mae ein canfyddiadau'n dynodi dyhead am fwy o symlrwydd yn y broses gaffael. Mewn perthynas â'r proffesiwn bargyfreithwyr, ceir canfyddiad – y gellir ei gyfiawnhau – bod gwaith cyfreithiol sy'n cael ei gaffael yn allanol o werth bach iawn, a hefyd ei fod yn canolbwyntio'n fawr ar gyfarwyddo bargyfreithwyr sydd wedi'u lleoli yn Llundain.

Ym mhennod 10, rydym yn archwilio sut y mae'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru'n helpu i'w gynnal ei hun, a lle mae diffyg cydgymorth ar hyn o bryd. Yma hefyd, rydym yn pwyso a mesur ymwybyddiaeth o gymorth gan Lywodraeth Cymru a brwdfrydedd dros y cymorth hwnnw. Mae ein hymchwil yn dynodi bod arweinwyr practisiau cyfreithiol yng Nghymru ar y cyfan yn gwrthwynebu neu'n ddifater ynghylch ymyriadau gan Lywodraeth Cymru yn eu sector. Serch hynny, ymddengys fod nifer fach o senarios lle gallai cymorth gan Lywodraeth Cymru gael ei werthfawrogi.

Ym mhenodau 11 a 12, rydym yn ymdrin â mater awdurdodaeth Gymreig trwy ddau faes ffocws cul – ac ymarferol. Yn gyntaf, rydym yn archwilio'r canfyddiad am y cysyniad ymhlith y rhai a fydd ar flaen y gad o ran ei roi ar waith: cyfreithwyr sy'n ymarfer yng Nghymru. Yn ail, rydym yn archwilio agweddau tuag at y cysyniad gan ysgolion y gyfraith yng Nghymru. Yn achos y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru, rydym yn cael bod y cyfreithwyr yr ymgysylltom ni â hwy i'w gweld fel pe baent yn agnostig ynglŷn â nifer o elfennau allweddol ar fater awdurdodaeth Gymraeg, yn anad dim polisi barnwrol. Fodd bynnag, maent yn dod yn amlwg yn fwy bywiog lle maent yn ofni – yn gam neu'n gymwys – y gallai awdurdodaeth ar wahân effeithio'n niweidiol ar eu busnes, neu ar eu hawl i weithredu ar sail drawsffiniol i mewn i Loegr. Mewn perthynas ag ysgolion y gyfraith yng Nghymru, rydym yn cael bod y sefydliadau hyn i'w gweld yn gyndyn o addysgu cyfraith Cymru i unrhyw raddau helaeth. Yn yr un modd, ymddengys hefyd fod ysgolion y gyfraith yng Nghymru'n gyndyn o greu deunyddiau ymchwil ar gyfraith Cymru – o bosibl am nad oes unrhyw gymelliadau amlwg iddynt wneud hynny.

Ym mhennod 13, rydym yn trafod effaith bosibl Brexit ar y sector cyfreithiol yng Nghymru. Mae hwn yn amlwg yn fater sy'n peri dryswch parhaus. Fodd bynnag, trwy archwilio amryw ffynonellau, rydym wedi gallu adnabod elfennau penodol o'r proffesiwn cyfreithiol y byddai materion sy'n gysylltiedig â Brexit – o bosibl – yn gallu tarfu arnynt. Mae'r broses adnabod hon yn golygu y byddai modd, o bosibl, i Lywodraeth Cymru lunio rhaglen o fonitro a chymorth gweithredol ar gyfer y rhannau hynny o'r farchnad gyfreithiol yng Nghymru sydd i'w gweld fel pe baent yn wynebu risg arbennig o ganlyniad i darfu a achosir gan Brexit.

Ym mhennod 14, rydym yn archwilio canlyniad cymorth a roddwyd yn y gorffennol i'r proffesiwn cyfreithiol, yn y DU ac mewn gwledydd eraill. Mae ein hymchwil ni'n awgrymu bod cymorth wedi'i dargedu, ar adegau, wedi arwain at drawsnewid marchnadoedd cyfreithiol, a gwella cyfleoedd ar gyfer swyddi â chyflog da yn sylweddol yn y lleoliadau penodol hyn. Yng ngoleuni ein canfyddiad penodol mewn perthynas â Chaerdydd, a archwiliwyd yn flaenorol ym mhennod chwech, rydym yn egluro pa wersi ellid eu dysgu yn ein tyb ni am y ffordd y gallai'r ddinas hon gael ei hyrwyddo fel lleoliad posibl ar gyfer canolfan gwasanaethau gyfagos bosibl.

Ym mhennod 15, rydym yn archwilio amryw fathau o arloesi mewn ymarfer cyfreithiol sydd eisoes wedi digwydd yng Nghymru. Ein canfyddiad allweddol yn y bennod hon yw bod gan Gymru rai straeon cadarnhaol i'w hadrodd, yn enwedig o ran arloesi yn y sector cyhoeddus. Gyda chymorth ychydig bach o gyllid cynnar, mae llawer o'r swyddogaethau cyfreithiol mewnol yn awdurdodau lleol Cymru wedi dod ynghyd, gan felly gael budd o ddarbodion maint. Yn anffodus, mewn perthynas â'r sector preifat, mae hanes y proffesiwn cyfreithiol mewn perthynas ag arloesi'n fwy cymysg. Ar y naill law, mae'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru'n gartref i nifer o bractisiau sy'n gweithredu mewn ffyrdd gwirioneddol newydd. Yn anffodus, ac mewn cyferbyniad, prin bod marchnad Technoleg Gyfreithiol a gwasanaethau cyfreithiol ar-lein y wlad yn bodoli o gwbl.

Ym mhennod 16, rydym yn darparu trosolwg o'n casgliadau allweddol sy'n deillio o'r adroddiad hwn. Yn y bennod hon, rydym hefyd yn cynnig rhai awgrymiadau ynghylch goblygiadau polisi posibl ein canfyddiadau, yr ydym yn gwahodd Llywodraeth Cymru i'w hystyried. Mae ein cynllun cyflawni awgrymedig wedi'i gynnwys yn y bennod hon hefyd.

# Pennod dau: Trosolwg o’r adroddiad

## Trosolwg o'r adroddiad

Mae Jomati Consultants LLP wedi cael comisiwn gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad cyflym o’r sector cyfreithiol yng Nghymru. Mae ein hadolygiad annibynnol wedi’i fwriadu i fwydo i mewn i’r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, ond hefyd i fod ar wahân iddo. Deallwn fod disgwyl i’r Comisiwn gyhoeddi ei ganfyddiadau a’i argymhellion yn ddiweddarach eleni.

Cynhaliwyd ein hadolygiad cyflym mewn dau gam. Paratowyd rhan gyntaf ein hadroddiad o fewn chwe mis i gael y cyfarwyddyd, gyda’n canfyddiadau’n cael eu cyflwyno ym mis Mawrth 2019. Cwblhawyd ail ran ein hadroddiad ym mis Mai 2019. Cyfuniad o’r ddau adroddiad cynharach yw’r ddogfen ddiweddaraf hon. Mae’n cynnwys 16 o benodau, sy’n seiliedig at ei gilydd ar y pum thema ganlynol:

1) Disgrifiad o’r farchnad practisiau preifat ac addysg gyfreithiol yng Nghymru, sy’n canolbwyntio ar y canlynol:
   - Trosolwg o strwythur, arbenigaethau a daearyddiaeth y farchnad gyfreithiol practisiau preifat
   - Trosolwg o symudiad talent gyfreithiol i mewn i Gymru ac allan o Gymru, gyda ffocws penodol ar addysg a hyfforddiant cyfreithiol
   - Prentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru

2) Dadansoddiad o gymorth gan y sector cyhoeddus i’r gymuned practisiau preifat cyfreithiol yng Nghymru, sy’n canolbwyntio ar y canlynol:
   - Mentrau cymorth penodol a gynigir gan Lywodraeth Cymru
   - Caffael gwasanaethau cyfreithwyr a bargyfreithwyr gan Lywodraeth Cymru a’r sector cyhoeddus ehangach
   - Safbwynt y farchnad gyfreithiol yng Nghymru ynglŷn â chymorth presennol gan y sector cyhoeddus
   - Pa gymorth yr hoffai’r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru ei weld gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol

3) Materion cyfansoddiadol sy’n effeithio ar y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru, sy’n canolbwyntio ar y canlynol:
   - Barn y gymuned practisiau preifat yng Nghymru ynghylch esblygiad awdurdodaeth ar wahân i Gymru
   - Barn y gymuned academaidd gyfreithiol ynghylch esblygiad awdurdodaeth ar wahân yng Nghymru
   - Effaith bosibl Brexit ar y sector cyfreithiol yng Nghymru

4) Arloesi mewn ymarfer cyfreithiol yng Nghymru a’r tu hwnt, sy’n canolbwyntio ar y canlynol:
   - Adolygiad o ymgeisiau presennol, gyda chymorth gwladwriaethol, i dyfu marchnadoedd cyfreithiol mewn modd gweithredol
   - Mathau eraill o bractisiau cyfreithiol yng Nghymru, ar draws y sectorau preifat a chyhoeddus

5) Ein casgliadau, ein meddyliau am oblygiadau allweddol ein canfyddiadau ar gyfer polisi, a’n cynllun gweithredu awgrymedig.

## Methodoleg yr adroddiad

Wrth lunio ein hadroddiad, rydym wedi tynnu ar ystod eang o ddeunyddiau ffynhonnell, yn rhai gwreiddiol ac a oedd yn bodoli eisoes. Mae'r deunyddiau ffynhonnell hyn yn cynnwys:

- Yr holl sylwadau cyhoeddus a ddarparwyd ar gyfer y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, i'r graddau y maent yn berthnasol i'n hamodau gorchwyl

- Deunyddiau helaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, rheoleiddwyr cyfreithiol, adrannau Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid perthnasol eraill

- 25 o gyfweliadau gydag uwch ffigyrau o'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru, gan gynnwys arweinwyr cwmnïau cyfreithiol, aelodau o'r bar, uwch gynrychiolwyr ysgolion y gyfraith a chwnsleriaid mewnol a sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat

- Arolwg ar raddfa fach o'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru. Cynhaliwyd yr arolwg hwn gyda chymorth Cymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghymru, ynghyd ag amryw grwpiadau cyfreithwyr ymbarél, a hyrwyddodd yr arolwg ar ein rhan. Cafwyd cyfanswm o 37 o ymatebion i'r arolwg

- Deunyddiau eraill yn y parth cyhoeddus a oedd yn berthnasol i'n hadolygiad, gan gynnwys erthyglau newyddion ac adroddiadau

Wrth gynnal ein cyfweliadau ag uwch ffigyrau ar draws y farchnad gyfreithiol yng Nghymru – yn ystod cam cyntaf ein hymchwil – aethom ati i chwilio am gyfranogwyr o sefydliadau mawr a bach, a hefyd o sefydliadau ledled y wlad. Yn anffodus, roedd canlyniad yr ymarfer allgymorth hwn yn amrywio, er gwaethaf sawl ymgais i gysylltu â thargedau allweddol ar gyfer cyfweliadau. Er enghraifft, ymhlith yr arweinwyr cwmnïau cyfreithiol y siaradom ni gyda hwy – ac sy'n adlewyrchu demograffeg y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru yn ei gyfanrwydd – roedd y mwyafrif llethol wedi'u lleoli yn ne Cymru. Roedd yn ddefnyddiol i ni allu siarad gydag arweinwyr o nifer o gyflogwyr cyfreithiol mwyaf Cymru, yng Nghaerdydd ac mewn mannau eraill. O ran dylanwad cymharol y rhai rydym wedi cael adborth ganddynt ar y farchnad, rydym felly'n ystyried bod y mewnwelediadau a gasglwyd gennym yn arwyddocaol. Yn ail gam ein hymchwil, cyfwelwyd â sawl uwch gynrychiolydd o ysgolion y gyfraith, a hefyd nifer fach o gynrychiolwyr cwmnïau cyfreithiol ychwanegol.

Lle'r oeddem yn llwyddiannus wrth sicrhau cyfweliadau, cynhaliwyd y rhain dan yr addewid o fod yn ddienw. Am y rheswm hwnnw, ni allwn ddatgelu manylion adnabod yr unigolion hynny y siaradom ni gyda hwy – yn enwedig gan mai dim ond grŵp bach o unigolion y gallem fod wedi cysylltu â hwy mewn rhai achosion. Er na allwn ddatgelu pwy oeddent rydym, serch hynny, yn ddiolchgar iawn i bob un o'n cyfweleion am yr amser a'r sylwadau a gafwyd ganddynt.

Yn ddefnyddiol, roedd ein harolwg ar raddfa fach, a gynhaliwyd yn ystod ail gam ein hymchwil, yn caniatáu i ni gyrraedd ystod ehangach o weithwyr proffesiynol cyfreithiol nag yr oeddem yn gallu ei chyrraedd drwy gyfweliadau yn ystod cam cyntaf ein hymchwil. Er mai ymatebwyr wedi'u lleoli yn Ne Cymru oedd y mwyafrif o hyd, roeddem yn falch o weld bod nifer fach o gwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru wedi cymryd rhan hefyd. Ymatebodd cynrychiolwyr o nifer o gwmnïau cyfreithiol sy'n BBaCh hefyd, ac felly hefyd aelodau unigol o'r Bar Cymreig. Fe wnaeth ein rhaglen allgymorth i hyrwyddo ein harolwg ysgogi nifer o sefydliadau cyfreithiol mewnol yn y sector cyhoeddus i roi gwybodaeth ddefnyddiol i ni am eu gweithgareddau hefyd.

Roedd ein harolwg yn cynnwys cwestiynau "agored" i raddau helaeth. Mae enghreifftiau o gwestiynau o'r fath yn cynnwys: "Beth yw'r heriau mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu eich busnes ar hyn o bryd – a pham?" a "Sut y gallai creu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru effeithio ar eich busnes?". Oherwydd natur agored ein cwestiynau – a hefyd yng ngoleuni'r gyfradd ymateb isel i'n harolwg – nid ydym wedi ceisio cynnal dadansoddiad ystadegol o'r ymatebion a ddaeth i law. Felly, nid oes pennod annibynnol yn ein hadroddiad sy'n crynhoi'n benodol yr ymatebion i'n harolwg. Yn hytrach, rydym wedi defnyddio'r ymatebion a roddwyd i'n harolwg ym mhenodau ein hadroddiad lle maent fwyaf perthnasol. Mae'r sylwadau hyn felly yn cydblethu ag ymatebion a roddwyd trwy gyfweliadau wyneb yn wyneb, dros y ffôn a thrwy'r e-bost.

Lle y bo'n bosibl, ac er gwaethaf y cyfyngiadau amser eithriadol o dynn ar gyfer llunio'r adroddiad hwn, rydym wedi cymryd ymagwedd eang tuag at ein hamodau gorchwyl. Er enghraifft, gofynnwyd i ni ystyried "a allai dull gwahanol o gaffael gwasanaethau cyfreithiol yn y sector cyhoeddus hwyluso'r broses o ddatblygu gwahanol fath o berthynas rhwng Llywodraeth Cymru / cyrff cyhoeddus eraill a'r sector cyfreithiol yng Nghymru". Er mwyn gwneud gwerthusiad o'r fath, roeddem o'r farn y byddai'n ddefnyddiol "profi'r dŵr" yn gyntaf ynghylch canfyddiadau'r sector cyfreithiol am y gyfundrefn gaffael bresennol. Byddai hyn yn ein helpu i ffurfio sail dystiolaeth gychwynnol ar gyfer canfod a fyddai'n well gan y proffesiwn – a sut yr hoffai'r proffesiwn – bod newidiadau'n cael eu gwneud i'r trefniadau caffael presennol.

Ar nifer fach o achlysuron, canfuom nad oes unrhyw ddata i'w weld yn bodoli mewn perthynas â phwnc penodol y gofynnwyd i ni ymchwilio iddo, neu na ellid ei gasglu o fewn y cyfyngiadau amser a oedd yn ofynnol ar gyfer llunio'r adroddiad hwn. O dan amgylchiadau o'r fath, rydym yn cydnabod y canlyniad hwn yn glir. Rydym hefyd yn cyflwyno cynigion ynghylch sut y gellid cynnal ymchwil o'r fath yn y dyfodol – lle teimlwn y gallai ymchwil o'r fath fod o werth.

# Pennod tri:
# Trosolwg o'r farchnad gyfreithiol yng Nghymru

Mae dwy brif gangen y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru – cyfreithwyr a bargyfreithwyr – wedi'u lleoli yn Ne Cymru yn bennaf.

### Y proffesiwn cyfreithwyr yng Nghymru - daearyddiaeth

Yn ôl data a ddarparwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (ARhC), mae tua 3,500 o gyfreithwyr yn ymarfer yng Nghymru. O'r rheiny, mae 76% yn gweithio ar gyfer practisiau'r gyfraith, a 24% ar gyfer mathau eraill o gyflogwyr. Mae'r cyflogwyr "eraill" hyn yn cynnwys Llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol, y sector cyhoeddus ehangach, masnach a diwydiant, gwasanaethau cynghori, eglwysi ac elusennau, ymhlith eraill. Mae dosbarthiad daearyddol y Cyfreithwyr sy'n gweithio yng Nghymru fel a ganlyn:

- Mae ychydig dros 60% wedi'u cofrestru fel rhai sy'n gweithio ar draws yr ardaloedd awdurdod lleol canlynol yn Ne Cymru: Caerdydd (42%); Caerffili (8%); Sir Fynwy (2%); Casnewydd (8%); a Rhondda Cynon Taf (<1%)
- Mae 20% wedi'u cofrestru fel rhai sy'n gweithio ar draws yr ardaloedd awdurdod lleol canlynol yng Ngorllewin Cymru: Sir Gaerfyrddin (4%); Sir Benfro (3%); ac Abertawe (13%)
- Mae 14% wedi'u cofrestru fel rhai sy'n gweithio ar draws yr ardaloedd awdurdod lleol canlynol yng Ngogledd Cymru: Ynys Môn (1%); Conwy (3%); Sir Ddinbych (3%); Sir y Fflint (1%); Gwynedd (2%), a Wrecsam (4%)
- Mae 5% wedi'u cofrestru fel rhai sy'n gweithio ar draws yr ardaloedd awdurdod lleol canlynol yng Nghanolbarth Cymru: Ceredigion (2%) a Phowys (3%)


Mae 592 o swyddfeydd cwmnïau cyfreithiol yng Nghymru, sy'n cwmpasu prif swyddfeydd sydd wedi'u lleoli yn y wlad, a hefyd swyddfeydd cangen mewn mannau eraill. O fewn y cyfanswm hwn, mae tua 391 o gwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, a 39 o swyddfeydd cangen yng Nghymru sy'n perthyn i gwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yn Lloegr. Mae nifer o gwmnïau cyfreithiol yng Nghymru, yn rhai sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac yn Lloegr, yn gweithredu sawl swyddfa yn y wlad. Dim ond cwmnïau cyfreithiol â throsiant blynyddol cofnodedig o fwy nag £20,000 y mae cyfansymiau'r ARhC yn eu cynnwys.

Efallai nad yw'n syndod bod y crynhoad trwm o gyfreithwyr yn Ne Cymru yn cael ei adlewyrchu gan leoliadau pencadlysoedd y rhan fwyaf o gwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Yn rhanbarthol:

- Mae tua 54% o'r holl gwmnïau cyfreithiol sydd â'u pencadlysoedd yng Nghymru wedi'u cofrestru fel rhai sydd wedi'u lleoli yn yr ardaloedd awdurdod lleol canlynol yn Ne Cymru: Caerdydd (30%); Caerffili (13%); Sir Fynwy (3%); Casnewydd (7%); a Rhondda Cynon Taf (1%)
- Mae tuag 21% o'r holl gwmnïau cyfreithiol sydd â'u pencadlysoedd yng Nghymru wedi'u cofrestru fel rhai sydd wedi'u lleoli yn yr ardaloedd awdurdod lleol canlynol yng Ngorllewin Cymru: Sir Gaerfyrddin (7%); Sir Benfro (3%); ac Abertawe (11%)
- Mae tua 18% o'r holl gwmnïau cyfreithiol sydd â'u pencadlysoedd yng Nghymru wedi'u cofrestru fel rhai sydd wedi'u lleoli yn yr ardaloedd awdurdod lleol canlynol yng Ngogledd Cymru: Ynys Môn (1%); Conwy (3%); Sir Ddinbych (3%); Sir y Fflint (4%); Gwynedd (4%); a Wrecsam (3%)
- Mae tua 9% o'r holl gwmnïau cyfreithiol sydd â'u pencadlysoedd yng Nghymru wedi'u cofrestru fel rhai sydd wedi'u lleoli yn yr ardaloedd awdurdod lleol canlynol yng Nghanolbarth Cymru: Ceredigion (5%) a Phowys (4%)

O'i gymharu â Lloegr, mae Cymru yn cael ei thanwasanaethu rhyw gymaint ar sail "cwmni cyfreithiol y pen o'r boblogaeth". Mae'r ARhC yn amcangyfrif, pan gaiff poblogaethau cyffredinol dros Brydain eu cymharu, bod un cwmni cyfreithiol am bob 5,472 o bobl yn Lloegr, o'i gymharu ag un cwmni cyfreithiol am bob 7,962 o bobl yng Nghymru. Wedi dweud hynny, ar sail ychydig yn fwy gronynnog, ymddengys fod cydberthynas fras rhwng poblogaethau cyffredinol lleol yng Nghymru a chwmnïau cyfreithiol sydd â'u pencadlys ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

**Ffigur un: cymharu cwmnïau cyfreithwyr y pen o'r boblogaeth**




Ffynhonnell: ARhC

O ran allanolynnau lleoliadol Cymru, rydym yn nodi – lle mae cwmni cyfreithiol wedi'i leoli yng Nghymru – bod lleoliad ei bencadlys yn anghymesur fwy tebygol o fod yng Nghaerdydd, a hefyd yn gymesur lai tebygol o fod yn Rhondda Cynon Taf, o'i gymharu â normau'r boblogaeth cyffredinol. Er bod data'r ARhC yn awgrymu mai dim ond 12% o boblogaeth gyffredinol Cymru sy'n byw yng Nghaerdydd, mae 30% o'r cwmnïau cyfreithiol yng Nghymru wedi'u lleoli yno. I'r gwrthwyneb, er bod 8% o boblogaeth Cymru wedi'i lleoli yn Rhondda Cynon Taf, dim ond 1% o'r cwmnïau cyfreithiol yng Nghymru sydd wedi'u lleoli yn ardal yr awdurdod lleol hwn. Yng ngoleuni'r ffaith bod Rhondda Cynon Taf yn agos iawn at Gaerdydd, a hefyd natur helaeth cysylltiadau ffordd a rheilffordd uniongyrchol y sir â phrifddinas Cymru, mae'n debygol – o leiaf i ryw raddau – y gall pwysigrwydd Caerdydd, fel canolfan gyfreithiol, esbonio'r anghysondeb penodol hwn. Yn yr un modd, o ystyried bod Caerffili'n agos iawn at Gaerdydd, mae'n debygol bod rhai o'r nifer cymharol uchel o gwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yn yr ardal hon hefyd yn gwasanaethu poblogaeth Caerdydd.


Dylid pwysleisio hefyd bod y data uchod gan yr ARhC yn cwmpasu lleoliadau prif swyddfeydd cwmnïau cyfreithiol ym mhob un o'r ardaloedd awdurdod lleol a grybwyllir uchod yn unig: nid yw swyddfeydd cangen cwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli mewn mannau eraill wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

Gan barhau â'r thema swyddfeydd cangen: mae'r mwyafrif llethol o'r cwmnïau cyfreithiol yng Nghymru (68%) yn gweithredu o un swyddfa. Mae 26% arall o'r cwmnïau cyfreithiol sydd â'u pencadlys yng Nghymru hefyd yn gweithredu rhwng un a dwy swyddfa gangen, yn ogystal â'u prif swyddfa. Mae 5% arall o'r cwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn gweithredu rhwng tair a phump o swyddfeydd cangen ychwanegol. Dim ond 2% o'r holl gwmnïau yng Nghymru sy'n gweithredu mwy na phump o swyddfeydd cangen, yn ogystal â'u prif swyddfa.

### Trosiant, maint ac arbenigaethau cwmnïau

Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael gan yr ARhC, cyfanswm y refeniw blynyddol a gynhyrchir gan gwmnïau cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr oedd £28,225,703,748. Dim ond 1.45% o'r cyfanswm hwn a gynhyrchodd cwmnïau cyfreithiol yng Nghymru - dim ond £408,112,556. Mae hwn yn ystadegyn siomedig braidd o ystyried bod Cymru, yn ei chyfanrwydd, yn cyfrannu tua 3.82% at Werth Ychwanegol Crynswth cyfun economi Cymru a Lloegr[1]. Fodd bynnag, gall y diffyg cyfatebiaeth rhwng cyfansymiau refeniw cwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn unig a chwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli ledled Cymru a Lloegr gael ei esbonio'n sylweddol gan ddylanwad camystumiol practisiau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yn Llundain. Ar y cyd, roedd y cwmnïau hyn yn rhoi cyfrif am £18,947,669,528 o'r cyfanswm ledled Cymru a Lloegr o £28,225,703,748. Heb y dylanwad camystumiol hwn, creodd cwmnïau cyfreithiol Lloegr sydd wedi'u lleoli y tu allan i Lundain refeniwiau cyfunol o £8,869,921,664.

**Ffigur dau: Refeniwiau prif swyddfeydd cwmnïau cyfreithiol – Llundain, gweddill Lloegr, Cymru**





Ffynhonnell: ARhC

O ran refeniw prif swyddfeydd, roedd trosiant y grŵp unigol mwyaf o gwmnïau cyfreithiol yng Nghymru (43.5%) rhwng £100,000 a £500,000 y flwyddyn. Roedd gan swm tebyg iawn (43.2%) drosiant o fwy na £500,000 y flwyddyn, tra bo trosiant 13.3% yn £100,000 neu lai.

Roedd refeniwiau a gynhyrchwyd gan gwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn cyd-fynd yn fras â'u cwmnïau cyfatebol yn Lloegr, gyda rhai gwahaniaethau amlwg ym mhen uchaf ac isaf y raddfa incwm. Er bod 8.2% o gwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yn Lloegr yn cynhyrchu refeniw o fwy na £5,000,000 y flwyddyn, dim ond 3.6% o gwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a wnaeth hynny - gan adlewyrchu'r crynhoad sylweddol o refeniw yn Llundain, yn ôl pob tebyg. Yn arbennig hefyd, er mai dim ond 0.5% o gwmnïau cyfreithiol Lloegr oedd â throsiant llai na £100,000 y flwyddyn, roedd gan 13.3% o'r cwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru drosiant o'r maint hwnnw.

[1] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. *Gweithgarwch economaidd rhanbarthol yn ôl gwerth ychwanegol crynswth (wedi'i gydbwyso), Y DU: 1998 i 2017,* 12 Rhagfyr 2018

**Ffigur tri: Cymharu refeniwiau cwmnïau cyfreithiol Cymru a Lloegr**




Ffynhonnell: ARhC

Gall dosbarthiad daearyddol cryno llawer o gwmnïau cyfreithiol yng Nghymru, a hefyd eu refeniw cymharol isel, gael eu hegluro gan y ffaith bod llawer o gwmnïau cyfreithiol Cymru yn fach. Mae cyfanswm o 43% o holl gwmnïau Cymru yn cyflogi 10 cyfreithiwr neu lai, tra bod dim ond 18% yn cyflogi 50 neu fwy.

Fel y dengys tabl un isod, o ran arbenigaethau cyfreithiol a gynigir gan brif swyddfeydd cwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, mae marchnad cwmnïau cyfreithiol y wlad yn gogwyddo'n gryf tuag at waith cleientiaid preifat – yn amlwg yn fwy felly na chwmnïau yn Lloegr. Y pedwar maes ymarfer mwyaf poblogaidd, a gynigir gan gwmnïau cyfreithiol yng Nghymru, yw: trawsgludo preswyl (74% - cyfran gyfatebol Lloegr 55%), ewyllysiau, ymddiriedolaethau a chynllunio trethi (73%  - cyfran gyfatebol Lloegr 51%), profiant a gweinyddu ystadau (65% - Lloegr: 45%) a chyfraith teulu / briodasol (63% - Lloegr: 50%). Mae'n bosibl bod dibyniaeth drom cwmnïau cyfreithiol Cymru ar yr arbenigaethau cyfreithiol hyn sy'n canolbwyntio ar gleientiaid preifat yn achos pryder. Mae cyfraith trawsgludo, wrth gwrs, yn dibynnu'n drwm ar farchnad eiddo preswyl weithredol, nad yw'n sicr yn y dyfodol agos – a hynny o bell ffordd[2]. Yn y cyfamser, mae'r agweddau ar gyfraith teulu sy'n ymwneud ag ysgariad[3] ac atwrneiaeth bellach ar y llwybr tuag at gael eu digideiddio'n sylweddol. Wrth edrych tua'r dyfodol, gallai'r trawsnewidiad hwn effeithio'n anghymesur ar farchnad cyfreithwyr Cymru.

[2] RICS. *UK housing market faces challenging 2019, 18 Rhagfyr 2018; Cymdeithas y Cyfreithwyr. Rhagolygon y sector gwasanaethau cyfreithiol 2017* – 2025, Awst 2018, t11.
[3] Gov.uk. *HM Courts and Tribunals Service tests fully digital divorce application*, 30 Ionawr 2018.

**Tabl un: arbenigaethau cyngor cyfreithiol a gynigir gan brif swyddfeydd cwmnïau cyfreithiol – cymharu Cymru a Lloegr**

| Maes Cyfreithiol | Lloegr | Lloegr (heblaw Llundain) | Cymru |
|---|---|---|---|
| Cyflafareddu a Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod | 8% | 6% | 3% |
| Plant | 23% | 26% | 38% |
| Gwaith Masnachol / Corfforaethol i Gwmnïau Rhestredig | 9% | 6% | 5% |
| Gwaith Masnachol/Corfforaethol i Gwmnïau Heb Eu Rhestru ac Eraill | 31% | 28% | 22% |
| Trawsgludo Masnachol | 52% | 54% | 63% |
| Defnyddwyr | 3% | 4% | 3% |
| Troseddol | 24% | 24% | 31% |
| Cyflogaeth | 39% | 39% | 39% |
| Teulu / Priodasol | 50% | 53% | 63% |
| Cyngor a Gwasanaethau Ariannol (A reoleiddir gan yr ARhC) | 2% | 1% | 1% |
| Mewnfudo | 17% | 12% | 4% |
| Eiddo Deallusol | 6% | 5% | 2% |
| Landlord a Thenant (Masnachol a Domestig) | 38% | 38% | 44% |
| Cyfreithiad – Arall | 53% | 51% | 53% |
| Iechyd Meddwl | 3% | 3% | 4% |
| Di-gyfreithiad - Arall | 30% | 30% | 37% |
| Anaf Personol | 30% | 36% | 35% |
| Cynllunio | 4% | 4% | 4% |
| Profiant a Gweinyddu Ystadau | 45% | 51% | 65% |
| Trawsgludo Preswyl | 55% | 59% | 74% |
| Lles Cymdeithasol | 1% | 1% | 1% |
| Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau a Chynllunio Trethi | 51% | 56% | 73% |

Ffynhonnell: ARhC

Ym mhen arall y sbectrwm argaeledd cyngor, mae data'r ARhC yn awgrymu mai cyngor ariannol a reoleiddir gan yr ARhC (1%), lles cymdeithasol (1%), eiddo deallusol (2%) a chyflafareddu/Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod (3%) yw'r pedwar math o gyngor cyfreithiol a gynigir leiaf gan gwmnïau cyfreithiol Cymru. O ran cyngor ariannol a chyngor ar les cymdeithasol, mae capasiti cyfyngedig Cymru yn adlewyrchu'r capasiti yn Lloegr, lle mae'r canrannau cyfatebol yn 2% ac 1% yn y drefn honno. Fodd bynnag, mewn perthynas â chyflafareddu / Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod a chyfraith Eiddo Deallusol, mae ffocws cwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru sawl pwynt canran y tu ôl i'r hyn ydyw yn Lloegr. Yn Lloegr, mae 8% o gwmnïau cyfreithiol yn cynnig cyngor cyflafareddu, o'i gymharu â 3% o'r rhai sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Ar gyfer cyngor Eiddo Deallusol, 6% yw canran y ddarpariaeth yn Lloegr, a 2% yw canran darpariaeth cwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Mae'r duedd anghymesur i gwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yn Lloegr gynnig cyngor ar gyfraith busnes, o'i gymharu â chwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, yn amlwg iawn mewn perthynas â gwaith masnachol / corfforaethol i gwmnïau heb eu rhestru ac eraill (Lloegr 31%, Cymru 22%). Ar gyfer gwaith masnachol / corfforaethol i gwmnïau rhestredig – marchnad arbenigol lai – mae cwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru'n cyfateb yn fras â chwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yn Lloegr y tu allan i Lundain (6% yn Lloegr / 5% yng Nghymru), ond yn llai felly pan gaiff Llundain ei chynnwys hefyd (9% yn Lloegr gan gynnwys Llundain, 5% yng Nghymru). Yn olaf, mewn perthynas â chyngor ar gyfraith mewnfudo, mae'r arbenigaeth hon yn cael ei hymarfer gan 17% o gwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yn Lloegr, ond dim ond 4% o gwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

### Anialdiroedd cyngor yng Nghymru

Mae'r wybodaeth uchod yn ein galluogi i ddatblygu dealltwriaeth lefel uchaf am yr ystod o arbenigaethau cyfreithiol a gynigir ledled Cymru, ar sail genedlaethol. Yn anffodus, am resymau diogelu data, nid yw'r ARhC wedi gallu rhoi dadansoddiad manwl, fesul ardal i ni, ynghylch darparu'r arbenigaethau cyfreithiol hynny gan y sector cyfreithwyr. Ni allwn, felly, gynnig canllawiau cynhwysfawr a yw unrhyw ardal (neu ardaloedd) yng Nghymru'n cynrychioli anialdir cyngor ar gyfer arbenigaethau cyfreithiol penodol.

Deallwn fod y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru yn cael gwybodaeth fwy gronynnog gan yr ARhC. Gall fod yn briodol, felly, i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â'r Comisiwn maes o law, er mwyn adnabod yr anialdiroedd cyngor presennol a'r anialdiroedd cyngor posibl.

Fodd bynnag, hyd yn oed os bydd data o'r fath ar gael i Lywodraeth Cymru, teimlwn ei bod yn bwysig pwysleisio her archwilio'r mater hwn yn gynhwysfawr. Mae ein hadolygiad ni – a oedd yn fyr, rhaid cyfaddef - o'r llenyddiaeth sydd ar gael yn awgrymu bod ymchwil yn y gorffennol i anialdiroedd cyngor yng Nghymru wedi tueddu i fod yn gyfyngedig o ran ei chwmpas, gan ganolbwyntio naill ai ar arbenigaethau cyfreithiol ar wahân neu ardaloedd daearyddol bach. Er enghraifft, roedd ymchwil Cymdeithas y Cyfreithwyr i anialdiroedd cyngor yn canolbwyntio ar anialdiroedd cyngor mewn perthynas â chyfraith tai yn unig, trwy gyfeirio at un math o gynghorydd cyfreithiol - cwmnïau cyfreithiol sy'n gwneud gwaith ar sail cymorth cyfreithiol[4]. Yn yr un modd, roedd astudiaeth gan Daniel Newman o Brifysgol Caerdydd – a grybwyllwyd yn ei sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder – yn canolbwyntio ar bum anheddiad bach ar gyrion Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn unig[5]. Rydym hefyd yn ymwybodol o ymchwil a wnaed gan academydd arall o Gymru, yr Athro Richard Owen, sydd wedi archwilio mater sy'n ymwneud ag anialdiroedd cyngor – angen cyfreithiol nas diwallwyd – yn nhref Colchester yn Lloegr[6].

Yng ngoleuni ein hymchwil ein hunain i'r sector cyfreithiol yng Nghymru ar gyfer yr adroddiad hwn, ynghyd â'n dadansoddiad o sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder, awgrymwn y gallai'r ffactorau ychwanegol canlynol – a amlygir isod – fod yn berthnasol hefyd i faterion sy'n ymwneud ag anialdiroedd cyngor yng Nghymru hefyd.

4 www.lawsociety.org.uk/policy-campaigns/campaigns/access-to-justice/end-legal-aid-deserts
5 Y Comisiwn ar Gyfiawnder. *Sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder gan Daniel Newman*, 24 Tachwedd 2018.
6 http://journals.northumbria.ac.uk/index.php/ijcle/article/view/596/1014.

## Ffactorau a allai gyfrannu at ymddangosiad anialdiroedd cyngor yng Nghymru

- Cyflenwad cyfyngedig o gyfreithwyr a bargyfreithwyr dan hyfforddiant ym mhen iau'r proffesiwn cyfreithiol
- Y lleihad demograffig posibl yn y ddarpariaeth, a achosir gan gyfreithwyr hŷn sy'n ymddeol
- Y ffaith bod y Bar Cymreig wedi'i leoli bron yn gyfan gwbl yn Ne Cymru
- Diffyg darpariaeth o ran rhai mathau o gyngor cyfreithiol, yn enwedig o'i gymharu â Lloegr
- Y ffaith bod cwmnïau cyfreithwyr yng Nghymru ar hyn o bryd yn llai tebygol na chwmnïau cyfreithwyr yn Lloegr o ddarparu gwasanaethau o bell, gan gynnwys dros y ffôn[7]
- Ar bwynt cysylltiedig, cysylltiadau trafnidiaeth gwael rhwng rhai canolfannau poblogaeth, a allai rwystro mynediad at gyngor cyfreithiol wyneb yn wyneb mewn lleoliadau cyfagos, ond anodd i'w cyrraedd
- Effaith toriadau i gymorth cyfreithiol ledled y wlad[8]. Mae'r diwygiad hwn nid yn unig wedi arwain at leihad yn nifer y cwmnïau cyfreithiol sy'n cynnig cymorth cyfreithiol yng Nghymru[9], ond mae hefyd wedi achosi i nifer o ganolfannau'r gyfraith yng Nghymru gau[10]. Mae cyfyngiadau difrifol bellach yng Nghymru ar fynediad at ddarparwyr cymorth cyfreithiol ar gyfer rhai arbenigaethau cyfreithiol, fel y rhai sy'n arbenigo mewn cyflwyno hawliadau yn erbyn awdurdodau cyhoeddus[11]
- Effaith cau llysoedd ledled y wlad, gan gynnwys 22 o lysoedd ynadon[12], a allai olygu y bydd cyfreithwyr yn symud oddi wrth ardaloedd sy'n peidio â bod yn ganolfannau gweithgarwch cyfreithiol

## Ffactorau a allai liniaru problemau anialdiroedd cyngor yng Nghymru

- Cyngor yn cael ei ddarparu o bell, megis dros y ffôn, Skype[13], sgwrsbotiaid ac ati[14]
- Hunanwasanaeth fel opsiwn ar gyfer mathau penodol o faterion cyfreithiol. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau atwrneiaeth arhosol, y gellir eu darparu ar-lein bellach[15]
- Cyngor cyfreithiol a gynigir gan ddarparwyr annhraddodiadol. Gallai'r darparwyr annhraddodiadol hyn gynnwys cynghorwyr cyffredinol – fel Cyngor ar Bopeth, cynghorwyr mwy arbenigol – fel Shelter Cymru, ysgolion y gyfraith – megis Prosiect Innocence Prifysgol Caerdydd, darparwyr newydd (ond rhai cyfraith-benodol) – megis Lexsnap, neu gyflenwyr hybrid - fel y bartneriaeth rhwng ysgol y Gyfraith Caerdydd a Mencap Cymru

Os bydd Llywodraeth Cymru yn dewis archwilio anialdiroedd cyngor cyfreithiol yng Nghymru yn fanylach, awgrymwn ei bod yn gwneud hynny ar sail gul, yn hytrach na chyffredinol. Er enghraifft, efallai y bydd am ymchwilio i anialdiroedd cyngor posibl mewn perthynas ag un arbenigaeth gyfreithiol, gan ystyried amrywiaeth y darparwyr gwasanaethau - cwmnïau cyfreithiol ac eraill - a hefyd yr amryw ddulliau o ddarparu gwasanaethau cyfreithiol, yn bersonol neu fel arall. Credwn y byddai'r dull cul hwn yn haws i'w reoli – ac yn dwyn menwelediadau llawer mwy defnyddiol – nag ymchwiliad cyffredinol, yr ydym ni'n ofni mai buan iawn y byddai'n mynd yn anodd i'w reoli. Awgrymwn hefyd fod

7 Y Comisiwn ar Gyfiawnder, *Sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol*, 1 Mehefin 2018, t28.
8 Y Comisiwn ar Gyfiawnder. *Sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder gan Daniel Newman*, 24 Tachwedd 2018, t3.
9 Y Comisiwn ar Gyfiawnder. *Sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder gan LawWorks,* 4 Gorffennaf 2018, t2-3.
10 Y Comisiwn ar Gyfiawnder. *Sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder gan y Public Law Project*, 6 Awst 2018, t3.
11 www.gov.uk. *Information about legal aid providers by category of law.*
12 Gazette Cymdeithas y Cyfreithwyr. *Wales loses 22 magistrates' courts in eight years,* 20 Chwefror 2019.
13 Y Comisiwn ar Gyfiawnder. *Sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder gan LawWorks,* 4 Gorffennaf 2018, t3.
14 Adam Wyner. (2018). *A Chatbot Framework for the Children's Legal Centre. Monica Palmirani (Ed.), Legal Knowledge and Information Systems,* (pp. 205-209). IOS Press.
15 www.gov.uk/power-of-attorney.


Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag ymchwilwyr sydd eisoes wedi ymchwilio i fater anialdiroedd cyngor cyfreithiol yn eithaf manwl. Yn ddefnyddiol, fel a nodwyd eisoes, mae o leiaf ddau o'r ymchwilwyr hyn eisoes wedi'u lleoli mewn prifysgolion yng Nghymru.

## Demograffeg cyfreithwyr yng Nghymru

O ran demograffeg cyfreithwyr, nid yw'r ARhC wedi gallu rhoi data gronynnog iawn i ni, oherwydd y risgiau posibl o adnabod unigolion penodol mewn rhai rhannau o Gymru. Ond, fel sylw mwy cyffredinol, mae data'r ARhC yn dweud wrthym fod cyfreithwyr Cymru yn tueddu i fod ychydig yn hŷn na'r cyfartaledd ledled Cymru a Lloegr yn gyffredinol. Er enghraifft, fel y dengys ffigur pedwar isod, mae 19% o gyfreithwyr neu bartneriaid yng Nghymru yn yr ystod oedran 55 – 64, o'i gymharu ag 14% ar draws y farchnad yng Nghymru a Lloegr ar y cyd. Yn yr un modd, mae cyfreithwyr a phartneriaid yng Nghymru hefyd rywfaint yn llai tebygol na'u cymheiriaid yn Lloegr o berthyn i'r ddemograffeg 24 – 34 oed.

Mae sylwadau unigol i'r Comisiwn ar Gyfiawnder wedi cyfleu darlun tebyg i'r hyn a grybwyllwyd uchod, ac mewn perthynas â mathau penodol o waith cyfreithiol. Er enghraifft, mae sylwadau JUSTICE i'r Comisiwn ar y Gyfraith yn nodi "across Mid and West Wales, in excess of 60% of criminal duty solicitors are over 50 years of age." Mae JUSTICE yn awgrymu bod y ddemograffeg hon, "inevitably gives rise to concerns of a 'generational cliff' and the prospect of chronic shortfalls in criminal law expertise in Wales in the not so distant future."[16]

**Ffigur pedwar: oedran cyfreithwyr mewn cwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, o'i gymharu â Chymru a Lloegr yn gyffredinol**




Ffynhonnell: ARhC

O leiaf yn anecdotaidd, mae'r data uchod yn awgrymu dau beth: yn gyntaf, ei bod yn ymddangos bod gan Gymru broblem o ran y cyflenwad o dalent lle mae cyfreithwyr yn y cwestiwn, yn enwedig mewn perthynas ag ymarferwyr iau. Yng ngoleuni'r nifer isel o gontractau hyfforddi sydd ar gael yng Nghymru – mae data'r ARhC yn awgrymu mai dim ond 146 oedd ar gael yn 2016 – gallwn ddyfalu (dim mwy) bod llawer o egin-gyfreithwyr, a addysgwyd yng Nghymru, yn dewis gweithio yn Lloegr yn lle hynny, naill ai o ddewis neu anghenraid. Yn ail, mae ffigur pedwar yn awgrymu bod potensial y bydd gostyngiad sylweddol yn nifer y cyfreithwyr yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd nesaf, wrth i'r cyfreithwyr hynny yng Nghymru sy'n 55 a throsodd ymddeol.

[16] JUSTICE. *Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Tystiolaeth a gyflwynwyd gan JUSTICE*, Gorffennaf 2018, p11.

Wedi dweud hynny, ni allwn fod yn sicr a fydd unrhyw newid demograffig o'r fath yn arwain at broblemau gweladwy o ran y ddarpariaeth gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru. Fel a nodwyd eisoes, mae canran sylweddol o'r llwyth gwaith sy'n tanategu proffesiwn cyfreithwyr Cymru yn symud i ddarparwyr gwasanaethau mwy o faint o ganlyniad i gyfuno'r farchnad (trawsgludo preswyl) neu'n cael ei ddigideiddio / "dod yn ddi-gyfreithiwr" (agweddau ar gyfraith teulu). Ni ddylem, felly, ddod i'r casgliad anorfod y bydd demograffeg sy'n heneiddio ym mhroffesiwn cyfreithwyr Cymru yn arwain yn anochel at brinder cyngor cyfreithiol sy'n ymwneud ag arbenigaethau blaenorol y rhai a fydd wedi ymddeol. Nid yw'r gallu i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol i leoliad, a nifer y cyfreithwyr sy'n ymarfer yn y lleoliad hwnnw, yn uniongyrchol gysylltiedig â'i gilydd mewn unrhyw ffordd.

## Cwmnïau cyfreithiol uchel eu parch yng Nghymru

Nid yw'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr wedi elwa o ganllawiau sgorio yn arddull TripAdvisor, sy'n galluogi defnyddwyr i adnabod a chyfarwyddo cwmnïau cyfreithiol yn seiliedig ar adborth tryloyw gan ddefnyddwyr. Fodd bynnag, yn niffyg gwasanaeth o'r fath, mae dau gyfeiriadur cyfreithiol a gynhyrchir yn flynyddol – *Chambers UK* a *Legal 500* – yn mynd beth o'r ffordd tuag at lenwi'r bwlch hwn yn y farchnad. Bob blwyddyn, mae cannoedd o ymchwilwyr o'r ddau gyhoeddiad yn ceisio barn cymheiriaid i gwmnïau cyfreithiol, cleientiaid a gweithwyr proffesiynol eraill, er mwyn cynhyrchu trefn restrol o gyfreithwyr yn seiliedig ar ddaearyddiaeth ac arbenigaethau cyfreithiol. Nid yw'r canllawiau hyn yn gynhwysfawr, ac yn sicr nid ydynt yn ddi-feth. Ond, yn gadarnhaol, mae tua 60 allan o'r 430 o gwmnïau cyfreithiol sy'n gweithredu yng Nghymru wedi'u rancio ar hyn o bryd gan un neu ragor o'r cyfeiriaduron cyfreithiol hyn.

Yn anochel efallai, o gofio bod *Chambers UK* a *Legal 500* yn gogwyddo'n drwm tuag at y farchnad gyfreithiol fasnachol, mae practisiau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli (neu sy'n gweithredu) yng Nghaerdydd yn fwy amlwg nag unrhyw bractisiau eraill yn eu trefn restrol. Yn wir, yn rhifynnau diweddaraf y ddau gyfeiriadur cyfreithiol, mae'r "pedwar mawr" o blith practisiau lleol Caerdydd yn y pedwar safle uchaf ar y cyfan – sefyllfa a gaiff ei chynorthwyo ymhellach gan yr ystod eang o arbenigaethau cyfreithiol y caiff y cwmnïau hyn eu rancio mewn perthynas â hwy.

Wedi dweud hynny, fel y mae *Chambers UK* a *Legal 500* hefyd yn dangos, mae grŵp – bach, rhaid cyfaddef - o gwmnïau cyfreithiol yng Nghymru y tu allan i Gaerdydd hefyd wedi cael cydnabyddiaeth ar draws y diwydiant am eu harbenigedd, mewn amrywiaeth o arbenigaethau sydd â ffocws ar fusnes a defnyddwyr. Er enghraifft, yn y maes cyfreithiol corfforaethol a masnachol – y gellir dadlau mai maes ymarfer "y ddinas fawr / y brifddinas" ydyw yn nodweddiadol – mae cwmnïau cyfreithiol sydd â'u pencadlys mewn lleoliadau yng Nghymru fel y Fenni, y Trallwng a Phenfro i gyd yn cael eu cydnabod am eu harbenigedd yn y maes ymarfer hwn yn ogystal â nifer o gwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yn Abertawe. Er y bydd union ffocws pob un o'r cwmnïau cyfreithiol hyn yn amrywio yn ôl profiad eu cyfreithwyr unigol, yn sicr nid yw'n wir mai dim ond dros y ffin yn Lloegr, neu yng Nghaerdydd yn unig o fewn Cymru, y gall cyngor o ansawdd da ar gyfraith gorfforaethol a masnachol gael ei ddarparu. Gellir dweud hyn hefyd am arbenigaethau cyfreithiol masnachol mwy arbenigol, megis eiddo deallusol neu gyfraith chwaraeon: caiff ymarferwyr yng Nghastell-nedd ac Abertawe eu rancio gan y cyfeiriaduron cyfreithiol ochr yn ochr â'u cymheiriaid yng Nghaerdydd. Nid yw'r ffaith nad yw lleoliad yng Nghymru'n gartref i lawer o gyfreithwyr yn golygu na all y lleoliad, serch hynny, ddod yn ganolfan ragoriaeth gydnabyddedig ar gyfer mathau penodol o gyngor cyfreithiol. Mae'r sylw hwn hefyd yn berthnasol i'r posibilrwydd o anialdiroedd cyngor yng Nghymru, a drafodwyd yn flaenorol.

## Proffesiwn bargyfreithwyr Cymru

Er bod dros 16,000 o fargyfreithwyr yn cael eu rheoleiddio gyda Bwrdd Safonau'r Bar ledled Cymru a Lloegr, dim ond tua 300 sydd wedi'u cofrestru fel rhai sy'n gweithio yng Nghymru gyfan. Mae hyn yn cyfateb yn fras i hanner nifer y bargyfreithwyr a gofrestrwyd fel rhai sy'n gweithio yn Birmingham yn unig – ac mae hyd yn oed yn llai na'r 370 o fargyfreithwyr a gofrestrwyd fel rhai sy'n gweithio ym Mryste.

Ymhlith y bargyfreithwyr hynny y gwyddys eu bod wedi'u lleoli yng Nghymru, mae tua 200 wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, deallir bod ychydig dros 80 wedi'u lleoli yn Abertawe, ac mae tua 10 yn debygol o fod yng Nghasnewydd. Ym mhob un o'r dinasoedd hyn, mae'r rhan fwyaf o fargyfreithwyr wedi'u lleoli mewn nifer fach iawn o siambrau. Mae ychydig o rai ychwanegol mewn swyddi mewnol neu swyddi yn y Llywodraeth. Yng Nghaerdydd, er enghraifft, mae'r mwyafrif llethol o fargyfreithwyr wedi'u lleoli mewn chwe set o siambrau yn unig: 9 a 30 Plas y Parc, Siambrau Apex, Civitas Law, Coal Lex, a Siambrau Temple Court. Yn Abertawe, yn y cyfamser, mae crynodiad trwm o fargyfreithwyr mewn tair siambr yn unig: Siambrau'r Angel, Siambrau Iscoed a Siambrau Pendragon. Yn olaf, mae un set nodedig yn unig o siambrau bargyfreithwyr yng Nghasnewydd – Siambrau'r Gadeirlan. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw setiau o siambrau Bargyfreithwyr Cymreig y tu allan i Dde Cymru.

Isod, rydym yn crynhoi arbenigaethau cyfreithiol hunanddatganedig bargyfreithwyr Cymru, fel a nodir yng nghyfeiriadur ar-lein Cyngor y Bar / Juriosity. Gan bod cyfranogi yn y cyfeiriadur hwn yn ddewis gwirfoddol, nid yw'r cyfansymiau yn nhabl dau isod yn cynrychioli meysydd ffocws y proffesiwn bargyfreithwyr yn ei gyfanrwydd yng Nghymru. Serch hynny, mae'n amcangyfrif sy'n agos at ei le. Yn y cyfeiriadur cyfreithiol hwn, caniateir i fargyfreithwyr eu henwebu eu hunain mewn perthynas ag arbenigaethau lluosog, a hefyd mewn perthynas â lleoliadau lluosog. Mewn perthynas â'r pwynt olaf hwnnw, rydym felly'n gwahaniaethu rhwng y bargyfreithwyr hynny sydd wedi'u lleoli yng Nghymru'n bennaf a'r rhai sydd – i bob pwrpas – yn denantiaid drws.

Ar draws yr holl arbenigaethau yr ydym yn eu rhestru yn nhabl dau, ymddengys fod y lefel uchaf o gryfder a dyfnder o ran arbenigedd bargyfreithwyr i'w chael yng Nghaerdydd, ac yna – gryn dipyn y tu ôl - Abertawe a Chasnewydd. Ar draws pob arbenigaeth, ceir gogwydd nodedig ledled Cymru tuag at wasanaethau cyfreithiol personol, megis cyfraith droseddol, teulu ac anafiadau personol / esgeulustod clinigol. Mewn cyferbyniad, nid yw nifer o arbenigaethau cyfreithiol wedi'u cynnwys yn nhabl dau isod, am nad oes unrhyw fargyfreithwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru'n dweud eu bod yn gwneud y math yma o waith. Mae'r arbenigaethau sydd ar goll – y mae ffocws llawer ohonynt ar gyfraith busnes – yn cynnwys cyfraith hedfanaeth, cyfraith bancio a chyllid, cyfraith gorfforaethol, cyfraith nwyddau, cyfraith ynni ac adnoddau naturiol, cyfraith gofal iechyd, fferylliaeth a gwyddorau bywyd, cyfraith prosiectau a seilwaith, cyfraith morgludiant a chyfraith technoleg, y cyfryngau a thelathrebu. Am resymau a ddaw'n eglur ym mhennod saith, sy'n archwilio caffael gan Lywodraeth Cymru, mae nifer y bargyfreithwyr sy'n dweud eu bod yn arbenigo mewn cyfraith weinyddol a chyhoeddus yn drawiadol.

**Tabl dau: arbenigaethau bargyfreithwyr yng Nghymru**

| Maes ymarfer y mae bargyfreithwyr yn arbenigo ynddo | Nifer y bargyfreithwyr fesul arbenigaeth fesul lleoliad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Caerdydd | (Wedi'u Lleoli yn Rhywle Arall) | Casnewydd | (Wedi'u Lleoli yn Rhywle Arall) | Abertawe | (Wedi'u Lleoli yn Rhywle Arall) |
| Cyfraith weinyddol a chyhoeddus | 16 | 3 | - | - | - | - |
| Dull amgen o ddatrys anghydfod | 6 | 2 | - | - | - | - |
| Masnachol | 14 | 3 | - | - | - | - |
| Cyfreithiad Masnachol | 4 | 2 | - | - | 1 | - |
| Adeiladu | 3 | - | - | - | 1 | - |
| Troseddol | 60 | 4 | - | 1 | 5 | 2 |
| Cyflogaeth | 16 | - | - | - | 5 | - |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd a Diogelwch | 3 | 2 | - | - | - | - |
| Teulu | 47 | 3 | 1 | 1 | 12 | 1 |
| Mewnfudo | 20 | - | - | - | - | - |
| Eiddo deallusol | 2 | - | - | - | - | - |
| Cyfraith ryngwladol | 2 | - | - | - | - | - |
| Y Cyfryngau | 2 | - | - | - | - | - |
| Anafiadau personol ac esgeulustod clinigol | 34 | 3 | - | - | 8 | 1 |
| Cynllunio | 6 | - | - | 1 | - | - |
| Cleient preifat | 3 | - | - | - | - | - |
| Disgyblu a rheoleiddio proffesiynol | 15 | 2 | - | - | 2 | - |
| Esgeulustod proffesiynol | 5 | 1 | - | - | - | - |
| Eiddo | 18 | 2 | - | - | 3 | - |
| Ailstrwythuro ac ansolfedd | 9 | 1 | - | - | - | 1 |
| Trethi | 1 | - | - | - | - | - |
| Technoleg y Cyfryngau a Thelathrebu | - | - | - | - | - | - |
| Troseddu coler wen | 4 | 1 | - | - | - | - |

Ffynhonnell: Cyngor y Bar / Juriosity

O ran bargyfreithwyr a gydnabyddir gan y diwydiant, mae cyfeiriaduron *Chambers UK* a *Legal 500* yn darparu canllaw defnyddiol i'r siambrau uchaf eu parch. Rydym yn crynhoi siambrau a ranciwyd gan y naill neu'r llall o'r cyfeiriaduron hyn yn nhabl tri isod. Fel y mae tabl tri yn ei ddynodi, ac eithrio gwaith y Llys Gwarchod a chwestau ac ymchwiliadau, mae gan o leiaf ddwy set o siambrau bargyfreithwyr arbenigedd a gydnabyddir gan y diwydiant mewn perthynas â phob arbenigaeth a ddangosir isod. Yn wir, mewn perthynas â'r rhan fwyaf o arbenigaethau cyfreithiol, bydd mwy nag un bargyfreithiwr ym mhob set o siambrau'n arbenigwr cydnabyddedig mewn perthynas â phob maes cyfreithiol.

**Tabl Tri: Siambrau wedi'u lleoli yng Nghymru a gydnabyddir gan naill ai *Chambers UK* neu *Legal 500***

| Math o gyfraith | Set o Siambrau wedi'i lleoli yng Nghymru |
|---|---|
| Cyfraith weinyddol / gyhoeddus | 30 Plas y Parc; 9 Plas y Parc; Civitas Law |
| Cyfraith fasnachol, bancio, ansolfedd a Siawnsri | 30 Plas y Parc, 9 Plas y Parc; Civitas Law |
| Cyfraith adeiladu, cynllunio ac amgylcheddol | 9 Plas y Parc; Civitas Law |
| Y Llys Gwarchod | 30 Plas y Parc |
| Datrys anghydfod masnachol | 9 Plas y Parc; Civitas Law |
| Cyfraith droseddol | 30 Plas y Parc; 9 Plas y Parc; Siambrau'r Angel; Siambrau Apex; Siambrau Iscoed |
| Cyfraith cyflogaeth | 9 Plas y Parc, Citivas Law; Siambrau Iscoed |
| Cyfraith teulu, briodasol a phlant | 30 Plas y Parc, 9 Plas y Parc; Siambrau'r Angel; Siambrau'r Gadeirlan |
| Cwestau ac ymchwiliadau | Civitas Law |
| Anafiadau personol ac esgeulustod clinigol | 30 Plas y Parc; Civitas Law; Siambrau Iscoed |
| Cyfraith eiddo | 9 Plas y Parc; Civitas Law; Siambrau Iscoed |
| Cyfraith reoleiddiol, iechyd a diogelwch; trwyddedu | 9 Plas y Parc; Civitas Law; Siambrau Apex |

Ffynhonnell: Chambers UK / Legal 500

## Proffesiynau cyfreithiol eraill yng Nghymru

Yn ychwanegol at y proffesiwn cyfreithwyr a bargyfreithwyr, mae saith proffesiwn rheoleiddiedig arall sy'n gwasanaethu'r farchnad gyfreithiol yng Nghymru. Y proffesiynau rheoleiddiedig yw:

- Gweithredwyr Cyfreithiol Siartredig (CILEx)
- Trawsgludwyr Trwyddedig
- Atwrneiod Patentau
- Atwrneiod Nodau Masnach
- Cyfreithwyr Costau
- Notarïaid
- Cyfrifwyr Siartredig

O ran rhai o'r proffesiynau cyfreithiol hyn, a nodir uchod, mae nifer fawr ohonynt i'w cael yng Nghymru. Er enghraifft, deallir bod mwy na 1,000 o aelodau CILEx "yn byw yng Nghymru neu gerllaw"[17]. Ond, yn y rhan fwyaf o'r achosion eraill, mae cyfanswm y gweithwyr cyfreithiol proffesiynol sydd wedi'u cofrestru fel rhai sy'n gweithio yng Nghymru'n fach iawn. Er enghraifft, mae ein gwerthusiad ni o'r gofrestr cyfreithwyr costau'n awgrymu mai dim ond 15 o aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol arbenigol hwn sydd wedi'u cofrestru fel rhai sy'n gweithio yn y wlad – 13 yng Nghaerdydd a dau yn Abertawe. Yn yr un modd, dim ond chwe aelod rheoleiddiedig o'r Sefydliad Siartredig Atwrneiod Nodau

[17] CILEx. *Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Sylwadau gan Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol (CILEx)*, Mehefin 2018, t2.

Masnach sydd wedi'u cofrestru fel rhai sy'n gweithio yng Nghymru. O ran eu pwysigrwydd economaidd / pwysigrwydd o ran cyflogaeth ar y cyfan i'r farchnad gyfreithiol yng Nghymru, nid yw'r rhan fwyaf o'r proffesiynau cyfreithiol ychwanegol hyn – felly – wedi'u rancio'n uchel.

## Ffynonellau annhraddodiadol cyflogaeth yn y sector cyfreithiol yng Nghymru

Mae'n gyfleus iawn gwerthuso math a chwmpas y farchnad gyfreithiol trwy gyfeirio at gyfanswm y cyfreithwyr rheoleiddiedig. Yn yr un modd, mae hefyd yn gyfleus meddwl am y proffesiwn cyfreithiol trwy gyfeirio at y mathau cyfarwydd o endid busnes – h.y. cwmnïau cyfreithiol confensiynol neu siambrau bargyfreithwyr. Fodd bynnag, dylid deall, er bod y rhain i gyd yn elfennau pwysig o'r sector cyfreithiol yng Nghymru, nid ydynt yn cynrychioli ei gyfanrwydd. I ddangos y pwynt yma, isod rydym yn cynnig enghraifft o un ffynhonnell annhraddodiadol cyflogaeth gyfreithiol yr ydym ni wedi sylwi arni yn ystod ein hymchwil i'r farchnad gyfreithiol yng Nghymru, Byddwn yn trafod y farchnad gyfreithiol annhraddodiadol ymhellach ym mhenodau pump a 15 o'r adroddiad hwn.

Yr enghraifft yr ydym ni'n ei chynnig yw Admiral Law Limited, cangen ymarfer cyfreithiol sy'n ymdrin â chleientiaid o fewn y cwmni yswiriant enfawr sydd wedi'i leoli yng Nghymru. Yn ôl gwasanaeth "Dod o Hyd i Gyfreithiwr" Cymdeithas y Cyfreithwyr, mae Admiral Law Ltd yn cyflogi tua 47 o gyfreithwyr ar draws ei ddau safle yng Nghaerdydd a Chasnewydd. Ar sail cyfanswm nifer y cyfreithwyr yn unig, gellir ystyried felly bod Admiral yn un o'r practisiau cyfreithiol mwyaf yng Nghymru. Fodd bynnag, ein dealltwriaeth ni yw bod cyfanswm nifer cyflogeion y sefydliad yn uwch o lawer: tua 600 ar y cyfan. I roi'r ffigwr hwn yn ei gyd-destun Cymreig, mae Admiral Law Ltd yn cyflogi tua dwywaith cymaint o bobl ar ei ben ei hun nag sydd o fewn y Bar rheoleiddiedig yng Nghymru yn ei gyfanrwydd.

Er ei fod yn cael ei reoleiddio gan yr ARhC, nid dim ond cyfreithwyr y mae Admiral Law yn eu cyflogi: mae dadansoddiad o dudalennau proffiliau cyflogeion LinkedIn y cwmni'n dynodi bod ystod eang o rolau'n cael eu cyflawni yn y cwmni, na fyddai'r un ohonynt yn ymddangos o fewn data poblogaeth reoleiddiedig yr ARhC. Mae'r rolau heblaw am rôl cyfreithiwr yn cynnwys bargyfreithwyr, gweithredwyr cyfreithiol siartredig, paragyfreithwyr, trinwyr achosion – hyd yn oed "llyw-wyr robotiaid" a "datblygwyr roboteg".

Ar sail trosiant blynyddol, er na all Admiral Law gystadlu â chwmnïau fel Blake Morgan (trosiant yn y DU o £73.3m) neu Hugh James (£38.5m)[18], yn sicr nid cwmni cyfreithiol bach mohono. Yn ôl y cyfrifon diweddaraf iddo'u cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau, roedd trosiant Admiral Law Ltd yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2017 yn £18.44m, gan ddwyn elw cyn treth o £6.60m. Mae ffigwr trosiant Admiral yn sylweddol uwch na'r norm yn y sector cyfreithiol yng Nghymru, a drafodwyd yn flaenorol. Ar ben hynny, mae ei elw o 35% yn dangos bod rhai elfennau o'r sector cyfreithiol yng Nghymru yn gymharol iach yn ariannol.

## Crynodeb a chasgliadau

Mae'r proffesiwn cyfreithiol rheoleiddiedig yng Nghymru wedi'i grynhoi'n drwm yn Ne Cymru, sydd i raddau helaeth yn adlewyrchu'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru. Er gwaethaf y ffocws cryf hwn ar Dde Cymru, rydym wedi canfod bod arbenigaethau cyfreithiol arbenigol hyd yn oed yn cael eu darparu'n llwyddiannus mewn rhannau eraill o'r wlad – a hefyd yn cael cydnabyddiaeth gan y diwydiant i'r arbenigedd hwnnw. Mae hyn yn awgrymu bod elfennau o'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru'n fentergar, ac yn gallu canfod bylchau yn y farchnad – heb yr angen am anogaeth na chymorth gan Lywodraeth Cymru.

[18] The Lawyer. *The Lawyer's top 200 UK law firms revealed,* 15 Hydref 2018.

Nid ydym wedi gallu canfod, yn yr amser a ganiatawyd i gynnal yr adolygiad cyflym hwn, pa un a oes anialdiroedd cyngor cyfreithiol yn bodoli yn y sector cyfreithiol yng Nghymru. Yng ngoleuni heriau cynnal gwerthusiad eang o'r mater hwn ar sail Cymru gyfan, rydym yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio ffocws cul mewn unrhyw ymchwiliad y mae'n ei gychwyn.

Rydym yn sylwi bod gan broffesiwn cyfreithiol Cymru ffocws anghymesur ar wasanaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â chleientiaid preifat, o'i gymharu â Lloegr. Rydym hefyd yn nodi bod nifer o'r arbenigaethau cyfreithiol hyn sydd â ffocws ar gleientiaid preifat yn wynebu risg o ddigideiddio / bod yn ddi-gyfreithiwr. Nid ydym yn credu bod y naill na'r llall o'r ffeithiau hyn, ynddi'i hun, yn cyfiawnhau ymyriad gan Lywodraeth Cymru – oni bai fod y ddarpariaeth gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru'n methu'n llwyr.

Er bod llawer o gwmnïau cyfreithiol Cymru yn gymharol fach ac yn cynhyrchu refeniwiau bach yn unig, rydym yn ymwybodol o nifer o enghreifftiau o bractisiau cyfreithiol yng Nghymru – megis Admiral Law Ltd – sy'n herio'r stereoteip hwn. Awgrymwn y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i hyrwyddo'r math yma o stori lwyddiant i'r farchnad gyflogaeth ehangach, gyda golwg ar bwysleisio bod ystod eang o gyfleoedd gyrfa sy'n gysylltiedig â'r gyfraith yng Nghymru, yn rhai traddodiadol ac annhraddodiadol.

# Pennod pedwar:
# Sector addysg gyfreithiol prifysgolion Cymru

Isod, rydym yn nodi demograffeg lefel-uchaf myfyrwyr y gyfraith ym mhrifysgolion Cymru yn ystod blwyddyn academaidd 2016 / 2017, y flwyddyn ddiweddaraf y mae data cynhwysfawr ar gael ar ei chyfer.

**Tabl pedwar: dadansoddiad o boblogaethau myfyrwyr ysgolion y gyfraith yng Nghymru yn ôl dull astudio, 2016 / 2017**

| Sefydliad | Israddedig | | | Ôl-raddedig | | | Cyfanswm y Cwbl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llawn-amser | Rhan-amser | Y cyfan | Llawn-amser | Rhan-amser | Y cyfan | |
| Prifysgol Aberystwyth | 220 | * | 220 | 25 | 35 | 60 | 285 |
| Prifysgol Bangor | 240 | 5 | 245 | 65 | 5 | 70 | 315 |
| Prifysgol Caerdydd | 1,025 | 40 | 1,070 | 260 | 185 | 445 | 1,515 |
| Prifysgol Abertawe | 895 | * | 895 | 215 | 30 | 245 | 1,140 |
| Prifysgol De Cymru | 360 | 60 | 420 | 60 | 55 | 115 | 535 |
| Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant | 10 | * | 10 | * | * | * | 10 |
| Cyfanswm prifysgolion Cymru | 2,755 | 105 | 2,860 | 620 | 315 | 935 | 3,800 |

Ffynhonnell: Cofnodion myfyrwyr HESA trwy Lywodraeth Cymru
Mae * yn dynodi tri myfyriwr neu lai. Mae'r holl ddata wedi'i dalgrynnu i'r pum myfyriwr agosaf.

O ran niferoedd, mae'n amlwg mai'r "ddwy fawr" o blith prifysgolion Cymru – Caerdydd ac Abertawe – sy'n cael yr effaith fwyaf, o ran eu gallu llwyr i gyflenwi'r farchnad gyfreithiol yng Nghymru â thalent bosibl. Mae cyfansymiau israddedigion ac ôl-raddedigion Abertawe, Bangor, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant ar y cyd yn 1,145 fwy neu lai – bron union yr un faint â chyfanswm Prifysgol Abertawe, a thua 370 yn llai na chyfanswm Prifysgol Caerdydd.

O ran astudio'n rhan-amser – y mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i'w gefnogi yn ôl ein dealltwriaeth ni fel llwybr a ddymunir er mwyn gwella'r niferoedd sy'n ymgymryd ag addysg gyfreithiol – ychydig o'r prifysgolion a ddangosir yn nhabl pedwar sy'n sgorio'n dda ar y lefel israddedig. Mae data gan Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch y DU (HESA) yn awgrymu, ledled Cymru, bod tuag 11% o'r holl fyfyrwyr wedi astudio ar gyfer eu graddau cyntaf (israddedig) fel myfyrwyr rhan-amser ym mlwyddyn academaidd 2016 / 2017[19]. Ond hefyd mewn perthynas â'r gyfraith yn benodol, dim ond Prifysgol De Cymru (PDC) a aeth y tu hwnt i'r ganran hon ar gyfer ei chwrs israddedig yn y gyfraith: fel y mae tabl pedwar uchod yn ei ddynodi, fe wnaeth 14.29% o fyfyrwyr y brifysgol hon astudio'n rhan-amser yn ystod y flwyddyn academaidd honno. Mewn cyferbyniad, roedd gan dair o'r prifysgolion a restrir yn y tabl naill ai ganran o ddim (neu yn agos at hynny) o ran cyfradd ymgymryd â'u graddau israddedig yn y gyfraith ar sail ran-amser (Aberystwyth, Abertawe, Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant) neu gyfradd o lai na 4% (Bangor, Caerdydd). Mae hyn yn awgrymu y gallai prifysgolion Cymru wneud mwy i annog myfyrwyr i astudio'r gyfraith ar sail ran-amser ar lefel israddedig, yn syml er mwyn codi'r cyfraddau ar gyfer y radd benodol hon i'r normau ar lefel israddedig ledled Cymru'n fwy eang.

[19] HESA. *Ffigur 3- Cofrestriadau myfyrwyr AU yn ôl lefel astudio 2013/14 i 2017/2017* – Data Cymru yn unig.

Yn fwy cadarnhaol, fel y mae tabl pedwar uchod hefyd yn ei ddangos, mae'r gyfradd sy'n ymgymryd ag astudiaethau cyfreithiol rhan-amser yn llawer uwch ar lefel ôl-raddedig yng Nghymru – o leiaf mewn prifysgolion megis Aberystwyth (58.3% o holl fyfyrwyr y gyfraith), Caerdydd (41.57%) a PDC (47.83%). Mae'r canrannau hyn yn uwch na normau'r sector yng Nghymru: yn ôl HESA, roedd 24% o'r holl fyfyrwyr ôl-raddedig yng Nghymru'n astudio'n rhan-amser yn ystod blwyddyn academaidd 2016 / 2017[20]. Yn llai cadarnhaol, dim ond 7.14% o fyfyrwyr Prifysgol Bangor wnaeth astudio'n rhan-amser ar lefel ôl-raddedig yn 2016 / 2017, a 12.24% o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'r darlun cyffredinol ar gyfer astudiaethau cyfreithiol rhan-amser ar lefel ôl-raddedig yn amrywiol felly ar draws Prifysgolion Cymru.

## Symudiad talent gyfreithiol

Mae'r sector addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys y sector addysg gyfreithiol, yn drawsffiniol iawn o ran ei gyfansoddiad. I ddarlunio'r pwynt hwn, dengys ystadegau HESA fod 129,585 o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf wedi cofrestru mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ym mlwyddyn academaidd 2017 / 2018. O'r 129,585 o fyfyrwyr hynny, roedd 67,310 – ychydig dros hanner – yn dod o Gymru. Roedd 39,770 arall (ychydig dros 30%) yn dod o Loegr, a 975 (ychydig dros 0.75%) yn dod o'r Alban a Gogledd Iwerddon ar y cyd. Roedd gweddill y myfyrwyr (21,350, ychydig o dan 16.5%) yn dod o gyrchfannau rhyngwladol[21]. Yn amlwg, nid yw'r sector addysg uwch yng Nghymru yn bodoli dim ond i wasanaethu poblogaeth frodorol Cymru.

Gan droi yn awr at y sector cyfreithiol: ar sail Cymru a Lloegr, mae data gan Gymdeithas y Cyfreithwyr yn awgrymu, yn 2017 / 2018, bod tua 20% o'r holl fyfyrwyr a gafodd eu derbyn ar raddau israddedig yn y gyfraith yn hanu o dramor, tra bod tua 80% wedi dod o'r DU (4,755 allan o 18,850)[22]. Fel y dengys tabl pump isod, fesul prifysgol – gan ddefnyddio data 2016 / 2017 – mae'r canrannau cyfatebol yn amrywio'n sylweddol ar gyfer Cymru yn unig. Yn y "ddwy fawr" o blith Prifysgolion Cymru – Caerdydd ac Abertawe – dim ond llai na hanner eu cohort myfyrwyr y gyfraith oedd yn hanu o Gymru. Mewn cyferbyniad, roedd Prifysgol De Cymru (PDC) a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn darparu ar gyfer cohort o fyfyrwyr a oedd yn amlwg yn fwy lleol. Ar sail Cymru gyfan, roedd tua 43% o'r myfyrwyr a oedd yn astudio'r gyfraith yn y wlad yn 2016 / 2017 hefyd yn hanu o'r wlad.

Yng ngoleuni'r data a ddangosir yn nhabl pump isod, mae'n debyg y gallwn dybio – fel sector addysg uwch Cymru yn ei gyfanrwydd – bod strategaeth o "addysgu talent gyfreithiol i'w hallforio" yn rhan sylweddol o fodelau busnes y prifysgolion hyn. Mae hyn, yn ei dro, yn ei gwneud yn anodd iawn cynnig mewnwelediadau ystyrlon wrth ystyried pa un a yw marchnad rhaglenni israddedig yn y gyfraith yng Nghymru yn methu – yn enwedig mewn perthynas â dymuniad (neu fel arall) graddedigion y gyfraith o brifysgolion Cymru i geisio cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r gyfraith yn y wlad. Yn realistig, o gofio bod mwy na hanner yr holl fyfyrwyr sy'n astudio'r gyfraith yng Nghymru yn dod o'r tu allan i'r wlad, faint ohonynt a oedd erioed yn bwriadu gweithio yn sector cyfreithiol Cymru yn lleol? Yn anffodus, ni allwn ateb y cwestiwn hwn – ond rydym yn amau a fyddai'r mwyafrif wedi bwriadu gwneud hynny.

[20] HESA. *Ffigur 3- Cofrestriadau myfyrwyr AU yn ôl lefel astudio 2013/14 i 2017/2017* – Data Cymru yn unig.
[21] HESA. *Where do HE students come from? HE student enrolments by domicile.*
[22] Cymdeithas y Cyfreithwyr. *Entry trends. Undergraduate and graduates in law.*

**Tabl pump: myfyrwyr y gyfraith ym Mhrifysgolion Cymru, yn ôl y wlad y maent yn hanu ohoni, 2016/17**

| | Prifysgol Aberystwyth | Prifysgol Bangor | Prifysgol Caerdydd | Prifysgol Abertawe | Prifysgol De Cymru | Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant | Pawb (Ffigyrau cyfwerth â pherson cyfan**) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 95 | 110 | 585 | 455 | 370 | 10 | 1,625 |
| Gweddill y DU | 130 | 100 | 525 | 360 | 45 | * | 1,165 |
| UE arall | 25 | 25 | 65 | 70 | 30 | * | 215 |
| Y tu allan i'r UE | 35 | 75 | 340 | 255 | 90 | * | 795 |
| Pawb | 285 | 315 | 1,515 | 1,140 | 535 | 10 | 3,800 |

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA, trwy Lywodraeth Cymru
Mae * yn dynodi llai na thri myfyriwr ar gwrs.
** Mae ffigyrau cyfwerth â pherson llawn yn ystyried myfyrwyr sy'n gwneud graddau cyfun ac yn darparu cyfansymiau cyfwerth â pherson llawn.

Gan aros ar y pwynt ynglŷn ag addysg gyfreithiol: un o nodweddion nodedig eraill sector addysg gyfreithiol y DU yw nad yw'n bodoli'n bennaf fel twmffat ar gyfer cyflogaeth i mewn i'r sector cyfreithiol, a hynny o bell ffordd. Mae data HESA yn nodi, ym mlwyddyn academaidd 2017 / 2018, bod 87,605 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru ar gyrsiau israddedig yn y gyfraith ledled y DU gyfan[23]. I roi'r ffigwr hwnnw yn ei gyd-destun, mae'n gyfwerth â mwy na 60% o'r holl gyfreithwyr sydd ar hyn o bryd yn ymarfer yng Nghymru a Lloegr (139,624 yn 2017 yn ôl Cymdeithas y Cyfreithwyr[24]). Mae'r ddeuoliaeth hon hefyd yn cael ei hefelychu'n fras ar sail Cymru yn unig. Yn ôl y data gan HESA a grybwyllir uchod, roedd cyfanswm o 3,740 o fyfyrwyr yn astudio'r gyfraith fel myfyrwyr israddedig ym mhrifysgolion Cymru yn 2017 / 2018. Mae hyn yn debyg fwy neu lai i boblogaeth gyfan y cyfreithwyr sy'n ymarfer yng Nghymru, sydd oddeutu 3,500 yn ôl yr wybodaeth a roddodd yr ARhC i ni, ac oddeutu 3,700[25] yn nhyb Cymdeithas y Cyfreithwyr.

O ystyried y gwarged enfawr hwn o raddedigion y gyfraith o'i gymharu â swyddi yn y sector cyfreithiol ledled Cymru a Lloegr, ni ddylai fod yn syndod nad yw llawer o'r graddedigion hyn yn ymuno â'r farchnad gyfreithiol fel cyfreithwyr dan hyfforddiant neu fargyfreithwyr dan hyfforddiant. Yn anffodus, nid ydym wedi llwyddo i ddarganfod pa ganran o israddedigion a astudiodd y gyfraith yng Nghymru ac a ymunodd â'r farchnad gyfreithiol wedi hynny - nid yw'r data hwn ar gael gan StatsCymru. Fodd bynnag, nodwn hefyd, yn eu cyflwyniad i'r Comisiwn ar Gyfiawnder, i Brifysgol Bangor nodi ei bod wedi ceisio meintioli'r ganran hon yn flaenorol. Mae ymchwil y Brifysgol yn awgrymu bod tua thraean o raddedigion y gyfraith ym Mhrifysgol Bangor wedi ymuno â'r proffesiwn cyfreithiol yn ddiweddarach, o'i gymharu â'r ddwy ran o dair a aeth ar drywydd gyrfaoedd cyfreithiol annhraddodiadol[26] (ni nodwyd natur y rhain). Gan dybio bod canrannau o'r fath yn cael eu hefelychu'n fras ymhlith ysgolion eraill y gyfraith yng Nghymru, mae'n debyg ei bod yn ddiogel tybio nad yw'r farchnad gyfreithiol ar gyfer cyfreithwyr cymwysedig yng Nghymru yn dioddef diffyg o ran talent graddedigion y gyfraith. I'r gwrthwyneb, yn wir: ymddengys fod gorgyflenwad enfawr o dalent o'r fath, rhywbeth na allai'r farchnad cyfreithwyr yng Nghymru obeithio'i lenwi – hyd yn oed pe bai'r farchnad yn cael ei hehangu'n sylweddol.

[23] HESA. *Tabl 13 – Cofrestriadau myfyrwyr AU yn ôl darparwr AU a phwnc astudio.*
[24] Cymdeithas y Cyfreithwyr. *Annual Statistics Report* 2017.
[25] Cymdeithas y Cyfreithwyr. *Trends in the solicitors' profession annual statistics report,* Mehefin 2018, t11.
[26] Ysgol y Gyfraith Bangor. *Sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder gan Ysgol y Gyfraith Bangor*, 29 Mehefin 2018.

### I ble mae graddedigion y gyfraith yng Nghymru'n mynd?

Yn anffodus, nid ydym wedi gallu cael gafael ar ddata swyddogol gan yr ARhC ynghylch y lleoliadau y bu myfyrwyr y gyfraith a addysgwyd yng Nghymru, a gymhwysodd yn gyfreithwyr wedi hynny, yn ymarfer yn ddiweddarach. Er bod yr ARhC yn cymeradwyo ysgolion y gyfraith ledled Cymru a Lloegr, nid yw wedyn yn tracio llwybrau gyrfaol unigolion sy'n graddio o ysgolion y gyfraith a awdurdodwyd ganddo i mewn i ymarfer cyfreithiol. Nid yw StatsCymru / HESA yn gwneud hynny ychwaith.

Yr hyn y gallwn ni ei ddweud, fodd bynnag, yw – ymhlith y myfyrwyr hynny a gwblhaodd astudiaethau a oedd yn ymwneud â'r gyfraith ym mhrifysgolion Cymru yn 2016 / 2017 – ac a aeth ymlaen yn ddiweddarach i gyflogaeth lawn-amser, fe wnaeth tua 56% hynny yng Nghymru, tua 36% yn Lloegr, a'r gweddill mewn gwledydd eraill. Unwaith eto, mae'r data cyfyngedig hwn – a ddarparwyd gan StatWales / HESA – yn awgrymu bod marchnad addysg gyfreithiol Cymru wedi'i hanelu'n gryf at allforio arbenigedd o Gymru, yn hytrach na gwasanaethu anghenion addysg gyfreithiol Cymru yn unig.

Wedi dweud hynny, dylid gwerthfawrogi mai dim ond cyrchfan tua thraean o holl fyfyrwyr y gyfraith a raddiodd o brifysgolion Cymru ym mlwyddyn academaidd 2016 / 2017 y mae'r canfyddiad uchod yn ei gynrychioli. Mae cyrchfan tua thraean o gohort y flwyddyn honno yn y pen draw yn gwbl anhysbys i StatsCymru / HESA, tra bo'r gweddill naill ai wedi ymgymryd ag astudio pellach yn bennaf (tua 22%), neu'n methu â chael eu datgelu oherwydd ystyriaethau diogelu data / preifatrwydd. Dylem felly drin y canfyddiad uchod o ran cyrchfannau cyflogaeth lawn-amser dilynol gyda rhywfaint o bwyll, wrth ystyried a yw'n adlewyrchu cyrchfan cyflogaeth yr holl rai sy'n gadael ysgolion y gyfraith yng Nghymru yn y pen draw.

Yn niffyg data swyddogol, rydym wedi ymchwilio ymhellach ble mae myfyrwyr o Gymru yn "mynd" mewn perthynas â'r sector cyfreithiol trwy ddefnyddio'r ffynhonnell ddata ddirprwyol arall, sef LinkedIn – er ei bod yn amherffaith. Yn anecdotaidd, mae ein hymchwil yn dangos bod cyflogwyr sector cyfreithiol Cymru yn recriwtwyr arwyddocaol lle mae graddedigion o Gymru yn y cwestiwn, boed y rheiny'n raddedigion y gyfraith neu fel arall. Mae tabl chwech, isod, yn dangos y pwynt hwn trwy gyfeirio at rai o'r cyflogwyr mwy yn y sector yng Nghymru.

**Tabl chwech: Mae practisiau cyfreithiol Cymru'n recriwtio'n drwm o brifysgolion Cymru**

| Cwmni cyfreithiol | Nifer y proffiliau LinkedIn sy'n gysylltiedig â chwmnïau cyfreithiol yng Nghymru | Nifer y proffiliau LinkedIn lle astudiodd unigolion yng Nghymru |
|---|---|---|
| Blake Morgan | 136 | 58 |
| Capital Law | 106 | 69 |
| CJCH Solicitors | 56 | 44 |
| Geldards | 130 | 55 |
| Howells Solicitors | 84 | 60 |
| Hugh James | 377 | 218 |
| NewLaw Solicitors | 222 | 123 |

Ffynhonnell: LinkedIn

## Cymwysterau proffesiynol yng Nghymru: y cyflenwad a'r galw

Ymhlith y myfyrwyr hynny sy'n cwblhau eu hyfforddiant cyfreithwyr proffesiynol yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf yn gwneud hynny ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn ôl y rhifyn diweddaraf o'r canllaw cyfreithiol *Chambers Student*, mae gan Brifysgol Caerdydd gyfanswm o 220 o leoedd ar gyfer y prif lwybr at gymhwyso'n gyfreithiwr, sef y cwrs ymarfer cyfreithiol (LPC). Mae'r ddau ddarparwr LPC arall yng Nghymru sydd wedi'u cymeradwyo gan yr ARhC[27], sef PDC a Phrifysgol Abertawe, yn cynnig 60 a 100 o leoedd LPC yn y drefn honno[28].

Mewn gwirionedd, mae'n debyg bod nifer y lleoedd LPC sydd ar gael yng Nghymru yn ddangosydd mwy dibynadwy ar gyfer faint o'r myfyrwyr sy'n astudio'r gyfraith yng Nghymru sy'n dymuno camu ymlaen at ymarfer cyfreithiol yn y pen draw. Y rheswm dros hyn yw bod LPC yn gymhwyster galwedigaethol yn ei hanfod, sydd wedi'i fwriadu i roi myfyrwyr sy'n cwblhau'r cwrs ar lwybr uniongyrchol at gymhwyso'n gyfreithiwr a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr. Yn y cyd-destun hwn, mae cyfanswm y contractau hyfforddi sydd ar gael yng Nghymru, 146 yn 2016[29], yn dangos bod bwlch sylweddol rhwng y cyflenwad LPC yng Nghymru a'r galw lleol am ymgeiswyr LPC. O ystyried bod data *Chambers Student* yn dangos bod 380 o leoedd LPC ar gael ym mhrifysgolion Cymru, gallwn amcangyfrif bod tua 2.6 o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer LPC yng Nghymru am bob contract hyfforddi sydd ar gael yn y wlad – ond gan gydnabod bod y gymhareb hon yn defnyddio data sy'n cwmpasu cyfnodau o amser ychydig yn wahanol. Ar y cyfan, mae'r data hwn yn awgrymu'n gryf na fydd llawer o fyfyrwyr sy'n astudio LPC yng Nghymru yn cael y cyfle wedyn i gychwyn contract hyfforddi yn y wlad. Fodd bynnag, yr hyn na allwn ei ddweud yw i ba raddau y llwyddodd y myfyrwyr hynny, sy'n cwblhau eu LPC yn llwyddiannus yng Nghymru, i gael cyflogaeth arall yn y sector cyfreithiol wedyn – megis gwaith paragyfreithiol yn lleol, neu gontract hyfforddi yn Lloegr. Yma, gellid dadlau ei bod yn berthnasol bod y mwyafrif helaeth o gontractau hyfforddi sydd wedi'u cymeradwyo gan yr ARhC ar gael yn Lloegr, nid yng Nghymru.

I ddangos graddfa'r anghysondeb o ran cyfleoedd ar gyfer contract hyfforddi rhwng Cymru a Lloegr: fel a nodwyd yn flaenorol, yn 2016 (y flwyddyn ddiwethaf y mae data gan yr ARhC sy'n ymwneud yn benodol â Chymru ar gael ar ei chyfer), roedd cyfanswm o 146 o gontractau hyfforddi yn cael eu cyflawni yng Nghymru. Fodd bynnag, yn ôl data Cymdeithas y Cyfreithwyr, cofrestrwyd cyfanswm o 5,719 o hyfforddeiaethau newydd yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2017[30]. Gan ganiatáu ar gyfer amrywiadau cymedrol rhwng y ddau bwynt data yma, mae hyn yn awgrymu bod contractau hyfforddi yng Nghymru yn rhoi cyfrif am tua 2.6% o gyfanswm Cymru a Lloegr. Felly, ni fyddem yn synnu pe bai yna lif sylweddol o gyfreithwyr sydd wedi cwblhau LPC yng Nghymru ac yn mynd dros y ffin i Loegr, i chwilio am gontractau hyfforddi nad ydynt ar gael yn lleol.

Mae'r cyfleoedd cyfyngedig i gymhwyso'n gyfreithiwr yng Nghymru hefyd yn cael eu hailadrodd mewn perthynas â phroffesiwn bargyfreithwyr Cymru. Yn ôl cyfeiriadur *Chambers Student,* mae 84 o leoedd[31] ar Gwrs Hyfforddiant Proffesiynol y Bar (BPTC) yn yr unig ddarparwr hyfforddiant awdurdodedig yng Nghymru, Prifysgol Caerdydd[32]. Mae'r ffigwr hwn yn llawer uwch na nifer y swyddi bargyfreithiwr dan hyfforddiant yng Nghymru – sy'n cyfateb i gontractau hyfforddi cyfreithwyr – a oedd ar gael yn ystod y cylch recriwtio mwyaf diweddar ar gyfer bargyfreithwyr dan hyfforddiant. Yn ôl porth canolog Cyngor y Bar, "Pupillage Gateway", cynigiwyd dim ond naw o swyddi dan hyfforddiant yn rownd recriwtio ddiweddaraf siambrau Cymru, sy'n rhedeg rhwng Hydref 2018 a Medi 2020. O'r swyddi dan hyfforddiant hyn a ddechreuodd yn ddiweddar ac sydd ar fin cychwyn, roedd dwy yr un ar gael yn 9 a 30 Plas y Parc yng Nghaerdydd, dwy yr un yn Siambrau'r Angel ac Iscoed yn Abertawe, ac un yn Civitas Law yng

27 ARhC. *Legal practice Course (LPC) providers*.
28 Chambers Student. *LPC providers compared.*
29 Data'r ARhC a ddarparwyd ar gyfer Jomati.
30 Law Society. *Entry trends. Periods of recognised training.*
31 Chambers Student. *BPTC providers compared*.
32 Bwrdd Safonau'r Bar. BPTC Providers.

Nghaerdydd. I roi'r naw swydd dan hyfforddiant hon yng Nghymru yn eu cyd-destun, mae data o Fwrdd Safonau'r Bar yn awgrymu bod 473 o swyddi dan hyfforddiant[33] wedi cychwyn yng Nghymru a Lloegr ar y cyfan, yn ystod y cyfnod o amser a oedd yn cwmpasu 2017 / 2018. Mae swyddi dan hyfforddiant yng Nghymru felly'n rhoi cyfrif am oddeutu 2% o'r cyfanswm yng Nghymru a Lloegr.

Ar sail "swydd dan hyfforddiant newydd am bob bargyfreithiwr presennol sydd wedi cymhwyso", mae argaeledd swyddi dan hyfforddiant yng Nghymru'n debyg fwy neu lai i Gymru a Lloegr ar y cyfan, ac yn cyfateb i gymhareb o tua 33 i un (35 i un yn Lloegr). Fel a nodwyd yn flaenorol, er bod dros 16,000 o fargyfreithwyr ledled Cymru a Lloegr gyfan, dim ond 300 y gwyddys eu bod yn gweithredu yng Nghymru. Fodd bynnag, wrth ddwyn cymhariaeth – er ei bod yn amherffaith – rhwng nifer yr ymgeiswyr BPTC a addysgir mewn unrhyw flwyddyn benodol – a'r swyddi dan hyfforddiant newydd sy'n cychwyn dros gyfnod tebyg, mae'r sefyllfa yng Nghymru'n amlwg yn waeth nag ydyw yng Nghymru a Lloegr yn fwy eang. Ar draws y ddwy wlad, ceir tuag un swydd dan hyfforddiant am bob chwech o lefydd BPTC sydd ar gael (h.y. 473 o swyddi'n cychwyn am 2,908 o leoedd sydd ar gael[34]). Mewn cyferbyniad, yng Nghymru yn benodol, mae'r gymhareb honno – fwy neu lai – yn un mewn naw. Wrth gwrs, ar hyn o bryd nid oes dim byd i atal cyn-fyfyrwyr BPTC, sydd wedi cwblhau eu cwrs yn llwyddiannus yng Nghymru, rhag ceisio swydd dan hyfforddiant yn Lloegr wedyn.

### Perthnasedd y data uchod i'r cwestiwn ynghylch awdurdodaeth i Gymru

Fel y mae'r sylwadau uchod yn ei gwneud yn glir, nid yw'r sector addysg ôl-18 gyfreithiol yng Nghymru yn bodoli i ddarparu hyfforddiant ar gyfer proffesiwn cyfreithiol Cymru yn unig. Mae'r cyflenwad o israddedigion y gyfraith ac, yn wir, y cyflenwad o gwblhawyr LPC a BPTC, sy'n astudio mewn prifysgolion yng Nghymru yn llawer mwy na gallu marchnad gyfreithiol Cymru i'w hamsugno.

Ar hyn o bryd, gellir lliniaru'r gorgyflenwad hwn, i ryw raddau o leiaf, gan bod y rhai a addysgir yn y gyfraith yng Nghymru yn gallu symud yn rhydd i geisio gwaith a / neu gymhwyster yn Lloegr, os dymunant. Fel a drafodir yn fwy helaeth ym mhennod 12 o'r adroddiad hwn, mae ysgolion y gyfraith yng Nghymru yn tueddu i addysgu'r gyfraith gyda ffocws cryf ar gyfraith Cymru a Lloegr ar y cyd. I'r graddau bod cyfraith ar gyfer Cymru yn unig yn cael ei haddysgu, mae'n tueddu i fod ar sail gymharol, yn hytrach nag yn unig.

### Cyfreithwyr yn adleoli i Gymru, er mwyn sefydlu practisiau cyfreithiol newydd yn y wlad

Yn anffodus, nid ydym wedi llwyddo i gael gafael ar ddata a all gynnig mewnwelediadau empirig ynghylch y cyfreithwyr sy'n sefydlu practisiau cyfreithiol newydd yng Nghymru, ar ôl bod yn gweithio y tu allan i'r wlad o'r blaen. Fodd bynnag, wrth gynnal cyfweliadau ag arweinwyr cwmnïau cyfreithiol, fe nodom serch hynny nifer fach o bartneriaid sefydlu cwmnïau cyfreithiol yng Nghymru a oedd wedi gwneud y siwrnai hon. Roedd rhai o'r unigolion y cyfwelwyd â hwy wedi cael eu haddysgu yng Nghymru ac wedi dychwelyd yn ddiweddarach i sefydlu cwmni cyfreithiol yn y wlad, ar ôl bod yn gweithio yn Lloegr yn flaenorol. Roedd eraill wedi symud i Gymru am y tro cyntaf ac wedi sefydlu cwmni cyfreithiol yn y wlad er nad oeddent erioed wedi byw yno o'r blaen.

[33] Bwrdd Safonau'r Bar. *Pupillage statistics.*
[34] Chambers Student. *BPTC providers compared*.

Yn benodol, roedd yr unigolion hynny y daethom ar eu traws yn nodweddiadol yn cynnig rhesymau personol dros symud i Gymru. At hynny, roedd y rhesymau personol hyn wedi bod yn drech na'u hamheuon – a ddatganwyd yn glir – pa un a oedd yn gwneud synnwyr busnes iddynt sefydlu cwmni yn y wlad. O gofio mai prin mewn nifer yw'r enghreifftiau a nodwyd gennym, dylem ochel rhag dod i unrhyw gasgliadau ehangach ynghylch pa un a yw esboniadau'r unigolion hyn am adleoli i Gymru yn gynrychiadol o eraill sydd wedi gwneud hynny. Serch hynny, credwn ei bod yn werth rhannu'r adborth hwn gyda Llywodraeth Cymru – am yr union reswm ei fod yn dangos y byddai'n anodd iawn i Lywodraeth Cymru berswadio entrepreneuriaid cwmnïau cyfreithiol ychwanegol i sefydlu yn y wlad.

Hefyd yn nodedig, ymhlith yr unigolion hynny y buom yn siarad gyda hwy, awgrymwyd fod diffyg talent addas sydd ar gael – o ran arbenigedd mewn maes ymarfer penodol a meddylfryd entrepreneuraidd – yn llesteirio ehangiad pellach eu busnes yng Nghymru. "What inhibits us isn't anything that the Welsh Government can do anything about," meddai un o'r unigolion hyn, a hynny'n ddigamsyniol.

## Arloesi yn y farchnad academaidd gyfreithiol

Ar hyn o bryd, er mwyn bod yn "radd gymhwysol yn y gyfraith", mae'r ddau brif reoleiddiwr cyfreithiol, sef yr ARhC[35] a Bwrdd Safonau'r Bar[36], yn cyfyngu'n fawr ar gynnwys cyrsiau israddedig yn y gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cyfyngiadau hyn i fod i gael eu codi yn 2021 mewn perthynas â darpar gyfreithwyr, pan fydd yr Arholiad Cymhwyso'n Gyfreithiwr (SQE) newydd yn dod yn fynedfa newydd i'r proffesiwn ac union gyfansoddiad graddau yn y gyfraith yn cael ei ddadreoleiddio[37]. Fodd bynnag, hyd yn oed o fewn cyfyngiadau'r system addysg gyfreithiol bresennol, mae gan bob prifysgol ei ffocws unigryw ei hun, o ran y cyrsiau a gynigir neu'r manteision a ddarperir. Er enghraifft, yng Nghymru, mae Prifysgol Bangor yn anarferol gan ei bod yn cynnig gradd meistr arbenigol mewn cyfraith a strategaeth caffael cyhoeddus – arbenigaeth a allai fod o ddiddordeb uniongyrchol i swyddogion Llywodraeth Cymru. Yn y cyfamser, mae myfyrwyr ym Mhrifysgol De Cymru (PDC), sydd hefyd yn gweithio yng nghymhorthfa gynghori'r Brifysgol, yn gallu gweithio tuag at dystysgrif Cymhwysedd Craidd Technoleg Gyfreithiol, a adwaenir fel LTC4[38]. Daethpwyd ag LTC4 i Gymru, yn rhannol diolch i gefnogaeth ac ymgysylltiad swyddogion Llywodraeth Cymru.

O ran datblygiadau arwyddocaol o fewn y sector addysg gyfreithiol yng Nghymru, gellid dadlau mai'r mwyaf nodedig yn y cyfnod diweddar oedd y camau diweddar gan Brifysgol Abertawe wrth iddi fentro i faes technoleg gyfreithiol. Ym mis Awst 2017, lansiodd y Brifysgol y Ganolfan ar gyfer Arloesi ac Entrepreneuriaeth yn y Gyfraith (CIEL), gyda'r bwriad datganedig o "ailfeddwl am natur addysg ac ymarfer cyfreithiol a hyrwyddo'r arfer o gaffael sgiliau lefel-uchel sy'n gysylltiedig ag ymarfer cyfreithiol seiliedig ar dechnoleg". Ar lefel israddedig, bellach gall myfyrwyr y gyfraith ym Mhrifysgol Abertawe astudio modiwlau "codio ar gyfer cyfreithwyr". Ar lefel ôl-raddedig, mae'r Brifysgol bellach yn cynnig LLM mewn Technoleg Gyfreithiol ac MA mewn Seiberdroseddu a Therfysgaeth. Mae'r modiwlau LLM yn cynnwys pynciau fel Deallusrwydd Artiffisial a'r gyfraith, data mawr a chloddio data, a blocgadwyn. Mae'r modiwlau MA yn cynnwys troseddau yn y seiberofod, propaganda ar-lein a radicaleiddio.

Ein dealltwriaeth ni yw bod Prifysgol Abertawe wedi penderfynu achub y blaen mewn perthynas â Thechnoleg Gyfreithiol wedi i fenter dan arweiniad Llywodraeth Cymru i greu Canolfan Arloesi ym Musnes y Gyfraith fethu â chael ei gwireddu.

35 ARhC. *Qualifying law degree providers.*
36 www.barstandardsboard.org.uk/qualifying-as-a-barrister/bar-training-requirements/academic-learning-component/academic-component-documents/
37 ARhC. *Common protocol on the academic stage of training,* November 2018.
38 Y Rhwydwaith Cymorth Cyfreithiol. *What is LTC4 and why should lawyers know about it?* 27 Mawrth 2017.

O ran ymwybyddiaeth y farchnad gyfreithiol yng Nghymru o fenter Technoleg Gyfreithiol Prifysgol Abertawe, mae ein sgyrsiau ni gydag arweinwyr practisiau cyfreithiol yn awgrymu gwybodaeth resymol am ei bodolaeth. Fodd bynnag, rydym yn llai sicr i ba raddau y mae cwmnïau cyfreithiol yng Nghymru yn bwriadu newid eu hymddygiadau recriwtio er mwyn rhoi anogaeth weithredol ar gyfer llwyddiant y cwrs. Er enghraifft, rydym yn ymwybodol bod Acuity Legal wedi partneru â Phrifysgol Abertawe mewn perthynas â Thechnoleg Gyfreithiol[39]. Fodd bynnag, nid yw ein trafodaethau gydag arweinwyr cwmnïau cyfreithiol eraill yng Nghymru wedi datgelu enghreifftiau ychwanegol o bractisiau cyfreithiol yn dilyn yn ôl troed Acuity Legal. Hefyd yn broblematig, fe'n hatgoffwyd – ar fwy nag un achlysur – fod llawer o gwmnïau cyfreithiol sydd â phresenoldeb yng Nghymru yn lleoli eu swyddogaethau cymorth mewn gwirionedd – lle mae arbenigwyr Technoleg Gyfreithiol yn debygol o gael eu lleoli – y tu allan i'r wlad. Felly, mae'n bosibl y bydd pwysigrwydd Prifysgol Abertawe fel ffynhonnell talent Technoleg Gyfreithiol leol ar gyfer marchnad gyfreithiol Cymru yn llai arwyddocaol nag y mae'r argraffiadau cyntaf yn ei ddynodi.

Yn fwy cadarnhaol, mae ein trafodaethau ar draws y sector gwasanaethau cyfreithiol wedi rhoi'r argraff inni nad yw cwrs Technoleg Gyfreithiol Abertawe'n llwyr ddibynnol ar gofrestriadau gan fyfyrwyr o Gymru, neu gefnogaeth gan gwmnïau cyfreithiol Cymru, am ei fodolaeth barhaus. Gan gofio hyn, awgrymwn y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno mynd ati'n frwd i hyrwyddo cyrsiau arloesol Prifysgol Abertawe i'r farchnad fyd-eang, trwy ei 21 o swyddfeydd masnach a buddsoddi rhyngwladol. Ein dealltwriaeth ni yw bod cyrsiau Technoleg Gyfreithiol llawn dwf mewn prifysgolion yn gymharol brin yn ysgolion y gyfraith, yn fyd-eang. Mae'r hyn y mae Prifysgol Abertawe yn ei wneud felly'n unigryw, ac yn deilwng o gael ei hyrwyddo'n rhyngwladol. Ni allwn ddychmygu y byddai'r Brifysgol yn gwrthwynebu cael cymorth gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'i chyrsiau.

Awgrymwn y byddai cefnogi Prifysgol Abertawe mewn perthynas â'i hymdrechion addysgol lle mae Technoleg Gyfreithiol yn y cwestiwn hefyd yn gydnaws â Chynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru. Dylid nodi bod y Cynllun Gweithredu ar yr Economi wedi'i fwriadu i gefnogi arloesi, cyflogaeth o ansawdd da, datblygiad sgiliau, ymchwil a datblygu, awtomeiddio a digideiddio.

## Casgliadau ac argymhellion

Ar y cyfan, mae sector addysg gyfreithiol Cymru yn creu gormodedd o dalent gyfreithiol yng Nghymru, o ran myfyrwyr israddedig yn y gyfraith a hefyd y rhai sy'n ceisio ymuno â'r proffesiwn cyfreithiol yn benodol. Er bod llawer o raddedigion o Gymru wedi llwyddo i gael gwaith mewn cwmnïau cyfreithiol yng Nghymru, rydym hefyd yn amau'n gryf bod llawer o bobl eraill wedi chwilio yn rhywle arall am gyflogaeth – yn enwedig yn Lloegr. Yn gadarnhaol, credwn fod hyn yn golygu bod gan farchnad gyfreithiol Cymru gapasiti sylweddol i ehangu yn y dyfodol, heb fod unrhyw risg sylweddol y bydd prinder llafur yn digwydd.

Mater arall yw a allai'r fath ehangiad ddigwydd, trwy ddibynnu ar fentrau cyfreithwyr unigol i sefydlu practisiau cyfreithiol yng Nghymru a hynny yn unig. Trafodir dull amgen o gyflawni twf o'r fath ymhellach ym mhennod chwech.

Er ein bod yn gyndyn ar y cyfan o gefnogi'r syniad bod llywodraethau'n "cefnogi buddugwyr", rydym yn gweld cyfiawnhad rhesymol i Lywodraeth Cymru gefnogi menter Technoleg Gyfreithiol Prifysgol Abertawe yn frwd – yn anad dim am fod ei gweithgareddau i'w gweld yn gydnaws â'r amcanion yng Nghynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r cwrs yn parhau i fod yn wirioneddol unigryw yn y gofod addysg gyfreithiol, yng Nghymru a hefyd yn ehangach. Rydym yn sicr na fyddai personél Prifysgol Abertawe yn gwrthwynebu unrhyw gynnig o gymorth marchnata y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud, yn enwedig hyrwyddo gweithredol trwy swyddfeydd masnach a buddsoddi rhyngwladol Llywodraeth Cymru.

[39] TSR. *TSR Legl Meets….Rachelle Sellek– Managing Partner at Acuity Legal*

# Pennod pump: Prentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru – y sefyllfa gyfredol a chyfeiriad posibl yn y dyfodol

Wrth gynnal ein cyfweliadau gydag arweinwyr cwmnïau cyfreithiol, soniodd nifer wrthym eu bod wedi drysu ynglŷn â statws cyfredol prentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru. Roedd mater prentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru hefyd yn un a godwyd gan un o'r ymatebwyr i'n harolwg ar-lein, a ofynnodd i ni "support the Law Society in Wales to push for legal apprenticeships as an alternative route to being a qualified lawyer."

Yng ngoleuni'r diddordeb hwn – er mai bach ydyw – gan sector cyfreithiol Cymru mewn prentisiaethau, rydym wedi dod i'r casgliad y byddai'n ddefnyddiol i ni ymchwilio i ddarpariaeth prentisiaethau o'r fath fel rhan o'n gwerthusiad o gymorth Llywodraeth Cymru i'r sector cyfreithiol yng Nghymru. Rydym wedi cynnal yr adolygiad hwn mewn tri cham: yn gyntaf, rydym wedi ceisio deall sut mae'r model prentisiaethau – yn gyffredinol – yn gweithio yng Nghymru. Yn ail, rydym wedi ceisio deall y nifer bresennol sy'n ymgymryd â phrentisiaethau sy'n gysylltiedig yn benodol â'r gyfraith – a chymwysterau tebyg – yn y wlad. Ar ôl cwblhau'r ddau ymchwiliad cychwynnol hynny, teimlwn wedyn y gallwn wneud argymhellion ar sut y credwn y dylai prentisiaethau cyfreithiol, a chymwysterau tebyg, gael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

### Prentisiaethau yng Nghymru yn gyffredinol

Yng Nghymru, rydym yn deall – yn y bôn – bod pedwar math o brentisiaethau[40], sef:

- **Prentisiaethau sylfaen.** Mae'r rhain yn darparu hyfforddiant yn y gwaith a chymhwyster a gydnabyddir gan y diwydiant, sy'n gyfwerth ag NVQ lefel 2 neu bum TGAU
- **Prentisiaethau.** Cynlluniau seiliedig ar waith yw'r rhain yn bennaf, lle bydd yn ofynnol mynychu'r coleg un neu ddau ddiwrnod yr wythnos. Mae'r prentisiaethau hyn yn gyfwerth â dau gymhwyster Safon UG, un Safon Uwch, NVQ lefel 3, neu gymhwyster lefel 3 y Fframwaith Credydau a Chymwysterau (FfCChC)
- **Prentisiaethau Uwch.** Ceir y rhain yn nodweddiadol mewn diwydiannau sy'n cyfuno elfennau academaidd ac ymarferol. Maent yn gyfwerth â chamau cyntaf addysg uwch, ond gellir eu hastudio hyd at lefel gradd meistr. O ganlyniad, gellir eu hastudio o lefel 4 FfCChC hyd at lefel 7 FfCChC
- **Prentisiaethau gradd.** Mae'r prentisiaethau hyn yn gyfystyr â phartneriaeth rhwng cyflogwr a choleg / prifysgol. Gallant gymryd rhwng blwyddyn a chwe blynedd i'w cwblhau, ac maent gyfwerth â gradd baglor neu feistr lawn. Fe'u hastudir ar lefel 6-7 FFCChC

Mae cynnwys cymwysterau prentisiaethau, yng Nghymru a Lloegr, yn strwythuredig iawn: nodir gofynion prentisiaeth mewn "fframweithiau prentisiaeth" cydnabyddedig. Mae'r fframweithiau hyn yn nodi faint o ddysgu y mae'n ofynnol i brentis ei wneud, y cymhwyster achrededig a enillir a chyfanswm yr hyfforddiant yn y gwaith a'r tu allan i'r gwaith y mae'n rhaid i'r prentis ei gwblhau. Mae prentisiaethau'n dod i ben pan fydd unigolyn yn bodloni'r amodau a nodir yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009[41].

[40] Prospects.ac.uk. *Apprenticeships in Wales*, Rhagfyr 2017.
[41] Law Wales. *Apprenticeships. Overview.*

O’n hadolygiad ni o ddatganiadau swyddogol ar y pwnc hwn, deallwn fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu blaenoriaethu prentisiaethau ar lefel 4 neu uwch "lle mae’r adenillion yn tueddu i fod yn uwch"[42]. Y tu hwnt i hynny, deallwn fod Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi dechrau treialu prentisiaethau lefel gradd ar lefel 6 – ond gan ganolbwyntio dim ond ar bynciau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu / digidol / seiber ac, yn fuan, peirianneg. Deallwn y bydd cyrsiau ategol yn cael eu darparu gan saith prifysgol yng Nghymru: Bangor, Met Caerdydd, Abertawe, Y Drindod Dewi Sant, Y Brifysgol Agored, Glyndŵr Wrecsam a Phrifysgol De Cymru. Y cyrsiau a gefnogir fyddai'r rhai y mae Llywodraeth Cymru yn credu sydd â’r potensial mwyaf ar gyfer twf. Mae’r rhain yn cynnwys TG, peirianneg a gweithgynhyrchu uwch[43]. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud wrthym nad oes “unrhyw gynlluniau i gyflwyno prentisiaethau lefel 7 mewn unrhyw faes sector.”

Ein dealltwriaeth ni yw y bydd pob fframwaith prentisiaethau yng Nghymru yn cael ei adolygu dros y tair blynedd nesaf, ac mai’r cynllun yw symud “tuag at strwythur lefel uchel o 20 – 30 ar y mwyaf”. Awgrymwyd mai "un model sy’n dod i 'r amlwg ar gyfer fframwaith yng Nghymru yw un sy’n cwmpasu galwedigaeth yn ei holl gyfanrwydd"[44]. Mewn cyferbyniad, deallwn fod Llywodraeth y DU yn bwriadu atal yr holl fframweithiau prentisiaethau cyfredol erbyn blwyddyn academaidd 2020 / 2021 yn Lloegr[45]. Mae’n debygol, felly, y bydd ymagwedd wahanol at brentisiaethau yng Nghymru a Lloegr yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

## Prentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru

Mae gwybodaeth a roddwyd i ni gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu bod y fframweithiau prentisiaethau cyfreithiol canlynol yn bodoli ar hyn o bryd yng Nghymru:

- Prentisiaeth lefel 2 cyngor cyfreithiol – yn y bôn “ymgynghorwyr cyfeirio cyfreithiol”
- Prentisiaeth lefel 3 cyngor cyfreithiol – ymgynghorydd cyfreithiol cyffredinol / gweithwyr achosion
- Gweithrediadau’r llysoedd, tribiwnlysoedd ac erlyn lefel 2 – rôl weinyddol yn y bôn
- Gweithrediadau’r llysoedd, tribiwnlysoedd ac erlyn lefel 3 – rôl weinyddol yn y bôn
- Cyfraith profiant lefel 4 – gall technegwyr profiant weithio ar faterion nad ydynt yn ddadleuol
- Prentisiaeth uwch mewn trawsgludo lefel 4 – technegydd trawsgludo
- Prentisiaeth uwch mewn trawsgludo lefel 6 – trawsgludwr

Ar wahân, rydym wedi cael gwybod yn ddiweddar am brentisiaeth uwch lefel 7 mewn ymarfer cyfreithiol sy’n benodol i Gymru, a gyhoeddwyd ar 23 Mawrth 2015[46]. Fodd bynnag, mae’r fframwaith hwnnw (Rhif Adnabod F303202) wedi’i restru ar hyn o bryd fel un "wedi’i archifo". Nid yw’r sefydliad dyfarnu ar gyfer y cymhwyster hwn, sef SFJ Awards, yn rhestru’r cymhwyster hwn ar ei wefan ar hyn o bryd. Tybiwn felly nad yw’r cymhwyster hwn ar gael i ymgeiswyr mwyach[47].

42 Llywodraeth Cymru. *Y Gweinidog Sgiliau yn nodi cynlluniau ar gyfer cysoni Prentisiaethau ag anghenion Economi Cymru.* 7 Chwefror 2018.
43 Llywodraeth Cymru. *Prentisiaethau Gradd yn cynnig y gorau o ddau fyd.* 18 Mawrth 2019.
44 Beyond Standards. *Maximising the value of apprenticeships in Wales.* Ionawr 2019, t17.
45 Gov.uk. *Withdrawal of apprenticeship* frameworks. 2 Mawrth 2016.
46 http://www.afo.sscalliance.org/frameworks-library/index.cfm?id=FR03202
47 http://sfjawards.com/portfolio-category/legal-and-financial-services/

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei bod yn "ymrwymedig i weithio’n rhagweithiol gyda chyflogwyr a chyrff cynrychiolaidd yn y sector cyfreithiol ar ddatblygiadau prentisiaeth hyd at lefel 5" – h.y. gradd sylfaen / HND[48], ond nid lefel israddedig lawn. Yma, gallai fod yn berthnasol ein bod yn deall bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i archwilio graddau rhan-amser yn y gyfraith ymhellach – dull amgen o ddarparu hyfforddiant cyfreithiol seiliedig-ar-waith yn lle prentisiaethau. Dyna pam ein bod wedi asesu (yn fras) y ddarpariaeth bresennol o ran graddau israddedig ac ôl-raddedig rhan-amser yn y gyfraith yng Nghymru ym mhennod pedwar o’r adroddiad hwn. Yn y bennod hon, rydym yn amlygu bod y nifer cofrestru ar gyrsiau israddedig rhan-amser yn y gyfraith yng Nghymru’n gymharol isel, o’i gymharu â chyrsiau israddedig yng Nghymru yn fwy cyffredinol.

## Hyfforddiant galwedigaethol cyfreithiol yng Nghymru: y llwybr amgen a gynigir gan CILEx

Mewn adroddiad cryno "Gweithdy Sgiliau’r Sector Cyfreithiol", a ddarparwyd i ni gan Lywodraeth Cymru, nodwyd "yn y gorffennol, roedd CILEx wedi'u cynnwys mewn fframweithiau prentisiaeth"[49]. Yng ngoleuni’r sylw hwn, daethom i’r casgliad y byddai’n ddefnyddiol i ni archwilio gweithgareddau hyfforddiant galwedigaethol cyfreithiol CILEx yn y bennod hon, yn gyffredinol a thrwy gyfeirio at weithgareddau’r sefydliad yng Nghymru.

Wrth archwilio’r mater hwn ymhellach fe wnaethom ddarganfod bod CILEx yn cynnig amrywiaeth o gymwysterau galwedigaethol y bwriedir iddynt ddarparu mynediad at broffesiwn cyfreithiol Cymru a Lloegr.

Mae’r llwybrau hyn i’r proffesiwn cyfreithiol yn cynnwys:

- Tystysgrifau / diplomâu lefel 2 ar gyfer ysgrifenyddion cyfreithiol
- Cymwysterau “rhagarweiniol” lefel 2 mewn astudiaethau cyfreithiol
- Prentisiaethau lefel 3 yn y gyfraith, yn arwain at gymhwyster paragyfreithiol
- Diplomâu lefel 3 yn y gyfraith a sgiliau cyfreithiol
- Amryw dystysgrifau lefel 3 mewn perthynas â meysydd ymarfer penodol, a’r rheiny’n cwmpasu cyfreithiad sifil, cyfraith cyflogaeth, teulu, cleientiaid preifat a chyfraith eiddo
- “Cymwysterau cymhwysedd” lefel 3, yn cynnig tystysgrif yn y gyfraith ac ymarfer a diploma proffesiynol yn y gyfraith ac ymarfer
- Diploma uwch proffesiynol lefel 6 yn y gyfraith ac ymarfer cyfreithiol, a llwybr carlam i raddedigion

Mae CILEx wedi atal ei gymwysterau lefel 4 yn ddiweddar, a oedd yn ymdrin â meysydd cyfreithiol penodol[50]. Nid ydym yn sicr pam fod y cymwysterau penodol hyn wedi cael eu hatal. Fodd bynnag, ynddo’i hun, nid yw ad-drefnu cymwysterau CILEx fel hyn yn ddatblygiad anarferol: er enghraifft, rhoddodd CILEx y gorau i’w bartneriaeth â City & Guilds mewn perthynas â’i raglen ysgrifenyddion cyfreithiol, astudiaethau cyfreithiol a gweinyddu cyfreithiol yn ddiweddar. Yn dilyn adolygiad strategol, cafodd y cymwysterau hyn eu rhoi "yn ôl ym mhortffolio CILEx"[51]. Hefyd, bydd prentisiaethau uwch CILEx mewn gwasanaethau cyfreithiol yn dod i ben erbyn Ebrill 2020. Deallwn y gallai’r cymhwyster hwn fod wedi cael ei atal oherwydd diffyg cofrestriadau lleol.

[48] Llywodraeth Cymru. *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*, Medi 2017, t4.
[49] Llywodraeth Cymru. *Gweithdy sgiliau’r sector cyfreithiol: adroddiad,* 20 Chwefror 2019, t1.
[50] www.cilex.org.uk/study/lawyer_qualifications/level_4_qualifications
[51] CILEx. *CILEx/City & Guilds Qualifications – Transfer of qualifications.*

Yn fwy cyffredinol, yng Nghymru, mae nifer o sefydliadau achrededig yn gweithredu fel canolfannau astudio ar gyfer cyrsiau CILEx. Caiff y darparwyr cyfredol, eu lleoliadau, a'r cymwysterau CILEx a gynigir yn y lleoliadau hyn, eu rhestru yn nhabl saith isod.

**Tabl saith: Canolfannau astudio CILEx cymeradwy yng Nghymru, eu lleoliadau a'r cymwysterau a gynigir**

| Darparwr | Lleoliad | Cymhwyster / cymwysterau a gynigir |
|---|---|---|
| Coleg Caerdydd a'r Fro | Caerdydd | Diploma Proffesiynol Lefel 3 yn y Gyfraith ac Ymarfer<br>Diploma Uwch Proffesiynol Lefel 6 yn y Gyfraith ac Ymarfer a Llwybr Carlam i Raddedigion |
| Coleg Caerdydd Ar-lein | Caerdydd | Fel uchod |
| Coleg Gwent | Casnewydd | Fel uchod |
| Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant | Caerfyrddin, Abertawe | Fel uchod |

Ffynhonnell: CILEx

## Niferoedd sy'n ymgymryd â phrentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru

Gan ddychwelyd yn awr at brentisiaethau cyfreithiol yn gyffredinol: mae Llywodraeth Cymru wedi darparu amryw ffynonellau data i ni ynghylch y nifer sy'n ymgymryd â phentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru. Mae'r niferoedd cyffredinol a ddarparwyd i ni yn awgrymu bod y nifer sy'n ymgymryd â hwy wedi bod yn eithriadol o fach. Rhwng 2013 a 2018, dim ond 55 o brentisiaethau cyfreithiol – ar bob lefel – y gwyddys eu bod wedi'u cychwyn. Mae hyn yn cymharu â 31,360 o brentisiaethau a gychwynnodd ar sail Cymru gyfan, mewn un flwyddyn yn unig – 2017 / 2018[52]. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn deall yn iawn pam efallai na fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried bod prentisiaethau cyfreithiol yn faes ffocws a ddylai gael blaenoriaeth.

Yn wir, hyd yn oed o fewn y proffesiwn cyfreithiol ei hun, gellid dweud yn garedig bod pwysigrwydd prentisiaethau cyfreithiol fel llwybr i mewn i broffesiwn cyfreithiol Cymru yn "ymylol". Y rheswm dros hyn yw bod cyfanswm y cohort prentisiaethau cyfreithiol aml-flwydd o 55 yn cymharu'n eithriadol o anffafriol â graddau yn y gyfraith (3,740 o fyfyrwyr y gyfraith yn astudio'r gyfraith ar lefel israddedig yng Nghymru yn 2017 / 2018), lleoedd hyfforddi LPC (380 ar gael ym mhrifysgolion Cymru) ac – yn hollbwysig – contractau hyfforddi (146 o leoedd ar gael yn 2016, y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer)[53].

Yn bwysicach, fel llwybr i broffesiwn cyfreithiol Cymru, mae'n ymddangos bod prentisiaethau'n mynd yn fwy ymylol byth, nid yn llai ymylol. Isod ceir cyfansymiau prentisiaethau cyfreithiol heb eu gwirio[54], a ddangosir ar sail lefelau prentisiaeth unigol, ar gyfer y cyfnod 2014 – 2018. Ni ddangosir data gronynnog ar gyfer 2013 / 2014 yn y tabl isod, am nad yw ar gael. Fodd bynnag, rydym yn deall mai 22 yw cyfanswm y cwbl ar gyfer eleni. Mae peth ansicrwydd a yw'r cyfanswm ar gyfer 2016 / 2017 yn dri neu bedwar o ddechreuwyr newydd. Yn y ddau achos, nid yw'r union fanylion yn bwysig. Yr hyn sy'n bwysig yw ei bod yn amlwg bod cwymp sydyn wedi bod yn y nifer sydd wedi bod yn ymgymryd â phrentisiaethau cyfreithiol yn y cyfnod diweddar, hyd yn oed o sylfaen a oedd eisoes yn isel.

52 StatsCymru. *Rhaglenni dysgu prentisiaeth a gychwynnodd fesul chwarter, rhanbarth y maent yn hanu ohono a math o raglen – blwyddyn academaidd 2017 / 2018.*
53 Jomati. *The legal sector in Wales – a rapid review. Part one,* Mawrth 2019, t22 – 23.
54 Llywodraeth Cymru. *Gweithdy sgiliau'r sector cyhoeddus: adroddiad*, 20 Chwefror 2019, t1.


### Tabl wyth: cyfansymiau a lefelau prentisiaethau, o un flwyddyn i'r llall

| Blwyddyn | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2014 / 2015 | 0 | 2 | 23 | 25 |
| 2015 / 2016 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| 2016 /2017 | 0 | 3 | 0 | 3 |
| 2017 / 2018 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Pam y gallai cyfanswm nifer y prentisiaethau cyfreithiol fod wedi gostwng yn gyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf? Mae'n ymddangos bod y data (heb ei wirio) a roddwyd i ni gan Lywodraeth Cymru yn cynnig esboniad eithaf syml. Yn ei hanfod, ymddengys fod prentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru wedi cael eu lansio gyda nifer fach iawn o gefnogwyr yn y diwydiant – dim ond naw practis cyfreithiol i gyd (yr oedd dau ohonynt - Admiral a BDE law – yn sefydliadau cysylltiedig). Ni wnaeth y cohort craidd hwn arallgyfeirio'n arbennig wedyn mewn blynyddoedd diweddarach, i gynnwys nifer fwy o gyflogwyr ychwanegol yn sector cyfreithiol Cymru. O ganlyniad, pan wnaeth cefnogwyr cynnar mwyaf brwdfrydig rhaglen prentisiaethau cyfreithiol Cymru leihau cyfansymiau eu dysgwyr yn ddiweddarach, achosodd hyn i'r cyfansymiau cyffredinol o flwyddyn i flwyddyn gwympo. Er enghraifft, gostyngodd cyfanswm dechreuwyr prentisiaethau Admiral (heb ei wirio) o 10 yn 2013 i chwech yn 2014 a dau yn 2016, cyn dod i ben yn llwyr. Yn yr un modd, cwympodd cyfanswm prentisiaethau NewLaw (heb ei ddilysu) o uchafbwynt o wyth yn 2014 i un yn 2015, a dim un yn y blynyddoedd dilynol. Ein dealltwriaeth ni yw nad oedd y gyfradd llwyddo ymhlith ymgeiswyr peilot yn uchel[55]. Gall hyn esbonio niferoedd is yr ymgeiswyr mewn blynyddoedd diweddarach.

### Ffigur pump: dosbarthiad anwastad cyflogwyr prentisiaethau cyfreithiol, 2013 – 2017




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

55 Ibid, t1.

## Ble yn awr i brentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru?

Fel a grybwyllwyd eisoes, ein dealltwriaeth ni yw y bydd prif ffocws Llywodraeth Cymru, yn y dyfodol, ar brentisiaethau lefel 4 ac uwch. Ond, mewn perthynas â'r sector cyfreithiol yn benodol, ein dealltwriaeth ni yw bod y cymorth ar gyfer prentisiaethau cyfreithiol ychydig yn fwy eang, gan gwmpasu cymwysterau o lefelau 2 i 5 gan gynnwys y lefelau hynny. Bydd hyn, yn ôl y bwriad, yn darparu ar gyfer dilyniant i fyny'r ysgol gymwysterau. Rhaid aros i weld a fydd y lefel ehangach hon o gymorth gan Lywodraeth Cymru yn trosi'n niferoedd uwch sy'n ymgymryd â phrentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru yn y dyfodol. Fel a nodwyd eisoes yn nhabl wyth uchod, roedd y nifer uchaf o ran y rhai sy'n ymgymryd â phrentisiaethau yng Nghymru ar lefel 4, yn hytrach nag ar lefelau 2, 3 neu 5.

Wrth gwrs, mae'n bosibl y gallai'r nifer sy'n ymgymryd â phrentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru fod yn amlwg yn wahanol yn y dyfodol – ac yn fwy llwyddiannus o'i gymharu â'r hyn sydd wedi digwydd o'r blaen. Mae'n nodedig o ffigur pump uchod nad oedd llawer o gwmnïau cyfreithiol mwyaf Cymru yn ymddangos fel petaent yn cymryd rhan yn y rhaglen prentisiaethau cyfreithiol, a oedd yn cael ei dominyddu gan bractisiau cyfreithiol "amgen" yn arddull "cyfraith newydd" yng Nghymru. Yn fwy cadarnhaol, yn ystod ein trafodaethau gyda chwmnïau cyfreithiol mwy traddodiadol Cymru – a gynhaliwyd fel rhan un o'n hymchwil – deallwn fod gweithgor wedi'i greu, gyda'r bwriad o archwilio dull cyffredin a allai ailfywiogi cynllun prentisiaethau cyfreithiol Cymru. Pe bai'r cwmnïau hyn yn ymuno – a phe ellid perswadio cwmnïau fel Admiral / BDE a NewLaw i ailddechrau eu cynlluniau prentisiaethau cyfreithiol hefyd, mae'n bosibl y byddai modd dod â chynllun prentisiaethau cyfreithiol Cymru yn ôl yn fyw. Rydym felly yn annog Llywodraeth Cymru i barhau â'i hymwneud â chymuned practisiau preifat cyfreithiol Cymru – yn gyflogwyr "traddodiadol" a "chyfraith newydd" a chyflogwyr y sector cyhoeddus, gyda'r bwriad o ganfod a oes digon o alw am brentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru i'w galluogi i gael eu hailgychwyn. Rydym yn awgrymu bod hyn yn un enghraifft lle gallai ymgysylltiad rhagweithiol â'r sector cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â hunan-drefnu gweithredol gan y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru - esgor ar ganlyniadau pendant.

O ran lleihau ataliadau strwythurol ar y nifer sy'n ymgymryd â phrentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru, mae'n bosibl y gallai'r "rhwystr rheolau" hefyd fod yn atal rhai ymgeiswyr posibl rhag cymryd lleoedd. I egluro: ein dealltwriaeth ni yw na all unrhyw un sydd eisoes wedi cwblhau gradd yn y gyfraith ddilyn hyfforddiant pellach yn y sector cyfreithiol trwy brentisiaeth. Rydym yn ymwybodol bod y rheol benodol hon wedi atal un cyflogwr mawr yng Nghymru rhag rhoi hyd at 60 o ymgeiswyr posibl trwy gynllun prentisiaethau trawsgludo, gan bod y darpar ymgeiswyr hynny eisoes yn meddu ar raddau yn y gyfraith. Y gŵyn am y rheol hon yw, er bod gradd yn y gyfraith yn cynnig dealltwriaeth gyffredinol am bwnc i fyfyrwyr, mae cynllun prentisiaeth arbenigol yn arfogi ymgeiswyr â sgiliau penodol i ymgymryd â thasg benodol[56].

Yn reddfol, rydym yn cyd-fynd â'r syniad o ddileu rhwystrau sy'n atal darpar ymgeiswyr rhag cwblhau hyfforddiant sy'n uniongyrchol berthnasol i'w cyflogaeth – hyd yn oed os yw ar lefel is o ran cyrhaeddiad addysgol na'r hyn y mae ymgeisydd eisoes wedi cymhwyso ar ei gyfer. Yn y bôn, rydym yn credu y dylai astudio ar gyfer cymhwyster galwedigaethol neu beidio fod yn benderfyniad y maent hwy a'u cyflogwyr yn ei wneud, heb rwystrau artiffisial a osodir gan y wladwriaeth. Am y rheswm hwnnw, byddem yn gyfforddus pe bai Llywodraeth Cymru yn gallu dileu'r rhwystr penodol hwn rhag ymgymryd â phrentisiaethau cyfreithiol. Wedi dweud hynny, rydym hefyd yn cydnabod y gallai fod goblygiadau cyllidebol sylweddol i ddatblygiad o'r fath – yn enwedig os caiff ei weithredu ar sail aml-sector.

[56] Llywodraeth Cymru. *Gweithdy sgiliau'r sector cyfreithiol: adroddiad,* 20 Chwefror 2019, t4.

Yn fwy cyffredinol, rydym hefyd yn cydnabod bod tensiwn cynhenid rhwng prentisiaethau â ffocws penodol iawn, sydd wedi'u bwriadu i alluogi ymgeiswyr i gyflawni tasgau penodol, a phrentisiaethau ehangach a allai fod ag apêl o fewn y diwydiant. Yma, nodwn hefyd fod Llywodraeth Cymru yn ffafrio symud tuag at fframweithiau ehangach ar draws y diwydiant. Os caiff ei weithredu, yna mae'n bosibl y gall cymhwyster prentisiaeth gyfreithiol ehangach gynyddu'r galw ymhlith ymgeiswyr y byddai'n well ganddynt ennill cymhwyster eang, tra'i fod ar yr un pryd yn llethu'r galw ymhlith darpar ymgeiswyr a fyddai â diddordeb mewn astudio ar gyfer cymhwyster prentisiaeth arbenigol. Efallai mai'r unig ffordd o sgwario'r cylch hwn yw y dylanwadir yn gryf ar unrhyw fframwaith prentisiaethau cyfreithiol newydd ar draws y diwydiant yn y dyfodol gan anghenion y practisiau cyfreithiol hynny yng Nghymru sydd fwyaf tebygol o gyflogi prentisiaid cyfreithiol yn y dyfodol. Nid yn gymaint "os byddwch yn ei adeiladu byddant yn dod", ond "datblygwch ddealltwriaeth eglur am yr hyn y mae ymgeiswyr / cyflogwyr yn y sector cyfreithiol yn debygol o'i gefnogi, a dyluniwch gymhwyster lefel-uchel yn unol â hynny."

## Y nifer sy'n ymgymryd â chymwysterau CILEx, a chymwysterau galwedigaethol tebyg, yng Nghymru

Yn ei sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder, sonia CILEx fod ganddo fwy na 1,000 o aelodau o CILEx sy'n byw yng Nghymru neu gerllaw[57]. Fe wnaeth y sylw hwn ein hysgogi i archwilio pa mor boblogaidd y gallai cyrsiau galwedigaethol CILEx fod yn y wlad. Archwiliwyd y mater hwn drwy echdynnu data ynghylch "cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill" sydd "ar gael i ddysgwyr" ar hyn o bryd mewn perthynas â'r "gyfraith a gwasanaethau cyfreithiol" o wefan Cymwysterau Cymru. Mae tablau naw a 10 isod yn dangos faint o dystysgrifau a ddyroddwyd bob blwyddyn, ar gyfer pob cymhwyster hyfforddiant galwedigaethol sy'n gysylltiedig â'r gyfraith, rhwng 2013 a 2018. Er mwyn gwahaniaethu rhwng cymwysterau sy'n boblogaidd ar hyn o bryd, a chymwysterau poblogaidd blaenorol, mae tabl naw yn nodi'r cymwysterau hynny lle dyroddwyd o leiaf un dystysgrif yn 2018. Mewn cyferbyniad, mae tabl 10 yn nodi'r cymwysterau hynny lle na ddyroddwyd tystysgrifau cwblhau yn 2018, ond lle'r oedd rhai wedi cael eu dyrannu yn y pum mlynedd flaenorol.

Ar ôl coladu data Cymwysterau Cymru, canfuom fod y cyfansymiau ar gyfer cwblhau cymwysterau, a ddangosir yn nhablau naw a 10 isod, yn syndod o uchel, o ystyried eu bod i fod i ddangos cyfansymiau Cymru yn unig. Am y rheswm hwnnw, fe wnaethom gwestiynu cywirdeb y data gyda phersonél Cymwysterau Cymru. Mewn ymateb, cawsom gadarnhad y dylem – yn wir – drin y ffigurau a gawsom â phwyll. Y rheswm dros hyn oedd "yng nghyd-destun dysgu o bell mae'n gwbl bosibl bod dysgwyr nad ydynt yng Nghymru yn cael eu hasesu'n dechnegol mewn canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru er nad ydynt hwy wedi'u lleoli yng Nghymru mewn gwirionedd." Nodwyd hefyd, "ar ôl sylwi ar yr anghysondeb posibl hwn, rydym wedi bod yn gweithio gyda chyrff dyfarnu i wella'r diffiniad o dystysgrifau CG Cymru yn y dyfodol (gan geisio ymgorffori cod post dysgwyr lle bynnag y gallwn)".

[57] Y Comisiwn ar Gyfiawnder. *Sylwadau gan y Sefydliad Siartredig Gweithredwyr Cyfreithiol (CILEx),* Mehefin 2018, t2.

**Tabl naw: tystysgrifau hyfforddiant cyfreithiol galwedigaethol sy'n boblogaidd ar hyn o bryd a ddyroddwyd yng Nghymru, 2013 – 2018**

| Corff Dyfarnu | Teitl y cymhwyster | Cyfanswm 2018 | Cyfanswm 2017 | Cyfanswm 2016 | Cyfanswm 2015 | Cyfanswm 2014 | Cyfanswm 2013 | Cyfanswm y cwbl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CILEx | Tystysgrif Lefel 6 CILEx yn y Gyfraith | 150 | 140 | 240 | 120 | 0 | 0 | 500 |
| Pearson | Tystysgrif BTEC Lefel 3 Pearson mewn Cyfraith Gymhwysol (FfCCh) | 115 | 115 | 85 | 85 | 20 | 40 | 345 |
| Pearson | Diploma Atodol BTEC Lefel 3 Pearson mewn Cyfraith Gymhwysol (FfCCh) | 85 | 75 | 70 | 65 | 15 | 50 | 275 |
| Pearson | Tystysgrif BTEC Lefel 2 Pearson yn y Gyfraith a Gwaith Cyfreithiol | 20 | 35 | 70 | 30 | 10 | 40 | 185 |
| CILEx | Tystysgrif Lefel 3 CILEx yn y Gyfraith ac Ymarfer | 40 | 40 | 60 | 35 | 0 | 0 | 135 |
| CILEx | Diploma Lefel 6 CILEx mewn Ymarfer Cyfreithiol | 30 | 15 | 35 | 10 | 0 | 0 | 60 |
| CILEx | Tystysgrif Lefel 3 CILEx mewn Cyfreithiad Sifil | 10 | 15 | 25 | 10 | 15 | 0 | 65 |
| CILEx | Diploma Lefel 3 CILEx yn y Gyfraith ac Ymarfer | 15 | 15 | 25 | 20 | 0 | 0 | 60 |
| CILEx | Tystysgrif Lefel 3 CILEx mewn Eiddo | 5 | 0 | 15 | 10 | 10 | 0 | 35 |

Ffynhonnell: Cymwysterau Cymru

Rydym yn siomedig yn naturiol nad yw felly'n bosibl i Jomati gynnal gwerthusiad cywir o boblogrwydd gwahanol gymwysterau galwedigaethol CILEx yng Nghymru. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod ein dadansoddiad cychwynnol wedi bod yn ymarfer cwbl ofer. Mae'r ymchwiliad hwn wedi ein harwain i wneud nifer o sylwadau am gymwysterau galwedigaethol cyfreithiol na fyddem wedi'u darganfod fel arall. Credwn ei bod yn werth rhannu'r sylwadau hynny gyda Llywodraeth Cymru, gan ei bod yn ymddangos eu bod yn uniongyrchol berthnasol i'r drafodaeth ynglŷn â dyfodol prentisiaethau cyfreithiol yn y wlad. Er enghraifft, rydym wedi darganfod, yn ogystal â CILEx, bod Pearson hefyd i'w weld yn ffigwr pwysig ym marchnad hyfforddiant galwedigaethol cyfreithiol Cymru a Lloegr. Mewn cyferbyniad, ymddengys fod Agored Cymru, sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd, wedi tynnu allan o'r farchnad hon. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gymwysterau sy'n gysylltiedig â'r gyfraith wedi'u rhestru ar wefan y sefydliad hwn.

Rydym hefyd yn nodi poblogrwydd cyson dau gymhwyster galwedigaethol cyfreithiol lefel 6 CILEx yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cymwysterau hyn, yn nodedig, un lefel yn uwch na lefel 5 – y lefel uchaf y mae Llywodraeth Cymru wedi addo ei chefnogi mewn perthynas â gwasanaethau cyfreithiol. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r lefel uwch hon o brentisiaethau fod yn deilwng o gymorth Llywodraeth Cymru, yn y dyfodol. Wedi dweud hynny, rydym hefyd yn

ymwybodol o ymchwil ddiweddar a wnaed gan y Fforwm Partneriaid Rheoli, a awgrymodd y gallai'r cynnydd enfawr yn y prentisiaethau lefel 5 i 7 fod oherwydd bod 'hyfforddeion' yn aml yn cael eu labelu fel 'prentisiaid'[58]. Os yw'n wir, mae'r darganfyddiad hwn yn cymhlethu ein hymdrechion i gael darlun cywir o sefyllfa bresennol y farchnad prentisiaethau cyfreithiol ymhellach.

**Tabl 10: tystysgrifau hyfforddiant cyfreithiol galwedigaethol a oedd yn boblogaidd yn flaenorol a ddyroddwyd yng Nghymru, 2013 – 2018**

| Corff Dyfarnu | Teitl y Cymhwyster | Cyfanswm 2018 | Cyfanswm 2017 | Cyfanswm 2016 | Cyfanswm 2015 | Cyfanswm 2014 | Cyfanswm 2013 | Cyfanswm y cwbl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Agored Cymru | Dyfarniad Lefel 2 Agored Cymru mewn Cymryd Rheolaeth ar Nwyddau | 0 | 90 | 0 | 0 | 0 | 0 | 90 |
| Agored Cymru | Dyfarniad Lefel 2 Agored Cymru mewn Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth (FfCCh) | 0 | 0 | 10 | 25 | 15 | 0 | 50 |
| CILEx | Tystysgrif Lefel 2 CILEx mewn Astudiaethau Cyfreithiol | 0 | 0 | 0 | 15 | 40 | 15 | 70 |
| CILEx | Tystysgrif Lefel 3 CILEx mewn Ymarfer Teulu | 0 | 10 | 5 | 5 | 10 | 0 | 30 |
| CILEx | Diploma Lefel 2 CILEx mewn Astudiaethau Cyfreithiol | 0 | 5 | 15 | 5 | 0 | 0 | 25 |
| Agored Cymru | Dyfarniad Lefel 4 Agored Cymru mewn Gwasanaethau sy'n Gysylltiedig â Chyngor, Arweiniad a Chyflogaeth yng Nghymru (FfCCh) | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 | 0 | 20 |
| CILEx | Dyfarniad Lefel 2 CILEx mewn Astudiaethau Cyfreithiol | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | 10 | 15 |
| CILEx | Diploma Lefel 6 CILEx yn y Gyfraith ac Ymarfer | 0 | 10 | 0 | 5 | 0 | 0 | 15 |
| SQA | Tystysgrif Lefel 2 SQA mewn Gwybodaeth am Weinyddu Llysoedd/Tribiwnlysoedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 0 | 10 |
| CILEx | Tystysgrif Lefel 3 CILEx mewn Ymarfer Cleientiaid Preifat | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| CILEx | Tystysgrif Lefel 3 CILEx mewn Ymarfer Cyflogaeth | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| SQA | Diploma NVQ Lefel 2 SQA mewn Gweinyddu Llysoedd/ Tribiwnlysoedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | 5 |
| Agored Cymru | Dyfarniad Lefel 3 Agored Cymru mewn Gwasanaethau sy'n Gysylltiedig â Chyngor, Arweiniad a Chyflogaeth yng Nghymru (FfCCh) | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | 5 |

Ffynhonnell: Cymwysterau Cymru

[58] Y Fforwm Partneriaid Rheoli. *2019 survey on the UK apprenticeship levy,* t1.

## Casgliadau ac argymhellion

Mae data a roddwyd i ni gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu bod y nifer sy’n ymgymryd â phrentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru wedi bod yn isel iawn, ac wedi dod i ben yn gyfan gwbl yn 2017 / 2018. Fodd bynnag, mae data cymwysterau Cymru yn awgrymu ei bod yn amlwg bod marchnad ar gyfer cymwysterau galwedigaethol cyfreithiol. Mae’n wir bod y cymwysterau a oedd yn cael eu cynnig gan Agored Cymru wedi peidio â bod yn boblogaidd yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, nid felly y mae hi gyda’r cymwysterau hynny a gynigir gan sefydliadau fel CILEx a Pearson. Awgrymwn felly y dylai unrhyw drafodaeth yn y dyfodol am brentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru ystyried poblogrwydd y cymwysterau a gynigir gan y ddau ddarparwr penodol hyn. Un opsiwn a fyddai’n agored i Lywodraeth Cymru o bosibl fyddai creu cymhwyster prentisiaeth gyfreithiol sy’n wahanol i’r hyn a gynigir gan CILEx a Pearson, er mwyn ysgogi mwy o gystadleuaeth o fewn y farchnad. Opsiwn arall efallai fyddai gwahodd CILEx a Pearson i dendro i ddarparu unrhyw fframwaith prentisiaeth gyfreithiol yn y dyfodol, ar y sail bod gan y ddau sefydliad hanes profedig yn y maes hwn.

Yn fwy cyffredinol, awgrymwn fod ansawdd y data presennol ar brentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru yn wael ar hyn o bryd, ac nad yw’n ddelfrydol ar gyfer llunio polisi mewn modd deallus. Awgrymwn felly fod Llywodraeth Cymru yn cynnal proses adolygu mewn dau gam o’r data sydd ar gael iddi, fel rhagarweiniad i unrhyw adolygiad o brentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru.

Yn gyntaf, awgrymwn y dylai Llywodraeth Cymru ddarganfod yn glir i ba raddau y mae prentisiaethau cyfreithiol lefel uwch, mewn gwirionedd, yn swyddi hyfforddeion sydd wedi cael bathodyn newydd. Yng ngoleuni ei ymchwil i’r pwnc hwn, gallai’r Fforwm Partneriaid Rheoli fod yn sefydliad partner addas i gynorthwyo gyda chasglu mewnwelediadau o’r fath. Dim ond os yw Llywodraeth Cymru wedi ei hargyhoeddi ei hun nad yw prentisiaethau lefel uwch, mewn gwirionedd, yn swyddi hyfforddeion sydd wedi cael bathodyn newydd, y dylai ystyried ehangu ei chefnogaeth i brentisiaethau cyfreithiol o lefel 5 i lefel 6.

Yn ail, awgrymwn y dylai Llywodraeth Cymru geisio deall yn fwy eglur pa gymwysterau galwedigaethol cyfreithiol sydd fwyaf poblogaidd yng Nghymru ar hyn o bryd – yn seiliedig ar leoliad cartref yr ymgeisydd sy’n cael ei asesu, yn hytrach na lleoliad y ganolfan asesu. Unwaith eto, bydd gwerthusiad o’r fath yn helpu i gadarnhau natur y farchnad ar gyfer prentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru.

Dim ond ar ôl cwblhau’r ddau ymarfer hyn y dylai Llywodraeth Cymru geisio cynhyrchu fframwaith cymwysterau galwedigaethol cyfreithiol newydd i Gymru. Wrth bennu cynnwys y fframwaith hwnnw, awgrymwn mai hwyluso’r broses o ddarparu cymwysterau y mae’n amlwg bod galw amdanynt ddylai prif rôl Llywodraeth Cymru fod.

# Pennod chwech: Cymorth Llywodraeth Cymru i'r sector cyfreithiol

Yn ystod ein proses ymchwil, gwelsom sawl enghraifft o gymorth blaenorol gan Lywodraeth Cymru i'r sector cyfreithiol yng Nghymru. Roedd rhywfaint o'r cymorth hwn yn gymorth i'r sector cyfreithiol yn benodol, tra bod cymorth arall yn cael ei gynnig i'r sector gwasanaethau proffesiynol yng Nghymru yn ei gyfanrwydd. Isod, rydym yn nodi'r mecanweithiau cymorth pwysicaf yn ein tyb ni yr ydym wedi gallu eu hadnabod yn yr amser a oedd ar gael i gwblhau'r adolygiad cyflym hwn. Rydym hefyd yn cynnig ein dadansoddiad ni o ganlyniadau'r mecanweithiau cymorth hyn, ynghyd â rhai awgrymiadau ar gyfer gweithgarwch Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

### Ardal Fenter Canol Caerdydd

Diben cyffredinol Ardal Fenter Canol Caerdydd (AFCC) oedd helpu i "greu un o brif leoliadau'r DU ar gyfer y sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, gyda'r nod o ddenu buddsoddiad newydd, hwyluso datblygiad swyddfeydd newydd o ansawdd da, seilwaith ategol arall a chreu swyddi cynaliadwy newydd o ansawdd da"[59]. Mewn perthynas â'r sector cyfreithiol, fe wnaeth dyfodiad AFCC yn sicr ddwyn llwyddiant cymedrol. Fe wnaeth y datblygiadau seilwaith newydd a hwyluswyd gan AFCC alluogi cwmnïau cyfreithiol â phresenoldeb yng Nghaerdydd yn barod – yn anad neb Blake Morgan  a Hugh James[61] – i adleoli i swyddfeydd o ansawdd gwell yn y ddinas. Ar ôl adleoli fel eu bod o fewn ffiniau AFCC, gellid dadlau bod y cwmnïau hyn bellach yn sail i "hwb" cyfreithiol yng Nghaerdydd, sydd hefyd yn cynnwys cwmnïau fel Eversheds a Lewis Silkin. Mae'r ddau gwmni olaf hyn wedi bod yng nghanol Caerdydd ers cyn bodolaeth AFCC.

Yn ogystal â helpu i hwyluso datblygiad swyddfeydd newydd o ansawdd da yng nghanol Caerdydd, un o amcanion eraill AFCC oedd "anelu at greu cyfleoedd mewnfuddsoddi newydd (trwy ddenu swyddogaethau canol a chefn swyddfa o Lundain)"[62]. Yma, roedd llwyddiant mwyaf nodedig AFCC yn ymwneud â'r sector cyfrifyddiaeth: Canolfan Gyflenwi Gyfagos (NDC) Deloitte yng Nghaerdydd, a agorodd ym mis Rhagfyr 2015[63]. Mae Deloitte, un o'r "Pedwar Mawr" ymhlith holl bractisiau cyfrifyddiaeth y byd, wedi dweud yn ddiweddar ei fod yn bwriadu cyflogi 1,300 – 1,500 o bersonél yn ei Ganolfan Gyflenwi Gyfagos yng Nghaerdydd erbyn 2023[64].

Yn y cyfnod y mae AFCC wedi bod mewn bodolaeth, mae'r arfer gan bractisiau cyfreithiol o sefydlu canolfannau "cyfagos" yn y DU wedi dod yn ffenomen arwyddocaol. Yn anffodus, fel y nodwn ym mhennod 14 o'r adroddiad hwn, mae'r rhan fwyaf o'r buddsoddi mewn sefydlu canolfannau gwasanaethau cyfagos gan bractisiau cyfreithiol yn y DU sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod mewn lleoliadau ar wahân i Gaerdydd. Heddiw, mae nifer o ddinasoedd y DU bellach yn gartref i un – neu fwy –o ganolfannau gwasanaethau cyfagos, sy'n perthyn i rai o gwmnïau cyfreithiol mwyaf y byd. Mewn cyferbyniad, ar hyn o bryd mae Caerdydd yn gartref i un yn unig o brif ganolfannau gwasanaethau cyfreithiol y DU – Lewis Silkin[65]. Mae Lewis Silkin yn bractis cyfreithiol sydd yn y 60 uchaf, pan gaiff practisiau eu rancio yn ôl refeniwiau yn y DU[66].

[59] *Cynllun Strategol Ardal Fenter Canol Caerdydd* 2015 – *diweddarwyd ym mis Gorffennaf* 2017, t5.
[60] Wales Online. *In Cardiff's newest office building - how Blake Morgan found the experience of being the first tenants in 1 Central Square,* 16 Ebrill 2016
[61] Hugh James. *Hugh James to relocate to Central Square,* 12 Rhagfyr 2016.
[62] *Cynllun Strategol Ardal Fenter Canol Caerdydd 2015 – diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2017*, t5.
[63] Deloitte. *First Minister of Wales opens new Deloitte office in Park Street, Cardiff*, 2 Rhagfyr 2015
[64] Wales Online. *Deloitte on track to create hundreds of new jobs in Cardiff*, 28 Ionawr 2019.
[65] The Law Society Gazette. *Cardiff: Our launch pad for expansion,* 25 Medi 2018.
[66] The Lawyer. *The Lawyer's top 200 UK law firms revealed*, 15 Hydref 2018.

## Denu practisiau cyfreithiol sy'n sefydlu canolfannau cyfagos i Gaerdydd yn y dyfodol: yr heriau a'r cyfleoedd

Fel a nodwyd eisoes, y gobaith oedd y byddai AFCC yn creu "un o brif leoliadau'r DU ar gyfer y sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol" – yn rhannol trwy ddenu swyddogaethau canol a chefn swyddfa o Lundain. Yng ngoleuni'r amcan hwn, credwn y byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru ddeall pam fod cymaint o bractisiau cyfreithiol a sefydlodd ganolfannau cyfagos yn y DU wedi penderfynu lleoli eu Canolfan Gwasanaethau mewn lleoliadau heblaw Caerdydd. Rydym yn gobeithio y bydd ein mewnwelediadau, a gafwyd o siarad gyda'r rhai a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â phenderfyniadau blaenorol ynglŷn â lleoli canolfannau cyfagos cwmnïau cyfreithiol, yn galluogi Llywodraeth Cymru i ailgyflunio unrhyw ymdrechion yn y dyfodol i ddenu'r math hwn o fewnfuddsoddiad, pe bai'n penderfynu dilyn strategaeth o'r fath yn y dyfodol. Yn wir, o ystyried llwyddiant Llywodraeth Cymru wrth ddenu Deloitte i AFCC, awgrymwn hefyd sut y gellid trosglwyddo'r llwyddiant hwn i'r sector cyfreithiol.

Y pwynt cyntaf y mae'n werth ei wneud yw bod Caerdydd wedi'i chynnwys ar restrau gwerthuso nifer o gwmnïau cyfreithiol, o ran lleoliadau posibl ar gyfer canolfannau gwasanaethau. Mae hyn yn awgrymu na fyddai angen i Lywodraeth Cymru wario symiau mawr o arian, dim ond i roi Caerdydd "ar radar" penderfynwyr ynghylch sefydlu canolfannau cyfagos yn y sector cyfreithiol yn y dyfodol. Awgryma profiad fod Caerdydd ar y radarau hynny a'i bod yn debygol o fod yn y dyfodol.

Yn ail, mae ein hymchwil yn awgrymu – er gyda lefelau amrywiol o soffistigeiddrwydd – y gwnaeth cwmnïau cyfreithiol dynnu i raddau helaeth ar feini prawf dethol dideimlad wrth werthuso eu buddsoddiadau arfaethedig mewn canolfannau gwasanaethau. Mae ein cyfweliadau â phenderfynwyr blaenorol ynghylch canolfannau gwasanaethau yn awgrymu bod maint poblogaeth ardal, ei chyflogau cyfartalog, costau eiddo, safonau addysg lleol, ac ystyriaethau megis a ellid sicrhau bod acenion yn hawdd i'w deall i weithlu rhyngwladol, oll wedi bod yn ystyriaethau a gafodd sylw wrth bennu'r rhestr fer ar gyfer eu lleoliad. Roedd ansawdd y cysylltiadau trafnidiaeth â swyddfeydd eraill y cwmni hefyd yn ystyriaeth a grybwyllwyd dro ar ôl tro. I rai cwmnïau, yn enwedig y rhai â threftadaeth gref yn y DU, golygai hyn gysylltiadau rheilffordd cyflym â Llundain. I eraill, yn enwedig ymhlith y rhai â mwy o dreftadaeth drawsffiniol, roedd ansawdd cysylltiadau maes awyr lleol y lleoliad yn bwysig iawn hefyd. At hynny, gan bod canolfannau gwasanaethau fel arfer yn cyflogi ystod eang o bersonél, yn staff cyfreithiol a staff cymorth, roedd ehangder a dyfnder y gronfa dalent hefyd yn bwysig.

Yn gadarnhaol, ar ôl tynnu ar y meini prawf dideimlad hyn ar gyfer pennu rhestr fer, mae un cyfwelai yn cofio, allan o 200 o leoliadau a werthuswyd ganddynt yn fyd-eang, fod Caerdydd wedi dod i'r brig ac Abertawe wedi dod yn 13eg. Sgoriodd Caerdydd yn uchel iawn mewn perthynas â'i phoblogaeth o oedran gweithio, galluoedd pobl dros lefel cyrhaeddiad addysgol 'lefel pedwar', cyflogau cyfartalog, costau eiddo tiriog, ac amddifadedd cyflogaeth, yn ôl atgof yr unigolyn hwn. Mae cyfwelai arall yn cofio "I'm happy to say that Cardiff was one of the top four locations we evaluated and could probably even be described as an early front runner". O ystyried bod y ddau unigolyn hyn yn gweithio, ar y pryd, i ddau o bractisiau cyfreithiol mwyaf y byd, mae hyn yn gymeradwyaeth sylweddol i atyniad Caerdydd fel lleoliad posibl ar gyfer canolfannau gwasanaethau cyfagos gan gwmnïau cyfreithiol.

Yn fwy cadarnhaol fyth, ar ôl cyfweld â Wayne Harvey, Pennaeth Canolfan Gyflenwi Gyfagos Deloitte yng Nghaerdydd, yn ystod ein hymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn, gallwn gadarnhau bod Deloitte wrthi'n ystyried defnyddio'i Ganolfan Gyflenwi Gyfagos yng Nghaerdydd i ddarparu cymorth ar gyfer ei rwydwaith byd-eang cynyddol o bractisiau cyfreithiol. Cadarnhaodd Mr Harvey bod Canolfan Gyflenwi Gyfagos Deloitte yng Nghaerdydd eisoes yn ymdrin â materion sy'n

gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyfreithiol, megis y rhai sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth reoleiddiol i atal gwyngalchu a chyllid corfforaethol. Yn y dyfodol, mae potensial hefyd i ddefnyddio'r Ganolfan Gyflenwi Gyfagos i helpu i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol mewn perthynas â materion fel mewnfudo busnes ac ailstrwythuro corfforaethol. Mae'r Ganolfan Gyflenwi Gyfagos yn cael ei defnyddio eisoes i ddatblygu datrysiadau o ran Technoleg Gyfreithiol / Deallusrwydd Artiffisial Cyfreithiol, ar gyfer defnydd mewnol ac allanol. Nid oedd union ffurf a chwmpas Canolfan Gyflenwi Gyfagos Deloitte yng Nghaerdydd mewn perthynas â chymorth i wasanaethau cyfreithiol yn y dyfodol yn glir eto, cyfaddefodd Mr Harvey – ond mae rhyw fath o rôl yn debygol, meddai.

Gan ddychwelyd at fater yr hyn sy'n gwneud lleoliad yn ddeniadol i benderfynwyr ynglŷn â sefydlu canolfannau cyfagos gan bractisiau cyfreithiol, cafodd canfyddiadau am asiantaethau buddsoddi lleol eu crybwyll hefyd gan sawl unigolyn a gyfwelwyd gennym. Yng ngeiriau un cyfwelai roedd natur ymatebol a rhagweithiol ganfyddedig yr asiantaethau hyn "not a decisive factor, but they certainly helped smooth the process". Yn yr un modd, nid oedd argaeledd grantiau, ynddo'i hun, yn bwynt gwerthu, yn rhannol am eu bod yn gyffredin i lawer o leoliadau, a hefyd oherwydd y byddent fel arfer yn rhoi cyfrif am ganran fach o'r buddsoddiad yn y ganolfan gwasanaethau yn y pen draw. Yn wir, roedd un cyfwelai yn cofio na wnaethant hyd yn oed drafferthu gwneud cais am gymorth ariannol, er ei fod ar gael. Yn fwy cyffredinol, roedd nifer o'n cyfweleion yn canmol defnyddioldeb pwyntiau cyswllt gwasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol Llywodraeth Cymru, a oedd yn adnabyddus iawn iddynt yn bersonol. Roedd y posibilrwydd o ymdrin â llywodraeth, yn hytrach na bwrdd datblygu rhanbarthol neu gyngor yn ystyriaeth gadarnhaol gref, ychwanegodd un cyfwelai, gan ddweud "there would have been a degree of cachet in having a Welsh nearshore office opened by a First Minister rather than a local council leader."

O ystyried bod yr adborth gan nifer o benderfynwyr allweddol mewn cwmnïau cyfreithiol yn gadarnhaol ar y cyfan, pam na chafodd Caerdydd ei dewis yn y pen draw fel lleoliad ar gyfer canolfannau gwasanaethau cyfagos gan y cwmnïau hynny? Yn achos un practis cyfreithiol, roedd yr amser teithio (bryd hynny) o Ddinas Llundain i Paddington, ac ymlaen i Gaerdydd, yn nodwedd negyddol amlwg. Yn yr un modd, o ran teithio awyr, sgoriodd Maes Awyr Caerdydd yn wael mewn perthynas â'i gysylltiadau busnes rhyngwladol. Fel yr esboniodd un penderfynwr allweddol, y bwriad oedd y byddai'r ganolfan wasanaethau'n gyrchfan yr oedd y cwmni'n bwriadu ei "frolio", yn fewnol i'w staff ei hun a hefyd yn allanol i gleientiaid a rhanddeiliaid allweddol eraill. Felly, roedd unrhyw beth a oedd yn ei gwneud yn anos i ymwelwyr rhyngwladol ymweld â'r ganolfan gwasanaethau yn cael ei ystyried yn anfantais. Fodd bynnag, nid barn gyffredinol oedd hon. Dywedodd penderfynwr arall ynglŷn â chanolfan gwasanaethau fod eu gwesteion yn y ganolfan gwasanaethau'n tueddu i ymweld â'r ganolfan ar ôl cael cyfarfodydd yn Llundain yn gyntaf. Felly, ar yr amod nad oedd y daith rhwng swyddfa'r cwmni yn Llundain, ei chanolfan gwasanaethau, a Heathrow yn arbennig o anodd nac yn cymryd llawer o amser, gellid goresgyn her cysylltiadau hedfan gwael yn lleol i'r ganolfan gwasanaethau – o bosibl trwy deithio ar y trên yn lle hynny.

Yn olaf, gan aros ar y pwynt ynglŷn â chysylltedd, awgrymodd un cyfwelai hefyd y gallai Caerdydd fod yn rhy agos at Lundain. Yn wrthreddfol braidd, awgrymodd y cyfwelai hwn y gallai fod yn well lleoli canolfan gwasanaethau cwmni ymhellach i ffwrdd o brifddinas y DU, mewn lleoliadau lle byddai gan gyflogeion y ganolfan gwasanaethau gysylltiad cryf â'u hardal leol a bwriad i aros yno. Roedd bod â chanolfan gwasanaethau o fewn pellter teithio rhwydd i brifddinas y DU yn creu perygl o gyflogi pobl a fyddai'n defnyddio eu rôl yn y ganolfan gwasanaethau fel cam tuag at adleoli i Lundain. "We certainly felt that about Birmingham," meddai'r cyfwelai hwn.

Pryder arall mewn perthynas â Chaerdydd oedd bod diffyg cefnogwyr brwd i'r ddinas fel lleoliad. Nid oedd unrhyw elyniaeth amlwg tuag at y ddinas fel lleoliad posibl ar gyfer canolfan gwasanaethau. Ond, yn anffodus, roedd gan leoliadau eraill yn y DU atyniad diwylliannol llawer cryfach ymhlith penderfynwyr allweddol y cwmni – yn enwedig y bartneriaeth. "This consideration wasn't formally built into our analysis, but it was one that was definitely articulated during the decision-making process," cyfaddefodd un cyfwelai, gan gofio bod lleiafrif sylweddol o bartneriaeth ei bractis yn hanu o ranbarth penodol yn y DU. Meddai un arall: "the geographical thing was almost humorous, and it seems was largely driven by where the partners had their holiday homes". Awgrymodd yr unigolyn hwn y byddai rhai partneriaid yn "strongly recommend X location, having grown up there – and presumably also being happy to retire there, having first headed up the SC office on full equity partner drawings".

Does dim llawer y gall Llywodraeth Cymru ei wneud, wrth gwrs, i oresgyn dewisiadau personol / diwylliannol cryf ar ran partneriaid mewn cwmnïau cyfreithiol i sefydlu canolfannau gwasanaethau cyfagos mewn lleoliadau eraill yn y DU. Er y byddai'n demtasiwn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i chwilio am unigolion dylanwadol a fagwyd yng Nghymru i lywio'r broses benderfynu hon o blaid y wlad, rydym hefyd yn credu na fyddai'r dull hwn – o anghenraid – yn helpu Caerdydd i "groesi'r llinell" fel dewis leoliad ar gyfer sefydlu canolfannau gwasanaethau cyfagos practisiau cyfreithiol. Er enghraifft, rydym yn ymwybodol o un penderfynydd allweddol ynglŷn â sefydlu canolfan gwasanaethau gyfagos cwmni cyfreithiol a fagwyd yng Nghaerdydd – ond a helpodd serch hynny i sefydlu canolfan gwasanaethau gyfagos mewn dinas arall yn y DU.

Yn lle hynny, o ystyried bod Caerdydd wedi'i dewis fel un o'r pedwar lleoliad ar restr fer derfynol dau o gwmnïau cyfreithiol mwyaf y byd, awgrymwn fod Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo Caerdydd ar sail y meini prawf y gellir eu cyfiawnhau'n wrthrychol y gwyddom eu bod berthnasol i benderfyniadau cwmnïau cyfreithiol ynglŷn â chanolfannau gwasanaethau. O ran negeseuon hyrwyddo, mae'r cysylltiadau rheilffordd a fydd yn cael eu gwella'n fuan rhwng Dinas Llundain a Chaerdydd (gan gynnwys trwy Crossrail) yn cynrychioli dadl gref o blaid y ddinas, na fydd dinasoedd fel Belfast byth yn gallu ei brolio, ac na fydd dinasoedd fel Birmingham, Leeds a Newcastle yn gallu ei chyflawni (trwy HS2) am sawl blwyddyn. Mae'n ddefnyddiol y bydd cynlluniau i ddatblygu safle presennol Bragdy Brains[67] yng Nghaerdydd yn rhoi cyfle ychwanegol yn fuan i Lywodraeth Cymru hyrwyddo Caerdydd fel lleoliad ar gyfer canolfannau gwasanaethau, diolch i gyflenwad ychwanegol o swyddfeydd o safon uchel yn union ar bwys gorsaf drenau Caerdydd Canolog. Mae hwn yn bwynt arbennig o bwysig, oherwydd soniodd nifer o gyfweleion fod pellter cerdded byr rhwng y ganolfan gwasanaethau a phrif ganolfan drafnidiaeth (h.y. gorsaf reilffordd) yn ffactor perthnasol iawn i'w penderfyniad terfynol: yn ddelfrydol, dylai'r amser cerdded hwn fod yn llai na deg munud.

Yn ogystal â hynny, pe bai maes awyr Caerdydd yn gallu cynnig mwy o gyrchfannau hedfan sy'n "cyd-fynd ag anghenion busnesau", gallai hyn hefyd wella dymunoldeb Caerdydd fel lleoliad ar gyfer canolfannau gwasanaethau cyfagos yn y DU, yn enwedig ymhlith cwmnïau cyfreithiol rhyngwladol mawr sydd wedi'u lleoli yn UDA. Os na fydd hyn yn digwydd, dylai hygyrchedd Caerdydd ar reilffyrdd, o Ddinas Llundain a Heathrow, fod yn neges y mae Llywodraeth Cymru yn ei chyfleu'n gryf i ddarpar fuddsoddwyr mewn canolfannau gwasanaethau.

[67] Wales Online. *First new building on the site of the Brains Brewery set to go ahead*, 10 Gorffennaf 2018.

Ar ben hynny, o gofio bod Deloitte eisoes yn archwilio ei opsiynau ar gyfer canolfan gyfagos o fewn y sector cyfreithiol yng Nghaerdydd, gall hyn alluogi'r ddinas i hyrwyddo ei hun fel lleoliad canolfannau gwasanaethau sy'n arbenigo mewn gwasanaethu practisiau ar ffurf partneriaethau amlddisgyblaethol (MDP). I esbonio: Mae Deloitte, ynghyd â phob un o'i gyd-gwmnïau cyfrifyddiaeth sy'n rhan o'r Pedwar Mawr, ar hyn o bryd yn cychwyn ar waith sylweddol – a chyflym - i ehangu ei alluoedd gwasanaethau cyfreithiol. Mae'r broses ehangu hon yn golygu bod y potensial y bydd ar y cwmnïau hyn angen cymorth mawr iawn ar ffurf canolfannau gwasanaethau yn y sector cyfreithiol (neu ganolfannau hybrid cyfreithiol / cyfrifyddol) yn sylweddol a gall hyd yn oed fod yn uwch na gofynion cwmnïau cyfreithiol "confensiynol" mwyaf y byd ar gyfer canolfannau gwasanaethau – y mae nifer ohonynt wedi sefydlu canolfannau gwasanaethau mewn dinasoedd eraill yn y DU.

I roi nifer cyfreithwyr byd-eang y Pedwar Mawr o blith practisiau cyfrifyddiaeth mewn cyd-destun: yn ôl amryw amcangyfrifon sydd ar gael yn gyhoeddus, mae cangen gyfreithiol PwC eisoes yn cyflogi mwy na 3,500 o gyfreithwyr mewn 100 o wledydd a rhanbarthau[68] (gan olygu bod y cwmni hwn yn cyfateb i un o'r pum cwmni cyfreithiol byd-eang uchaf yn ôl nifer y cyfreithwyr[69]); erbyn hyn, mae busnes gwasanaethau cyfreithiol KPMG yn cyflogi 2,300 o weithwyr cyfreithiol proffesiynol mewn 76 o wledydd[70] (gan olygu bod y cwmni'n un o'r 15 practis cyfreithiol byd-eang uchaf yn ôl nifer y cyfreithwyr); mae EY Law gan Ernst & Young yn cyflogi o leiaf 2,200 o ymarferwyr cyfreithiol mewn 81 awdurdodaeth yn fyd-eang[71] (sy'n cyfateb i'r 16 uchaf) ac mae cangen gyfreithiol Deloitte yn cyflogi 2,000 (yr 20 uchaf)[72]. Yn ogystal, fel rhan o'u cynlluniau i ehangu'n fyd-eang, mae pob un o'r pedwar mawr wedi addo'n ddiweddar y byddant yn ehangu eu gweithrediadau cyfreithiol yn y DU. Ac, fel y mae Canolfan Gyflenwi Gyfagos Deloitte yng Nghaerdydd wedi'i ddangos yn barod, mae'r Pedwar Mawr yn rhoi pwyslais trwm ar arloesi mewn ymarfer cyfreithiol a Thechnoleg Gyfreithiol fel rhan o'u proses i ehangu eu gwasanaethau cyfreithiol.

Fel y gwelwn, mae'r Pedwar Mawr o blith practisiau cyfrifyddiaeth yn mynd ati'n ffyrnig ar hyn o bryd i ehangu i mewn i wasanaethau cyfreithiol – ac ar raddfa fawr iawn. Felly, gallai helpu o leiaf un o'r practisiau hyn i sefydlu canolfan gwasanaethau cyfreithiol / cyfrifyddol hybrid yng Nghaerdydd helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei Chynllun Gweithredu ar yr Economi mewn perthynas â gwasanaethau proffesiynol, yn enwedig mewn perthynas â chyflogaeth o ansawdd da, datblygiad sgiliau, ymchwil a datblygu, awtomeiddio a digideiddio.[73] At hynny, pe bai cwmnïau cyfrifyddiaeth mawr eraill yn penderfynu ehangu i wasanaethau cyfreithiol – nid yw pob un ohonynt yn gwneud ar hyn o bryd – gallai Caerdydd fod yn lleoliad posibl amlwg ar gyfer unrhyw ganolfannau gwasanaethau y byddant yn eu sefydlu. Yn y bôn, credwn y gallai Caerdydd adeiladu ar sylfeini, sydd eisoes yn cael eu gosod, a chreu enw da am fath penodol o ganolfan gwasanaethau cyfreithiol / cyfrifyddol hybrid. Rydym yn ymchwilio ymhellach i'r potensial i ganolfannau gwasanaethau helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei Chynllun Gweithredu ar yr Economi – er yn benodol mewn perthynas â'r sector cyfreithiol – ym mhennod 14 o'r adroddiad hwn.

## Cymorth ariannol uniongyrchol i'r sector cyfreithiol yng Nghymru

Mae'n bosibl mai'r ffordd fwyaf proffil-uchel y mae Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo'r sector cyfreithiol yng Nghymru yn uniongyrchol yn y blynyddoedd diwethaf yw drwy gymorth ariannol uniongyrchol. Hyd y gwyddom ni, mae'r rhestr isod yn crynhoi'r holl gymorth ariannol uniongyrchol a ddatgelwyd yn gyhoeddus y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i bractisiau cyfreithiol sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae'r ffigyrau isod yn cynrychioli cyfanswm buddsoddiad o £1,844,190 gan Lywodraeth Cymru, wedi'i wasgaru ar draws naw cwmni cyfreithiol. Yr uchelgais a ddatganwyd ar gyfer y dyheadau cyflogaeth hyn yw y dylai cyfanswm o 299 o swyddi gael eu creu o dan y cynllun

[68] www.pwc.com/gx/en/services/legal.html.
[69] Legal Week. *The 2018 Global 100: the world's top law firms ranked by headcount,* 24 Medi 2018.
[70] Law.com. *KPMG's Legal Arm Announces Global Revenue Growth of 30 Percent in 2018*, 6 Chwefror 2018.
[71] EY. *EY expands global legal managed services offering with acquisition of Riverview Law*, 8 Awst 2018.
[72] Financial Times. *Deloitte muscles in on legal services in the UK*, 10 Ionawr 2018.
[73] Llywodraeth Cymru. *Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu ar yr economi,* 21 Mai 2018, t11.

hwn, ac y dylai 58 o swyddi gael eu diogelu. Hyd yma, deallwn fod pump o'r naw cwmni a nodir isod wedi cael taliad llawn am y swyddi a grëwyd ganddynt, fod tri wedi cael taliad pro rata, a bod un heb gael unrhyw daliad. Mae misoedd, neu flynyddoedd, yn weddill ar gyfer rhai o'r cynlluniau cymorth ariannol hyn.

Ar sail cost-y-rôl, mae cymorth Llywodraeth Cymru yn cyfateb i tua £6,168 y swydd a grëwyd, neu tua £5,166 y rôl os cynhwysir "swyddi a ddiogelwyd" yn y cyfrifiad hwn hefyd. I roi'r ffigurau hyn mewn cyd-destun ehangach:

### Tabl 11: cymorth ariannol uniongyrchol a roddwyd i'r sector cyfreithiol yng Nghymru

| Cwmni | Dyddiad cyhoeddi | Gwerth (£) | Canlyniad arfaethedig | Cost y swydd a grëwyd neu a ddiogelwyd |
|---|---|---|---|---|
| Lewis Silkin | 12 Tachwedd 2012 | £160,000 | 10 o staff erbyn diwedd 2013 | £16,000 |
| NewLaw | 10 Hydref 2013 | £156,690 | 86 o swyddi newydd | £1,822 |
| Watkins & Gunn | 26 Tachwedd 2013 | £50,000 | Pum swydd wedi'u creu, pump wedi'u diogelu | £5,000 |
| Gordons Dadds (Ince Gordon Dadds bellach) | 15 Ebrill 2014 | £200,000 | 14 swydd | £14,286 |
| Carbon Law | 02 Mehefin 2015 | £325,000 | 25 swydd | £13,000 |
| Howells Legal Ltd | 22 Gorffennaf 2015 | £100,000 | 13 swydd newydd / 3 wedi'u diogelu<br>Hwb trawsgludo newydd | £6,250 |
| Geldards | 10 Rhagfyr 2015 | £127,000 | 25 swydd newydd / 30 wedi'u diogelu | £2,309 |
| CJCH | 21 Mawrth 2017 | £432,000 | 71 o swyddi newydd erbyn 2020 | £6,084 |
| JCP Solicitors | 9 Awst 2017 | £293,500 | 50 o swyddi newydd / 20 wedi'u diogelu | £4,193 |

Yn gyntaf, nodwn fod y costau y swydd, a amlinellir uchod, yn cymharu'n ffafriol â'r gwariant "cymorth uniongyrchol i fusnesau" – y tybiwn sy'n golygu cymorth grant – a ysgwyddwyd gan Ardal Fenter Canol Caerdydd (AFCC) yn ystod ei bodolaeth. Yn gyfnewid am wario £16,007,756.34 ar y math penodol hwn o gymorth, creodd AFCC 891.5 o swyddi (o'i gymharu â 299 ar gyfer y sector cyfreithiol yn benodol), diogelodd 86 o swyddi (cyfreithiol: 55 o swyddi), a chynorthwyodd 1,473.4 o swyddi (dim data cyfreithiol-benodol cymaradwy wedi'i ganfod). Mae hyn yn cyfateb i tua £17,956 y rôl a grëwyd, £16,376 y rôl os yw swyddi a ddiogelwyd wedi'u cynnwys, a £6,531 y rôl os caiff swyddi a gefnogwyd eu hychwanegu hefyd.

Yn ail, sylwn fod y gost i Lywodraeth Cymru o greu cyfleoedd newydd yn y sector cyfreithiol hefyd yn cymharu'n ffafriol â lleoliadau tebyg mewn mannau eraill yn y DU. Ar t116 yn yr adroddiad hwn, rydym yn darparu ffigyrau (hysbys) cyfatebol ar gyfer swyddi a grëwyd yng Ngogledd Iwerddon, fel a nodwyd ar ddyddiad y cyhoeddiad cychwynnol ynghylch buddsoddiad. Mae'r ffigyrau cymaradwy ar gyfer Gogledd Iwerddon yn dangos cyfanswm gwerth cymorth ariannol o £9,323,850, a anelai at greu cyfanswm o 1,277 o rolau - ar gyfartaledd gwariant am bob swydd a grëwyd o £7,301. Mae'r gost y rôl hon ychydig yn uwch na gwariant cyfartalog Cymru, ond nid yn sylweddol felly.

Hyd yn oed os yw un yn cymharu allanolynnau, o ran "cost y rôl a gefnogwyd", mae data Caerdydd yn cymharu'n ffafriol, mewn cyferbyniad â sawl enghraifft yng Ngogledd Iwerddon. Yng Nghymru, y ddwy "gost y rôl a gefnogwyd" uchaf oedd Lewis Silkin ac yna Gordon Dadds (fel yr oedd ar y pryd), am gost o £16,000 a £14,286 yn y drefn honno. Gellir cymharu hyn yn fras â chylch cyntaf Axiom o gymorth Invest NI (£15,686 y rôl) a chymorth a roddwyd i Respstor, sef £13,475 y rôl. Hyd yn oed mewn perthynas â phob un o'r senarios allanolynnau hyn, mae'n debyg y gallwn dybio bod swm y buddsoddiad y rôl yn llai na chyflog blwyddyn ar gyfer pob swydd cyflogai a gafodd ei chreu neu ei diogelu. Am y rheswm hwnnw, nid ydym yn ystyried bod y lefelau cymorth ariannol a roddwyd i'r sector cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru yn ormodol. Tybiwn fod y cyfnod ad-dalu, o ran incwm a threthi eraill a gasglwyd gan gyflogeion a busnesau a gefnogwyd, yn gymharol gyflym.

Wedi dweud hynny, rydym hefyd yn gwneud y pwynt bod y mwyafrif llethol o swyddi yn Belfast a gefnogwyd gan Lywodraeth Gogledd Iwerddon yn rolau cwbl newydd, yn hytrach (yn wahanol i Gymru) na rolau a ddiogelwyd neu a gefnogwyd. Mae hwn yn wahaniaeth pwysig: er bod y rhan mwyafrif o'r cwmnïau a gynorthwywyd gan Lywodraeth Cymru eisoes yn bresennol yng Nghymru ar yr adeg y gwnaed buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, roedd y mwyafrif o'r rhai a gafodd gymorth ariannol yn y sector cyfreithiol yng Ngogledd Iwerddon yn sefydlu yn y lleoliad am y tro cyntaf. Mae gwahaniaeth rhwng cymorth "brodorol" a chymorth i "newydd-ddyfodiaid i'r farchnad" (NME) yn bwysig, yn ein barn ni, oherwydd – fel rheol gyffredinol – mae'n ymddangos bod cwmnïau sy'n newydd-ddyfodiaid i'r farchnad yn tueddu i greu llawer mwy o swyddi yn gyffredinol na chwmnïau brodorol, er bod lefel y cymorth ariannol a roddir i'r ddau (ar sail y pen) yn debyg fwy neu lai.

Ar ben hynny, er ein bod hefyd wedi darganfod bod nifer o gwmnïau cyfreithiol a gefnogwyd, sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac fel arall - wedi rhagori ar eu targedau cychwynnol o ran y niferoedd a gyflogir, mae effaith rhagori ar y targed hwn ar y farchnad leol yn tueddu i fod yn amlwg yn uwch o ran newydd-ddyfodiaid i'r farchnad. Mae'n debyg bod hyn yn anochel – mae cwmnïau cyfreithiol brodorol Cymru yn tueddu i fod yn gymharol fach, o'i gymharu â newydd-ddyfodiaid i'r farchnad. Felly, hyd yn oed pan fyddant yn rhagori ar eu targedau twf niferoedd, mae cwmnïau brodorol fel arfer yn debygol o greu llond llaw o swyddi ychwanegol. Mewn cyferbyniad, gallai cwmni cyfreithiol sy'n newydd-ddyfodiad i'r farchnad ac sy'n rhagori ar ei darged niferoedd ychwanegu cannoedd o rolau ychwanegol. Er enghraifft, er bod Swyddfa Allen & Overy yn Belfast wedi'i bwriadu'n wreiddiol i gefnogi tua 300 o rolau[74], deellir bod cyfrif niferoedd cyfredol y swyddfa yn nes at 600 erbyn hyn. Twf mwy trawiadol byth oedd un Herbert Smith Freehills: dechreuodd canolfan gwasanaethau'r cwmni hwn yn Belfast ei bodolaeth gyda chyfanswm o 26[75] yn 2011. Ac eto, erbyn canol 2018, roedd nifer y cyflogeion ar gyfer y Swyddfa hon wedi cyrraedd 350[76]. Os yw un yn gofidio'n bennaf am allbynnau – yn benodol rolau newydd a grëwyd, yn hytrach na chenedligrwydd y practis sy'n creu'r rolau hynny – yna'r casgliad anochel yw bod cwmnïau cyfreithiol mawr sy'n newydd-ddyfodiaid i'r farchnad yn tueddu i fod yn well am dyfu marchnad ar gyfer swyddi yn y sector cyfreithiol na'u cystadleuwyr llai ymhlith practisiau cyfreithiol brodorol (h.y. Cymreig).

[74] Invest NI. *Foster Announces Major Investment by International Legal Firm*, 3 Chwefror 2011.
[75] Invest NI. *Leading international law firm establishes base in Belfast,* 24 Tachwedd 2010.
[76] Herbert Smith Freehills. *Herbert Smith Freehills' Belfast office celebrates seven years of innovation*, 4 Mai 2018.

## Adborth ar y broses dyfarnu grantiau

Fel rhan o’n hymchwil i’r pwnc hwn, cyfwelwyd â sawl cwmni cyfreithiol yng Nghaerdydd ynglŷn â’u profiadau o ystyried cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, gwneud cais amdano a’i gael. Isod, rydym yn cynnig enghreifftiau o’r adborth a gawsom.

Dywedodd sawl un o’n cyfweleion a oedd yn arwain cwmnïau cyfreithiol eu bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru – yn anad dim am fod y pwnc wedi bod yn destun dadleuol pan gyhoeddwyd y grantiau cyntaf. Ond, ar ôl ymchwilio’n betrus i’r posibilrwydd o ymgeisio, roedd rhai yn cofio sut y bu iddynt roi'r gorau i’r broses heb wneud cais:

> *“We’ve never been able to take advantage of the support that’s on offer, because it takes so damned long, because you can’t just wait for those sorts of things to happen, or because the processes are too cumbersome. So we’re aware that there are grants available – I just don’t think they’re particularly easy to access.”*
>
> *“We had a go at trying to get support to grow our business. And we just gave up. We found the process of applying for, and getting approval for, support just wasn’t worth it.”*

Un mater a oedd yn rhwystro ymgeiswyr posibl, a hefyd yn achosi problemau ar gyfer ceisiadau llwyddiannus, oedd bod rhai grantiau’n darparu cyllid ôl-weithredol: ni fyddai arian ond yn cael ei ryddhau ar ôl i’r swyddi gael eu creu. Roedd y rhai a oedd wedi archwilio’r broses grantiau’n deall pam fod y dull hwn yn cael ei ddefnyddio o bosibl – ond yn ei ystyried yn gryn her serch hynny, am ei fod o bosibl yn creu bwlch mewn llif arian. Byddai’n rhaid i gwmnïau dalu cyflogau ychwanegol y rolau yr oeddent yn eu creu / cefnogi ymlaen llaw – ac yna gobeithio y gallent adennill yr arian grant gan Lwodraeth Cymru i dalu am y rolau hynny yn ddiweddarach.

Ymhlith y rhai a oedd wedi ceisio, ac wedi cael, cymorth gan Lywodraeth Cymru, roedd canfyddiadau am y broses yn amrywio’n fawr iawn. Roedd rhai deiliaid grantiau yn siarad yn gadarnhaol ar y cyfan am eu hymwneud â Llywodraeth Cymru yn ystod y broses dyfarnu grantiau. Roedd eraill yn amlwg yn siarad yn llai cadarnhaol:

> *“Our experiences engaging with most of them [Welsh Government officials] was very positive. Not just about the grant process, but also in relation to wider advice and support.”*
>
> *“It took a few months to progress through the machinery. I appreciate that you can’t just dish out money for nothing – but there was a feeling that it was all quite ponderous.”*
>
> *“Would I do it again? Yes, because I think the Welsh Government should do something to help stimulate the Welsh economy. But I wouldn’t do it again if it was the same application process, and the same type of engagement.”*

Awgrymodd un cyfwelai eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu mesur yn ôl safonau a oedd “ychydig” yn wahanol ar ddiwedd y broses dyfarnu grantiau, o’i gymharu â’r safonau hynny yr oeddent wedi ymrwymo iddynt i ddechrau. Meddai un cyfwelai am y newid hwn, “made life a little difficult for us, because we had set out to meet the needs we signed up to at the start”. “It was almost like the acquisition or sales team had one perspective, and the post-sales and support team had a different perspective,” eglurodd.

### Mecanweithiau cymorth eraill gan Lywodraeth Cymru a nodwyd

Yn ystod ein hymchwil, fe wnaethom nodi amryw ddulliau ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u defnyddio'n ddiweddar i geisio cefnogi'r sector cyfreithiol yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys cynlluniau i greu man cyffredin, "Neuaddau Caerdydd", ar gyfer bargyfreithwyr, a Chanolfan Arloesi ym Musnes y Gyfraith (CIBoL). Gwelsom na chafodd yr un o'r mentrau hyn ei gwireddu yn y pen draw: methodd menter "Neuaddau Caerdydd" am nad oedd perchennog y lleoliad a ffafrid yn agored i'r syniad hwn, ac ers hynny mae'r cynnig CIBoL wedi cael ei oddiweddyd gan ddigwyddiadau – gyda Phrifysgol Abertawe yn arwain ar y mater hwn yn annibynnol. Gwnaethom sylwadau byr ar CIBoL ym mhennod pedwar o'r adroddiad hwn, sy'n canolbwyntio ar rôl canolfannau addysg a hyfforddiant o ran cefnogi proffesiwn cyfreithiol Cymru – gan gynnwys rôl arloesi mewn addysg gyfreithiol.

### Casgliadau ac argymhellion

Yng ngoleuni ein canfyddiadau uchod, a chan nodi bod y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn rhagweld cymorth ariannol uniongyrchol parhaus i fentrau sydd â photensial i dyfu[77], rydym felly'n gwneud y sylw canlynol. Yn sector cyfreithiol Cymru, y rhan o'r farchnad sydd i'w gweld fel pe bai'n cynnig y potensial ar gyfer y twf uchaf (ar y cyfan) yw newydd-ddyfodiaid i'r farchnad – yn enwedig y newydd-ddyfodiaid hynny i'r farchnad sy'n sefydlu canolfannau gwasanaethau. Fel a nodwyd gennym yn y bennod hon mewn perthynas â Deloitte – a hefyd ym mhennod 14 mewn perthynas â'r sector cyfreithiol – mae gan newydd-ddyfodiaid i'r farchnad sy'n creu canolfannau gwasanaethau newydd hanes profedig o greu cannoedd o swyddi cwbl newydd mewn un lleoliad. Mae hyn yn rhywbeth y credwn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ymwybodol ohono, wrth iddi geisio cyflawni'r amcanion yn ei Chynllun Gweithredu ar yr Economi.

At hynny, ni welwn unrhyw wrthddweud rhwng cymorth Llywodraeth Cymru i newydd-ddyfodiaid i'r farchnad / canolfannau gwasanaethau yn y dyfodol a'r frwdfrydedd a nodwyd ganddi dros gefnogi cyflogwyr brodorol Cymru. Y rheswm dros hyn, fel y byddwn yn egluro ymhellach ym mhennod 14 yn ein hadroddiad, yw bod y math o waith a wneir yng nghanolfannau gwasanaethau practisiau cyfreithiol yn wahanol fel rheol i'r gwaith a wneir gan gwmnïau cyfreithiol traddodiadol. O ganlyniad, credwn y gallai mewnlifiad o newydd-ddyfodiaid i'r farchnad wneud y sector cyfreithiol yng Nghymru'n fwy cydnerth, oherwydd byddai'n helpu i hwyluso arallgyfeirio o ran mathau o rolau a chyflogwyr.

I gefnogi agenda arallgyfeirio / cydnerthedd bosibl, rydym yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i ystyried annog y Pedwar Mawr o blith practisiau cyfrifyddiaeth i sefydlu canolfannau gwasanaethau hybrid ar gyfer y sector cyfreithiol / cyfrifyddol yng Nghaerdydd. Wrth wneud hynny, awgrymwn fod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n weithredol â chynlluniau esblygol Deloitte i ehangu yn y sector cyfreithiol, a gyflawnir trwy ei Ganolfan Gyflenwi Gyfagos yng Nghaerdydd, ac yn hyrwyddo unrhyw ganlyniadau cadarnhaol sy'n deillio o weithgareddau Deloitte yn sector cyfreithiol Caerdydd i'r byd ehangach. Fel yr eglurwn ymhellach ym mhennod 14, mae profiad canolfannau cyfagos cyfreithiol eraill yn y DU yn awgrymu y gall lleoliad gynnal nifer – yn nodweddiadol o leiaf dair – o ganolfannau gwasanaethau newydd o'r un sector, cyn y tybir bod y farchnad leol yn gorboethi. Am y rheswm hwnnw, dylai presenoldeb Deloitte ym marchnad canolfannau gwasanaethau cyfreithiol Caerdydd gael ei ystyried yn ddatblygiad cadarnhaol, a allai sbarduno buddsoddiadau tebyg gan gwmnïau gwasanaethau proffesiynol amlddisgyblaethol sydd mewn cystadleuaeth ag ef.

[77] Llywodraeth Cymru. *Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu ar yr economi,* 21 Mai 2018, t12 - 13

# Pennod saith: Caffael gwasanaethau cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru

Mae ein dadansoddiad o gaffael gwasanaethau cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru yn digwydd yn erbyn cefnlen cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol i ddirwyn y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) presennol ar ei ffurf bresennol i ben, a sefydlu corff contractau cenedlaethol newydd. Rydym yn nodi mai un o nodau datganedig y newid hwn yw "manteisio i'r eithaf ar wariant caffael yng Nghymru gan hefyd ddefnyddio'r gwariant caffael blynyddol o £6bn i gefnogi twf a swyddi cynaliadwy; arferion teg o ran gwaith a chyflogaeth; buddsoddi mewn seilwaith ac adeiladu; defnyddio asedau cyhoeddus a gwella cydnerthedd busnesau lleol a'u cymunedau"[78]. Rydym hefyd yn ymwybodol bod y fframwaith presennol ar draws gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol allanol yn dod i ben ar 31 Awst 2019[79].

Ein sylw unigol mwyaf arwyddocaol, yng ngoleuni'r amryw weithgareddau hyn gan Lywodraeth Cymru, yw bod gwariant sector cyhoeddus Cymru ar wasanaethau cyfreithiol allanol yng Nghymru mor fach fel ei bod yn anodd gweld sut y gallai ddylanwadu'n ystyrlon ar iechyd cyffredinol marchnad gyfreithiol Cymru. I ategu'r haeriad hwnnw, rydym yn cynnig nifer o ystadegau allweddol, a ddefnyddir ar y cyd â'i gilydd.

Yr ystadegyn cyntaf yw maint y farchnad gyfreithiol yng Nghymru ar y cyfan, o ran trosiant blynyddol crynswth cwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yn y wlad. Yn ôl data'r ARhC, roedd trosiant cwmnïau cyfreithiol sydd â'u pencadlys yng Nghymru ar y cyd yn £408,112,556 yn y flwyddyn ariannol ddiweddaraf a oedd ar gael. Dylid deall nad yw'r ffigwr hwn yn cynrychioli'r farchnad gyfreithiol yng Nghymru yn ei chyfanrwydd (er enghraifft, nid yw'n cynnwys siambrau bargyfreithwyr a chwmnïau cyfreithiol sydd â'u pencadlys y tu allan i Gymru). Serch hynny, mae'n amcangyfrif defnyddiol o'r isafswm refeniwiau blynyddol amcangyfrifedig o fewn y sector, cyn cynnwys yr elfennau ychwanegol hyn hefyd.

Yr ail ystadegyn yw cyfanswm gwariant cyfreithiol allanol Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol ddiweddaraf: £3,630,169.94 yn 2017 / 2018, fel a nodir mewn datganiad a wnaed gan Jeremy Miles AC wrth Bethan Sayed AC ar 18 Hydref 2018. Rhaid pwysleisio nad yw'r cyfanswm hwn yn cyfateb i'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn ei gyfanrwydd. Serch hynny, mae'n dangos y gwariant prynu diriaethol ar wasanaethau cyfreithiol allanol gan Lywodraeth Cymru. Mae data 2017/2018 a grybwyllwyd gan Mr Miles yn ei lythyr hefyd yn cyd-fynd yn fras â gwariant cyfreithiol allanol llywodraeth Cymru rhwng blynyddoedd ariannol 2011 / 2012 a 2015 / 2016. Datgelwyd y data hwn mewn ymateb gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 3 Hydref 2016, i gais rhyddid gwybodaeth a gyflwynwyd gan John Hyde (ATISN 10772).

Gyda'i gilydd, mae'r ystadegau hyn – er eu bod wedi'u halinio'n amherffaith – yn awgrymu bod gwariant cyfreithiol allanol Llywodraeth Cymru yn debygol o roi cyfrif am lai nag 1% o drosiant crynswth cwmnïau cyfreithiol Cymru mewn blwyddyn nodweddiadol. Pan ydym yn dadansoddi'r cyfanswm gwariant cyfreithiol yn ôl swyddogaethau unigol Llywodraeth Cymru, mae gwir rym prynu'r swyddogaethau hynny'n lleihau ymhellach byth.

78 Llywodraeth Cymru. *Datganiad Ysgrifenedig - Adolygiad o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru,* 5 Medi 2018.
79 Y GCC. *Crynodeb o'r newyddion am wasanaethau proffesiynol,* 30 Tachwedd 2018

### Gwariant Llywodraeth Cymru ar gwmnïau cyfreithiol

Rydym yn sylweddoli y gall fod canfyddiad bod gan Lywodraeth Cymru fwy o ddylanwad ar iechyd y practisiau cyfreithiol hynny y mae'n eu cyfarwyddo. I'r perwyl hwnnw, gwnaethom ofyn am ddata gronynnog ynghylch lefelau gwariant Llywodraeth Cymru fesul cwmni. Mae ein dadansoddiad isod yn seiliedig ar y wybodaeth y gellid ei chasglu yn ystod yr amserlen dynn a oedd yn ofynnol ar gyfer ein gwerthusiad.

Y data a ddewiswyd gennym, y mwyaf diweddar a oedd ar gael yn y ddau achos, oedd gwariant Llywodraeth Cymru ar gwmnïau cyfreithiol allanol rhwng Ionawr 2018 a Medi 2018, a chyfanswm refeniwiau cwmnïau cyfreithiol ar gyfer blwyddyn ariannol 2017 / 2018. Er ein bod yn sylweddoli nad yw'r ddwy ffynhonnell ddata hon yn "mapio" dros ei gilydd yn gyfan gwpl, maent, serch hynny, yn rhoi brasamcan o rym prynu Llywodraeth Cymru mewn blwyddyn nodweddiadol.

Yn ddefnyddiol, roeddem yn gallu asesu cymarebau gwariant mewn chwe chwmni cyfreithiol a gyfarwyddwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynrychioli tri math gwahanol o bractis cyfreithiol:

- Cwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru
- Cwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli mewn gwledydd eraill, ond sydd â phresenoldeb yng Nghymru
- Cwmnïau cyfreithiol sy'n gwasanaethu Cymru o bell, heb bresenoldeb uniongyrchol yn y wlad.

Mae ein canfyddiadau i'w gweld yn nhabl 12 isod.

#### Tabl 12: canran o drosiant cwmnïau cyfreithiol a gynrychiolir gan gyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru

| Math o gwmni cyfreithiol | Canran o drosiant y cwmni a gynrychiolir gan gyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| Cwmni cyfreithiol sydd wedi'i leoli yng Nghymru | 0.8885 |
| Cwmni cyfreithiol sydd wedi'i leoli yng Nghymru | 0.3657 |
| Cwmni cyfreithiol sydd wedi'i leoli mewn gwlad arall gyda phresenoldeb yng Nghymru | 0.0108 |
| Cwmni cyfreithiol sydd wedi'i leoli mewn gwlad arall gyda phresenoldeb yng Nghymru | 0.0009 |
| Cwmni cyfreithiol sy'n gwasanaethu Cymru o bell | 0.0246 |
| Cwmni cyfreithiol sy'n gwasanaethu Cymru o bell | 0.0506 |

Mae ein canfyddiadau'n drawiadol: hyd yn oed os ychwanegir 25% at y canrannau a nodir uchod, er mwyn ystyried y ffaith ein bod wedi mapio naw mis o ddata bilio ar refeniwiau blwyddyn lawn cwmnïau cyfreithiol, rydym yn ei chael yn anodd dychmygu senario lle gallai unrhyw un o'r chwe chwmni cyfreithiol a restrir fod wedi derbyn mwy nag 1.2% o'i drosiant blynyddol gan Lywodraeth Cymru – a bydd y rhan fwyaf yn ennill llawer llai. At hynny, o'r data gwariant a ddarparwyd ar ein cyfer, deallwn fod gwariant Llywodraeth Cymru ar gwmnïau cyfreithiol allanol yn cyfrif am tua thraean o gyfanswm gwariant cyfreithiol allanol ehangach y sector cyhoeddus yng Nghymru. Os felly, byddem hefyd yn ei chael hi'n anodd dychmygu senario lle byddai cyfanswm gwariant cyfreithiol y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cyfrif am fwy na 4.0% o gyfanswm refeniw unrhyw gwmnïau cyfreithiol a gyfarwyddwyd.

Dylid nodi hefyd bod rhai o'r cwmnïau hyn yn cael canran sylweddol – weithiau dros 20% – o'u trosiant ar y cyfan o waith i'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn yn dod yn bennaf oddi wrth gleientiaid yn sector cyhoeddus Lloegr – nid rhai yng Nghymru. Gan fynd i'r afael yn benodol â'n cylch gorchwyl, mae'n werth nodi felly nad yw rhai cwmnïau cyfreithiol blaenllaw sy'n gweithredu yng Nghymru yn ymddangos fel petaent yn dioddef oherwydd anallu sylweddol i ennill gwaith gan y sector cyhoeddus y tu allan i Gymru. I'r gwrthwyneb: diffyg gwariant cyfreithiol allanol gan gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru sydd, yn ôl pob golwg, yn llesteirio gallu'r cwmnïau cyfreithiol hyn i ennill rhagor o waith o'r fath y tu mewn i Gymru.

At hynny, mae o fewn cylch gwaith Llywodraeth Cymru i alluogi hynny i ddigwydd: er ei bod fel arfer yn gwario tua £3.5m ar gyngor allanol, deallwn fod Llywodraeth Cymru hefyd – am y tair blynedd ddiwethaf o leiaf - wedi gwario dros £8m y flwyddyn ar ei chymorth cyfreithiol mewnol ei hun. Efallai mai'r ffordd fwyaf diriaethol y gallai Llywodraeth Cymru helpu i roi hwb i gymuned practisiau preifat Cymru yw gwario mwy o arian ar wasanaethau cyfreithiol yn allanol a llai o arian yn fewnol. Wrth gwrs, rydym yn sylweddoli efallai nad yw ymagwedd o'r fath yn cyd-fynd ag amcanion gwerth am arian Llywodraeth Cymru. Yn y pen draw, bydd angen i Lywodraeth Cymru gytuno ar bolisi sy'n cysoni unrhyw ddymuniad i gefnogi proffesiwn cyfreithiol Cymru trwy'r broses gaffael â'r angen i sicrhau bod ei chyfanswm gwariant ar wasanaethau cyfreithiol yn digwydd yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol. Gall y naill ddewis neu'r llall helpu i ysgogi'r sector gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru (ychydig) – gan dybio y cyfarwyddir cwmnïau cyfreithiol sydd â phresenoldeb yng Nghymru. Y cwestiwn allweddol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r mater hwn felly yw: a yw'n well gennych chi fod yn rhoi ysgogiad (bach) i'r gymuned practisiau cyfreithiol preifat yng Nghymru, ynteu cymuned gyfreithiol y sector cyhoeddus yng Nghymru?

Yng ngoleuni'r data rydym wedi'i werthuso, rydym yn cynnig dau sylw cychwynnol, y byddwn yn gwahodd Llywodraeth Cymru i fyfyrio yn eu cylch:

Yn gyntaf, byddem yn eithriadol o ochelgar, er enghraifft, ynghylch argymell bod cwmnïau cyfreithiol yn ystyried rhannu eu cyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru gyda phractisiau llai trwy is-gontractio – gyda'r nod efallai o roi anogaeth ar gyfer mwy o amrywiaeth o gyflenwyr gwasanaethau cyfreithiol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gleient sydd â phwysigrwydd ariannol cyfyngedig i'w sylfaen gyflenwyr bresennol o ran cwmnïau cyfreithiol. Felly, awgrymwn na fyddai strategaeth o is-gontractio cyfarwyddiadau ond yn lleihau ymhellach bwysigrwydd cymharol Llywodraeth Cymru i'r cwmnïau cyfreithiol sy'n gyflenwyr iddi.

Yn ail, byddem hefyd yn gochel rhag cynnig y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i geisio "trefniant partneriaeth mwy strategol", lle byddai trefniadau o'r fath yn bennaf yn cael yr effaith eu bod yn llwytho costau a chymhlethdod ar aelodau o banelau cwmnïau cyfreithiol, heb unrhyw godiad ariannol sylweddol. Fel y byddwn yn ei ddangos ymhen ychydig, y dehongliad mwyaf cadarnhaol o agweddau cwmnïau cyfreithiol tuag at y fframwaith caffael presennol yw eu bod yn ei oddef, hyd yn oed os ydynt yn cwyno amdano. O gofio mai amcan datganedig Llywodraeth Cymru yw cynyddu i'r eithaf ei gweithgarwch i gaffael gan y sector cyfreithiol yng Nghymru, credwn y dylai Llywodraeth Cymru annog y cwmnïau hyn i gymryd rhan yn y broses yn hytrach na gosod rhwymedigaethau beichus arnynt. Hefyd, nodwn fod y gronfa o gyflenwyr eraill ymhlith cwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, sy'n arbenigo mewn gwaith ar gyfer y sector cyhoeddus, yn fach iawn[80].

[80] Legal 500. *Wales. Public Sector. Law firms and leading lawyers ranked. Chambers UK. Local Government. UK-wide*.

## Cynyddu i'r eithaf y gweithgarwch i gaffael gan gwmnïau cyfreithiol yn sector cyfreithiol Cymru

Fel rhan o'n proses ymchwil, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu data i ni sy'n nodi canran y cyfarwyddiadau dan y fframwaith gwasanaethau cyfreithiol (yn bennaf) a aeth i gwmnïau'r gyfraith sydd â chanolfan yng Nghymru, ar ôl i gyngor gan un cwmni penodol nad yw'n gwmni yng Nghymru gael ei hepgor. Roedd y canrannau hyn fel a ganlyn:

- 2012 / 2013 – 78%
- 2013 / 2014 – 86%
- 2014 / 2015 – 95%
- 2015 / 2016 – 96%

Rydym hefyd wedi cael data ynghylch gwariant rhwng mis Medi 2015 a mis Gorffennaf 2018 o dan fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Mae'r data hwn gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod cwmnïau cyfreithiol sydd â chanolfan yng Nghymru wedi sicrhau:

- 91% o gyfanswm y gwariant cyhoeddus trwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol
- 88% o wariant Llywodraeth Cymru trwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

Cawsom wybod bod 30+ o swyddi wedi cael eu creu, yn ôl pob sôn, gan gwmnïau cyfreithiol ar Fframwaith Cyfreithwyr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol o ganlyniad i'w lle ar y fframwaith hwnnw.

O gofio bod y gwariant ar gwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru eisoes yn uchel iawn o ran canran, rydym yn ei chael yn anodd awgrymu sut y gallai Llywodraeth Cymru gynyddu'r ganran honno eto, heb y perygl o gyhuddiadau ei bod wrthi'n ceisio llurgunio'r broses gaffael ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol.

Fel rhan o'n hymchwil i'r mater hwn, darparwyd data gronynnog i ni ar wariant cyfreithiol allanol Llywodraeth Cymru. Fe wnaeth yr wybodaeth hon ein galluogi i nodi achosion penodol o gwmnïau nad ydynt yn lleol a oedd yn cael eu cyfarwyddo'n rheolaidd. Mae'n nodedig bod un o'r achosion arwyddocaol o'r math hwn o wariant – dros nifer o flynyddoedd – yn gysylltiedig dro ar ôl tro ag un cwmni penodol mewn perthynas ag un arbenigaeth gyfreithiol benodol. Ni wyddom a gafodd y cwmni penodol hwn ei gyfarwyddo oherwydd nad oedd practisiau lleol yng Nghymru wedi gwneud cais am y math hwn o waith, ynteu am eu bod yn anghymwys oherwydd gwrthdaro i roi'r math hwn o gyngor. Fodd bynnag, os ydym yn defnyddio'r cyfeiriaduron cyfreithiol fel canllaw procsi i ansawdd cyflenwyr, mae'n gwbl ddealladwy pam y teimlai Llywodraeth Cymru y gallai gyfarwyddo'r practis arbennig hwn ar gyfer y math arbennig hwn o gyngor cyfreithiol, er gwaethaf ei ddiffyg presenoldeb yng Nghymru: mae wedi'i rancio gan *Chambers UK* a *Legal 500* fel practis haen uchaf ar gyfer yr arbenigaeth gyfreithiol honno.

Gellir dweud yn union yr un peth am ddau gwmni cyfreithiol arall sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, sydd wedi cael cyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru / awdurdod cyhoeddus yng Nghymru a oedd yn werth degau o filoedd o bunnau. Yn wrthrychol, mae'n ymddangos bod y ddau yn gwmnïau addas i'w cyfarwyddo. Nid yn unig maent wedi'u rancio'n uchel gan y cyfeirlyfrau cyfreithiol am eu harbenigedd yn y sector cyhoeddus, ond mae gan y ddau – yn gyfleus – un swyddfa (neu fwy) o fewn 40 milltir i'r ffin â Chymru. Felly mae eu swyddfeydd yn hygyrch iawn i swyddogion Llywodraeth Cymru. Yn wir, mae'n bosibl hyd yn oed y bydd y cwmnïau hyn yn cyflogi personél sy'n byw yng Nghymru. Mae cwmni cyfreithiol arall, a restrir fel un sydd "y tu allan i Gymru" yn nata Llywodraeth Cymru, wedi sefydlu presenoldeb uniongyrchol yn y wlad yn ddiweddar – gan felly wneud ei statws "y tu allan i Gymru" yn anghywir.

Fel a nodwyd eisoes, mae'n berthnasol hefyd bod gan rai cwmnïau cyfreithiol sy'n cyflawni gwaith ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru sylfaen gleientiaid sylweddol yn y sector cyhoeddus yn Lloegr. Efallai nad yw'n syndod, yn ein trafodaethau gyda hwy, bod y cwmnïau hyn felly'n awyddus i sicrhau bod y farchnad ar gyfer gwaith cyfreithiol yn y sector cyhoeddus yn parhau i fod yn agored i bob practis cyfreithiol sydd â'r arbenigedd angenrheidiol - ni waeth ym mhle yn y DU y mae'r practisiau cyfreithiol hynny yn digwydd bod wedi'u lleoli.

## Gwariant Llywodraeth Cymru ar fargyfreithwyr, rhan un: aelodaeth o'r panel

A throi yn awr at y Bar: Deallwn fod Llywodraeth Cymru yn cynnal proses gymharol agored ar gyfer dod yn aelod o'i phanel cwnsleriaid cymeradwy: ar hyn o bryd, nid oes terfyn uchaf ar faint y Panel ar y cyfan, a dim ond cwblhau ffurflen gais fer y mae angen i ymgeiswyr ei wneud. Mae Llywodraeth Cymru yn ein hysbysu, ers i'r panel presennol gael ei sefydlu ym mis Hydref 2012, bod cyfanswm o 90 o geisiadau wedi dod i law i ymuno â'r panel hwn. O'r 90 o geisiadau, roedd 35 (39%) gan ymgeiswyr a oedd wedi'u lleoli yng Nghymru, gyda 55 (61%) yn dod gan ymgeiswyr a oedd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru. Ar y cyfan, cafodd 56 (62%) o'r holl ymgeiswyr eu penodi'n llwyddiannus i'r panel, gan gynnwys 23 (41% o'r cyfanswm a fu'n llwyddiannus) a oedd wedi'u lleoli yng Nghymru a 33 (59% o'r cyfanswm a fu'n llwyddiannus) a oedd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru. Ymhlith y 34 o ymgeiswyr aflwyddiannus, roedd 12 (35%) wedi'u lleoli yng Nghymru ac nid oedd 22 (64%) wedi'u lleoli yng Nghymru.

Gyda'i gilydd, mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod ymgeiswyr o Gymru'n rhoi cyfrif am ganran berthnasol iach o'r cyfanswm – yn enwedig o ystyried bod y cyfan o'r Bar Cymreig yn cynnwys tua 300 o Aelodau. Ymddengys hefyd fod tebygolrwydd parchus y bydd ymgeiswyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn cael eu penodi i banel cwnsleriaid Llywodraeth Cymru. Deallwn hefyd mai 51 yw cyfanswm cyfredol Llywodraeth Cymru o gwnsleriaid cymeradwy, y mae 20 ohonynt wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod tua 6% o'r holl fargyfreithwyr yng Nghymru ar banel cwnsleriaid Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Gan ddadansoddi panel Llywodraeth Cymru o gwnsleriaid cymeradwy a benodwyd ar sail thematig, mae'r sylwadau canlynol yn nodedig[81]:

- Mae dau o'r 12 QC a benodwyd yn fargyfreithwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru
- Mae tri o'r 15 aelod o banel cwnsleriaid iau cyfraith gyhoeddus A yn fargyfreithwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru
- Mae pedwar o'r naw aelod o banel cwnsleriaid iau cyfraith gyhoeddus B A yn fargyfreithwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru
- Mae chwech o'r saith aelod o banel cwnsleriaid iau cyfraith droseddol A yn fargyfreithwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru
- Mae pedwar o'r 10 aelod o banel cwnsleriaid iau cyfraith cyflogaeth A yn fargyfreithwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru
- Mae dau o'r tri aelod o banel cwnsleriaid iau cyfraith cyflogaeth B yn fargyfreithwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru
- Mae pedwar o'r pum aelod o banel cwnsleriaid iau anaf personol A yn fargyfreithwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru
- Mae'r ddau aelod o banel cwnsleriaid iau anaf personol B yn fargyfreithwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru
- Mae un o'r ddau aelod o banel cwnsleriaid iau teulu a phlant A yn fargyfreithwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru
- Mae'r unig aelod o banel cwnsleriaid iau teulu a phlant B yn fargyfreithiwr sydd wedi'i leoli yng Nghymru

[81] Llywodraeth Cymru. *Panel Cwnsleriaid Cymeradwy Llywodraeth Cymru – cefndir byr, Atodiad 1*, t2 – 14.

Ar sail siambrau penodol, mae'r data a roddwyd i ni gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar yn dangos bod aelodaeth bresennol y panelau wedi'i rhannu rhwng pum set o siambrau yng Nghymru. Mae'r rhaniad hwn ar y panelau fel a ganlyn:

- Siambrau APEX – pedwar cwnsler (pedwar cwnsler Iau o banel A)
- Siambrau 9 Plas y Parc – tri chwnsler (un QC, dau gwnsler iau o banel B)
- 30 Plas y Parc – tri chwnsler (un QC, un cwnsler iau o banel A ac un cwnsler iau o banel B)
- Civitas Law – naw cwnsler (wyth cwnsler iau o banel A, un cwnsler iau o banel B)
- Siambrau'r Angel – un cwnsler (un cwnsler iau o banel A)

O gofio bod proffesiwn bargyfreithwyr Cymru yn rhoi cyfrif am tua 1.9% o'r cyfanswm o 16,000 yng Nghymru a Lloegr, mae'n anodd gweld sut bod diffyg cyfranogiad gan fargyfreithwyr Cymreig ar unrhyw un o'r paneli, a ddangosir uchod - yn enwedig mewn termau cymharol. Os rhywbeth, ymddengys fod bargyfreithwyr o Gymru wedi'u gorgynrychioli ar lawer o'r paneli a ddisgrifir uchod. O ran aelodaeth syml y panel, felly, rydym yn ei chael hi'n anodd gweld sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi'r Bar Cymreig ymhellach, heb lurgunio'r broses gystadleuol.

O ran cyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru, cynyddodd cyfran y cyfarwyddiadau a roddwyd i gwnsleriaid sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ar y cyfan o 40% yn 2013 i'w lefel bresennol o 45%. Yn anffodus, yn ôl data a ddarparwyd gan Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru, ar 11 Chwefror 2019, nid oedd 18 o aelodau o banelau (a oedd yn 35% o'r cyfanswm) wedi derbyn unrhyw gyfarwyddiadau eto. Ar y cyfan, cyfrifwyd fod pedwar o'r 11 aelod o'r Panel QC, chwech o'r 31 o aelodau o banel A, ac wyth o'r naw aelod o banel B heb gael cyfarwyddyd[82]. O ystyried y gymhareb uchel o Gwnsleriaid wedi'u lleoli yng Nghymru sydd ar banel B yn arbennig, mae'n debygol iawn bod nifer o fargyfreithwyr ar y panelau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru heb gael cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru eto.

Wedi dweud hynny, gellid dadlau nad yw canran y cyfarwyddiadau a gafodd Cwnsleriaid yng Nghymru yn sail ddefnyddiol ar gyfer gwerthuso cymorth Llywodraeth Cymru i'r Bar Cymreig. Fel y soniodd un o'r bargyfreithwyr a gyfwelwyd: "A case might be a prosecution in a magistrates' court – or it could be a multifaceted, £100,000+ judicial review about planning law regarding the M4 motorway. I'm more interested in pounds, shilling and pence, not cases handled". Yn ein barn ni, mae hwn yn sylw dilys.

## Gwariant Llywodraeth Cymru ar fargyfreithwyr, rhan dau: gwerth ariannol cyfarwyddiadau a gafwyd

Mae ein dadansoddiad o ddata ynghylch gwariant Llywodraeth Cymru ar wasanaethau bargyfreithwyr yn cynnwys pedwar rhybudd iechyd pwysig, a theimlwn y byddai'n ddefnyddiol eu hegluro'n benodol. Mae'r rhybuddion iechyd hyn yn ganlyniad anorfod a ddeilliodd o gynnal dadansoddiad o ddata na chasglwyd yn wreiddiol at ddibenion gwerthusiad o'r fath:

- Mae'r data a ddarparodd Llywodraeth Cymru i ni'n rhestru data anfonebau y gellir ei briodoli i fargyfreithwyr unigol yn yr un adroddiad â data anfonebau a briodolir i siambrau bargyfreithwyr. Yn nodweddiadol, mae bargyfreithwyr yn weithwyr proffesiynol hunangyflogedig, sydd hefyd yn tueddu i weithio o fewn siambrau bargyfreithwyr. Felly, mae'n gwbl ddealladwy y gellid bod wedi prosesu eu hanfonebau gan ddefnyddio'r naill ddull neu'r llall.
- Rhoddwyd gwybod i ni nad yw'n anarferol i fargyfreithwyr gyflwyno biliau sy'n cyfuno eu cyngor cyfreithiol â'r treuliau a ysgwyddwyd. Rydym yn gobeithio bod y data a ddarparwyd i ni gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys y cyntaf, ond nid yr olaf – gan dybio y bu'n bosibl gwahaniaethu rhwng y ddau.

[82] Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru. *Cyfansoddiad a dosbarthiad cyfarwyddiadau ers 1 Hydref 2012 (wedi'i ddiweddaru hyd 11 Chwefror 2019).*

- Rydym wedi cael data cyfanredol sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Chwefror 2012 a 3 Mawrth 2019. I ryw raddau, felly, mae'n debygol bod y canfyddiadau rydym yn eu cyflwyno yn nodi dymuniadau etifeddol Llywodraeth Cymru o ran prynu, yn hytrach na'r rhai sydd wedi bod ar waith yn fwy diweddar. Byddwn yn trafod y mater hwn mewn mwy o fanylder yn y man.
- Yn ystod cyfnod ein hymchwiliad, nodwn fod rhai bargyfreithwyr wedi ymddeol, tra bo eraill wedi dod yn farnwyr. Felly, wrth gyflawni ein gwerthusiad, rydym wedi cael ein gorfodi i ddibynnu ar ddata hanesyddol ynghylch y lleoliad yr arferai'r bargyfreithwyr hyn ymarfer ynddynt. I gymhlethu pethau ymhellach byth, mae rhai bargyfreithwyr wedi'u lleoli'n bennaf mewn un lleoliad ond hefyd yn "denantiaid drws". Cynhelir ein dadansoddiad ar sail eu prif leoliad gwaith cyfredol, neu'r un diweddaraf a oedd yn hysbys.

Gyda'r cafeatau pwysig hyn yn eu lle, mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod sail dystiolaeth gadarn i'r canfyddiad bod canran fawr iawn o waith bargyfreithwyr - yn hanesyddol o leiaf – wedi bod yn cael ei gaffael y tu allan i Gymru. Isod, rydym yn darparu dau dabl data allweddol, sy'n crynhoi'r lleoliad lle cafodd anfonebau eu codi ar gyfer gwasanaethau bargyfreithwyr, naill ai'n unigol neu drwy eu siambrau. Yn y ddau achos, cafodd mwy na 70% o werth ariannol yr anfonebau a godwyd ar Lywodraeth Cymru eu bilio o gyfeiriad yn Llundain. Mewn cyferbyniad, cafodd tua 20% o'r gwaith yr anfonebwyd amdano ei filio trwy Gaerdydd yn benodol. Roedd canrannau llai o lawer hefyd wedi'u rhannu rhwng Birmingham a Bryste – ar lefel siambrau – a rhwng Manceinion, yr Amwythig ac Abertawe ar lefel bargyfreithwyr fel ymarferwyr.

### Tabl 13: lleoliadau anfonebau ar gyfer defnydd Llywodraeth Cymru o fargyfreithwyr – data ar lefel siambrau

| Lleoliad y siambrau | Cyfanswm lleoliad y siambrau | Canran lleoliad y siambrau |
|---|---|---|
| Llundain | £718,514.00 | 78.39 |
| Caerdydd | £181,298.00 | 19.78 |
| Birmingham | £16,632.00 | 1.81 |
| Bryste | £176.00 | 0.02 |
| Cyfanswm y cwbl | £916,620.00 | 100.00 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

### Tabl 14: lleoliadau anfonebau ar gyfer defnydd Llywodraeth Cymru o fargyfreithwyr – data ar lefel bargyfreithwyr

| Lleoliad y bargyfreithwyr | Cyfanswm lleoliad y bargyfreithwyr | Canran lleoliad y bargyfreithwyr |
|---|---|---|
| Llundain | £458,593.00 | 71.03 |
| Caerdydd | £141,532.00 | 21.92 |
| Manceinion | £36,439.00 | 5.64 |
| Amwythig | £4,290.00 | 0.66 |
| Abertawe | £4,765.00 | 0.74 |
| Cyfanswm y cwbl | £645,619.00 | 100.00 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Wrth ddarllen y data a gyflwynir uchod yn syml, byddai'n hawdd dod i'r casgliad bod siambrau a bargyfreithwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru dan anfantais annheg o ganlyniad i broses gaffael Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran gwerth y gwaith a anfonir i Lundain. Fodd bynnag, gellid dadlau bod angen cyflawni gweithred raddnodi bwysig o ran y canfyddiad hwn. Dylid cofio mai dim ond tua 1.8% o'r cyfanswm bargyfreithwyr ledled Cymru a Lloegr yw cwnsleriaid sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, gan roi cyfrif am 300 yn unig allan o 16,598[83]. Yn yr un modd, mae nifer y siambrau bargyfreithwyr o unrhyw faint yng Nghymru yn fach iawn – tua 10, allan o gyfanswm o 413 ar gyfer Cymru a Lloegr[84]. Yn y cyd-destun hwn, mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi anfon 19.78% o werth ei gwaith i siambrau yng Nghymru, a 22.66% o werth ei gwaith at fargyfreithwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd ac Abertawe yn ymddangos – os rhywbeth – yn anghymesur o hael tuag at y proffesiwn a siambrau bargyfreithwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwnnw, gellir dadlau bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati i hyrwyddo'r proffesiwn bargyfreithwyr yng Nghymru – yn sylweddol felly, a dweud y gwir. Wrth wneud yr haeriad hwn, gwerthfawrogir nad yw cymharu refeniwiau a wariwyd â chyfanswm nifer y bargyfreithwyr / siambrau yng Nghymru yn ddull perffaith o gymharu.

Gan gyfuno'r ddau brif gyfanswm gyda'i gilydd, a nodir uchod, rydym yn cyfrifo mai £1,562,239 oedd cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru ar fargyfreithwyr rhwng 1 Chwefror 2012 a 3 Mawrth 2019. O'r gwerth cyfanredol hwn, gwariwyd £327,595 ar fargyfreithwyr wedi'u lleoli yng Nghymru. Yn ei gyfanrwydd, nid yw'r cyfanswm hyd yn oed yn arbennig o fawr, ac mae'n cynrychioli dim ond £223,177 y flwyddyn ar gyfartaledd dros gyfnod o saith mlynedd. Yn wir, hyd yn oed petai holl wariant Llywodraeth Cymru ar fargyfreithwyr yn cael ei drosglwyddo i'r Bar Cymreig, byddai'n cyfateb i ychydig dros £743 y bargyfreithiwr ar gyfartaledd yng Nghymru bob blwyddyn. Mae hyn yn ein harwain at y casgliad, fel gyda'r proffesiwn cyfreithwyr, bod gallu Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar iechyd cyffredinol y proffesiwn bargyfreithwyr yng Nghymru yn debygol o fod yn fach iawn.

Wrth werthuso gwariant Llywodraeth Cymru ar gwmnïau cyfreithwyr y tu allan i Gymru, nododd ein hadroddiad yn flaenorol fod y gwariant hwn nad yw'n ymwneud â Chymru yn ymddangos fel petai'n wariant y gellir ei gyfiawnhau, gan bod y cwmnïau hyn yn uchel eu parch mewn perthynas â'r gwaith y cawsant eu cyfarwyddo i'w wneud. Wrth wneud yr haeriad hwn, defnyddion ni gyfeiriaduron cyfreithiol blynyddol *Chambers & Partners* a *Legal 500* fel dangosyddion procsi ar gyfer ansawdd. Yn anffodus, nid yw'r data ynghylch gwariant ar fargyfreithwyr a ddarparwyd i ni gan Lywodraeth Cymru yn rhestru'r gwariant fesul arbenigaeth gyfreithiol. Ni allwn, felly, fod yn gwbl sicr bod pob bargyfreithiwr a gyfarwyddir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ystyried yn arweinydd yn ei faes – fel y tybir gan *Chambers & Partners* a *Legal 500* – mewn perthynas â'r mater penodol y prynwyd ei wasanaeth ar ei gyfer.

Fodd bynnag, yr hyn y gallwn ei ddweud yw y bydd pob un o'r 16 o siambrau bargyfreithwyr y nodwyd eu bod wedi cael cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru rhwng 1 Chwefror 2012 a 3 Mawrth 2019 wedi'u rancio gan un, neu'r ddau, o'r cyfeiriaduron cyfreithiol. Yn yr un modd, mae'r mwyafrif helaeth o'r 28 o fargyfreithwyr unigol a restrwyd fel rhai a gyfarwyddwyd rhwng y dyddiadau hyn hefyd wedi'u rancio gan un cyfeiriadur neu'r ddau. Hyd yn oed pan nad ydynt wedi'u rancio yn y cyfeiriadur cyfreithiol diweddaraf, roedd pob bargyfreithiwr a gafodd gyfarwyddyd wedi'i rancio'n flaenorol – mae'r mwyafrif nad ydynt wedi'u rancio ar hyn o bryd wedi ymddeol. At ei gilydd, felly, ymddengys fod sail resymol i Lywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd i fargyfreithwyr y tu allan i Gymru, ar y sail eu bod yn cael eu parchu yn eu meysydd am fathau penodol o waith cyfreithiol.

83 Bwrdd Safonau'r Bar. *Practising barrister statistics*
84 Bwrdd Safonau'r Bar. *Chambers statistics*

O ran esboniad Llywodraeth Cymru am y gwariant cyfreithiol hwn sy’n canolbwyntio ar Lundain, mae’r prif reswm a gynigiwyd i ni gan gynrychiolwyr y Llywodraeth yn weddol syml: mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyflogi sawl bargyfreithiwr yn fewnol. Felly, pan anfonir gwaith at gwnsler allanol, yn nodweddiadol mae angen arbenigwyr sydd â "phrofiad sylweddol iawn". I ddyfynnu cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol: “The fact of the matter remains that we simply don’t have that level of experience at the Welsh Bar.” Efallai y bydd y ffocws hwn ar gyfarwyddiadau allanol gwerth uchel yn helpu i esbonio pam – fel y crybwyllwyd yn gynharach yn y bennod hon – nad oedd wyth o’r naw aelod o banel "B" mwy iau Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw gyfarwyddiadau eto.

Rydym yn sicr yn agored i ddilysrwydd yr esboniad hwn. Fodd bynnag, er ein bod yn derbyn ei bod yn eithaf posibl i rai lleoliadau ddod yn ganolfannau rhagoriaeth, rydym yn synnu, serch hynny, i braddau y mae cyfarwyddiadau bargyfreithwyr Llywodraeth Cymru wedi’u crynhoi mewn nifer fach iawn o siambrau bargyfreithwyr yn Llundain. I egluro: yn ein dadansoddiad o ddata anfonebau Llywodraeth Cymru, rydym yn nodi bod un set o siambrau – 11 King’s Bench Walk (KBW) – wedi cael incwm gan Lywodraeth Cymru a oedd yn werth £451,938 yn ystod cyfnod ein gwerthusiad. Yn nodedig, mae hyn yn cyfateb i tua 29% o gyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru, sef £1,562,239, ar gwnsleriaid allanol yn ystod y cyfnod y cawsom wybodaeth amdano.

Cawsom y ffigurau hyn trwy gyfuno’r data anfonebau a oedd yn benodol gysylltiedig ag 11 KBW (£191,240) gyda lleoliadau datganedig cyfredol bargyfreithwyr unigol a nodwyd (£260,698), a gafwyd trwy eu paru â chofrestr ganolog Bwrdd Safonau’r Bar. O rancio’r rhain yn ôl gwariant cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gwnsleriaid allanol, roedd 11 KBW yn ail – allan o 14 – ar sail lefel siambrau. Ymhlith bargyfreithwyr unigol, cafodd y Cwnsleriaid a oedd wedi’u lleoli yn 11 KBW eu rancio fel y rhai a gafodd y cyntaf, y pumed, y chweched, y nawfed a’r 12fed (allan o 28) o’r symiau o arian a filiwyd.

Gan ddefnyddio’r un fethodoleg, fe wnaethom gyfrifo ymhellach fod Siambrau Brick Court wedi cael £332,625 gan Lywodraeth Cymru rhwng 1 Chwefror 2012 a 3 Mawrth 2019 (21.29% o’r cyfanswm) a Siambrau APEX wedi cael £98,928 (6.33%), Siambrau Monckton wedi cael £53,925 (3.45%), 30 Plas y Parc wedi cael £19,734 (1.26%), a gweddill y siambrau wedi cael y swm gweddilliol o £605,086. Mae dau o’r siambrau olaf hyn – Brick Court a Monckton – wedi’u lleoli yn Llundain, tra bod dau, APEX a 30 Plas y Parc, wedi’u lleoli yng Nghaerdydd.

Yn gadarnhaol, mae ein dadansoddiad o’r data a ddarparwyd yn cynnig esboniad eithaf cyffredin am lawer o’r gwariant hwn gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, roedd ein dadansoddiad o’r incwm a gafwyd gan fargyfreithwyr penodol yn 11 KBW yn cynnwys nifer o gyfarwyddiadau aml-flwyddyn ar gyfer materion hirsefydlog, gyda phob anfoneb yn nodweddiadol am rai cannoedd – neu rai miloedd – o bunnoedd yr un. Roedd yn ymddangos bod o leiaf 1 o fargyfreithwyr KBW wedi cael incwm o lai na £6,000 gan Lywodraeth Cymru. Wedi dweud hynny, rydym hefyd wedi cael gwybod bod chwe chwnsler unigol yn 11 KBW hefyd wedi cael taliadau am "anfonebau gwerth uwch" a oedd yn ymwneud â 43 o faterion gwahanol, a oedd yn cynnwys heriau i adolygiadau barnwrol, cyngor mewn perthynas â Biliau Cymru a chyfeiriadau at Oruchaf Lys y DU. Ar lefel fwy gronynnog, deallwn hefyd fod 1 o fargyfreithwyr KBW wedi cael tâl a oedd yn agos at £40,000 am chwe mater, tra bo un arall wedi cael tâl o fwy na £70,000 am 12 o faterion.

At ei gilydd, mae crynodiad y cyfarwyddiadau yn 11 KBBW yn dangos i ni bod y cysyniad o arbenigedd yng nghyfraith Cymru wedi dod yn hunanatgyfnerthol o bosibl. Awgrymwn y gallai hyn fod yn cyfyngu ar y posibilrwydd bod aelodau eraill o'r panel cymeradwy o siambrau eraill yn cael cyfarwyddiadau. Er mwyn esbonio’r pwynt hwn, rydym yn nodi bod y ddau o siambrau bargyfreithwyr a gafodd y lleiaf o gyfarwyddiadau wedi cael £100 a £76 yr un gan Lywodraeth Cymru yn ystod cyfnod ein gwerthusiad, tra’i bod yn ymddangos na chafodd 18 o’r bargyfreithwyr ar banel Llywodraeth Cymru unrhyw gyfarwyddiadau nac unrhyw incwm o gwbl.

Yn gadarnhaol, mae’r esboniad a gynigir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â’r lefel uchel o wariant ar 11 KBW yn awgrymu y gallai hyn fod yn fater sy’n ymwneud ag etifeddiaeth, a bod Llywodraeth Cymru bellach wedi ymrwymo i sylfaen gyflenwyr fwy amrywiol lle mae bargyfreithwyr yn y cwestiwn. Mae ein trafodaethau diweddar gydag un o swyddogion Llywodraeth Cymru wedi tynnu ein sylw at fentrau amrywiol i hwyluso’r broses arallgyfeirio hon, gan gynnwys:

- Rhannu proses gaffael Llywodraeth Cymru ar gyfer bargyfreithwyr yn rhestr "A" hŷn a rhestr "B" iau. Rydym yn deall mai bwriad y gwaith hwn i rannu’r panelau oedd annog bargyfreithwyr iau sydd wedi’u lleoli yng Nghymru i wneud cais am waith a allai fod wedi cael ei anfon yn flaenorol at fargyfreithwyr hŷn yn Llundain – ond a arferai godi’r un cyfraddau â'u cymheiriaid iau yng Nghymru
- Trefnu digwyddiadau addysg, ar y cyd â’r Bar Cymreig lleol, sy’n ceisio addysgu bargyfreithwyr Cymru sut i wneud ceisiadau o ansawdd da i fod ar banelau Llywodraeth Cymru
- Trefnu cynllun "bargyfreithwyr babanaidd". Mae’r cynllun hwn yn caniatáu i fargyfreithwyr nad ydynt ar banel gofrestru eu diddordeb mewn rhoi cymorth ad hoc i Lywodraeth Cymru
- Gwahodd aelodau’r panelau, yn enwedig aelodau’r panel B iau, i ddarparu hyfforddiant i Lywodraeth Cymru – gan felly godi eu proffiliau gyda chleientiaid posibl
- Gwahodd bargyfreithwyr i gyfrannu erthyglau i’r wefan Cyfraith.llyw.cymru

Yn anffodus, ymddengys nad yw pob un o’r mentrau rhagweithiol hyn gan Lywodraeth Cymru wedi tycio o fewn marchnad bargyfreithwyr Cymru. Er enghraifft, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym bod rhai o’r digwyddiadau addysgol y maent wedi’u trefnu yng Nghaerdydd wedi bod heb lawer yn bresennol. Yn yr un modd, mae’r niferoedd sydd wedi manteisio ar y cynllun bargyfreithwyr babanaidd a chyfleoedd i hyfforddi / ysgrifennu, hyd yma, wedi bod yn gyfyngedig.

Sylwn hefyd fod diffyg ymgysylltu o rai rhannau o’r bar yng Nghymru yn cyferbynnu’n llwyr â’r ymdrechion parhaus gan siambrau bargyfreithwyr yn Llundain, megis 11 KBW, i ennill gwaith sector cyhoeddus Cymru. Er enghraifft, mae’r set hon o siambrau’n trefnu cynhadledd gyfreithiol flynyddol â nifer dda’n bresennol ynddi yng Nghaerdydd, sydd wedi’i hanelu’n benodol at y sector cyhoeddus. Mae’r ddeuoliaeth hon o ymgysylltiad gweithredol rhwng rhai fel 11 KBW a rhai rhannau o’r Bar Cymreig wedi peri i ni ddod i gasgliad o’n hanfodd y gallai proffesiwn bargyfreithwyr Cymru ei hun ysgwyddo rhywfaint o gyfrifoldeb am y diffyg cyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru.

### Casgliadau ac argymhellion

Mae ein canfyddiadau’n dechrau o’r safbwynt mai ymylol yw gallu Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar gryfder cyffredinol y proffesiwn bargyfreithwyr yng Nghymru, yng ngoleuni ei grym prynu gwan ar y cyfan. Yn fwy cadarnhaol, yng ngoleuni’r sylwadau a gyflwynwyd i ni’n ddiweddar, rydym hefyd yn derbyn bod Llywodraeth Cymru wedi ymdrechu’n barhaus i arallgyfeirio ei sylfaen gyflenwyr dros y blynyddoedd diwethaf lle mae bargyfreithwyr yn y cwestiwn – gan gynnwys rhoi anogaeth ar gyfer talent sy’n lleol i Gymru.

Yng ngoleuni ein harsylwadau uchod, a hefyd y data bilio yr ydym wedi'i ddadansoddi, ein prif argymhelliad yw y dylai paneli bargyfreithwyr cymeradwy Llywodraeth Cymru grebachu'n sylweddol. O ystyried bod pedwar allan o 11 o Gwnsleriaid y Frenhines, chwech allan o 31 o aelodau panel A, ac wyth o naw aelod panel B heb eu cyfarwyddo eto, mae hyn yn awgrymu i ni y dylai maint y panelau ar y cyfan gael ei leihau o fwy na 50 i nifer sy'n agosach at 30 – gyda phaneli penodol yn cael eu lleihau i faint sy'n gymesur â maint y cyfarwyddiadau tebygol.

Yn y lle cyntaf, cynigiwn y dylai'r ymarfer hwn i grebachu'r panelau fod yn wirfoddol. Rydym yn awgrymu y dylid darparu gwybodaeth ronynnog i holl aelodau presennol y panelau – ac yn wir eu haelodau yn y dyfodol – ynglŷn â gwariant diweddar Llywodraeth Cymru ar fargyfreithwyr mewn perthynas ag arbenigaethau penodol eu panel. Awgrymwn ei bod yn bosibl y bydd yr wybodaeth hon yn annog aelodau presennol o'r panelau i ymddiswyddo, ar y sail nad oes ganddynt unrhyw gyfle realistig i sicrhau cyfarwyddiadau ystyrlon gan Lywodraeth Cymru. Dim ond os na fydd rhaglen wirfoddol i docio'r panelau yn lleihau eu maint cyffredinol yn sylweddol y byddem yn awgrymu y dylid tynnu bargyfreithwyr unigol oddi arnynt ar sail anwirfoddol - neu fod y broses gyfan o benodi i'r panelau'n cael ei hail-redeg i greu panelau ar raddfa lai.

Rydym yn derbyn yn llwyr bod y rhaglen rhesymoli panelau a gynigiwn yn ymddangos yn greulon. Fodd bynnag, awgrymwn y byddai proses o'r fath yn arwain yn y pen draw at banel sydd â bargyfreithwyr yn aelodau ohono sy'n fwy realistig o ran pa mor debygol ydynt o gael cyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru.

# Pennod wyth:
# Caffael gwasanaethau cyfreithwyr a bargyfreithwyr gan y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru

Yn y bennod hon, rydym yn archwilio gweithgarwch i gaffael gwasanaethau cyfreithiol ar draws y sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru trwy fframwaith Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) Cymru, mewn perthynas â chyfreithwyr a bargyfreithwyr. Mae'r dadansoddiad hwn yn adeiladu ar ein hymchwiliad i gaffael gwasanaethau cyfreithwyr a bargyfreithwyr gan Lywodraeth Cymru.

## Caffael gwasanaethau cyfreithwyr trwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

Deallwn ein bod wedi cael data gwariant fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer cwmnïau cyfreithwyr am y cyfnod cyfan y mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi bod mewn bodolaeth – h.y. ers yn hwyr yn 2015[85]. Mae rhywfaint o'r data a ddarparwyd i ni yn hynod o ronynnog ac yn cyfeirio at wariant penodol ar gwmnïau penodol yn ôl y math o sector cyhoeddus, ar sail flynyddol. Mae'r data arall a ddarparwyd yn fwy cyfanredol ei natur.

Nid yw ein canfyddiadau allweddol ar draws y ddwy set ddata yn amlwg yn wahanol i'r rhai a welwyd gennym yn flaenorol. Yn gyntaf, nodwn mai dim ond canran fach iawn o'r refeniw cyfanredol a gynhyrchir gan gwmnïau cyfreithiol Cymru, heb sôn am gwmnïau cyfreithiol sy'n masnachu yng Nghymru, ond nad ydynt wedi'u lleoli yma, yw gwariant y sector cyhoeddus cyfan ar wasanaethau cyfreithiol cyfreithwyr trwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Er mwyn dwyn cymhariaeth – sydd er hynny yn amherffaith – yn 2018, gwariodd sector cyhoeddus cyfan Cymru £5.54m ar wasanaethau cyfreithwyr ar sail Cymru a Lloegr gyfan. I roi'r ffigwr hwnnw yn ei gyd-destun, roedd refeniw blynyddol cyfanredol cwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn unig yn £408.11m, yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael gan yr ARhC[86]. Am y rheswm hwn – fel a drafodwyd eisoes – rydym yn amau a all gwariant sector cyhoeddus Cymru ar wasanaethau cyfreithiol ddylanwadu'n sylweddol ar iechyd cyffredinol y sector cyfreithiol yng Nghymru: mae ei rym prynu yn rhy fach.

Yn ail, sylwn fod y sector cyhoeddus yng Nghymru eisoes yn gwario canran uchel iawn o'i gyllideb gwasanaethau cyfreithiol allanol ar gwmnïau cyfreithiol sydd â phresenoldeb yng Nghymru. Mae hyn yn wir, ni waeth a yw rhywun yn cyfeirio at y sector cyhoeddus ar y cyd, neu rannau ohono ar wahân. Rhwng 2016 a 2018, er enghraifft, dim ond mewn un flwyddyn o'r tair yr oedd gwariant y sector cyhoeddus ar gwmnïau cyfreithiol y tu allan i Gymru ar y cyfan yn 10% neu fwy o'r cyfanswm (2018). Yn ystod yr un cyfnod, cadwyd tua 90% o wariant ar wasanaethau cyfreithiol allanol o fewn marchnad gyfreithiol Cymru. Ar ei anterth, prin 20% o'r gwaith a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol Cymru a gafodd ei wario ar gwmnïau cyfreithiol heb unrhyw bresenoldeb yng Nghymru. Mae hyn er gwaethaf y cwmnïau cyfreithiol â'u pencadlys yng Nghymru sy'n rhoi cyfrif am 1.45% yn unig o'r cyfansymiau refeniw ar y cyfan ar gyfer Cymru a Lloegr[87]. Rydym yn amau felly a allai'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ar y cyd, geisio cynyddu'r ganran o waith cyfreithiol sy'n cael ei anfon at gwmnïau cyfreithiol sydd â phresenoldeb yng Nghymru heb godi cwestiynau dilys am wrthrychedd y broses gaffael.

85 Local Government Lawyer. *National Procurement Service for Wales fires gun on £60-100m solicitors panels*, 7 Ebrill 2015.
86 Jomati. *The legal sector in Wales: a rapid review (part one)*, Mawrth 2019, t11.
87 Ibid, t11.

**Tabl 15: dadansoddiad o gyfanswm gwariant dan fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gwmnïau cyfreithwyr gan sector cyhoeddus cyfan Cymru**

| Blwyddyn | Cwmnïau â chod post yng Nghymru | Cwmnïau â chanolfan yng Nghymru | Cyfanswm gwariant yng Nghymru | Cyfanswm gwariant yng Nghymru fel % | Cyfanswm gwariant y tu allan i Gymru | Cyfanswm gwariant y tu allan i Gymru fel % | Cyfanswm gwariant ar y cyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2015* | £81,055 | £7,650 | £88,705 | 93.71 | £5,959 | 6.29 | £94,664 |
| 2016 | £1,237,412 | £578,471 | £1,815,883 | 95.24 | £90,692 | 4.76 | £1,906,576 |
| 2017 | £1,706,275 | £1,445,757 | £3,152,032 | 90.69 | £323,390 | 9.31 | £3,475,422 |
| 2018 | £3,188,843 | £1,774,907 | £4,963,750 | 89.57 | £588,907 | 10.43 | £5,541,657 |
| Cyfanswm | £6,213,586 | £3,806,784 | £10,020,370 | 90.94 | £997,948 | 9.06 | £11,018,319 |

*Medi – Rhagfyr yn unig
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Yn olaf, sylwn fod gwerth ariannol y gwariant ar gyfreithwyr trwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi profi rywfaint yn llai nag a ragwelwyd ar y dechrau pan y'i cyhoeddwyd gyntaf. Pan oedd panel y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn y broses o gael ei greu yn y lle cyntaf, roedd ei werth amcangyfrifedig – yn seiliedig ar y tair blynedd ddiwethaf o wybodaeth reoli –rhwng £15 miliwn a 25 miliwn y flwyddyn. A dweud y gwir, fel y dengys tabl 15 uchod, mae'r cyfanswm gwirioneddol wedi bod yn llai o lawer – dim ond £11.02 miliwn rhwng chwarter olaf 2015 a diwedd 2018. Mae Llywodraeth Cymru wedi ein hysbysu bod Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn ei gwneud yn ofynnol amcangyfrif y gwerth ariannol uchaf posibl. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym hefyd, ar adeg creu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, ei bod yn anodd pennu pa gyrff yn y sector cyhoeddus fyddai'n defnyddio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn y pen draw, ac at ba ddibenion. Serch hynny, yr hyn sy'n wir heb os nac oni bai yw bod gwerth gwirioneddol cyfanswm gwariant y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn sylweddol is nag amcangyfrifon cychwynnol Llywodraeth Cymru.

Mae tabl 16, isod, yn cynnig cymhariaeth ddarluniadol, ond mwy gronynnog, mewn perthynas ag un rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru: awdurdodau lleol.

**Tabl 16: dadansoddiad o gyfanswm gwariant dan fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol gan awdurdodau lleol yng Nghymru**

| Blwyddyn | Cwmnïau â chod post yng Nghymru | Cwmnïau â chanolfan yng Nghymru | Cyfanswm gwariant yng Nghymru | Cyfanswm gwariant yng Nghymru fel % | Cyfanswm gwariant y tu allan i Gymru | Cyfanswm gwariant y tu allan i Gymru fel % | Cyfanswm gwariant ar y cyfan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2015* | £51,166 | £3,495 | £54,661 | 91.55 | £5,044 | 8.45 | £59,705 |
| 2016 | £526,935 | £81,764 | £608,698 | 88.98 | £75,379 | 11.02 | £684,077 |
| 2017 | £680,148 | £120,943 | £801,091 | 79.64 | £204,848 | 20.36 | £1,005,939 |
| 2018 | £1,363,051 | £181,707 | £1,544,758 | 92.97 | £116,825 | 7.03 | £1,661,583 |
| Cyfanswm | £2,621,300 | £387,908 | £3,009,208 | 88.21 | £402,095 | 11.79 | £3,411,304 |

*Medi – Rhagfyr yn unig
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae'r data gwariant a ddangosir uchod yn awgrymu nad oes unrhyw dueddiadau diamwys tuag at anfon mwy o waith cyfreithiol at gwmnïau cyfreithwyr y tu allan i Gymru. Er enghraifft, er i ganran y gwaith cyfreithiol a anfonwyd y tu allan i Gymru gan awdurdodau lleol yng Nghymru godi o 11.02% i 20.36% rhwng 2016 a 2017, disgynnodd yn ôl i ddim ond 7.03% yn 2018. Ar ben hynny, mae'r data gronynnog ar wariant a ddarparwyd ar ein cyfer yn dangos i ni y gellir esbonio'r cynnydd hwn mewn gwariant cyfreithiol ar gwmnïau cyfreithiol y tu allan i Gymru bron yn gyfan gwbl trwy gynnydd untro yng ngwerth y cyfarwyddiadau a roddwyd i ddau o gwmnïau cyfreithiol yn Lloegr. Cododd gwerth gwaith cyfreithiol llywodraeth leol Cymru a anfonwyd i'r ddau bractis cyfreithiol penodol hyn o £6,136 yn 2016 i £221,919 yn 2017, dim ond i ddisgyn yn ôl i ddim ond £4,110 yn 2018.

Gall yr un ymchwydd untro hwn mewn gwariant hefyd egluro i raddau helaeth pam y cododd cyfanswm gwariant y sector cyhoeddus ar gwmnïau cyfreithiol heb bresenoldeb yng Nghymru o £90,692 yn 2016 i £323,390 yn 2017, ac o 4.76% i 9.31% o'r cyfanswm rhwng yr un ddwy flynedd. Ni chafodd yr un o'r cwmnïau a oedd yn gyfrifol am y cynnydd mawr hwn mewn un flwyddyn unrhyw gyfarwyddiadau ystyrlon yn ystod 2018, ar draws y sector cyhoeddus cyfan. Felly, nid yw'r cwmnïau hyn yn fygythiad cystadleuol sylweddol i gwmnïau cyfreithiol yng Nghymru sy'n gyflenwyr i sector cyhoeddus Cymru.

### Caffael gwasanaethau bargyfreithwyr trwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

Ein dealltwriaeth ni yw mai dim ond ym mis Ebrill 2017 y daeth fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer bargyfreithwyr a chyfreithwyr-eiriolwyr i fodolaeth. Am y rheswm hwn, mae data ar wariant dan fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a roddwyd i ni gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â bargyfreithwyr yn llai eang na'r data cyfatebol ar gyfer cwmnïau cyfreithwyr. Yn nodedig, mae'n cynnwys un flwyddyn galendr gyflawn o ddata yn unig, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2018. Mae'r mwyafrif helaeth o'r gwariant hwn -tua 98% - yn ymwneud â gwariant ar un rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn unig; awdurdodau lleol. Mae'n anorfod felly bod ein dadansoddiad ni o ddata ar wariant dan fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar fargyfreithwyr yn fyr.

Gellir dadlau mai'r prif ffigwr allweddol yw mai dim ond £271,170 oedd y cyfanswm gwariant dan fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar fargyfreithwyr yn ystod blwyddyn galendr 2018. Mae hyn gryn dipyn yn llai na'r amcangyfrif a gynigiwyd yn y ddogfen "Gwahoddiad i Dendro ar gyfer Darparu Gwasanaethau Cyfreithiol gan Fargyfreithwyr/Cyfreithwyr-eiriolwyr", a oedd yn nodi "er gwybodaeth, rydym yn rhagweld bod lefel y ffioedd proffesiynol sydd i'w talu drwy'r cytundeb hwn yn £10 miliwn.[88]" Yn y ddogfen dendro, roedd cafeat trwm ar yr amcangyfrif hwn, ac nid oedd yn rhoi unrhyw amserlen ar gyfer y cyfanswm gwerth amcangyfrifedig hwn. At hynny, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dweud yn gryf wrthym ni ei bod "not mandatory for public sector organisations to use any of the NPS frameworks or panel agreements". Serch hynny, mae'r diffyg cyfatebiaeth rhwng y gwariant amcangyfrifedig o dan y fframwaith hwn gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, a'r gwariant gwirioneddol, yn nodedig.

Yn anffodus, oherwydd na lwyddodd Bwrdd Safonau'r Bar i ddarparu refeniwiau blynyddol crynswth i ni ar gyfer y Bar Cymreig, ni allwn ddweud pa ganran o gyfanswm trosiant y Bar Cymreig y mae'r gwariant hwn gan y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ei chynrychioli. Fodd bynnag, oherwydd ein bod yn gwybod bod tua 300 o fargyfreithwyr sy'n ymarfer yng Nghymru, gallwn ddweud bod cyfanswm gwariant y sector cyhoeddus yng Nghymru ar fargyfreithwyr yn gyfwerth ag ychydig yn llai na £1,000 y bargyfreithiwr. Wrth gwrs, fel y byddwn yn trafod mewn mwy o fanylder yn awr, nid yw'r holl ddata ynghylch gwariant ar fargyfreithwyr dan fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn ymwneud â bargyfreithwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Fodd bynnag, y pwynt sy'n werth ei bwysleisio yw nad yw gwariant dan fframwaith Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru yn dylanwadu, nac yn gallu dylanwadu, yn sylweddol ar iechyd ariannol cyffredinol y Bar Cymreig.

[88] Cyfeirnod y ddogfen NPS-PS0021-16, paragraffau 4.1 – 4.3.

Ar ôl rhywfaint o ddryswch ynghylch lleoliad pencadlys Siambrau Cornerstone – sydd â changen yng Nghaerdydd ond sydd wedi'i leoli yn Llundain – gallwn yn awr ddatgan cyfanswm gwerth ariannol a chanran gwariant dan fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a gafodd ei gaffael yng Nghymru, o'i gymharu â'r hyn a anfonwyd i Loegr. Ar sail gwerth, rydym yn cyfrifo bod £269,733 – allan o gyfanswm o £271,170 – wedi'i wario trwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar fargyfreithwyr / cyfreithwyr-eiriolwyr a oedd wedi'u lleoli yn Lloegr yn 2018, o'i gymharu â dim ond £1,437 ar siambrau bargyfreithwyr a oedd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae hyn yn cyfateb i 99.47% a wariwyd yn Lloegr a 0.53% yng Nghymru. O'r dogfennau yr ydym wedi cael mynediad atynt, credwn nad oedd fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer bargyfreithwyr / cyfreithwyr-eiriolwyr erioed wedi'i fwriadu'n agored i gefnogi'r proffesiwn bargyfreithwyr yng Nghymru. Yn sicr, yn 2018, ni chafwyd ffafriaeth o'r fath ymhlith y sefydliadau hynny yn y sector cyhoeddus a ddefnyddiodd fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer bargyfreithwyr yng Nghymru.

**Tabl 17: Gwariant dan fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar siambrau bargyfreithwyr, 2018**

| Siambrau | Prif leoliad | Gwariant | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 KBW | Llundain | £12,748 | 4.70 |
| Siambrau 30 Plas y Parc | Caerdydd | £1,437 | 0.53 |
| Cornerstone Barristers | Llundain | £153,281 | 56.53 |
| Francis Taylor Buildings | Llundain | £66,303 | 24.45 |
| Siambrau'r Guildhall | Bryste | £37,401 | 13.79 |
| Cyfanswm | | £271,170 | 100.00 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Deallwn fod fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer bargyfreithwyr / cyfreithwyr-eiriolwyr yn benagored ac nad yw'n cynnwys uchafswm o fargyfreithwyr / cyfreithwyr-eiriolwyr a all gofrestru ar ei gyfer. Felly mae'r rhwystrau i fynediad at fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn isel, cyhyd â bod safonau ansawdd penodedig yn cael eu bodloni. Yn anffodus, mae canlyniad natur benagored fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn golygu bod y tebygolrwydd gwirioneddol y caiff bargyfreithwyr / cyfreithwyr-eiriolwyr eu cyfarwyddo hefyd yn isel. Mae'r data a roddwyd i ni gan Lywodraeth Cymru yn dangos, ar sail Cymru a Lloegr gyfan, mai dim ond chwe siambr allan o 28 a gafodd unrhyw gyfarwyddiadau yn ystod blwyddyn galendr 2018. Ac, o'r saith siambr yng Nghymru sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr hon o 28, dim ond dwy – gan gynnwys Cornerstone – a gafodd unrhyw gyfarwyddiadau. Mewn cyferbyniad, ni chafodd pump unrhyw gyfarwyddiadau.

Mae patrwm o beidio â chael cyfarwyddiadau hefyd yn amlwg pan ddadansoddir data ynghylch gwariant dan fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar fargyfreithwyr / cyfreithwyr-eiriolwyr ar sail maes ymarfer. Dim ond 11 o "lotiau" seiliedig ar faes ymarfer a gafodd unrhyw wariant dan fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn ystod 2018. Ar ben hynny, dim ond un math o faes ymarfer, cyfraith amgylcheddol a chynllunio, gafodd y mwyafrif helaeth o'r gwariant hwn – £219,584 allan o'r cyfanswm o £271,170 yn 2018. Mae hyn yn golygu bod bargyfreithwyr a chyfreithwyr-eiriolwyr ar restr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol – a oedd wedi'u lleoli yng Nghymru neu fel arall – i bob pwrpas yn brwydro dros wariant gweddilliol o £51,586 yn 2018, ar draws 26 o becynnau gwaith ar gyfer gwahanol feysydd ymarfer. Mae hon yn amlwg yn sefyllfa sy'n llai na boddhaol i'r mwyafrif helaeth o fargyfreithwyr / cyfreithwyr-eiriolwyr sydd ar banel Gwasanaeth Caffael Cyhoeddus Cymru.

Un dull o reoli disgwyliadau o ran y tebygolrwydd o gael cyfarwyddiadau fyddai gosod terfyn ar nifer yr aelodau panel a ganiateir, efallai ar sail maes ymarfer. Fodd bynnag, o ystyried natur anrhagweladwy anghenion sector cyhoeddus Cymru am fargyfreithwyr / cyfreithwyr-eiriolwyr, byddem yn gyndyn o ddadlau dros gyfyngiad o'r fath. Gallai dull llai cyfyngol o reoli'r panel olygu mynd ati o bryd i'w gilydd i hysbysu aelodau o'r panel am wariant diweddar dan fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, ar lefel gyfanredol a hefyd mewn perthynas ag arbenigaethau dynodedig eu panel. Awgrymwn y byddai'r dull hwn yn galluogi aelodau'r panel i benderfynu – ar sail wybodus – a ddylent barhau ar banel y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ynteu a ddylent, efallai, chwilio am ffynonellau cyfarwyddiadau eraill. Awgrymwn y byddai datgeliad o'r fath yn arbennig o ddefnyddiol i aelodau'r panel yn wyneb y diffyg cyfatebiaeth rhwng gwariant gwirioneddol 2018 a'r gwariant amcangyfrifedig o £10 miliwn a nodwyd yn y ddogfen gwahoddiad i dendro wreiddiol.

## Casgliadau ac argymhellion

Yn seiliedig ar ein dadansoddiad o ddata ynghylch gwariant dan fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, mae ein casgliadau mewn perthynas â chyfreithwyr a bargyfreithwyr (a chyfreithwyr-eiriolwyr) yn adleisio'r hyn a roddwyd gennym mewn perthynas â chaffael gwasanaethau cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru. Yn gyntaf, sylwn fod gallu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i ddylanwadu ar iechyd cyffredinol proffesiwn cyfreithiol Cymru trwy'r broses gaffael yn eithriadol o gyfyngedig. Awgrymwn na ddylai, felly, fwrw ymlaen gan dybio y dylai. Yn hytrach, dylai ganolbwyntio ar wneud y broses gaffael mor hawdd â phosibl i gwmnïau cyfreithiol (yn arbennig) wneud cais ar ei chyfer.

O ran caffael gwasanaethau cyfreithwyr, rydym yn awgrymu nad oes unrhyw angen cynhenid i fynd ar drywydd strategaeth gaffael sy'n amlwg "yn ffafrio Cymru", o gofio bod cwmnïau cyfreithiol sydd â phresenoldeb yng Nghymru eisoes yn ennill cyfran uchel o'r gwaith. I fargyfreithwyr, mae'r sefyllfa'n fwy cymhleth. Ar y cyfan, sylwn fod y ganran refeniw o waith a anfonir at fargyfreithwyr / cyfreithwyr-eiriolwyr yng Nghymru trwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn fach iawn – o bosibl hyd yn oed yn llai na'r gymhareb bargyfreithwyr / cyfreithwyr-eiriolwyr sydd wedi'u lleoli yn Lloegr i'r rhai sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. At hynny, mae'n amlwg ei bod yn well gan y sector cyhoeddus yng Nghymru brynu gwasanaeth bargyfreithwyr sydd wedi'u lleoli yn Llundain, bron gan eithrio'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau eraill. Efallai y bydd y rhai sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn dymuno dysgu o ymdrechion Llywodraeth Cymru i amrywio ei sylfaen gyflenwyr lle mae bargyfreithwyr yn y cwestiwn, a chydgysylltu â'r ymdrechion hynny. Mae manylion y mentrau allgymorth amrywiol hyn gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi'u targedu at y Bar Cymreig, i'w gweld ym mhennod saith o'r adroddiad hwn.

Yn olaf, lle bynnag y mae bargyfreithwyr / cyfreithwyr sy'n aelodau o banel y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi'u lleoli, rydym yn pryderu mai dim ond ychydig sydd ag unrhyw obaith o gael incwm rhesymol o'u haelodaeth o'r panel hwnnw. Felly, awgrymwn broses o ymgysylltu'n weithredol o dro i dro gydag aelodau presennol y panel, gyda golwg ar eu hysbysu ynghylch eu tebygolrwydd o dderbyn cyfarwyddiadau. Yn ddelfrydol, bydd y broses hon yn golygu bod y panel presennol yn crebachu i lefel fwy realistig, gyda'r rhai sy'n aros arno yn fwy tebygol o gael gwerth ystyrlon o gyfarwyddiadau.

# Pennod naw:
# Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach – y canfyddiad am y farchnad gyfreithiol leol

Fel rhan o'n hymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn, ceisiwyd barn arweinwyr practisiau cyfreithiol ynghylch caffael gan y sector cyhoeddus yng Nghymru. Gofynnwyd i'r holl gyfweleion a oedd eu practisiau'n gweithio naill ai i Lywodraeth Cymru yn benodol, neu i'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn ehangach. Os nad oedd practisiau ein cyfweleion yn gwneud hynny, fe ofynasom ni pam. Os oeddent, gofynasom am eu barn am y broses caffael cyhoeddus yn benodol a hefyd am eu barn ynglŷn â gweithio i gleientiaid y sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol.

Ymhlith y rhai nad oeddent yn gwneud gwaith i'r sector cyhoeddus yng Nghymru, roedd nifer yn amharod i ystyried yr opsiwn hyd yn oed. Mewn rhai achosion, y rheswm dros hyn oedd nad oedd eu practis yn arbenigo yn y math hwn o waith. Ond, mewn achosion eraill, roedd gwrthnawsedd tuag at ddull a arweinir gan gaffael yn gyffredinol. Roedd y gwrthnawsedd hwn yn golygu nad oedd y cwmnïau hyn hyd yn oed yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnig am waith lle'r oedd caffael yn ganolog i'r broses brynu.

> *"My perception of the tendering process is that it's old-fashioned, outdated, difficult to engage with – and the selection process is very much about the old familiars. So what's the point in spending your time going into a competitive pitching process? I think the way that you can deliver great work is by building relationships. And you can't build a relationship with government, because they can't let you."*

Ymhlith y cwmnïau hynny a oedd yn ymgymryd â gwaith i'r sector cyhoeddus yng Nghymru, roedd y canfyddiad am y broses caffael cyhoeddus yn amrywio'n aruthrol: Roedd rhai yn fodlon arni, ac eraill yn llai felly.

> *"It's very time-consuming. On the other hand, the NPS has been really good for us. Until the last few years, our public sector experience has been outside of Wales, and were finding it quite difficult to break into the Welsh market. But, thanks to our English experience, and the NPS, we actually did quite well on the tender process."*
>
> *"Our experience of working directly with the Welsh Government has been very positive."*
>
> *"It's a pain, a pain, a pain, but you've got to do it. I think my profession whinges too much – you've just got to live with it. On the whole, tendering for Welsh Government work is no more complex – or painful – than in general in the UK. It's certainly less painful than pitching for the European Commission – which is absolutely dreadful."*

Rhoddodd rhai ymarferwyr ganmoliaeth i Lywodraeth Cymru am ei bod yn estyn allan atynt yn achlysurol ac yn eu gwahodd i ymgeisio am brosiectau penodol. Roedd eraill, serch hynny, yn cwyno gan nodi'r gwrthwyneb: nad oeddent wedi cael cynnig y cyfle i dendro am waith, oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi credu – yn anghywir – bod diffyg arbenigedd lleol i'w gyfarwyddo.

> *"What we find very disappointing is that there are certain areas of expertise when we have been told that the Welsh Government had taken the work outside Wales, because there wasn't relevant expertise in Wales. And that is not true. We have that capability in our office. So that's a frustration. There needs to be a more forensic examination of where the capability is, before they make that decision. If the Welsh Government want to see a thriving legal sector, they need to put their money where their mouth is."*

Un mater, a godwyd gan sawl arweinydd practis cyfreithiol, oedd y canfyddiad, pe bai cwmni cyfreithiol yn aflwyddiannus wrth gynnig am le ar un panel, y byddai wedi'i gau allan wedyn rhag cynnig am waith ar draws y sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru. Roedd y dull hwn yn un risg-uchel, meddai un uwch gynrychiolydd o gwmni cyfreithiol; pe bai eu cwmni nhw eu hunain wedi colli ei le ar y panel, gallai fod wedi rhoi'r gorau i'r arbenigaeth hon yn gyfan gwbl, adleoli adnoddau, ac wedyn peidio â chynnig am waith tebyg yn y dyfodol.

Wrth gwrs, mater arall yw pa un a yw awdurdodau prynu unigol y sector cyhoeddus yn cyfarwyddo cwmnïau ar y panel yn unig - nid ydynt dan orfodaeth i wneud hynny. Yn wir, gall parodrwydd rhai awdurdodau cyhoeddus i ddefnyddio cwmnïau nad ydynt yn rhan o'r panel weithiau beri i gwmnïau cymeradwy feddwl pam eu bod wedi mynd i'r ymdrech i sicrhau lle ar banel yn y lle cyntaf.

> *"For firms like ours, the NPS is very onerous. We've done some work through this framework and we've also done some work where, actually, the procuring officer at the local body just gets around it. This makes us think that it's not worth spending oodles of time on it when it's not always followed anyway."*

Mewn perthynas â'r Bar, gwnaed dau sylw allweddol gan yr uwch ffigyrau hynny y siaradasom ni gyda hwy. Y cyntaf oedd y canfyddiad – yn enwedig mewn perthynas â chyfraith weinyddol a chyhoeddus – bod gwaith newydd yn cael ei anfon i Lundain fel mater o drefn, er anfantais i'r Bar yng Nghymru. Efallai nad yw hyn yn ganfyddiad annisgwyl, o ystyried – fel a drafodwyd yn y penodau blaenorol – mai bargyfreithwyr sydd wedi'u lleoli ym mhrifddinas y DU sy'n gwneud cyfran sylweddol o'r gwaith eiriolaeth ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru.

> *"People are very disappointed about the amount of work that is perceived – and I do stress the word 'perceived' – as leaving Wales, from public institutions, and going to England. That really does upset people. Most people want to be in Wales, support Wales, and contribute to Wales – and then work just goes out of Wales to people who don't live in the country or contribute to the economy."*

> *"It's a chicken and egg-type situation. The Welsh Government is sending work to London because they don't have the people here – and people here say they aren't going to get any experience because the Welsh Government sends work to London."*

Yr ail broblem yw nad oedd hyd yn oed bod yn aelod cymeradwy o banel Llywodraeth Cymru yn aml yn arwain at lawer o waith. Yma, mae'n debyg y byddai'n ddefnyddiol cofio – yn ôl data Llywodraeth Cymru ei hun – nad oedd 35% o'r cwnsleriaid sy'n aelodau o'i phanelau wedi cael unrhyw gyfarwyddiadau eto.

> *"People have been very disappointed by the amount of work that has happened as a result of having been successful with their procurement application. People want to get on the panel, even though the rates of pay are very low."*

### Casgliadau ac argymhellion

O ran cwmnïau cyfreithiol, ein prif argymhelliad yw nad yw Llywodraeth Cymru yn goramcangyfrif ei phwysigrwydd i farchnad gyfreithiol Cymru. Yn niffyg cynnydd nodedig mewn gwariant cyfreithiol allanol, byddem felly yn cynghori yn erbyn unrhyw demtasiwn i lwytho rhwymedigaethau newydd ar aelodau'r panelau, yn enw "amcanion partneriaeth strategol". Mae nifer o aelodau panelau Llywodraeth Cymru eisoes yn ddifrwdfrydedd ynghylch trefniadau caffael presennol y sector cyhoeddus yng Nghymru. At hynny, mae dewis Llywodraeth Cymru o gyflenwyr gwasanaethau cyfreithiol amgen – yn enwedig yng Nghymru – yn gyfyngedig.

Byddem hefyd yn cynghori yn erbyn ceisio cynyddu'r swm o arian sy'n cael ei wario ar gwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, yn niffyg cyfiawnhad gwrthrychol dros symudiad o'r fath. Mae gwariant presennol Llywodraeth Cymru y tu allan i Gymru eisoes yn fach. Lle mae gwariant o'r fath yn digwydd, mae llawer ohono'n canolbwyntio ar gwmnïau cyfreithiol cydnabyddedig sy'n arbenigo ar y sector cyhoeddus ac sy'n gweithredu'n agos at ffiniau Cymru.

Yn ogystal, credwn ei bod yn bwysig ailadrodd bod y farchnad ar gyfer gwaith cyfreithiol yn y sector cyhoeddus yn drawsffiniol iawn rhwng Cymru a Lloegr. Mae rhai cwmnïau cyfreithiol sy'n gweithredu yng Nghymru yn ennill llawer mwy o arian yn gwneud gwaith i gleientiaid sector cyhoeddus Lloegr nag y maent yn ei ennill yn gwneud gwaith i gleientiaid sector cyhoeddus Cymru. Er eu mwyn hwy yn anad dim, mae'n hanfodol felly bod y farchnad ar gyfer tendro am waith cyfreithiol gan y sector cyhoeddus yn parhau i fod ar agor i bawb, ni waeth ym mhle yn y DU y mae swyddfeydd practis cyfreithiol.

Wedi dweud hynny, nid ydym yn credu bod unrhyw beth o'i le ar y syniad bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio meithrin capasiti cyfreithiol lleol yng Nghymru. Er enghraifft, byddem yn gysurus gyda'r syniad bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rhagweithiol i estyn allan at gyfreithwyr wedi'u lleoli yng Nghymru sy'n arbenigo yn y mathau o gyfraith y mae angen cymorth arni gyda hwy, ond nad ydynt yn aelodau o'i phaneli cymeradwy ar hyn o bryd. Yma, efallai y bydd Cymdeithas y Cyfreithwyr yn gallu helpu: mae'n cyhoeddi cyfeirlyfr ar-lein, y gellir chwilio drwyddo yn ôl arbenigaeth gyfreithiol a daearyddiaeth. Os yw Llywodraeth Cymru yn barod i wneud yr ymchwil hon – a hefyd i gyfarwyddo'r ymarferwyr arbenigol hynny y bydd yn eu hadnabod – dylai'r dull hwn leihau'r angen i anfon gwaith cyfreithiol arbenigol allan o Gymru. Gallai ychydig o gymorth wedi'i dargedu, a rhyw fymryn o risg gan Lywodraeth Cymru wrth roi cyfarwyddiadau, fod o gymorth sylweddol i'r farchnad gyfreithiol leol.

O ran bargyfreithwyr, ailadroddwn ein casgliadau a gynigiwyd yn y penodau blaenorol: sef, bod aelodaeth bresennol y panel yn rhy fawr, yn ôl pob tebyg, a bod gan rhy ychydig o aelodau'r panelau unrhyw obaith realistig o gael cyfarwyddiadau ystyrlon. Am y rheswm hwnnw, awgrymwn fod Llywodraeth Cymru, a'r sector cyhoeddus ehangach hefyd, yn cael trafodaeth agored gyda'i sylfaen cyflenwyr gwasanaethau bargyfreithiwr ynglŷn â gwerth y gwaith y maent yn debygol o'i gael o ganlyniad i'w statws fel cyflenwyr cymeradwy.

# Pennod deg: Pa gymorth yr hoffai'r sector cyfreithiol ei gael gan Lywodraeth Cymru

Mae rhan gyntaf y bennod hon yn archwilio i ba raddau y mae proffesiwn cyfreithiol Cymru yn cynnal ei rwydwaith cyd-gymorth ei hun. Rydym yn archwilio'r mater hwn am dri rheswm:

- I ddarganfod ble mae'r proffesiwn cyfreithiol yn hunan-drefnu, hunan-addysgu a hunan-rwydweithio, heb fod angen cymorth neu anogaeth gan Lywodraeth Cymru
- I helpu Llywodraeth Cymru i nodi pwyntiau cyswllt defnyddiol o fewn proffesiwn cyfreithiol Cymru, y gallai ystyried ei bod yn ddefnyddiol ymgysylltu â hwy mewn perthynas â materion penodol
- I roi gwybod i Lywodraeth Cymru lle ymddengys nad oes fawr o obaith y bydd proffesiwn cyfreithiol Cymru yn hunan-drefnu ar y cyd

Mae ail ran y bennod hon yn ystyried barn arweinwyr practisiau cyfreithiol ynghylch cymorth Llywodraeth Cymru i'r sector cyfreithiol. Yma, rydym yn gyntaf yn archwilio ymwybyddiaeth arweinwyr practisiau cyfreithiol o gynlluniau presennol Llywodraeth Cymru, a allai helpu i ddatblygu'r sector. Yna rydym yn archwilio'r materion hynny lle mae arweinwyr practisiau cyfreithiol Cymru yn credu y gallai cymorth wedi'i dargedu gan Lywodraeth Cymru fod yn ddefnyddiol.

## Samplu cyfweliadau

Mae'r farn a fynegir yn y bennod hon yn adlewyrchu'n gadarn rai'r arweinwyr practisiau cyfreithiol y bu modd i ni gyfweld â hwy o fewn yr amserlen a oedd yn ofynnol ar gyfer yr adolygiad cyflym hwn. Fel rhan o'n hymchwil, cysylltwyd dro ar ôl tro â mwy na 40 o arweinwyr cwmnïau cyfreithiol, mewn practisiau ledled Cymru. Gwnaethom chwilio'n benodol am arweinwyr practisiau cyfreithiol a oedd yn arwain practisiau o wahanol feintiau ac â gwahanol arbenigaethau, ac a oedd wedi'u lleoli mewn amrywiaeth o leoliadau. Yn anffodus, roedd y mwyafrif llethol o'r arweinwyr practisiau cyfreithiol a gytunodd i gyfrannu at ein hymchwil wedi'u lleoli yn Ne ac, i raddau llai, yng Ngorllewin Cymru. Mewn perthynas â chefndiroedd ein cyfweleion lle mae meysydd ymarfer yn y cwestiwn, cwmpaswyd ystod eang o arbenigaethau cyfreithiol, yn rhai masnachol ac anfasnachol.

Cyfanswm yr arweinwyr practisiau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a gyfwelwyd yn benodol yn ystod cam cychwynnol ein hymchwil oedd 17. Yn ddefnyddiol, fodd bynnag, roedd yr unigolion a gyfwelwyd gennym yn cynnwys arweinwyr rhai o bractisiau cyfreithiol mwyaf Cymru. Yn anffodus, roedd cyfraddau cyfweld yn arbennig o siomedig ymhlith siambrau bargyfreithwyr ac o fewn y gymuned cyfreithwyr mewnol. Yn ddefnyddiol, cynhyrchodd ein harolwg dilynol fewnwelediadau gan 37 o ymatebwyr ychwanegol, gan felly ein galluogi i gyrraedd ystod ehangach o weithwyr proffesiynol cyfreithiol nag yr oeddem yn gallu ei chyrraedd trwy gyfweliadau yn ystod cam cyntaf ein hymchwil. Er bod ymatebwyr yn Ne Cymru yn dal i fod yn fwy blaenllaw nag ymatebwyr o unrhyw ardal arall, roeddem yn falch o weld bod nifer fach o gwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru wedi cymryd rhan hefyd. Ymatebodd cynrychiolwyr o nifer o gwmnïau cyfreithiol sy'n BBaCh hefyd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r Bar Cymreig a chynrychiolwyr o'r gymuned cyfreithwyr mewnol. Ymgysylltwyd hefyd â sawl uwch gynrychiolydd o'r sector cyhoeddus.

### Grwpiadau ymarfer cyfreithiol

Mae gan Gymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr swyddfa yng nghanol Caerdydd. Deallwn fod swyddogion Llywodraeth Cymru eisoes yn ymwneud â'r Swyddfa hon yn rheolaidd. Yn ogystal â'r Gymdeithas hon sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr, mae sawl cymdeithas cyfreithwyr gwirfoddol yn gweithredu ledled Cymru hefyd. Mae'r cymdeithasau cyfreithwyr hyn yn cynnwys:

- Cymdeithas Cyfreithwyr Caerdydd a'r Cylch
- Cymdeithas Cyfreithwyr Sir Fynwy
- Cymdeithas Cyfreithwyr Abertawe a'r Cylch
- Cymdeithas Cyfreithwyr Gorllewin Cymru
- Cymdeithas Cyfreithwyr Gogledd Cymru a Chaer

Mae rhai o'r cymdeithasau cyfreithwyr lleol mwy gweithgar yn trefnu digwyddiadau addysgol a chymdeithasol, y deallwn fod cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn eu mynychu ar hyn o bryd. O'r rhain, efallai mai'r un uchaf ei broffil yw cinio blynyddol partneriaid rheoli a chyfarwyddwyr Cymdeithas Cyfreithwyr Caerdydd a'r Cylch.

Hyd y gwyddom, nid oes gan rai rhannau o Gymru – yn enwedig Canolbarth Cymru – gymdeithasau cyfreithwyr lleol gweithredol mwyach. Fodd bynnag, gan bod Cymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr yn cynnwys sawl sedd sy'n benodol i Gymru ar ei chyngor llywodraethu, gall y cyfreithwyr a etholir i'r seddi hynny fod yn bwyntiau cyswllt defnyddiol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r lleoliadau hynny. Hefyd, mae Cymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr yn gweithredu Pwyllgor penodol i Gymru ac is-adran cyfreithwyr iau ar gyfer De-ddwyrain Cymru.

Nid oes gan Gyngor y Bar na'i gorff rheoleiddio cyfatebol, sef Bwrdd Safonau'r Bar, bresenoldeb uniongyrchol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n debyg mai Cylchdaith Cymru a Chaer yw'r pwynt cyswllt gorau i gymuned bargyfreithwyr y wlad. Mae tua 50 (un ym mhob chwech) o fargyfreithwyr yng Nghymru yn perthyn i'r grŵp hwn. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw grŵp arweinwyr ar gyfer siambrau bargyfreithwyr yng Nghymru, nid ar gyfer penaethiaid siambrau (ymarferwyr) nac uwch glercod / prif weithredwyr (personél cymorth).

Nid oes gan y Grŵp Diwydiant a Masnach dros Gymru a Lloegr, sy'n cynrychioli cyfreithwyr sy'n gweithio ym myd diwydiant, grŵp rhanbarthol yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o grŵp cyfreithwyr mewnol anffurfiol, sydd wedi'i fwriadu ar gyfer cwnsleriaid corfforaethol yn ardal De Cymru. Credwn fod y grŵp hwn yn cael ei gadeirio gan bennaeth materion cyfreithiol Undeb Rygbi Cymru, Rhodri Lewis. Credwn fod gan y grŵp hwn rhwng 10 a 25 o aelodau gweithredol.

Yn y sector cyhoeddus, mae gan Gymdeithas y Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol gangen Gymreig, sy'n cwrdd unwaith y chwarter yn Llandrindod. Cefnogir y sefydliad hwn gan bob un o 22 awdurdod lleol Cymru, y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru ac un o'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

Mae gan CILEx, Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol, fwy na 1,000 o aelodau sy'n byw[89] yng Nghymru neu gerllaw. Mae ganddo ganghennau sy'n gwasanaethu'r lleoliadau canlynol:

- Gogledd Cymru a Chaer
- Caerdydd a De Ddwyrain Cymru
- Amwythig a Chanolbarth Cymru
- De Orllewin Cymru

Islaw'r cymdeithasau proffesiwn-benodol hyn, rydym hefyd yn nodi bodolaeth nifer o grwpiau ychwanegol sy'n weithredol yng Nghymru. Mae'r grwpiau hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar feysydd ymarfer cyfreithiol cul, addysg / hyfforddiant, datblygu busnes, rhwydweithio, a chymorth gweithredol ymarfer cyfreithiol. Ceir enghreifftiau eglurhaol o'r mathau hyn o grwpiau yn nhabl 18 isod. Mae'r rhestr isod yn deillio o feysydd diddordeb personol ein cyfweleion: nid ydym yn honni ei bod yn gyflawn.

### Tabl 18: grwpiau aelodaeth sy'n gysylltiedig â'r gyfraith yng Nghymru

| Enw'r grŵp | Ffocws / aelodaethau |
|---|---|
| Cymru'r Gyfraith | Wedi'i fwriadu ar gyfer pob rhan o'r proffesiwn cyfreithiol, ond mae'n nodedig am ei aelodaeth farnwrol |
| Cyfraith Gyhoeddus Cymru (Cymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru) | Ymarferwyr preifat, cyfreithwyr y sector cyhoeddus, y byd academaidd a'r farnwriaeth |
| Cyfreithwyr Cymorth Cyfreithiol Ifainc yng Nghymru | Cyfreithwyr Cymorth Cyfreithiol Ifainc yng Nghymru |
| Cymdeithas Cyfraith Fasnachol Cymru | Cyfreithwyr masnachol yng Nghymru |
| Rhwydwaith Cyfreithiol Adnoddau Dynol yn Ne Cymru | Wedi'i fwriadu ar gyfer rheolwyr Adnoddau Dynol mewn practisiau cyfreithiol |
| Rhwydwaith Cyfreithiol Cymru | Rhwydwaith atgyfeirio gwaith cyfreithiol ledled Cymru, a drefnir gan Hugh James |
| Amryw grwpiau arweinwyr cwmnïau cyfreithiol preifat | Gan gynnwys y rhai a ddarperir gan CPM21, Sweetman and Partners a Jonathan Bray |

Un math o grŵp sy'n amlwg yn absennol o dabl 18 uchod yw unrhyw fath o gymdeithas arweinwyr cwmnïau cyfreithiol: hyd y gwyddom, nid oes grŵp o'r fath yn bodoli. Mae'r sefyllfa hon braidd yn rhyfedd, o gofio bod partneriaid rheoli Cymru yn rhwydweithio'n gymdeithasol yn nigwyddiadau cymdeithasau cyfreithwyr lleol. Yn ymarferol, mae diffyg fforwm ar gyfer arweinwyr cwmnïau cyfreithiol yng Nghymru yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn debygol o'i chael yn anodd ymgysylltu â'r grŵp allweddol hwn o randdeiliaid trwy unrhyw fath o strwythur ffurfiol.

Rhag ofn i Lywodraeth Cymru gael ei themtio i greu ei fforwm arweinwyr cwmnïau cyfreithiol ei hun, rydym yn eu cynghori i ystyried yr opsiwn hwn yn ofalus. Ymysg yr arweinwyr cwmnïau hynny a gyfwelwyd gennym, prin oedd y rhai a fynegodd unrhyw beth y tu hwnt i chwilfrydedd ysgafn ynghylch y posibilrwydd o sefydlu grŵp o'r fath. O gofio bod yr agwedd lugoer hon yn glir ymysg ein carfan o gyfweleion yr oedd y mwyafrif ohonynt o Dde Cymru – h.y. ymhlith yr arweinwyr practrisiau cyfreithiol hynny sy'n gweithio'n agos at Fae Caerdydd – tybed sut dderbyniad fyddai'r

89 Y Comisiwn ar Gyfiawnder. *Sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder gan CILEx,* 14 Mehefin 2018, t2.

posibilrwydd o fforwm arweinwyr cwmnïau cyfreithiol a drefnir gan Lywodraeth Cymru yn ei gael yng Nghanolbarth, Gorllewin neu Ogledd Cymru.

Yng ngoleuni ein hymwneud helaeth â'r proffesiwn cyfreithiol ledled y byd, dros nifer o flynyddoedd, nid ydym yn cael bod y tawedogrwydd hwn ymhlith arweinwyr practisiau cyfreithiol tuag at Lywodraeth Cymru yn syndod. Yn reddfol, rydym yn cael bod llawer o gyfreithwyr yn gwerthfawrogi eu hannibyniaeth yn fawr iawn – gan gynnwys oddi ar eu cymheiriaid, heb sôn am y Llywodraeth. Mae'r syniad y gallent gael eu corlannu i gydweithredu gan lywodraeth, yn groes i'w hewyllys, yn debygol o fod yn gasbeth lle mae eu hunaniaeth broffesiynol yn y cwestiwn.

Yn fwy penodol, o'n trafodaethau gydag arweinwyr cwmnïau cyfreithiol, ymddengys fod pedwar prif ffactor yn rhwystr i greu fforwm ar gyfer arweinwyr practisiau cyfreithiol yng Nghymru.

- Yr her gyntaf yw nad yw eu presenoldeb corfforol yng Nghymru o lawer o bwys i rai arweinwyr cwmnïau cyfreithiol - mae natur eu busnes yn golygu y gallent fod wedi'u lleoli yn unrhyw le. I'r grŵp hwn o unigolion, nad yw eu practisiau yn ddibynnol ar waith atgyfeirio gan gwmnïau lleol eraill, nid oedd unrhyw fudd gwirioneddol i'w gael o "blygio i mewn" i gymuned gyfreithiol leol Cymru. Yn hytrach, roedd gan yr unigolion hyn fwy o ddiddordeb mewn meithrin eu rhwydweithiau yn niwydiannau cleientiaid eu cwmnïau, ble bynnag y mae'r cleientiaid hynny'n digwydd bod.
- Yn ail, ymhlith yr arweinwyr cwmnïau cyfreithiol hynny a oedd yn eu hystyried eu hunain yn rhan o gymuned gyfreithiol yng Nghymru, roeddent hefyd yn eu hystyried eu hunain yn rhan o gymuned o gystadleuwyr – er bod y rhain yn aml yn "gystadleuwyr cyfeillgar".
- Yn drydydd, roedd y cynrychiolwyr cwmnïau y siaradasom ni gyda hwy o'r farn ar y cyfan bod eu practisiau yn llwyddiannus: nid oedd unrhyw "ofn" ynglŷn â'u sefyllfa bresennol, a allai eu cymell i geisio cymorth gan grŵp cymheiriaid yn enw goroesi cydfuddiannol.
- Yn olaf, tynnodd rhai arweinwyr cwmnïau cyfreithiol sylw at y gwahaniaethau yn eu strategaethau a'u blaenoriaethau, o'i gymharu â'u cyfoedion. O ganlyniad, nid oeddent o'r farn eu bod yn wynebu'r un problemau â'u cymheiriaid, y gallai cydweithio lleol helpu i'w goresgyn.

Fel y nododd un o'n cyfweleion yn gryno:

> *"The one thing that unites us is that we all have different strategies – so the scope for co-operation is limited. There's no appetite for collaboration whatsoever. The reason firms don't want to collaborate is because they don't need to."*

Nid yw amharodrwydd arweinwyr cwmnïau cyfreithiol Cymru i hyd yn oed ystyried creu fforwm lleol yn argoeli'n dda ar gyfer unrhyw gynnig i drefnu ymgyrch hyrwyddo "Cymru'r Gyfraith" – syniad sy'n ymddangos fel petai ar led ym marchnad gyfreithiol Cymru. Wrth gofio am gynllun blaenorol gan Lywodraeth Cymru ar hyd y llinellau hyn, mynegodd un o'n cyfweleion anghrediniaeth am y posibilrwydd o drosglwyddo degau o filoedd o bunnau i hyrwyddo Caerdydd fel canolfan ragoriaeth ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol. Nid oedd hyd yn oed yr addewid o arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru yn ddigon i ddarbwyllo'r ymarferydd hwn ei fod yn syniad da.

> *"It's just not going to work. I get that you have to try to help yourself – but it's quite difficult to ask law firms to spend money promoting Cardiff when you're all rivals in one form or another."*

### Ymwybyddiaeth o gymorth gan Lywodraeth Cymru i'r sector cyfreithiol

Cyn dechrau ein cyfweliadau ag arweinwyr ymarfer cyfreithiol, cawsom wybod gan Lywodraeth Cymru am wahanol gynlluniau y gallai sector cyfreithiol Cymru ystyried gwneud cais amdanynt, megis y Partneriaethau SMART ac Arloesedd SMART. Nod y cynlluniau hyn yw helpu busnesau – o bob math – yng Nghymru i ddatblygu eu gweithgareddau ymchwil a datblygu.

Er mwyn pwyso a mesur ymwybyddiaeth o'r mathau hyn o gynlluniau, fe wnaethom hysbysu ein cyfweleion – ymlaen llaw – y byddem yn trafod y mater sy'n ymwneud â chymorth Llywodraeth Cymru. Ac, yn ystod ein trafodaethau gyda'n cyfweleion, gofynnwyd iddynt a allent gofio – heb i ni brocio'u cof – unrhyw fath o gymorth gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr ymatebion canlynol yn nodweddiadol ymhlith yr arweinwyr practisiau cyfreithiol a gyfwelwyd gennym:

> *"Nothing's popping into my head. Sorry!"*
>
> *"Nothing. I'm not privy to any, actually."*
>
> *"No, sorry. A few years ago, we enquired about support in relation to IT. But, right now? Nothing."*
>
> *"None of which we are aware."*
>
> *"I'm not aware of any specific initiatives right now. But, when we do get emails, it's more a case of 'how can you adapt to our requirements?'."*

### Fodd bynnag, roedd dau eithriad i'r ymateb cyffredinol hwn.

Yn gyntaf, fe wnaeth nifer o'n cyfweleion sôn yn benodol am eu hymwneud â chysylltiadau gwasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol Llywodraeth Cymru. Fel y dywedodd un cyfwelai: "Everybody knows 'X'. Whenever there is an event which has lawyers attending, 'X' will be there – pushing: 'Welsh Government can offer this support'." Mae'r ymateb hwn yn awgrymu bod gan broffesiwn cyfreithiol Cymru o leiaf ryw fath o ymwybyddiaeth o'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn fodlon cynnig cymorth i'w sector – hyd yn oed os na allant nodi cynlluniau unigol y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i'w hyrwyddo. At hynny, mae'r ymateb hwn hefyd yn awgrymu bod llawer o arweinwyr cwmnïau cyfreithiol yn gwybod â phwy yn Llywodraeth Cymru y dylent gysylltu, pe bai ganddynt unrhyw ddiddordeb yn unrhyw rai o'r cynlluniau cymorth a gynigir.

Roedd yr ail ymateb digymell yn canolbwyntio ar yr hyn a ddisgrifiodd un o'n cyfweleion yn ddiplomataidd fel "cymhellion ariannol", ond y gwnaeth eraill eu disgrifio mewn geiriau llai canmoliaethus.

Gadawodd rhai cyfweleion ni heb unrhyw amheuaeth ynghylch eu barn am gynlluniau o'r fath:

> *"There's no shortage of lawyers in Wales and there's no market failure in the legal profession. It's really annoying that it's happened. It's stupid, thick. Law firms are the least deserving sector for Welsh Government intervention."*

Roedd eraill yn fwy cwrtais ynglŷn â chael cynnig cymorth ariannol uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

> *"We were approached about three years ago about some funding for the creation of jobs. When we looked at it, we decided it probably wasn't right for us."*

Fe wnaeth nifer o'n cyfweleion hi'n glir bod ganddynt wrthwynebiad ideolegol i'r union syniad o gymorth gan y Llywodraeth.

*"My personal view is that I don't feel, as a business, that we should be looking for individual tailored support from the Welsh Government. I'm more interested in what the Welsh Government can do to help legal services by creating a good environment in which law firms can operate."*

*"I don't want money from the Welsh Government. Our competitive sector is strong enough not to need this type of intervention."*

*"I have an unfashionable view, which is that law firms are businesses. We should be keeping ahead of the game, whatever the circumstances. It's our responsibility to do that – it's not government's responsibility. I'm quite annoyed with some of my fellow practitioners, who complain that the government isn't doing enough for them. Why should the government be doing anything for them? The government owes them nothing."*

Roedd arweinwyr practisiau cyfreithiol eraill y cyfwelwyd â hwy yn amlwg yn llai gwrthwynebus i'r syniad o gymorth gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, i nifer o'r unigolion hyn, roeddent yn syml heb feddwl am roi ystyriaeth i'r opsiwn hwn. Yn hytrach, roeddent yn llawer mwy tebygol o ganolbwyntio eu hymdrechion ar "dorri eu cwys eu hunain", tyfu eu busnesau, neu weithredu strategaethau datblygu eu practisiau eu hunain.

## Ble y gallai cymorth gan Lywodraeth Cymru gael ei werthfawrogi

Roedd nifer o'n cyfweleion naill ai'n anymwybodol o gymorth Llywodraeth Cymru, neu'n ei wrthwynebu'n bendant – yn enwedig cymorth ariannol. Fodd bynnag, cynigiodd rhai awgrymiadau penodol hefyd lle gallai cymorth wedi'i dargedu'n fanwl gan Lywodraeth Cymru fod yn ddefnyddiol. Crybwyllwyd dwy thema eang gan sawl cyfwelai: yn gyntaf, Technoleg Gyfreithiol, ac yn ail recriwtio ar lefel iau – mater a grybwyllwyd yn achlysurol ar y cyd â phrentisiaethau cyfreithiol.

*"Legal technology is a big issue for us. We know the world is changing, but we don't know where it's going to end up. We don't know what we're supposed to be looking at. What if we plan something and it goes wrong? There's just too much information. Some help around that would be really useful."*

*"I feel that LegalTech training is highly important in the legal sector for Wales during the next decade. The possibilities of AI will be critical."*

*"I think LegalTech definitely, because we're a little lost. Everyone's looking around and saying: 'What do we need?' We're all being encouraged to go down that route, but without much guidance at the moment."*

*"We have offered training contacts, CILEx, you name it. We would be interested to see if apprenticeships or LegalTech might assist our recruitment of staff generally."*

*"We have a number of growth opportunities that are knocking at our door that we can't take. At the moment, we're struggling to recruit junior people with the right skillsets."*

*"Employers don't really understand the apprenticeship issue. I think there's a demand – it's just a case of helping us to understand what's on offer."*

Trafodwyd prentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru yn flaenorol ym mhennod pump o'r adroddiad hwn. Yng ngoleuni'r diffyg darpariaeth ar hyn o bryd gan ddarparwyr addysg alwedigaethol gyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, y gostyngiad yn nifer y rhai yng nghymuned practisiau preifat Cymru sy'n ymgymryd â phrentisiaethau, a'r ffaith na wyddys i ba raddau y mae darparwyr hyfforddiant galwedigaethol sydd wedi'u lleoli yn Lloegr fel CILEx a Pearson wedi treiddio i'r farchnad yng Nghymru, awgrymwn fod y sylw "employers don't really understand the apprenticeship" a geir uchod yn gwbl ddealladwy.

Mewn perthynas â Thechnoleg Gyfreithiol, rydym yn nodi y bu o leiaf dri digwyddiad ar y pwnc hwn yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf: digwyddiad "roboteg a’r gyfraith", a gynhaliwyd yn y Tramshed yng Nghaerdydd ym mis Medi 2017, a drefnwyd fel rhan o ŵyl ddigidol ehangach; LegalTech Wales, a drefnwyd gan Brifysgol Abertawe ym mis Ionawr 2018; a digwyddiad ar ddefnyddio algorithmeg yn y system gyfiawnder, a drefnwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghaerdydd, ym mis Chwefror eleni. Nodwn hefyd fod Prifysgol Abertawe wrthi’n cynllunio i ddarparu ysgol haf Technoleg Gyfreithiol rhwng 5 a 9 Awst 2019.

Mae’r lefel hon o weithgarwch addysgol presennol mewn perthynas â Thechnoleg Gyfreithiol yn dangos y dylem ochel rhag argymell y dylai Llywodraeth Cymru drefnu ei digwyddiad Technoleg Gyfreithiol ei hun yng Nghymru - oni bai nad oes rhai yn yr arfaeth ar ôl digwyddiad Prifysgol Abertawe ym mis Awst 2019. Os bwriedir cynnal digwyddiadau yn y dyfodol, yna awgrymwn y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i hyrwyddo’r digwyddiadau hynny i broffesiwn cyfreithiol Cymru. Dim ond os nad oes digwyddiadau yn yr arfaeth y byddem yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried trefnu un.

## Casgliadau ac argymhellion

Mae ein hymchwil yn awgrymu bod proffesiwn cyfreithiol Cymru yn un cymdeithasol ar y cyfan, sy’n fodlon hunan-drefnu a chynnig cyd-gymorth lle mae’n gweld bod budd i’w gael o wneud hynny. Mae natur gymdeithasol proffesiwn cyfreithiol Cymru yn golygu bod nifer o "bwyntiau cyffwrdd" ar gael i Lywodraeth Cymru, os bydd angen iddi ymgysylltu â rhannau penodol o’r proffesiwn mewn perthynas â materion penodol.

Fodd bynnag, nodwn hefyd nad oes unrhyw grwpiau ar gyfer arweinwyr practisiau cyfreithiol ar hyn o bryd y gall Llywodraeth Cymru ymgysylltu’n ffurfiol â hwy – ar gyfer naill ai cwmnïau cyfreithiol neu siambrau bargyfreithwyr. Mewn gwirionedd, rydym yn amau a yw hyn yn debygol o newid yn y dyfodol, yng ngoleuni’r adborth a gawsom yn ystod ein hymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn. Efallai mai’r opsiwn mwyaf realistig sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yw parhau i fynychu’r digwyddiadau hynny lle gwyddys fod arweinwyr practisiau cyfreithiol yn ymgynnull, ac ymgysylltu â’r arweinwyr practisiau yn y fforymau hynny. Bydd cadw cysylltiad agos â Chymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghymru hefyd yn helpu i gadw llinellau cyfathrebu ychwanegol ar agor.

Wedi dweud hynny, awgrymwn hefyd y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i geisio ymgysylltu â’r arweinwyr cyfreithiol hynny sydd wedi’u lleoli yng Nghymru ac sy’n gyflogwyr lleol pwysig, ond nad ydynt ar hyn o bryd yn ymwneud â’r gylched rwydweithio gyfreithiol leol. Un o nodweddion amlycaf rhai o’r cwmnïau hyn yw nad ydynt yn edrych fel practisiau cyfreithiol confensiynol, ac y byddant felly’n bodoli "o dan y radar" yng nghymuned gyfreithiol Cymru.

Mae ein hymchwil yn awgrymu bod arweinwyr practisiau cyfreithiol naill ai ddim yn gwybod, neu ddim yn malio, am gymorth ariannol uniongyrchol a gynigir gan Lywodraeth Cymru. O ystyried y meddylfryd hwn, rydym yn amau, yn y dyfodol, a fyddai’n werth dilyn strategaeth o gymorth ariannol agored i broffesiwn cyfreithiol Cymru. Wedi dweud hynny, gallwn weld gwerth parhau i fod ag un pwynt cyswllt o fewn Llywodraeth Cymru, sy’n adnabyddus iawn o fewn cymuned gyfreithiol Cymru.

Yn y dyfodol, gallai fod yn fwy defnyddiol i Lywodraeth Cymru roi ei chymorth i faterion penodol, lle mae’r proffesiwn cyfreithiol – gyda'i gilydd – yn ei chael yn anodd deall y dirwedd bresennol. Rydym yn tynnu sylw at brentisiaethau cyfreithiol a Thechnoleg Gyfreithiol fel dau faes problemus enghreifftiol, lle gallai eglurder polisi (yn achos prentisiaethau) a chodi ymwybyddiaeth (yn achos Technoleg Gyfreithiol) gyfiawnhau rhyw fath o weithgarwch cymedrol gan Lywodraeth Cymru.

# Pennod un ar ddeg:
# Awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân – barn y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru

Yn y bennod hon, rydym yn ystyried dwy elfen o fater awdurdodaeth i Gymru. Yn gyntaf, rydym yn ystyried yn fyr y sefyllfa lle mae Llywodraeth Cymru yn cael rheolaeth ar bolisi cyfiawnder cyffredinol Cymru. Mae'r ail ran – hirach o lawer – o'r bennod hon yn ystyried sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru, a rhai o'r elfennau allweddol sy'n rhan o'r cysyniad hwn.

Yn y ddwy adran o'r bennod hon, nid ydym wedi ymdrin â mater awdurdodaeth ar wahân o safbwynt gwleidyddol nac ideolegol. Yn hytrach, mae canran sylweddol o'n dadansoddiad yn tynnu ar adborth a gawsom gan aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru. Mae'r adborth hwn yn deillio o ddwy ffynhonnell: yn gyntaf, o 25 o gyfweliadau. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn yn bennaf gydag uwch gyfreithwyr o bractisiau preifat yn ystod cam cyntaf ein hymchwil, ond cawsant eu hategu gan nifer fach o rai ychwanegol yn ystod cam dau. Yn ail, o 37 o ymatebion i arolwg ar raddfa fach, a gynhaliwyd yn ystod ail gam ein hymchwil. O'i gymharu â'n cyfweliadau cychwynnol, a gynhaliwyd yn bennaf gyda chynrychiolwyr cwmnïau cyfreithiol mawr sydd wedi'u lleoli yn Ne Cymru, roedd yr ymatebwyr i'n harolwg yn fwy tebygol o fod yn fargyfreithwyr neu'n gwnsleriaid mewnol, yn gweithio i bractisiau cyfreithiol llai, ac wedi'u lleoli mewn rhannau eraill o'r wlad.

## Polisi cyfiawnder

Pe bai Cymru, mewn perthynas â pholisi cyfiawnder, yn llwyddo i sicrhau setliad tebyg i'r Alban, byddai amrywiaeth o rolau ac awdurdodau newydd yn cael eu datganoli i oruchwyliaeth Llywodraeth Cymru. Byddai polisi a chymhwysedd cyllidebol yn cynnwys plismona, carchardai, y gwasanaeth prawf, y llysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru a chymorth cyfreithiol. O ganlyniad, ac yn amodol ar lefel y cyllid a fyddai ar gael, byddai gan Lywodraeth Cymru y gallu i ail-flaenoriaethu ei gwariant mewn perthynas â'r meysydd hyn mewn ffordd sy'n briodol yn ei thyb hi ar gyfer anghenion penodol Cymru.

Mewn perthynas â'r sector cyfreithiol yn benodol, gallai hyn ddwyn nifer o ganlyniadau ymarferol pwysig. Gallai fod yn bosibl i Lywodraeth Cymru ailbennu ffocws gwariant cymorth cyfreithiol mewn ffordd sy'n ceisio goresgyn yr anialdiroedd cyngor sy'n dod i'r amlwg yn y wlad. Gellid gwneud buddsoddiadau hefyd yn seilwaith llysoedd Cymru. Gallai hyn gynnwys buddsoddi mewn cyfleusterau llys gwell yng Nghaerdydd, gyda'r nod o'i gwneud yn ganolfan ddeniadol ac effeithlon ar gyfer setlo anghydfodau. O ystyried rhai o'r pryderon a fynegwyd ynghylch priodoldeb a chost rhaglenni TG sy'n cael eu rhedeg gan Weinyddiaeth Gyfiawnder y DU, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu mabwysiadu dull sydd â ffocws mwy pendant ac sy'n fwy cost-effeithiol o ddefnyddio TG yn llysoedd Cymru.

Yng ngoleuni'r adborth a gawsom gan y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru, yr argraff a gawn yw y gallai cyfreithwyr yng Nghymru – o bosibl – fod yn gefnogol i'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r meysydd hyn.

> *"To my mind, the two things where the Welsh Government could begin to make a difference would be in terms of administration of the legal aid budget in relation to Wales and the administration of court estates in Wales. The difficult political question is that this involves the willingness to take on board budgetary responsibilities."*

> *"Don't spend money on wasteful computer systems that don't work, spend it on legal aid, or rural magistrates' courts, access to justice. That's my view."*

Ar bwynt cysylltiedig, roedd un o'r cwestiynau yn ein harolwg yn gofyn i ymatebwyr nodi'r heriau mwyaf sy'n wynebu eu busnesau. Yma, tynnodd sawl un sylw at y "toriadau dinistriol i gymorth cyfreithiol" a'r cyfraddau tâl isel am y gwaith cyfreithiol gweddilliol a oedd yn dal i fod. Awgrymwn felly y bydd ymarferwyr cyfreithiol yng Nghymru yn fwy tebygol o gefnogi'r agwedd ar awdurdodaeth ar wahân sy'n ymwneud â pholisi cyfiawnder os mai canlyniad tebygol datganoli yw cynyddu cymorth ariannol Llywodraeth Cymru.

Yn ddealladwy, mae arweinwyr y proffesiwn cyfreithiol wedi cwyno'n gryf am faint y toriadau i'r gyllideb cymorth cyfreithiol yn y blynyddoedd diwethaf, ac yn nodweddiadol maent yn galw am eu gwrthdroi. Ond, yng nghanol y boen o atal cymorth cyfreithiol, mae ein hymchwil ehangach wedi datgelu rhai ymatebion ymarferol i'r hyn sydd wedi digwydd. Mae'r ddwy enghraifft a gynigir isod yn rhoi ciplun o weithgarwch sy'n ymwneud â meysydd cyfreithiol yr effeithiwyd arnynt gan y ffaith bod cymorth cyfreithiol wedi'i atal. Nid ydym yn awgrymu bod yr ymatebion hyn a amlygwyd yn cynnig dewis arall dymunol yn lle gwasanaethau cynghori llawn, wedi'u hariannu'n gyhoeddus, dan arweiniad cyfreithiwr. Yr hyn y maent yn ei wneud, fodd bynnag, yw dangos sut y gall angen fod yn fam dyfais weithiau. Am y rheswm hwnnw, byddem yn gochel rhag argymell y dylai Llywodraeth Cymru wrthdroi toriadau blaenorol mewn cymorth cyfreithiol; yn hytrach, awgrymwn mai dim ond os nad oes mecanweithiau cyflenwi amgen wedi'u rhoi ar waith yn llwyddiannus ers cyflwyno'r toriadau hyn y dylid eu gwrthdroi.

**Cyfraith mewnfudo:** cyfraith mewnfudo yw un o'r ychydig feysydd yn y gyfraith yng Nghymru a Lloegr na all gael ei gynnig ond gan weithiwr proffesiynol achrededig - naill ai cyfreithwyr neu unigolion yr ardystiwyd eu bod yn gymwys gan Swyddfa'r Comisiwn Gwasanaethau Mewnfudo (OISC). Pan arweiniodd toriadau mewn cymorth cyfreithiol at gwymp yn y cyflenwad o gyngor gan gyfreithwyr a'r sector di-elw, camodd Refugee Action i'r adwy. Gwnaeth hynny trwy greu rhaglen hyfforddi ar-lein am ddim, wedi'i hanelu at bobl heb gefndir cyfreithiol, a allai eu hyfforddi i safon ddigon uchel fel y gallent lwyddo ym mhroses achredu'r OISC o fewn pum diwrnod yn unig. Deellir bod cynllun Refugee Action bellach wedi hyfforddi bron i 500 o gynghorwyr ledled Cymru a Lloegr[90].

**Ysgariad a diddymu partneriaethau sifil:** Mae CourtNav, offeryn a ddatblygwyd gan y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol a Freshfields Bruckhaus Deringer, yn tywys ymgyfreithwyr yn bersonol trwy'r broses o gyflwyno ffurflenni ysgariad neu ffurflenni i ddiddymu partneriaeth sifil. Mae'r gwasanaeth, a ariennir yn rhannol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn cynnig cyfres o gwestiynau syml i ddefnyddwyr, gyda'r wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i boblogi ffurflenni safonol cyflawn. Pan fydd yr wybodaeth allweddol hon yn cael ei chasglu, bydd y ffurflen yn cael ei hadolygu gan gyfreithiwr i sicrhau bod popeth fel y dylai fod. Ar y pwynt yma, gall y defnyddiwr lawrlwytho'r ffurflen a'i chyflwyno i'r llys perthnasol[91].

Mae'r ddwy enghraifft a gynigir uchod yn ei gwneud yn bosibl darparu mwy o wasanaethau sy'n gysylltiedig â'r gyfraith, a thrwy hynny gynyddu capasiti. Yn achos datrysiad Refugee Action, y prif allbwn yw cynnydd yn y cyflenwad o gynghorwyr sydd wedi'u hachredu gan yr OISC. Mewn cyferbyniad, yn achos CourtNav, gall cyfreithiwr adolygu mwy o ddogfennau'r llys yn awr nag o'r blaen – sef y rhan "ychwanegu gwerth" o'u rôl. Y rheswm dros hyn yw nad ydynt yn gorfod treulio cryn dipyn o'u hamser yn casglu data rhagarweiniol mwyach, gan ei fod yn cael ei gasglu erbyn hyn gan yr holiadur ar-lein.

## Ystyriaethau sy'n ymwneud ag awdurdodaeth ar wahân rhan un: cyfreithiau gwahanol

Un elfen o awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru sydd eisoes yn bodoli, wrth gwrs, yw datblygu corff unigryw o gyfreithiau ar gyfer Cymru. Ar hyn o bryd, rydym yn deall bod y gwahaniaeth yn y gyfraith rhwng Cymru a Lloegr yn gyfyngedig. Fodd bynnag, dros amser, mae'n anochel y bydd y gwahaniaeth hwn yn cynyddu, wrth i Senedd y DU barhau i basio deddfwriaeth sy'n berthnasol i Loegr yn unig ac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru basio deddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru yn unig.

[90] The Justice Gap. *Fighting immigration law advice deserts,* 16 Ionawr 2019.
[91] Lawyer Firm News. *Access to justice: can technology solve the UK legal aid crisis?* 5 Tachwedd 2018.

Efallai nad yw'n syndod bod y gwahaniaeth cynyddol rhwng deddfau i Gymru yn unig a deddfau i Loegr yn unig yn cael ei groesawu gan rai o'r cynrychiolwyr practisiau cyfreithiol yng Nghymru y cysylltwyd â hwy. Roedd yr unigolion hyn wedi nodi'r gwahaniaethau hyn fel ffynhonnell bosibl gwahaniaethu'r farchnad – ac incwm.

> *"We already sub-contract from English law firms, who have got projects going here, and we close off the Welsh law angle for them."*
>
> *"I suspect we could potentially have an increase in clients wanting advice prior to entering into contracts with entities based in England/Northern Ireland."*
>
> *"It might mean more work. More laws mean more complications."*
>
> *"We would look to take advantage of any change by looking for niche areas of work."*

Fodd bynnag, gan gynnig safbwynt gwahanol ar fater awdurdodaeth ar wahân, dywedodd ymarferwyr cyfreithiol eraill yng Nghymru wrthym eu bod yn ofni, yn y dyfodol, cael eu gweld fel cyfreithwyr ar gyfer "Cymru yn unig". Hyd yn oed pe bai cyfraith Cymru a Lloegr yn aros yn sylweddol yr un fath, roedd yr ymarferwyr hyn yn pryderu y byddai rhai o'u cleientiaid yn Lloegr yn newid i roi cyfarwyddyd i gyfreithwyr / cwmnïau cyfreithiol yn Lloegr, yn bennaf ar sail canfyddiad bod Cymru'n "wahanol."

> *"60 - 70% of our turnover is from work across the border in England. And my fear is that, if we had a separate legal jurisdiction, we would be marginalised. We'd be seen as 'You're in Wales, you can only do work in Wales'."*

Yn anffodus, mae canfyddiad o'r fath yn anodd i'w feintioli – a hefyd yn anodd i Lywodraeth Cymru ei wrthweithio. Serch hynny, awgrymwn fod Llywodraeth Cymru yn bod yn effro i'r canfyddiad hwn wrth iddi benderfynu pa mor unigryw yr hoffai i gyfraith Cymru fod. Gallai'r hyn y byddai rhai cyfreithwyr yng Nghymru o bosibl yn ei ystyried yn bwynt gwahaniaeth masnachol fanteisiol gael ei ystyried yn rhwystr posibl i gyngor cyfreithiol trawsffiniol gan eraill i'r un graddau.

Ar bwynt cysylltiedig, dylid gwerthfawrogi y gall gwahaniaeth rhwng cyfreithiau Cymru a Lloegr – o bosibl – achosi i gwmnïau cyfreithiol Cymru gael eu gweld fel targedau i gael eu cymryd drosodd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu tueddiad bach i gwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yn Lloegr / cwmnïau cyfreithiol rhyngwladol gaffael practisiau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau datganoledig yn y DU, wrth iddynt geisio hybu eu galluoedd o ran cyfraith "leol" ledled y DU. Yn yr Alban, er enghraifft, unodd Pinsent Masons gyda McGrigors yn 2012[92], Dundas & Wilson gyda CMS yn 2013 , Maclay Murray & Spens gyda Dentons yn 2017[93]. Yn yr un modd, yng Ngogledd Iwerddon, fe wnaeth DWF gaffael C&H Jefferson[95], ac fe wnaeth Shoosmiths gaffael McManus Kearney yn 2016[96]. Mae twf y cwmni cyfreithiol aml-wladwriaethol/aml-awdurdodaethol yn ffenomen fyd-eang i raddau helaeth. Nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam y byddai'r sector cyfreithiol yng Nghymru yn rhydd rhag pwysau cydgrynhoi trawsffiniol o'r fath, pe bai Cymru'n dod yn awdurdodaeth gyfreithiol unigryw yn ei hawl ei hun.

Wedi dweud hynny, dylid gwerthfawrogi hefyd, yn achos sector cyfreithiol yr Alban, bod deinameg benodol y farchnad hon hefyd wedi chwarae rhan yn y camau diweddar i gyfuno cwmnïau cyfreithiol a oedd wedi'u lleoli yn yr Alban a Lloegr, yn ogystal ag ystyriaethau awdurdodaethol. Yn sgîl y chwalfa ariannol ar ddiwedd degawd cyntaf y mileniwm

[92] Pinsent Masons. *Pinsent Masons and McGrigors agree to merge,* 6 Chwefror 2012.
[93] CMS. *Dundas & Wilson joins CMS, further strengthening its energy and financial institution practices and Scottish business,* 12 Rhagfyr 2013.
[94] The Scotsman. *Maclay Murray & Spens name to disappear in Dentons tie-up*, 21 Gorffennaf 2017.
[95] Law.com. *DWF to enter Northern Ireland via merger with 20-partner firm*, 28 Tachwedd 2016.
[96] The Lawyer. *Shoosmiths moves into Northern Ireland via Belfast merger*, 2 Rhagfyr 2016.

newydd, deellir yn gyffredin bod marchnad gyfreithiol yr Alban wedi dioddef cwymp sylweddol mewn cyfarwyddiadau, gan i sefydliadau ariannol mawr a oedd wedi'u lleoli yn yr Alban adleoli eu pencadlys i Loegr[97]. Felly, roedd marchnad gyfreithiol yr Alban yn wynebu rhywfaint o argyfwng ar yr adeg yr aeth cwmnïau cyfreithiol Lloegr ar eu trywydd caffael.

Nid yw'r senario a grybwyllwyd uchod yn debygol o gael ei ailadrodd yng Nghymru, nad yw'n gartref i sector gwasanaethau ariannol mawr. Serch hynny, mae'r enghraifft yn yr Alban yn dangos pa mor gyflym y gall marchnad gyfreithiol gael ei thrawsnewid mewn ffordd a ysgogir yn rhannol gan ddigwyddiadau yn y farchnad allanol. Yng ngoleuni ffocws arbenigaeth gyfreithiol penodol marchnad gyfreithiol Cymru – a grynhoir ym mhennod tri o'r adroddiad hwn – gallai fod yn ddoeth i Lywodraeth Cymru gynnal asesiad o risgiau allanol a allai fod yn arwyddocaol i'r sector cyfreithiol yng Nghymru. Un peth yw bod ag awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân: peth arall yn gyfan gwbl yw bod â marchnad gyfreithiol fywiog yn yr awdurdodaeth honno.

## Ystyriaethau sy'n ymwneud ag awdurdodaeth ar wahân rhan dau: cyfreithiau gwahanol, llysoedd gwahanol?

Mae bod â chyfreithiau gwahanol yng Nghymru a Lloegr hefyd yn dwyn goblygiadau o ran pa lysoedd y dylid caniatáu iddynt ddyfarnu ar anghydfodau rhwng partïon. A ddylai llysoedd ar draws y ddwy wlad barhau i fod ag awdurdodaeth dros faterion o'r fath, fel ar hyn o bryd? Ynteu ai dim ond llysoedd Cymru ddylai allu penderfynu ar gyfraith sy'n berthnasol i Gymru yn unig?

Ein dealltwriaeth ni yw bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu creu system llysoedd unigryw i Gymru yng ngham cyntaf ei chynlluniau ar gyfer awdurdodaeth ar wahân. Byddai hyn yn cynnwys creu Llys y Goron, Llys Teulu, Uchel Lys a Llys Apêl ar gyfer Cymru. Deallwn fod Llywodraeth Cymru yn rhagweld y gallai barnwyr a benodir i wasanaethu un llys hefyd wasanaethu ar un arall[98]. Deallwn hefyd y cynigir gan Lywodraeth Cymru na fyddai dyfarniadau a gyhoeddir gan lysoedd Cymru yn rhwymo llysoedd Lloegr - hyd yn oed rhai is. Gallai unrhyw ddiffyg cynsail rwymol rhwng llysoedd Cymru a Lloegr hefyd gyflymu'r broses ymwahanu rhwng cyfraith Cymru a Lloegr.

Mewn perthynas â chreu system llysoedd ar wahân i Gymru, ychydig iawn o'n cyfweleion neu ymatebwyr i'n harolwg a gynigiodd unrhyw farn ynglŷn â'r mater hwn – gan awgrymu nad oedd yn uchel ar eu rhestr o fuddiannau neu bryderon. Fodd bynnag, ymhlith y rhai a drafododd y mater hwn, roedd tuedd i ganolbwyntio ar un mater: capasiti lleol. Dywedodd un sylwebydd ei fod yn ofni "a separate court and judicial system would lead to less quality, as the gene pool is too small". Gwnaeth eraill y sylwadau canlynol:

> *"Every one of my lawyers here sends all of their cases to London. The reason for this is that, in Wales, you've got three judges. By contrast, in London, you've got about 200 of the finest brains of their generation."*
>
> *"The local courts here do not have the capacity to process the number of new claims that we deal with. For that reason, we issue proceedings in various courts in England."*

Nid yw mater capasiti llysoedd, wrth gwrs, yn fater sy'n gysylltiedig ag awdurdodaeth yn ei hanfod – gall unrhyw ddiffyg capasiti fod yn llawn gymaint o her mewn rhannau o Loegr, yn union fel y mae'r adborth a gasglwyd gennym yn awgrymu y gallai fod yng Nghymru. Fodd bynnag, o ystyried bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cymryd cyfrifoldeb dros oruchwylio polisi ar faterion sy'n ymwneud â'r llysoedd, bydd dyletswydd arni felly i fynd i'r afael â'r heriau sy'n ymwneud â chapasiti a nodwyd yn ystod ein sgyrsiau gyda phroffesiwn cyfreithiol Cymru.

97 The Lawyer. *When management fails: a tale of Scottish law firms*, 8 Hydref 2015.
98 Y Comisiwn ar Gyfiawnder. *Tystiolaeth i'r Comisiwn – Bil Llywodraeth a'r Gyfraith yng Nghymru,* 10 Ebrill 2019, t6.

### Ystyriaethau sy'n ymwneud ag awdurdodaeth ar wahân rhan tri: ymdrin â her dewis cyfraith

Mewn rhai sefyllfaoedd, mae unigolion a busnesau sy'n gweithredu yng Nghymru eisoes yn gorfod ufuddhau wrth gyfreithiau unigryw ar gyfer Cymru'n unig: "cyfraith gwlad" ydyw, na ellir ei hosgoi. Byddai system llysoedd Cymru yn "gartref" naturiol i ddyfarnu ar faterion o'r fath.

Fodd bynnag, mewn sawl sefyllfa sy'n ymwneud â'r gyfraith – megis llunio contractau preifat – gall partïon ddewis pa gyfraith fydd yn berthnasol i'w cytundeb hwy, a pha system llysoedd fydd yn dyfarnu arno os bydd anghydfod. Ac, ar ôl sefydlu awdurdodaeth ar wahân, dywedodd nifer o'r cynrychiolwyr practisiau cyfreithiol y buom yn siarad gyda hwy ei bod yn debygol iawn mai'r dewis yn y farchnad fyddai mai cyfraith Lloegr – nid Cymru – fyddai'n tueddu i fod y ddewis gyfraith contractio.

> *"At the moment, all contracts are English and Welsh law. So what will happen is that you will just write contracts that are subject to English law."*
>
> *"I'm pretty confident that nobody's going to choose that [Welsh law] as the choice of law, or their choice of jurisdiction."*
>
> *"The majority of our legal spend would continue to be subject to English law and jurisdiction and serviced from whoever is best placed to advise us."*
>
> *"If people have the option of choosing [the laws of] England or Wales they are much more likely to choose England, which would leave Welsh courts with no role to play."*

Nid ydym yn honni bod yn arbenigwyr ar orfodadwyedd cymalau ynglŷn â chyfraith lywodraethol. Fodd bynnag, ein dealltwriaeth ni yw mai'r sefyllfa gyfreithiol ddiofyn yw y dylai'r llysoedd barchu dewis datganedig o ran y gyfraith – dim ond lle nad oes cymal ynglŷn â dewis gyfraith wedi'i gynnwys mewn cytundeb y mae lleoliad y partïon mewn anghydfod yn dod yn gymwys[99]. Yn yr un modd, mae profiadau o'r Alban yn awgrymu y gall contractau yr ymrwymwyd iddynt gan breswylwyr yn yr Alban gael eu llywodraethu'n sylweddol gan gyfraith Lloegr, gyda chyfraith yr Alban yn dod yn berthnasol i'r contract dim ond lle caiff telerau'r contract eu nacáu yn benodol o dan gyfraith yr Alban[100]. Mae hyn yn awgrymu, os yw'r rhagfynegiadau a wnaed gan y rhai a gyfwelwyd uchod yn gywir, ei bod yn ddigon posibl y bydd contractau ffurf safonol – sydd wedi'u drafftio ar hyn o bryd trwy gyfeirio at gyfraith Cymru a Lloegr – yn mynd yn ôl i gael eu llywodraethu gan gyfraith Lloegr yn unig, ar ôl sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru. Yn hollbwysig, mae'n ymddangos mai'r sefyllfa gyfreithiol ddiofyn yw y bydd yn rhaid i lysoedd Cymru barchu cymalau cyfraith lywodraethol y partïon – gan gynnwys unrhyw ddewis a nodwyd ar gyfer awdurdodaeth llysoedd Lloegr.

Mae mater dewis gyfraith yn un y bydd angen i Lywodraeth Cymru ei ystyried fel rhan o'i strategaeth i ddatblygu awdurdodaeth ar wahân i Gymru. Yma, gall fod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru geisio barn y proffesiwn yng Nghymru, mewn peth manylder, ynghylch i ba raddau y maent yn darparu gwasanaethau cyfreithiol sydd ynghlwm yn gynhenid wrth Gymru – ac felly ei system gyfiawnder – ac i ba raddau y maent yn darparu gwasanaethau cyfreithiol sydd i raddau helaeth yn fater o ddewis cleientiaid. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol archwilio dewisiadau marchnad y gyfraith lywodraethol mewn perthynas, er enghraifft, â'r sector gwasanaethau cyfreithiol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Byddai dealltwriaeth am y mater hwn yn helpu i hysbysu Llywodraeth Cymru am lefel debygol y galw am wasanaethau o fewn system llysoedd Cymru ar ôl sefydlu awdurdodaeth ar wahân.

99 Ashurst. *Governing Law Clauses,* 6 Chwefror 2019.
100 Scottish Legal News. *Blog: Can an English clause oust Scots law rights in a consumer contract?* 5 Rhagfyr 2017.

Os bydd ymchwil o'r fath yn datgelu y gallai gwaith fod yn mynd ar draws y ffin i Loegr, byddai angen i Lywodraeth Cymru hefyd ystyried sut y gallai hyrwyddo cyfraith Cymru fel dewis amgen deniadol yn lle cyfraith Lloegr, ar gyfer y materion hynny lle mae dewis o gyfraith lywodraethol yn bosibl. Yn wir, nodwn fod Llywodraeth Cymru eisoes yn ymddangos fel pe bai'n meddwl ar hyd y llinellau hyn. Yn ei sylwadau ym mis Awst 2018 i'r Comisiwn ar Gyfiawnder, er enghraifft, awgrymodd Llywodraeth Cymru y byddai gwneud ffioedd llysoedd yn rhatach yn yr Alban nag yng Nghymru a Lloegr yn gallu annog "llawer o gyfreithwyr yn yr Alban sy'n defnyddio cyfraith Lloegr a llysoedd Lloegr" i "ailfeddwl"[101] am eu dewis o awdurdodaeth. Yng ngoleuni'r enghraifft hon, rydym yn awgrymu mai un trywydd ymholi y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ei ddilyn yw a wnaeth gwahaniaeth rhwng y ffioedd yn llysoedd Lloegr a'r Alban arwain, yn wir, at ysgogi cyfreithwyr yr Alban i awgrymu wrth eu cleientiaid y dylid defnyddio cyfraith yr Alban yn hytrach na chyfraith Lloegr.

### Ystyriaethau sy'n ymwneud ag awdurdodaeth ar wahân rhan pedwar: hawliau ymarfer

O'r holl faterion sy'n ymwneud ag awdurdodaeth ar wahân i Gymru, gellid dadlau bod yr un mwyaf dadleuol ymhlith ymarferwyr yn ymwneud â hawliau ymarfer: a fyddai ymarferwyr presennol, a dderbyniwyd i ymarfer ledled Cymru a Lloegr, yn cael caniatâd i wneud hynny ar ôl creu awdurdodaeth ar wahân i Gymru? Ac a fyddai gan gyfreithwyr a dderbynnir ar ôl creu awdurdodaeth ar wahân hawliau ymarfer traws-ffiniol hefyd?

Ar y pwynt hwn, rydym yn nodi mai bwriad Llywodraeth Cymru yw y dylai hawliau trawsffiniol barhau i fodoli yn ystod cam cyntaf ei chynllun ar gyfer creu awdurdodaeth ar wahân[102]. Rydym hefyd yn nodi sylwadau diweddar gan Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Gyfiawnder, lle nodwyd "yn ymarferol mae'r syniad bod cyfreithiwr o Loegr– fwy neu lai drwy hawl – yn gallu ymarfer yng Nghymru (a chyfreithiwr o Gymru yn gallu ymarfer yn Lloegr) yn rhywbeth a ddylai barhau am gyfnod amhenodol"[103]. Ar y mater hwn, roedd safbwyntiau'r cyfreithwyr y gwnaethom eu holi yn glir, ac roeddent yn cytuno â'r farn a ddatganwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru: dylai hawliau ymarfer trawsffiniol barhau, hyd yn oed ar ôl creu awdurdodaeth ar wahân.

> *"We just don't want to be having a separate qualification or anything like that – because it will just stop us being competitive. So, my personal view is: 'light touch please, really light touch'."*
>
> *"I think it should be a porous border, which allows practitioners who are qualified in England to practise in Wales and practitioners who qualify in Wales to practise in England."*
>
> *"If there was a separate jurisdiction, we would still need to have access to England. There's not enough high-quality specialist work in Wales."*
>
> *"There is not a lot of legal work in Wales: the vast majority of the commercial law firms in Cardiff will be doing the majority of their work in England or further afield."*

Nodwn hefyd fod Cyngor y Bar ar gyfer Cymru a Lloegr, yn ei sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder, wedi gwneud sylw ymarferol iawn ar y pwynt hwn: nododd fod "nifer fawr" o fargyfreithwyr sy'n gwasanaethu marchnad Gogledd Cymru wedi'u lleoli yng Nghaer. Ynglŷn â'r ffaith hon, dywedodd "would add a further complexity to any attempt to split the Bar between England and Wales"[104].

Yn y pen draw, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain fydd i benderfynu pa fath o gyfyngiadau -os o gwbl – fyddai'n cael eu rhoi ar gyfreithwyr yn ymarfer ar draws Cymru a Lloegr, ar ôl sefydlu awdurdodaeth ar wahân. Fodd bynnag, mae'n werth nodi – heddiw – y gall cyfreithwyr sy'n cael eu derbyn i ymarfer yn Iwerddon a Gogledd Iwerddon

[101] Y Comisiwn ar Gyfiawnder. *Tystiolaeth atodol gan Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru,* Awst 2018, t17.

[102] Rawlings, H a Hughes, D / Llywodraeth Cymru. *Bil (Drafft) Llywodraeth a'r Gyfraith yng Nghymru,* t26.

[103] Y Comisiwn ar Gyfiawnder. *Tystiolaeth i'r Comisiwn – Bil Llywodraeth a'r Gyfraith yng Nghymru,* 10 Ebrill 2019, t7.

[104] Y Comisiwn ar Gyfiawnder. *Sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru gan Gyngor y Bar.* 10 Ionawr 2019, t2.

gael eu derbyn i'w proffesiynau cyfatebol yng Nghymru a Lloegr hefyd heb unrhyw ragamodau, neu gydag ychydig iawn ohonynt[105] – mae cyfreithwyr yr Alban yn wynebu cyfundrefn ailgymhwyso fwy beichus i ymarfer yng Nghymru a Lloegr, oherwydd diwylliant cyfreithiol unigryw yr Alban. Yn achos Gogledd Iwerddon, nid oes angen cwblhau unrhyw asesiadau o gwbl ar gyfer y weithdrefn dderbyn. Yn achos cyfreithwyr Gwyddelig, mae'n ofynnol sefyll un prawf mewn cyfraith tir[106].

Ni allwn, felly, ddychmygu senario lle byddai Llywodraeth Cymru yn dymuno cyflwyno cyfyngiadau ar hawliau ymarfer cyfreithwyr Lloegr yng Nghymru a oedd yn ehangach na'r rhai sydd eisoes yn bodoli yn Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Yn wir, rydym yn croesawu'r ffaith bod Adran 82 o Fil Drafft Llywodraeth a'r Gyfraith yng Nghymru Llywodraeth Cymru yn rhagweld ymgorffori hawliau ymarfer trawsffiniol ymarferwyr cyfreithiol cymwysedig yn y gyfraith, hyd byth yn ôl pob golwg.

Ar wahân i faterion rheoleiddiol, mewn gwirionedd, mae'n ddigon posibl y bydd gallu cyfreithwyr i gynnig cyngor cyfreithiol cymwys ar draws Cymru a Lloegr yn lleihau, os bydd gwahaniaeth sylweddol rhwng cyfraith Cymru a chyfraith Lloegr - yn enwedig mewn perthynas ag egwyddorion cyfreithiol craidd. Yma, credwn ei bod yn ymddangos bod her yn dod i'r amlwg, o ran mynediad at ddeunyddiau cyfarwyddyd cyfraith Cymru, y dylai ymarferwyr cyfreithiol allu manteisio arnynt i'w haddysgu eu hunain am wahaniaethau o'r fath. Byddwn yn dychwelyd at y mater hwn yn y bennod nesaf, yng nghyd-destun ein hasesiad o addysgu cyfraith Cymru ym mhrifysgolion Cymru.

### Ystyriaethau sy'n ymwneud ag awdurdodaeth ar wahân rhan pump: goruchwyliaeth reoleiddiol

Y mater allweddol olaf mewn perthynas â chreu awdurdodaeth ar wahân i Gymru yw goruchwyliaeth reoleiddiol. Ar hyn o bryd, mae'r nifer fawr o weithwyr cyfreithiol proffesiynol yng Nghymru a Lloegr yn cael eu rheoleiddio gan amryw reoleiddwyr cyfreithiol ar draws Cymru a Lloegr, y cânt i gyd eu goruchwylio gyda'i gilydd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol (BGC). Felly mae un cwestiwn allweddol sy'n codi yn wyneb awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân fel a ganlyn: a ddylai fod system rheoleiddio cyfreithwyr ar wahân ar gyfer Cymru?

O ystyried bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu caniatáu i gyfreithwyr ymarfer yn rhydd ar draws Cymru a Lloegr – yn y tymor byr o leiaf – rydym yn ei chael hi'n anodd rhagweld senario lle byddai angen fframwaith rheoleiddio ar wahân fel mater o frys. Yn wir, mae'n ymddangos mai parhau â'r sefyllfa bresennol yw'r safbwynt a ffafrir gan Lywodraeth Cymru, o leiaf yn y tymor byr[107].

Yn fwy ymarferol, awgrymwn – gydag un eithriad nodedig, sef y proffesiwn cyfreithwyr y mae 3,500 ohonynt - y gall y mwyafrif o'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru fod yn rhy fach i'w gwneud yn ddichonadwy ei reoleiddio ar sail Cymru'n unig. Gan gyfeirio'n ôl at ein sylwadau a wnaed ym mhennod tri o'r adroddiad hwn, nodwn fod y Bar yng Nghymru'n cynnwys dim ond 300 o ymarferwyr[108], fod gan y proffesiwn Cyfreithwyr Costau 15 aelod ar hyn o bryd yn y wlad[109], a bod gan y proffesiwn Atwrneiod Nodau Masnach Siartredig 10[110]. Mae'r proffesiynau cyfreithiol llai hyn yn cael eu hanwybyddu'n aml mewn trafodaethau am reoleiddio proffesiynol - ac, yn wir, yn nadansoddiad Llywodraeth Cymru ei hun o'r sefydliadau rheoleiddio sy'n berthnasol i'r drafodaeth ynghylch awdurdodaeth ar wahân i Gymru[111]. Fodd bynnag, credwn ei bod yn hanfodol bod yr holl broffesiynau cyfreithiol yng Nghymru yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y mater hwn. Awgrymwn y byddai'n anghyson yn ddeallusol ac yn weithredol creu rheoleiddiwr i Gymru yn unig ar gyfer rhai o broffesiynau cyfreithiol Cymru, ond nid ar gyfer eraill. Byddai cam o'r fath hefyd yn cymhlethu rôl oruchwylio'r BGC yn sylweddol.

105 Yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr. *Exemptions for UK and Ireland lawyers and barristers of England and Wales,* Awst 2018.
106 Yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr. *Northern Ireland and Republic of Ireland Lawyers,* Awst 2018.
107 Ibid, t17.
108 Jomati. *The legal sector in Wales – a rapid review (part one)*, Mawrth 2019, t16.
109 Y Gymdeithas Cyfreithwyr Costau. *Find A Costs Lawyer service – Wales.*
110 Sefydliad Siartredig yr Atwrneiod Nodau Masnach. *Find a member services – Wales.*
111 Y Comisiwn ar Gyfiawnder. *Tystiolaeth i'r Comisiwn – Bil Llywodraeth a'r Gyfraith yng Nghymru,* 10 Ebrill 2019, t23 - 33.

O ran barn ymarferwyr ynglŷn â'r pwnc hwn, ychydig o'n cyfweleion neu o'r ymatebwyr i'n harolwg a gynigiodd unrhyw farn o gwbl – gan awgrymu nad oedd y mater hwn yn un yr oeddent wedi meddwl amdano. Ymhlith y dyrnaid o ymarferwyr a gynigiodd farn, tueddai'r sylwadau a wnaed i ganolbwyntio ar y costau cydymffurfio a oedd yn gysylltiedig â chael eu llywodraethu gan sawl set o reolau proffesiynol. Wrth gwrs, mae costau o'r fath eisoes yn un o ffeithiau bywyd i unrhyw bractis cyfreithiol sy'n gweithredu ar sail aml-awdurdodaethol, gan gynnwys y rhai sydd â swyddfeydd ar draws Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Casgliadau ac argymhellion

Mae ein hymchwil yn awgrymu bod gan broffesiwn cyfreithiol Cymru farn amlweddog ynglŷn ag awdurdodaeth i Gymru.

Mewn perthynas â chymhwysedd Llywodraeth Cymru ar gyfer polisi cyfiawnder, mae'r adborth a gawsom yn dangos bod cefnogaeth proffesiwn cyfreithiol Cymru i'r syniad bod Llywodraeth Cymru yn cymryd drosodd y polisi yn debygol o fod yn amodol ar yr addewid o arian cymorth cyfreithiol ychwanegol. Yn sicr, efallai y bydd Llywodraeth Cymru am fabwysiadu polisi o'r fath. Fodd bynnag, wrth ystyried ei dull o fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â mynediad at gyfiawnder ac anialdiroedd cyngor, efallai y bydd Llywodraeth Cymru am gofio sut y mae'r farchnad gyfiawnder wedi ymateb i absenoldeb cyllid cyfreithiol – yn enwedig lle mae wedi cofleidio technoleg, mewn ymdrech i lenwi'r bwlch hwnnw. Mewn amgylchiadau penodol, mae'n bosibl y bydd dewisiadau eraill cost-effeithiol i gyfreithwyr bellach wedi bod yn opsiwn dichonadwy.

Mewn perthynas â chreu system rheoleiddio llysoedd a / neu gyfreithwyr ar wahân, nid yw'n ymddangos bod llawer o farn gref ynglŷn â datblygiadau o'r fath. Wedi dweud hynny, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried yn ofalus faint o adnoddau y mae eu hangen i greu a gweithredu seilwaith i Gymru'n unig, os na chaiff y seilwaith ei rannu â Lloegr mwyach.

Yr hyn sydd i'w weld fel pe bai'n creu'r pryder mwyaf dwys i'r proffesiwn cyfreithiol ynghylch mater awdurdodaeth i Gymru yw ei photensial i godi rhwystrau i lif rhydd gwaith a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol rhwng Cymru a Lloegr. Awgrymwn felly fod Llywodraeth Cymru yn cyfleu ei neges fyrdymor ynglŷn â "dim cyfyngiadau" yn uchel i'r proffesiwn, a hefyd yn egluro ei syniadau hirdymor ar y pwynt hwn.

Yn olaf, rydym hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried sut y bydd yn mynd i'r afael â mater dewis gyfraith, o ystyried bod y mater hwn, i bob pwrpas, y tu hwnt i'w gallu i'w reoli. Y tu allan i farchnad gaeth Cymru – sy'n cwmpasu'r materion cyfreithiol hynny na ellir ond ymdrin â hwy o fewn system gyfiawnder Cymru – faint o bractisiau cyfreithiol a'u cleientiaid fydd yn dewis defnyddio cyfraith Cymru yn feunyddiol, yn hytrach na chyfraith Lloegr? Rydym yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru geisio gwerthuso'r mater hwn ar frys – yn enwedig er mwyn gallu dechrau rhagfynegi'r galw posibl yn y dyfodol o fewn gwasanaeth llysoedd i Gymru'n unig. Awgrymwn ddull deublyg o ymchwilio i'r mater hwn:

- Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n helaeth i geisio barn y proffesiwn yng Nghymru ynghylch i ba raddau y maent yn darparu gwasanaethau cyfreithiol sydd ynghlwm yn gynhenid wrth Gymru, ac i ba raddau y maent yn darparu gwasanaethau cyfreithiol sy'n bennaf yn fater o ddewis cleientiaid.
- Gall fod yn ddefnyddiol hefyd i Lywodraeth Cymru archwilio'r dewisiadau o ran cyfraith lywodraethol mewn perthynas â'r farchnad gwasanaethau cyfreithiol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gallai'r archwiliad hwn ddarparu asesiad o'r effaith i ganfod i ba raddau y dewisir cyfreithiau lleol awdurdodaethau llai y DU yn hytrach na'r dewis arall sef awdurdodaeth gyfunol bresennol Cymru a Lloegr.

# Pennod deuddeg: Awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân – y cyflenwad o wybodaeth arbenigol

Fel rhan o'n dadansoddiad o barodrwydd presennol y farchnad gyfreithiol yng Nghymru ar gyfer awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, roeddem o'r farn ei bod yn briodol archwilio'r modd yr addysgir cyfraith Cymru ac yr ymchwilir iddi ym mhrifysgolion Cymru. Yn gyntaf, roeddem yn teimlo y byddai hyn yn ein galluogi i ddeall yn well y cyflenwad o raddedigion y gyfraith a oedd yn gyfarwydd â chyfraith Cymru, ac a allai, yn y pen draw, fod yn sail i genhedlaeth o gyfreithwyr yng Nghymru sy'n "hyddysg mewn datganoli". Yn ail, mae ein hymchwil fer (rhaid cyfaddef) i gyfraith Cymru wedi rhoi mewnwelediad elfennol i ni am fynychder y deunyddiau ac arbenigedd ar gyfraith Cymru, y gall ymarferwyr, swyddogion y Llywodraeth a'r gymuned yng Nghymru dynnu ar eu mewnwelediadau arbenigol.

Roedd tri cham gwahanol i'r broses ymchwil ar gyfer y bennod hon. Yn gyntaf, adolygwyd y cyrsiau israddedig (LLB), fel y'u hamlinellir ar wefannau prifysgolion Cymru, gyda'r bwriad o chwilio am gyrsiau sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyfraith Cymru. Gwnaethom ganolbwyntio ar LLB, yn hytrach na chyrsiau ôl-raddedig yn y gyfraith, gan mai'r rhain yw'r cyrsiau cyfreithiol academaidd mwyaf poblogaidd a ddarperir gan brifysgolion Cymru[112]. Yn ail, cyfwelwyd ag uwch-ffigyrau o ysgolion y gyfraith yng Nghymru. Yn ddefnyddiol, fe wnaeth y cyfweliadau hyn ein galluogi i gael mwy o fewnwelediad i natur addysgu cyfraith Cymru, na fyddai'n amlwg ar unwaith o adolygiad o'r crynodebau ar-lein o gyrsiau LLB prifysgolion o bosibl. Hefyd, fe wnaeth y cyfweliadau hyn ein galluogi i gael trosolwg a oedd yn dangos i ba raddau yr oedd ymchwil i gyfraith Cymru yn cael ei chynnal ym mhrifysgolion Cymru. Fe wnaeth y trafodaethau agored hyn gyda chynrychiolwyr ysgolion y gyfraith yng Nghymru ein galluogi hefyd i ddarganfod ble y gallai cymorth Llywodraeth Cymru fod yn ddefnyddiol mewn perthynas ag ymchwil i gyfraith Cymru ac – yn fwy cyffredinol – lledaenu cyfraith Cymru ym marn academyddion Cymru. Yn olaf, cynhaliwyd adolygiad mwy cyffredinol o allbwn deunyddiau ar gyfraith Cymru. Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder, a dogfennau eraill a oedd ar gael yn gyhoeddus y teimlem eu bod yn berthnasol i'r mater.

## Rôl fach cyfraith Cymru ym mhrifysgolion Cymru

Ar hyn o bryd, mae'r drefn o addysgu graddau yn y gyfraith yng Nghymru, fel yn Lloegr, yn cael ei rheoleiddio i raddau helaeth. Er mwyn cael ei hystyried yn "radd gymhwysol yn y gyfraith" – h.y. gradd sy'n caniatáu'n awtomatig i fyfyrwyr gamu ymlaen i gyfnod hyfforddiant galwedigaethol eu hyfforddiant proffesiynol – rhaid addysgu saith pwnc penodol[113]. Fodd bynnag, ac yn ogystal â'r pynciau craidd hyn, mae llawer o brifysgolion hefyd yn darparu modiwlau dewisol yn y gyfraith. I gyfreithwyr, mae natur hynod reoleiddiedig graddau yn y gyfraith yng Nghymru a Lloegr i fod i ddod i ben yn 2021, pan mai'r Adolygiad Cymhwyso'n Gyfreithiwr – "arch-arholiad" newydd – fydd y fynedfa mewn ffaith i'r Proffesiwn yng Nghymru a Lloegr[114]. Bryd hynny, bydd prifysgolion ar draws y ddwy wlad yn cael llawer mwy o ryddid o ran cynnwys eu graddau israddedig yn y gyfraith.

Er gwaethaf y rhyddid presennol sydd gan adrannau'r gyfraith (er mai bach ydyw) i gynnig modiwlau mewn pynciau nad ydynt yn orfodol, rydym yn cyfaddef i ni gael ein synnu i ganfod mai dim ond i raddau cyfyngedig y mae prifysgolion yng Nghymru yn cynnig cyrsiau yn y gyfraith sy'n ymwneud yn benodol â Chymru. Dengys ein hymchwil nad oedd rhai o brifysgolion Cymru yn cynnig unrhyw gyrsiau a oedd yn canolbwyntio'n agored ar gyfraith Cymru ar lefel LLB. Er enghraifft, mae'r unig gwrs yng nghyfraith Cymru gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd yn cynnwys pedair sesiwn ddwyawr ar gyfraith gofal cymdeithasol Cymru.

112 HESA *Cofnodion Myfyrwyr trwy Lywodraeth Cymru*.
113 Cymdeithas y Cyfreithwyr. *Qualifying with a law degree.*
114 ARhC. *SQE to be introduced in autumn 2021,* 8 Tachwedd 2018

Hyd yn oed lle mae prifysgolion Cymru yn cynnig modiwlau sy’n rhoi sylw penodol i Gymru fel rhan o’u graddau israddedig yn y gyfraith, maent yn tueddu i fod yn lleiafrif bach yn unig o’r rhai a gynigir. I ddangos yn union pa mor brin yw’r modiwlau hyn yng nghyfraith Cymru yng Nghymru, isod ceir cyfanswm yr holl gyrsiau o’r fath y gwyddys eu bod yn cael eu cynnig ym mhrifysgolion Cymru. Rydym wedi hepgor o dabl 19 isod y modiwlau hynny a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg ond nad ydynt fel arall yn ymwneud yn benodol ag awdurdodaeth Cymru.

### Tabl 19: y lefel finimol o addysgu cyfraith sy’n berthnasol i Gymru yn unig ym mhrifysgolion Cymru

| Prifysgol | Modiwl | Disgrifiad byr |
|---|---|---|
| Prifysgol Caerdydd | Datganoli yng Nghymru | Modiwl dewisol ym mlwyddyn 2 ar yr LLB |
| Prifysgol Abertawe | Cyfraith Hywel | Modiwl yn semester un, blwyddyn tri: Hanes cyfreithiol Cymru, o’r cyfnod cyn y Rhufeiniaid. |
| Prifysgol Abertawe | Cymraeg y Gyfraith | Modiwl yn semester dau, blwyddyn tri: statws cyfreithiol y Gymraeg mewn oes ar ôl datganoli |

Yn ein cyfweliadau â chynrychiolwyr ysgolion y gyfraith, nodwyd mai cyfraith Cymru oedd yn tueddu i fod yn fwyaf amlwg yn eu cyrsiau cyfraith gyhoeddus / weinyddol, lle’r oedd y setliad datganoli’n cael ei drafod hefyd. Y tu hwnt i hynny, roedd addysgu cyfraith Cymru yn llawer mwy tebygol o fod yn rhan annatod o fodiwlau ehangach, ac roedd felly’n cael ei haddysgu ar sail gymharol. Er enghraifft, gallai’r gyfraith sy’n berthnasol i Gymru’n unig fod yn cael ei haddysgu’n fyr mewn perthynas ag iechyd meddwl, tai a chyfraith tir, cyfiawnder ieuenctid neu gyfraith teulu, lle’r oedd – yn rhannol o leiaf – yn wahanol i gyfraith Lloegr. Yn ddefnyddiol, dangosodd ein hymchwil nad oedd prifysgolion Cymru’n gwneud ati i anwybyddu cyfraith Cymru, lle’r oedd yn berthnasol. Ond nid oedd y pwnc yn ganolog i addysgu myfyrwyr israddedig yn y gyfraith ychwaith.

Wrth gwrs, gall hefyd fod yn berthnasol i’n dadansoddiad o gynnwys cyrsiau LLB yng Nghymru – fel a drafodwyd yn flaenorol ym mhennod pedwar o’n hadroddiad – nad yw ysgolion y gyfraith yng Nghymru yn addysgu’r gyfraith ar y cyfan â’r nod unigol o gyflenwi’r farchnad â thalent gyfreithiol a addysgwyd yn lleol. Yn wir, awgrymodd un cynrychiolydd o ysgol y gyfraith, a gyfwelwyd ar gyfer yr adroddiad hwn, mai prin 10% o’r rhai a oedd wedi’u cofrestru ar un o’u cyrsiau yn y gyfraith fyddai’n mynd ymlaen i ymarfer y gyfraith yn lleol. “The idea that students will come to us because we’re Welsh only applies to those students whose first language is Welsh, or want to be taught in Welsh,” meddai’r academydd hwn drachefn. “But that is a very small market.”

A allai addysgu cyfraith Cymru ddod yn fwy cyffredin ym mhrifysgolion Cymru, wrth i gyfraith Cymru dyfu mewn maint? Efallai. Fodd bynnag, mae’n werth nodi bod arolwg yn 2014 / 2015 o ddarlithwyr yn ysgolion y gyfraith yng Nghymru – a archwiliodd yr union bwynt hwn – wedi dangos bod gwrthwynebiad i ddatblygiad o’r fath yn gyffredin ar draws pob un o bum ysgol y gyfraith yng Nghymru a arolygwyd. Canfu’r astudiaeth hon, sef "Mapping Legal Education in Wales 2", “64% of respondents did not plan delivering modules differently as a result of the Welsh Assembly acquiring primary law powers” a “44% of respondents did not teach devolved subjects either because it would limit the module’s appeal or would adversely affect students’ employability”[115].

[115] Y Comisiwn ar Gyfiawnder. *Sylwadau i’r Comisiwn ar Gyfiawnder gan yr Athro Richard Owen (Prifysgol Abertawe),* 17 Mehefin 2018, t7.

Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â'r farn a fynegwyd gan y rhan fwyaf o gynrychiolwyr ysgolion y gyfraith yng Nghymru y buom yn siarad gyda hwy yn ystod ein hymchwil ein hunain i'r mater hwn. Yn y bôn, roedd yr unigolion a gyfwelwyd gennym yn gochel rhag gwneud eu cyrsiau yn y gyfraith yn "rhy Gymreig", rhag ofn eu gwneud yn llai atyniadol i fyfyrwyr nad oeddent yn ymrwymedig i fyw a gweithio o fewn yr awdurdodaeth. A ninnau wedi tystio i'r nifer isel iawn sy'n ymgymryd â chyrsiau yn y gyfraith a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg – sylw a wnaed gan sawl un o'n cyfweleion yn ysgolion y gyfraith – ein hargraff ni yw bod ysgolion y gyfraith yng Nghymru yn gweithredu ar sail "a losgodd ei fysedd a ochel y tân", o ran eu parodrwydd i ddarparu cyrsiau israddedig yn y gyfraith sydd â blas unigryw Gymreig.

> *"It's an interesting balance, because we can't train lawyers who solely want to work in Wales – or we lose the English dimension. We can't divorce ourselves from the English students by being too Welsh focused. Similarly, for the Welsh students that want to work elsewhere, they can't come out with something that's so Welsh-centric that they're closing themselves off from future careers in London, Paris, Brussels – or wherever that might be."*

> *"We recognise that many of our students are from England, or are going to end up working in England, and have a career there. The idea that Welsh-only law courses would be viable is gaga stuff. You're not going to have enough to make it an attractive programme. Students will just vote with their feet, saying: 'No, I want to do a more attractive, wider-based, programme'."*

> *"If we decided to do a Welsh law module, then I don't know what the take-up would be. We want our course to be relevant across the border. For us, we think that teaching law on a comparative basis is a benefit. When they go into practice, it'll be second nature for our graduates to think 'OK, whats the jurisdiction?' – and to know the difference between England and Wales."*

Yn y dyfodol agos o leiaf, mae'n ymddangos yn debygol y bydd addysgu cyfraith Cymru ym mhrifysgolion Cymru yn parhau i fod yn "atodol" er mwyn cymharu â chyfraith Lloegr, y mae ei haddysgu'n debygol o ddominyddu'r maes llafur.

Awgrymwn y gallai'r diffyg brwdfrydedd presennol hwn dros addysgu'r gyfraith sy'n berthnasol yn benodol i Gymru yn fanwl ar lefel israddedig achosi problemau i broffesiwn cyfreithiol Cymru yn y dyfodol. Mae'n awgrymu y bydd angen i gyfreithwyr yng Nghymru fynd ati i chwilio am hyfforddiant yng nghyfraith Cymru, ar ôl cymhwyso, yn hytrach na bod â sylfaen yn y pwnc o ddechrau eu hyfforddiant proffesiynol.

Wrth gwrs, mae cyfreithwyr di-rif ledled y byd yn mynd ymlaen i arbenigo mewn disgyblaethau cyfreithiol na addysgwyd iddynt ar lefel israddedig, heb wynebu anawsterau mawr wrth wneud hynny. Yr her yr ydym ni'n ei nodi i Lywodraeth Cymru yw sicrhau bod cronfa ddigonol o ddeunyddiau sy'n barod ar gyfer ymarferwyr ar gael i'r rhai sy'n dymuno sicrhau eu bod gyfuwch â phynciau cyfraith Cymru. Ond, ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod swm y deunyddiau o'r fath yn gyfyngedig. Gall hyn olygu methiant yn y farchnad sydd wrthi'n dod i'r amlwg, y bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried sut i fynd i'r afael ag ef.

Yn y pen draw, rydym yn awgrymu y gallai fod yn angenrheidiol i Lywodraeth Cymru gynnig cymorth i brifysgolion Cymru addysgu'r gyfraith sy'n berthnasol i Gymru'n benodol ar lefel ymarferwyr, ôl-raddedig – a hefyd roi cymorth i gynhyrchu deunyddiau addas i ymarferwyr i ategu'r hyfforddiant hwn. Yn fwy na hynny, efallai y bydd angen cynnydd dros amser o ran i ba raddau y rhoddir cymorth o'r fath, mewn modd sy'n adlewyrchu faint y mae corff cyfraith sy'n

berthnasol i Gymru yn unig wedi ehangu. Yn niffyg cymorth o'r fath, mae perygl y bydd arbenigedd yng nghyfraith Cymru'n eiddo i selogion ymroddedig yn unig, sy'n barod i hunanaddysgu ac yn gallu gwneud hynny, neu gwmnïau cyfreithiol mwy Cymru sy'n gallu creu eu sylfaen wybodaeth fewnol ar gyfer cyfraith Cymru fel rhan o'u rhaglen rheoli gwybodaeth ehangach. Os caiff arbenigedd yng nghyfraith Cymru ei ddatblygu y tu ôl i ddrysau caeedig i raddau helaeth, rydym yn meddwl tybed sut y bydd y farchnad i'r rhai y gallai fod arnynt angen gwybodaeth arbenigol am gyfraith Cymru ar sail ad hoc yn cael ei gwasanaethu.

### Argaeledd deunyddiau ar gyfraith Cymru

Fel rhan o'n hymchwil ni i'r pwnc hwn, gofynasom i gynrychiolwyr o ysgolion y gyfraith yng Nghymru adnabod eu cymheiriaid, a oedd yn cyhoeddi ymchwil i gyfraith Cymru. Ar wahân, gwnaethom ein gwaith ymchwil ein hunain hefyd, gan chwilota mewn gwahanol ffynonellau cyhoeddus, gan gynnwys amryw siopau llyfrau ar-lein, Google Scholar, a llyfryddiaeth ar-lein Cynulliad Cymru ei hun[116].

Yn gadarnhaol, darganfuom lond dwrn o lyfrau sy'n ymdrin yn benodol â chyfraith Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, *Welsh Planning Law and Practices* gan Graham Walters ac *Administrative Law and Administrative Courts in Wales* gan David C Gardner. Fodd bynnag, prin iawn oedd y cyhoeddiadau hyn: roedd yn llawer haws darganfod deunyddiau ar gyfraith ganoloesol Cymru nag ar sawl maes sy'n rhan o ymarfer cyfreithiol cyfoes, a oedd yn cynnwys elfennau a oedd yn ymwneud yn benodol â chyfraith Cymru. Roedd y rheswm dros y deunyddiau coll hyn yn syml: nid oeddent yn cael eu cynhyrchu gan adrannau'r gyfraith ym mhrifysgolion Cymru.

> *"We're certainly not producing textbooks on Welsh law. And, as far as I know, almost none have been produced. The textbooks [that cover issues that are devolved] tend to say 'and it's different in Wales' – but they're not really making it clear why it's different in Wales. If you're lucky, you might get two paragraphs."*

Mae ein hymholiadau yn cyd-daro ag eraill sydd wedi archwilio'r mater hwn, gan gynnwys Dr Catrin Fflur Huws o Ysgol y Gyfraith Aberystwyth[117], y cyn-Brif Gwnsler Deddfwriaethol yr Athro Thomas Glyn Watkin[118] a Chomisiwn y gyfraith. Mewn astudiaeth a gyhoeddwyd yn 2016, canfu adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith fel a ganlyn: "overwhelming majority of consultees reported experiencing difficulties due to the limited availability of textbooks on the law applicable to Wales"[119]. Fodd bynnag, yn wahanol i Gomisiwn y Gyfraith[120], mae gennym ni amheuon a fydd sefydliadau addysg uwch Cymru yn cynhyrchu llyfrau o'u gwirfodd i wasanaethu'r farchnad gyfyngedig hon. Rydym yn teimlo bod rheswm da dros ein pesimistiaeth: nid yw contractau cyflogaeth academyddion, na'u metrigau perfformiad addysgu / ymchwil, yn tueddu i roi anogaeth i gynhyrchu deunyddiau o'r fath.

> *"In terms of writing specific legal textbooks [about Welsh law], it is obviously a challenge because – self-evidently, it is not economically viable for people to produce them. The problem is that textbooks aimed at practitioners are not Research Excellence Framework-returnable. There are some people, bless them, who are impressively flying the flag, and producing books on Welsh law. But it's not a market that is well-served."*

[116] Y Cynulliad Cenedlaethol. Cynulliad Cenedlaethol Cymru a datganoli yng Nghymru: llyfryddiaeth
[117] Y Comisiwn ar Gyfiawnder. *Sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder gan Dr Catrin Huws a Dr Amanda Clare (Prifysgol Aberystwyth),* 4 Mehefin 2018, t13.
[118] Y Comisiwn ar Gyfiawnder. *Sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder gan yr Athro Glyn Watkins,* 4 Mehefin 2018.
[119] Comisiwn y Gyfraith. *Form and Accessibility of the Law Applicable in Wales,* CyG Rhif 366, t180.
[120] Ibid, t182.

> *"If the Welsh Government wants to create a library of core Welsh law subjects, they can't do it on the cheap – our performance metrics will not reward us for that kind of activity. If one of my colleagues wants to write a book on Welsh law, I'd say 'Fine – come up with £50,000, so I can replace you for a year'. So if the Welsh Government offered my department money to replace one of my colleagues, I'd be happy to tell that colleague 'go ahead and write that book'."*

Rydym yn awgrymu y gallai'r diffyg deunyddiau ymchwil academaidd i gyfraith Cymru fod yn broblematig o ran datblygu awdurdodaeth Cymru yn y dyfodol. Yn ddelfrydol, dylai deunyddiau o'r fath allu addysgu myfyrwyr y gyfraith, cynorthwyo ymarferwyr yn eu bywydau pob dydd, a helpu i ddatblygu cyfreitheg sy'n ymwneud yn benodol â chyfraith Cymru. Eto i gyd, ar hyn o bryd, ymddengys mai anaml y cynhyrchir deunyddiau manwl ar gyfraith Cymru a dim ond mewn perthynas ag ystod gyfyngedig o bynciau. Erfyniwn felly ar Lywodraeth Cymru i roi cymorth systematig i greu deunyddiau o'r fath, cyn ymgymryd yn ffurfiol â phroses lle bydd cyfraith Cymru yn ymwahanu'n sylweddol oddi wrth gyfraith Lloegr. Byddai gwefan Cyfraith.llyw.cymru yn un cartref posibl i gynnwys o'r fath. Nodwn fod y wefan hon yn cynnwys nifer fach o sylwebaethau addas i ymarferwyr ar gyfraith Cymru - er ein bod hefyd yn nodi nad oes unrhyw gynnwys cyfreithiol newydd wedi'i ychwanegu at y wefan hon ers mis Tachwedd 2017.

### Dibyniaeth ad hoc sector cyhoeddus Cymru ar arbenigedd yng nghyfraith Cymru

O'n trafodaethau gyda chynrychiolwyr ysgolion y gyfraith yng Nghymru, rydym dan yr argraff bod Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, aelodau'r cynulliad, a rhanddeiliaid perthnasol eraill (y'u gelwir ar y cyd yn "sector cyhoeddus Cymru") yn tueddu i fanteisio ar arbenigedd yr academyddion cyfreithiol hynny sy'n ymchwilio i gyfraith Cymru ar sail ad hoc ar y cyfan. Fodd bynnag, mae ein trafodaethau gyda chynrychiolwyr ysgolion y gyfraith yng Nghymru yn dangos bod y ddibyniaeth ad hoc hon ar arbenigedd yng nghyfraith Cymru gan y sector cyhoeddus yng Nghymru yn achosi annifyrrwch o fewn haenau uwch adrannau'r gyfraith ym mhrifysgolion Cymru: a siarad yn blwmp ac yn blaen, ceir canfyddiad bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gorlethu academyddion unigol. Yn wir, awgrymwyd wrthym ni fod galwadau gormodol ar amser academyddion y gyfraith yng Nghymru wedi effeithio'n uniongyrchol ar allu rhai i wneud y swyddi y maent yn cael cyflog amdanynt.

Rydym yn amau'n gryf bod y sefyllfa bresennol – lle tybir bod gorlethu yn digwydd – wedi codi ar ddamwain, am nad oedd gwahanol ganghennau o'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn sylweddoli i ba raddau yr oeddent – ar y cyd – yn dreth ar amser ac ewyllys da arbenigwyr ar gyfraith Cymru. Yn wir, mewn ymateb i fersiwn gynharach o'n drafft, dywedodd Llywodraeth Cymru nad oedd yn "adnabod bod y sylwadau hyn yn cynrychioli safbwyntiau cyffredin, ac nid oedd yn glir a oeddent yn ymwneud ag amgylchiadau penodol (na allent roi sylwadau arnynt heb ragor o wybodaeth) ynteu a oedd honiad bod hwn yn fater mwy cyffredinol." Mewn ymateb i'r adborth hwn, rydym yn cynnig y sylw canlynol: o'r adborth a gawsom gan yr uwch-ffigyrau yn ysgolion y gyfraith yng Nghymru, mae'r ddau beth yn wir. Rydym wedi cael enghreifftiau penodol o orlethu – rhywbeth na allwn ei rannu ymhellach oherwydd materion sy'n ymwneud â phreifatrwydd. Rydym hefyd wedi clywed am gwynion mwy cyffredinol am y galwadau ar amser arbenigwyr ar gyfraith Cymru. Mae'r cwynion hyn wedi cael eu cyfleu gan amryw uwch-gynrychiolwyr yn ysgolion y gyfraith, sydd â golwg dda ar gyfanswm y galwadau ar amser eu cyd-academyddion gan y sector cyhoeddus yng Nghymru ar y cyd.

Er mwyn lliniaru'r broblem hon, awgrymodd cynrychiolwyr o nifer o ysgolion y gyfraith y dylai'r sector cyhoeddus yng Nghymru – ar y cyd – sefydlu rhaglen ffurfiol ar gyfer tynnu ar arbenigedd academaidd. Teimlid y byddai hyn yn lleihau'r canfyddiad am orlethu, ac yn ei gwneud yn bosibl i berthynas iachach rhwng y sector cyhoeddus yng Nghymru ac academyddion ysgolion y gyfraith ddatblygu. Awgrymwyd hefyd y byddai perthynas fwy ffurfiol – ac agored fasnachol - rhwng sector cyhoeddus Cymru a'r byd academaidd – yn hwyluso'r broses o gynhyrchu deunyddiau ar gyfraith Cymru sy'n addas i ymarferwyr.

> *"What the Welsh Government could say is: 'We need your expertise. How about a secondment?' That's fine, and some UK Government departments already do it. But free advice won't work, in terms of workload models. The amount of credit that legal academics can receive for citizenship and engagement is very limited. No matter what the Welsh Government says, our income stream is students and student fees."*
>
> *"If the Welsh Government wanted to get someone in to sort out their HR, they'd get a HR expert in. They wouldn't just go to the business school of a university and say: 'You've got HR experts, we'll have them'. It just doesn't work like that."*
>
> *"If engagement with the Welsh Government starts to take up genuine time, then some form of formal consultancy arrangement needs to be put in place."*

Credwn fod y sylwadau a wnaed gan gynrychiolwyr ysgolion y gyfraith y siaradwyd gyda hwy yn gwbl resymol, a bod yr atebion a awgrymwyd ganddynt yn synhwyrol. Am y rheswm hwn rydym yn awgrymu y dylai'r sector cyhoeddus yng Nghymru – ar y cyd – ddogfennu'n gynhwysfawr pwy y mae eu harbenigedd academaidd yng nghyfraith Cymru yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, ac at ba ddiben. Gallai'r gwaith hwn gael ei wneud ar y cyd ag adrannau'r gyfraith yn y prifysgolion eu hunain, ar y sail bod gan yr adrannau hyn afael gadarn ar y galwadau sydd arnynt. Os canfyddir bod galwadau diangen arnynt ar hyn o bryd, awgrymwn y dylid cwtogi ar y galwadau hyn i lefel sy'n gydnaws â chyfrifoldebau academyddion i'w cyflogwr. Lle mae tâl am wasanaethau a ddarperir yn briodol, awgrymwn y dylai'r gangen berthnasol o'r sector cyhoeddus yng Nghymru ei dalu.

### Casgliadau ac argymhellion

Awgrymwn fod Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliad manwl o'r holl gyrsiau yn y gyfraith a addysgir yng Nghymru, er mwyn deall lle mae materion cyfraith ddatganoledig yn syml yn peidio â chael eu haddysgu. Bydd hyn yn helpu i nodi unrhyw agweddau penodol ar gyfraith Cymru lle y gall prinder cynghorwyr arbenigol ddigwydd.

Rydym hefyd yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall roi cymorth i gynhyrchu deunyddiau a fydd yn ei gwneud yn bosibl lledaenu cyfraith Cymru yn eang. Os yw gwerslyfrau arbenigol, a deunyddiau defnyddiol eraill, yn syml yn peidio â chael eu cynhyrchu, rydym yn meddwl tybed sut y caiff gwybodaeth a mewnwelediad am gyfraith Cymru eu rhannu gyda'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru a'r gymdeithas ehangach. Gallai gwefan Cyfraith.llyw.cymru fod yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer proses ledaenu o'r fath. Ar hyn o bryd, mae hwn yn adnodd nas defnyddir yn ddigonol: nid oes cynnwys cyfreithiol newydd wedi'i ychwanegu at y wefan hon ers mis Tachwedd 2017.

Ar bwynt cysylltiedig, erfyniwn ar bob cangen o'r sector cyhoeddus yng Nghymru i werthfawrogi nad swydd academyddion y gyfraith yng Nghymru yw rhoi cyngor am ddim iddynt. Dylai sector cyhoeddus Cymru brynu a thalu am ganllawiau ar faterion sy'n ymwneud â chyfraith Cymru ar sail strwythuredig, yn union fel y byddai'n ei wneud am unrhyw fath arall o gyngor proffesiynol.

# Pennod un deg tri: Effaith Brexit ar broffesiwn cyfreithiol Cymru

Yn ystod ein hymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn, gan gynnwys pan oeddem yn cyfweld ag arweinwyr practisiau cyfreithiol yng Nghymru, nid oedd unrhyw eglurder o ran ffurf Brexit. Roedd yn ymddangos bod pob opsiwn yn bosibl, a'r rheiny'n amrywio o Brexit heb gytundeb i ddirymu'r hysbysiad ynglŷn ag Erthygl 50. Yn anffodus, mae'r diffyg eglurder ynghylch y broses Brexit wedi parhau. O ganlyniad i'r ansicrwydd parhaus hwn, roedd yn anodd cael dealltwriaeth o sylwedd am effaith debygol Brexit ar y sector cyfreithiol yng Nghymru. Yn wir, roedd un o'n cyfweleion mor syfrdan am y broses Brexit gyfan nes ei fod wedi dweud yn gellweirus y byddai'n "well mynd â phrynu penwisg a phelen grisial."

Er bod y diffyg eglurder parhaus hwn ynghylch Brexit yn eithriadol o ddi-fudd i sector cyfreithiol Cymru, credwn ei bod yn ddefnyddiol tynnu sylw at feysydd penodol y daethom ar eu traws sy'n achosi pryder, naill ai trwy'r sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, neu o'n hymchwil ein hunain. Rydym yn gobeithio y gallai ein mewnwelediadau, o leiaf, gynnig rhai arwyddion i Lywodraeth Cymru o ble y gallai fod angen rhoi cymorth i sector cyfreithiol Cymru, wrth i'r broses Brexit barhau i ddatblygu.

Roedd un maes a oedd yn achosi pryder yn ymwneud ag effaith bosibl Brexit ar y sector prifysgolion yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â chyfadrannau'r gyfraith. Mae dau linyn i'r pryder hwn. Yn gyntaf, roedd pryder ynghylch y diffyg mynediad posibl at gyllid ymchwil yr UE yn y dyfodol, a'r ffaith ei bod yn bosibl na fyddai effaith colli'r cyllid hwn yn cael ei lliniaru gan gymorth ychwanegol o fewn y DU yn benodol[121]. Yn ail, roedd pryderon y gallai myfyrwyr rhyngwladol gael eu rhwystro rhag gwneud cais i astudio ym mhrifysgolion y DU – a Chymru'n benodol. Roedd effaith ataliol ganfyddedig Brexit yn deillio o nifer o ffactorau, gan gynnwys gelyniaeth ymddangosiadol y DU tuag at wladolion eraill yr UE, newidiadau i'r gyfundrefn fewnfudo ar gyfer myfyrwyr yr UE, newidiadau i'r ffioedd dysgu sy'n daladwy gan fyfyrwyr yr UE, a chydnabyddiaeth – neu fel arall - yn y dyfodol i raddau neu gymwysterau yn y DU mewn awdurdodaethau eraill yn yr UE. Canfu arolwg diweddar o 336 o fyfyrwyr ym mhrifysgolion Cymru fod 84.2% yn credu y byddai Cymru ar ôl Brexit yn lle llai deniadol i fyfyrwyr yr UE ddod i astudio'r gyfraith. Hefyd, roedd 81.6% yn credu y byddai Cymru yn dod yn lle llai deniadol i ddarlithwyr yr UE addysgu ac ymchwilio i'r gyfraith[122].

Gan godi pryderon tebyg, roedd un o'n cyfweleion o bractisiau cyfreithiol yn meddwl tybed beth fyddai statws mewnfudo tebygol eu gweithlu – hynod ryngwladol – yn y dyfodol. Hefyd, mynegodd yr ymarferwr hwn, ynghyd â nifer o rai eraill, anfodlonrwydd hefyd ynghylch y baich canfyddedig ar economi'r DU yr oedd Brexit yn dal i'w achosi:

> *"Our business is very much focused on commercial work – corporate, commercial, property transactions. If the investment isn't there, and those transactions don't happen, then we won't have any legal work to do."*
>
> *"What we are seeing is a constipation of activity by our clients, because they just don't know what's around the corner. That is going to impact on activity."*
>
> *"We've been making sure we've got plenty of available liquidity, so that we've got the facilities in place. This means that, if there is a downtown, we can weather the storm."*

Yn wir, roedd rhai arweinwyr practisiau cyfreithiol yn pryderu gymaint bod ansicrwydd ynghylch Brexit yn cyfrannu at ostyngiad mewn cyfarwyddiadau newydd, fel eu bod bellach yn dechrau ystyried dileu swyddi.

121 Y Comisiwn ar Gyfiawnder. *Sylwadau i'r Comisiwn ar Gyfiawnder gan Grŵp Ymchwil Cyfraith Gyhoeddus Ysgol y Gyfraith Bangor,* 14 Mehefin 2018, t26.
122 Fel uchod, t27.

*“We're looking at what our most vulnerable areas are – in particular, residential conveyancing. That's what we're most concerned about. We’ve already started having the conversations around when we start letting staff go, and what criteria to use, in order to cut cost quickly.”*

Wedi dweud hynny, nododd nifer o gyfweleion hefyd fod Brexit yn cynhyrchu gwaith cyfreithiol, ar faterion sy’n ymwneud â phopeth o gyfraith cyflogaeth i ailstrwythuro corfforaethol. Mater o ganfyddiad yn bennaf oedd y cwestiwn a ddylai’r gwaith ychwanegol hwn gael ei ystyried yn beth da. Dywedodd un cyfwelai o bractis preifat, er enghraifft, fod cyfreithwyr eu cwmni bellach yn cael gwaith ychwanegol yn cynghori ar faterion sy’n ymwneud â gweithwyr mudol a fisâs rhyngwladol. I'r gwrthwyneb, fe wnaeth un cyfreithiwr mewnol nodi – gydag annifyrrwch amlwg – faint o arian y mae eu cyflogwyr yn ei wario ar gyfreithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, er mwyn sicrhau y gallai eu busnes barhau i fasnachu o fewn yr UE ar ôl Brexit.

## Casgliadau ac argymhellion

Yng ngoleuni’r ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit, mae ei effaith ar broffesiwn cyfreithiol Cymru yn dal i fod yn aneglur. Ar ben hynny, yng ngoleuni’r dyddiad terfyn – sydd wedi’i ohirio ymhellach – ar gyfer Brexit, mae’n argoeli y bydd yr ansicrwydd hwn yn parhau yn y dyfodol agos.

O ran yr amserlen bresennol, mae’r dyddiad terfyn nesaf ar gyfer brexit ar ddiwedd mis Hydref 2019. Awgrymwn fod hyn yn cynnig ffenestr i Lywodraeth Cymru nodi meysydd o fewn marchnad gyfreithiol Cymru sy’n wynebu risgiau arbennig, gyda golwg ar lunio cynllun(iau) gweithredu sy’n ceisio lliniaru’r risgiau hynny. Mae Brexit yn gysyniad etheraidd. Fodd bynnag, mae ei effaith o fewn sector cyfreithiol Cymru yn debygol o fod yn benodol iawn – fel y dylai ymateb Llywodraeth Cymru iddo fod hefyd, yn ein barn ni. Er enghraifft, gan ddefnyddio data y gwyddys fod HESA yn ei gasglu, awgrymwn yr hoffai Llywodraeth Cymru fynd ati o bosibl i fonitro cofrestriadau yn ysgolion y gyfraith. Nod ymarfer monitro rhagweithiol o’r fath fyddai darganfod a oes dirywiad amlwg yn nifer dinasyddion yr UE sy’n ymgymryd â chyrsiau yn y gyfraith ym mhrifysgolion Cymru, o’i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Awgrymwn y byddai’r dull hwn yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i Lywodraeth Cymru am unrhyw risg i hyfywedd ariannol ysgolion y gyfraith yng Nghymru.

Yn yr un modd, yng ngoleuni dibyniaeth drom sector cyfreithiol Cymru ar drawsgludo preswyl yn arbennig, awgrymwn hefyd y byddai Llywodraeth Cymru o bosibl yn dymuno adnabod – a gwneud ymholiadau ynghylch iechyd ariannol - cwmnïau cyfreithiol yng Nghymru sy’n canolbwyntio’n arbennig ar y math hwn o waith. Yn ddefnyddiol, mae bellach yn bosibl nodi cwmnïau cyfreithiol sy’n agored iawn i’r farchnad trawsgludo preswyl, diolch i fenter data agored gan Gofrestrfa Tir EM[123]. Fel isafswm llwyr, gallai’r math hwn o ymgysylltu rhagweithiol roi hysbysiad ymlaen llaw i Lywodraeth Cymru ynghylch ble y gallai nifer sylweddol o swyddi gael eu colli yn y sector cyfreithiol yng Nghymru, a ble y gallai fod angen cymorth i ailhyfforddi / adleoli.

123 https://www.gov.uk/government/news/march-2019-transaction-data.

# Pennod un deg pedwar: Cymorth i'r sector gwasanaethau cyfreithiol yn y DU ac mewn gwledydd eraill

Yn y bennod hon, rydym yn tynnu sylw at y ffordd y mae amryw randdeiliaid, yn y DU a thramor, wedi ceisio tyfu eu marchnadoedd cyfreithiol yn rhagweithiol. Nid ydym yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru geisio efelychu pob un o'r enghreifftiau penodol hyn yng Nghymru yn ddifeddwl. Fodd bynnag, credwn fod yr enghreifftiau hyn yn dangos "celfyddyd y posibl", o ran ehangu marchnad ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol.

## Rhan un – twf y ganolfan gwasanaethau cyfreithiol gyfagos

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu tuedd amlwg gan gwmnïau cyfreithiol mawr yn fyd-eang i agor canolfannau gwasanaethau mewn lleoliadau "cyfagos". Heddiw, mae nifer o ddinasoedd y DU bellach yn gartref i ganolfannau gwasanaethau o'r fath, gan gynnwys Birmingham, Leeds, Lerpwl, Manceinion, Newcastle-upon-Tyne, ac – yn nodedig – Belfast.

Mewn llawer o achosion, mae cwmnïau cyfreithiol sy'n agor canolfannau gwasanaethau yn mynd i'r lleoliad hwnnw am y tro cyntaf. O ganlyniad, mae agor canolfan gwasanaethau yn aml yn gyfle newydd sylweddol ar gyfer cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r gyfraith yn y lleoliad hwnnw. Yn nhablau 20 a 21 isod, rydym yn ceisio mesur nifer y swyddi sy'n bodoli bellach mewn canolfannau gwasanaethau gan bractisiau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yn y DU. Hyd yn oed gyda data anghyflawn, nodwn fod yr amryw weithrediadau mewn canolfannau gwasanaethau bellach yn cefnogi tua 3,000 o rolau ar y cyd. Yn wir, mewn enghreifftiau lluosog a grybwyllir yn nhabl 21, mae nifer y rolau a gefnogir bellach mewn canolfannau gwasanaethau unigol gannoedd lawer yn fwy na'r hyn a ragwelwyd ar adeg lansio'r canolfannau. Am y rheswm hwn, credwn y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n frwd i roi anogaeth i sefydlu canolfannau gwasanaethau cwmnïau cyfreithiol yng Nghymru yn y dyfodol. Nid yn unig y mae gan ganolfannau o'r fath botensial mawr ar gyfer twf o ran swyddi a ragwelwyd, ond mae nifer o enghreifftiau pendant o ganolfannau o'r fath yn rhagori dro ar ôl tro ar ddisgwyliadau cychwynnol o ran cyflogaeth o fewn cyfnod cymharol fyr.

Lansiwyd canolfannau gwasanaethau llawer o gwmnïau cyfreithiol gyda'r prif nod o ddarparu cymorth "cefn swyddfa" canolog ar gyfer cwmnïau cyfreithiol, a hynny'n cwmpasu swyddogaethau fel cyfrifon, adnoddau dynol, TG a marchnata. I raddau helaeth, mae hyn yn dal i fod yn un o'r swyddogaethau craidd yng nghanolfannau gwasanaethau sawl cwmni cyfreithiol. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y dylid ystyried bod ffocws cymorth cefn swyddfa llawer o'r canolfannau gwasanaethau yn nodwedd negyddol yn ei hanfod. Y rheswm dros hyn yw ein bod yn credu bod swyddi ym maes cymorth cyfrifon, adnoddau dynol, TG a marchnata ar gyfer y sector cyfreithiol yn yrfaoedd dilys yn eu hawl eu hunain. Yn wir, gyda rolau o'r fath yn cael eu crynhoi'n drwm yn Llundain ar hyn o bryd, gellid dadlau y byddai'n ddymunol bod trigolion Cymru a allai fod â diddordeb mewn gyrfaoedd o'r fath yn cael y cyfle i gyflawni eu dyheadau gyrfaol o fewn y wlad. Heb os, mae rhai o'r cyfleoedd cyflogaeth hyn eisoes ar gael i weithwyr practisiau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Fodd bynnag, mae dyfodiad un neu fwy o ganolfannau gwasanaethau yng Nghymru yn debygol o greu cyfleoedd cyflogaeth o faint gwahanol o'i gymharu â'r rhai a gynigir gan gyfranogwyr ym marchnad leol Cymru.

O ran cyflogau a delir yn nodweddiadol mewn canolfannau gwasanaethau, yn yr amser a neilltuwyd i lunio'r adroddiad hwn, bu'n anodd cael data cadarn – yn anad dim oherwydd nad yw'r rhan fwyaf o swyddi gwag mewn cwmnïau cyfreithiol a hysbysebir mewn perthynas â chanolfannau o'r fath yn datgelu eu cyflogau. Yr hyn a amheuir yn gryf, fodd bynnag, yw bod rolau mewn canolfannau gwasanaethau – hyd yn oed swyddi nad ydynt yn gyfreithiol – fel arfer yn talu cyflogau sy'n uwch na'r cyfartaledd lleol. Er enghraifft, er bod y cyflog llawn-amser cyfartalog yng Ngogledd Iwerddon – gwlad sy'n boblogaidd iawn ar gyfer sefydlu canolfannau gwasanaethau cyfagos – yn £27,006 yn 2018[124], mae ymchwil diweddar i gyflogau gan recriwtiwr lleol yn Belfast, Abacus, yn awgrymu bod swyddi marchnata lefel-ganol yn cynnig cyflog cyfartalog o £31,483 (gan godi i £44,033). Yn yr un modd, roedd cyflogau sylfaenol cyfartalog gweithwyr meddalwedd TG proffesiynol yng Ngogledd Iwerddon yn £29,319 (gan godi i £45,725 ar gyfer uwch swyddi). Gan gymryd y bydd personél cwmnïau cyfreithiol sy'n gwneud y mathau hyn o rolau mewn canolfannau gwasanaethau sydd wedi'u lleoli yn Belfast yn debygol o gael cyflogau cymaradwy, mae data Abacus yn awgrymu bod y rolau hyn yn debygol o hawlio premiwm bach, ond amlwg, dros gyflogau cyfartalog Gogledd Iwerddon.

Yn wir, dengys datganiadau a wnaed gan ddau ddarparwr Technoleg Ddigidol, y mae'r ddau ohonynt wedi'u sefydlu, neu eu hehangu, yn ddiweddar, yng Ngogledd Iwerddon, y gallai'r potensial ennill yn eu swyddfeydd yn Belfast fod hyd yn oed yn uwch nag y mae ffigurau Abacas yn ei ddynodi. Pan gyhoeddodd iManage (yn 2016) ei fod yn agor swyddfa newydd yn Belfast, dywedwyd y byddai'r 18 rôl a oedd yn cael eu creu yn dwyn £680,000 mewn cyflogau bob blwyddyn – sy'n cyfateb i tua £37,777 y rôl[125]. Yn fwy diweddar, pan gyhoeddodd y gwerthwr datrysiadau meddalwedd cyfreithiol Repstor (yn 2018) ei fod yn ehangu nifer ei gyflogeion, cadarnhaodd mai £40,000[126] oedd cyflog cyfartalog ei recriwtiaid newydd (yn 2018). Yng ngoleuni'r data cyhoeddus hwn ar gyflogau, credwn – hyd yn oed pan fydd gan ganolfan gwasanaethau gyfagos cwmni cyfreithiol elfen "nad yw'n gyfreithiol" gref, nid yw hyn yn golygu y dylid ystyried canolfannau o'r fath fel cyflogwyr cyflog isel. Am y rheswm hwnnw, credwn y gall canolfannau gwasanaethau wneud cyfraniad cadarnhaol ar y cyfan at allu lleoliad i weithredu fel economi cyflog uchel.

Gan droi yn awr at rolau'r sector cyfreithiol: mae'n werth nodi, yn ystod cyfnod cynnar eu bodolaeth, bod y mwyafrif llethol o rolau cyfreithiol a oedd ar gael yn swyddfeydd canolfannau gwasanaethau yn tueddu i fod yn swyddi iau, o fath paragyfreithiol. Yn ôl pob tebyg, mae'r sefyllfa hon yn parhau heddiw. Fodd bynnag, hyd yn oed pan fo'r math hwn o waith yn cael ei wneud gan ganolfan gwasanaethau cwmni cyfreithiol, mae'r data bach yr ydym wedi gallu ei gasglu yn awgrymu y bydd y cyflogau a delir mewn canolfannau o'r fath yn uwch na norm y farchnad leol. Mewn geiriau eraill, gall dyfodiad canolfan gwasanaethau cwmni cyfreithiol helpu i godi cyflogau lleol am yr hyn sydd, yn hanesyddol, wedi bod yn waith sy'n talu'n gymharol isel.

Gan ddychwelyd at ein hesiampl yng Ngogledd Iwerddon unwaith eto: mae data arolwg Abacas yn awgrymu mai £20,254 yw'r cyflogau cyfartalog a delir i'r rhai sy'n gwneud gwaith paragyfreithiol yn yr ardal hon. Eto i gyd, pan gyhoeddodd Fieldfisher yn ddiweddar ei fod yn agor swyddfa gymorth yn Belfast i "ymdrin â dogfennau" a rhoi cymorth cyfreithiol – h.y. gwaith paragyfreithiwr – dywedwyd y byddai'r cyflogau a fyddai'n cael eu talu yn y Swyddfa 125 person "yn yr £20,000oedd canol"[127], bron i £4,000 y flwyddyn yn fwy na'r cyfartaledd lleol a awgrymwyd gan Abacas. Yn yr un modd, mor bell yn ôl â 2010, ar adeg lansio Herbert Smith Belfast (ar y pryd), dywedwyd y byddai'r 26 rôl a fyddai'n cael eu creu yn cynhyrchu incwm cyflogau blynyddol o £650,000 – sy'n cyfateb i £25,000[128] y rôl. Yn fwy cadarnhaol byth, pan gyhoeddodd y darparwr gwasanaethau cyfreithiol amgen

124 Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon. *Median headline earnings 1997 to 2018,* 25 Hydref 2018.
125 Invest NI. *US Software Engineering Firm Opens New Centre in Belfast,* 2 Mehefin 2016.
126 Invest NI. *Belfast software firm, Repstor creates jobs to drive growth*, 11 Mai 2018.
127 Invest NI. *Top 25 law firm Fieldfisher expands into Northern Ireland with 125 new jobs,* 18 Awst 2018.
128 Invest NI. *Leading international law firm established base in Belfast*, 24 Tachwedd 2010.

Axiom (yn 2015) ei fod yn creu 97 o swyddi newydd yn Belfast, honnwyd y byddai'r rolau hyn yn talu "salaries well above the Northern Ireland private sector median, contributing an additional £3.9 million every year to the local economy"[129]. Ar sail cyflog y rôl, amcangyfrifwn fod cyfraddau cyflog Axiom ar gyfer y swyddi newydd hyn (yn 2015) oddeutu £40,206.

Yng ngoleuni'r enghreifftiau uchod, felly, rydym o'r farn, hyd yn oed gyda ffocws sylweddol ar wneud gwaith cyfreithiol ar lefel baragyfreithiol / iau yng nghanolfannau gwasanaethau practisiau cyfreithiol, y gall hyn gael effaith gadarnhaol ar yr economi leol. Daw'r effaith gadarnhaol hon o gynyddu cyfanswm y rolau sydd ar gael yn lleol, a hefyd trwy gynyddu'r cyflogau cyfartalog a delir am y math hwn o waith.

At hynny, heddiw, mae ochr gweithrediadau cyfreithiol canolfannau gwasanaethau cwmnïau cyfreithiol wedi ehangu y tu hwnt i ganolbwyntio ar gyfleoedd paragyfreithiol yn unig. Yn ddiweddar, mae rhai wedi dechrau cynnig contractau hyfforddiant llawn, gan felly ddarparu llwybr at gymhwyso'n gyfreithiwr[130]. Hefyd, nid yw'n anghyffredin mwyach i ganolfannau gwasanaethau gyflogi cyfreithwyr sydd â sawl blwyddyn o brofiad ar ôl cymhwyso – hyd at a chan gynnwys penaethiaid adran. Ymhlith y cwmnïau sydd wedi mynd ati'n ddiweddar (ac yn weithredol) i recriwtio cyfreithwyr cymwysedig i weithrediadau eu canolfannau gwasanaethau cyfagos mae Addleshaw Goddard, Baker McKenzie, Clifford Chance, Freshfields, Herbert Smith Freehills, Lewis Silkin a Taylor Wessing.

Yn olaf, o ran y rolau sy'n gysylltiedig â'r gyfraith a gynigir yn swyddfeydd canolfannau gwasanaethau cwmnïau cyfreithiol, ymddengys fod tueddiad cynyddol i swyddfeydd o'r fath chwarae rhan bwysig yn ymddangosiad swyddi newydd, cyfreithiol, gyda chymorth technoleg. Mewn geiriau eraill, mae'r canolfannau gwasanaethau'n debygol o fod yn gartref i'r union fath o rolau y mae'n llai tebygol yr effeithir yn andwyol arnynt gan ddatblygiad Deallusrwydd Artiffisial, y bu llawer o gyhoeddusrwydd amdano, yn y sector gwasanaethau cyfreithiol. Ymhlith yr enghreifftiau o rolau cyfreithiol o fath newydd, a hysbysebwyd yn ddiweddar yn swyddfeydd cwmnïau cyfreithiol yn y DU, mae:

- Dadansoddwr datrysiadau technoleg gyfreithiol – Allen & Overy
- Cynorthwyydd technoleg farchnata – Allen & Overy
- Gweithredwr prosiectau cyfreithiol – Allen & Overy
- Uwch reolwr prosiectau (model darparu gwasanaethau newydd) – Ashurst
- Dadansoddwr cyfrifyddu – Baker McKenzie
- Rheolwr capasiti pobl – Freshfields

Ymddengys hefyd fod dyfodiad canolfannau gwasanaethau practisiau cyfreithiol fel canolbwynt ar gyfer arloesi mewn ymarfer cyfreithiol yn cael effaith ar natur cyrsiau'r gyfraith a gynigir gan brifysgolion sy'n lleol i'r canolfannau gwasanaethau hynny. Mae cyrsiau yn y gyfraith sy'n canolbwyntio ar arloesi a gyhoeddwyd yn ddiweddar – sydd wedi cael eu lansio mewn prifysgolion yn agos at ganolfannau gwasanaethau cwmnïau cyfreithiol – yn cynnwys LLM Prifysgol Ulster, "Technoleg Gyfreithiol: Gwybodaeth a Gwybodeg" a modiwl "Technoleg Gyfreithiol a Mynediad at Gyfiawnder" Prifysgol Manceinion.

129 Invest Ni. *Axiom announced 97 new jobs in Belfast*, 21 Ebrill 2015.
130 The Lawyer. *Baker & McKenzie offers first Belfast training contracts, 27 October 2016. The Lawyer. Allen & Overy launches Belfast training contract*, 4 Chwefror 2019.

Gan dybio bod cyrsiau o'r fath yn cydio ymhlith myfyrwyr eu prifysgolion, ymddengys fod hyn yn nodi cylch rhinweddol o gyflogaeth yn y sector cyfreithiol, mewn lleoliadau lle mae'r canolfannau gwasanaethau yn gweithredu. Hynny yw: mae cwmnïau cyfreithiol bellach yn mynd ati'n weithredol i gyflogi ymgeiswyr i ymgymryd â gwaith sy'n canolbwyntio ar Dechnoleg Gyfreithiol ac, ar yr un pryd, mae prifysgolion lleol yn dechrau cyflenwi graddedigion â chymwysterau addas i lenwi'r swyddi hyn.

Yng ngoleuni'r holl sylwadau hyn, rydym felly â phob parch yn anghytuno â'r sylwebyddion hynny sydd wedi awgrymu nad yw canolfannau gwasanaethau cyfagos a weithredir gan gwmnïau cyfreithiol yn Llundain yn creu'r math o swyddi cyfreithiol o ansawdd y byddai Cymru yn ddelfrydol am eu denu. A dweud y gwir, rydym yn arddel barn groes. Trwy roi cymorth i sefydlu canolfannau gwasanaethau practisiau cyfreithiol yng Nghymru, credwn y dylai Llywodraeth Cymru allu gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni o leiaf ddau o'r amcanion a nodir yn ei chynllun gweithredu ar yr economi:

- Hwyluso cyflogaeth o ansawdd da, datblygiad sgiliau a gwaith teg
- Yn arbennig gan gyfeirio at Dechnoleg Gyfreithiol, galluogi Cymru i ddod yn ganolfan ar gyfer arloesi ac entrepreneuriaeth (yn y sector cyfreithiol)

### Hanes achos: Belfast

Fel a nodwyd yn flaenorol, y lleoliad yn y DU sydd wedi elwa'n fwyaf sylweddol o'r ffenomen canolfannau gwasanaethau practisiau cyfreithiol yw Belfast. Mor ddiweddar â dechrau'r 2010au, roedd marchnad gyfreithiol Belfast yn fach, ac yn cael ei dominyddu gan bractisiau cyfreithiol a oedd yn BBaCh. Ychydig o gwmnïau cyfreithiol rhyngwladol oedd ag unrhyw bresenoldeb uniongyrchol yn y ddinas. Yn wir, gellir dadlau bod marchnad Belfast yn 2010 yn adlewyrchu elfennau o farchnad gyfreithiol Caerdydd heddiw. Fodd bynnag, yn wahanol i Gaerdydd, diolch i ymddangosiad canolfannau gwasanaethau cyfagos, mae Belfast bellach yn gartref i nifer o'r cwmnïau cyfreithiol mwyaf o ran maint a mwyaf ffyniannus yn y byd: Allen & Overy, Baker McKenzie a Herbert Smith Freehills. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am gwmnïau cyfreithiol, a darparwyr gwasanaethau Technoleg Gyfreithiol, sydd wedi sefydlu swyddfeydd cymorth yn Belfast, yn nhabl 20 isod.

**Tabl 20: cwmnïau cyfreithiol / sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r gyfraith sydd wedi sefydlu neu ehangu yng Ngogledd Iwerddon**

| Sefydliad | Digwyddiad | Blwyddyn | Cymorth a roddwyd (os yn berthnasol) | Nifer y swyddi a ragwelir | Buddsoddiad y swydd a grëwyd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Allen & Overy | Cyhoeddi swyddfa Belfast | 2011 | £2,500,000 | 300 | £8,333 | Cyrhaeddodd nifer y cyflogeion yn y swyddfa 588 erbyn 2019 |
| | Swyddi a chymorth hyfforddi ychwanegol | 2014 | £860,000 | 100 | £8,600 | |
| Axiom | Lansio swyddfa Belfast | 2012 | £1,600,00 | 102 | £15,686 | Aeth y cwmni y tu hwnt i'r targedau recriwtio ac mae bellach mewn swyddfa â lle i 350 o bobl |
| | Cyhoeddi ei fod yn ehangu | 2015 | £727,500 | 97 | £7,500 | |
| | Adleoli ac ehangu | 2017 | £727,500 | 167 | £4,356 | |
| Baker McKenzie | Cyhoeddi swyddfa Belfast | 2014 | £1,280,000 | 256 | £5,000 | Cyrhaeddodd nifer y cyflogeion yn y swyddfa oddeutu 300 erbyn 2018 Bydd swyddfeydd newydd yn cynyddu'r capasiti cyflogeion i 450 |
| | Swyddfeydd ychwanegol | 2018 | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | |
| Fieldfisher | Lansio swyddfa | 2018 | £630,000 | 125 | £5,040 | Mae'r swyddfa gymorth yn Belfast ar wahân i gynghrair presennol y cwmni yng Ngogledd Iwerddon. |
| Herbert Smith Freehills | Lansio swyddfa Belfast | 2011 | £208,000 | 26 | £8,000 | Roedd nifer y cyflogeion yn y swyddfa wedi cyrraedd 350 erbyn 2018 |
| | Ehangu swyddfa Belfast | 2011 | £526,000 | 61 | £8,622 | |
| iManage | Lansio swyddfa Belfast | 2016 | £90,000 | 18 | £5,000 | Cwmni meddalwedd gwasanaethau proffesiynol wedi'i leoli yn UDA yw iManage |
| Repstor | Rolau a chymorth marchnata newydd | 2018 | £80,850 | 6 | £13,475 | Cwmni meddalwedd sy'n weithredol yn y farchnad gyfreithiol yw Resptor |
| Shoosmiths | Lansio tîm cymorth newydd | 2018 | £52,000 | 13 | £4,000 | Bydd y tîm yn rhoi cymorth ar draws y cwmni |
| SmithDehn | Lansio swyddfa Londonderry | 2015 | £42,000 | 6 | £7,000 | Cafodd y cwmni £8,000 mewn cymorth marchnata hefyd |

Yn rhannol, mae'n debygol y gellir egluro llwyddiant Gogledd Iwerddon i ddenu buddsoddiad sylweddol mewn canolfannau cyfagos yn y sector cyfreithiol, gan ymgyrch marchnata hir a di-baid, a gynhaliwyd gan Invest NI, asiantaeth datblygu busnesau rhanbarthol Gogledd Iwerddon. Ar ôl cyflwyno cais rhyddid gwybodaeth mewn perthynas â gweithgareddau marchnata sector cyfreithiol Invest NI, gallwn gadarnhau bod y sefydliad hwn, ers 2011, wedi hysbysebu mewn o leiaf 38 o gyhoeddiadau'r sector masnach gyfreithiol, gan gynnwys y rhai a gynhyrchir gan Gymdeithas Bar America, y Global Legal Post, y Gymdeithas Bar Ryngwladol (IBA), y Gymdeithas Technoleg Gyfreithiol Ryngwladol (ILTA), *Legal Business, The Lawyer, a Legal Week*. Mae Invest NI hefyd wedi noddi / mynychu o leiaf 15 o gynadleddau a digwyddiadau rhyngwladol "busnes y gyfraith". Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd yr IBA yn Tokyo, Fienna, Washington DC a Llundain, cyfarfodydd ILTA yn Llundain, Washington, Las Vegas ac Efrog Newydd, digwyddiad blynyddol y Sefydliad Gweithrediadau Cyfreithiol Corfforaethol yn Las Vegas, yr arddangosfa Technoleg Gyfreithiol yn San Francisco, a digwyddiadau yn Llundain a drefnwyd gan Glwb Datblygu Busnes Cyfreithwyr Llundain a *Legal 500*.

O'i gymharu, rydym yn ymwybodol o ddau ddigwyddiad yn unig a noddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf y mae cyfreithwyr yn hoffi eu mynychu: MIPIM yn Llundain a Cannes. Dylid nodi bod MIPIM yn canolbwyntio'n bennaf ar y sector eiddo yn hytrach na'r sector cyfreithiol. Er bod llawer o gyfreithwyr eiddo arbenigol yn mynychu MIPIM, ychydig o arweinwyr cwmnïau cyfreithiol sy'n gwneud hynny. Yn lle hynny, mae arweinwyr cwmnïau cyfreithiol yn fwy tebygol o fynychu'r math o ddigwyddiadau a noddwyd yn flaenorol gan Invest NI.

At hynny, mae'n nodedig bod rhai o weithgareddau hyrwyddo Gogledd Iwerddon wedi bod yn cael eu harwain gan Brif Weinidog Gogledd Iwerddon, y Gwir Anrhydeddus Arlene Foster – sydd felly'n dangos ymrwymiad gwleidyddol ar y lefel uchaf i hyrwyddo'r sector cyfreithiol yn rhyngwladol gan Lywodraeth Gogledd Iwerddon. Hyd y gwyddom, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â nifer cyfatebol o weithgareddau hyrwyddo "lefel uchaf", sy'n canolbwyntio ar ddenu cwmnïau cyfreithiol i sefydlu canolfannau gwasanaethau yn y wlad.

Nid oes amheuaeth bod gwaith di-baid i godi proffil gan Invest NI wedi chwarae rhan bwysig yn natblygiad cychwynnol Belfast fel dewis leoliad ar gyfer canolfannau gwasanaethau cyfagos practisiau cyfreithiol. Fodd bynnag, mae gennym rai amheuon a fyddai angen i Lywodraeth Cymru ymgymryd ag ymgyrch marchnata yr un mor ffyrnig a chostus, pe bai'n penderfynu mynd ati i hyrwyddo Caerdydd fel lleoliad posibl ar gyfer canolfannau gwasanaethau cyfagos practisiau cyfreithiol. Dywedwn hyn am ddau brif reswm:

Yn gyntaf, ar yr adeg y dechreuodd Invest NI hyrwyddo Belfast fel lleoliad canolfannau gwasanaethau, roedd union gysyniad sefydlu canolfannau cyfagos ar gyfer practisiau cyfreithiol a chanolfannau gwasanaethau annibynnol yn dal yn newydd. Sawl blwyddyn yn ddiweddarach, mae'r cysyniad yn cael ei ddeall yn llawer gwell erbyn hyn, ac mae digonedd o enghreifftiau gwirioneddol. Felly, mae llai o angen i hyrwyddo union gysyniad canolfannau cyfagos practisiau cyfreithiol yn ei hawl ei hun.

Yn ail, o'n trafodaethau gyda'r rhai a fu'n ymwneud â phenderfyniadau ynglŷn â sefydlu canolfannau cyfagos cwmnïau cyfreithiol yn y gorffennol – yr ydym wedi ceisio eu barn – mae'n amlwg (i rai, o leiaf) bod Caerdydd wedi cael ei hystyried yn weithredol fel lleoliad posibl ar gyfer canolfannau cyfagos. Yn y pen draw, fel a drafodwyd eisoes ym mhennod chwech o'r adroddiad hwn, nid am na chafodd Caerdydd ei hystyried yn y lle cyntaf y gwnaed y penderfyniad i beidio â lleoli canolfan gwasanaethau gyfagos yng Nghaerdydd. Yn hytrach, dylanwadwyd ar benderfyniadau gan ffactorau eraill, na fyddai gwariant marchnata Llywodraeth Cymru ar ei ben ei hun wedi gallu eu gwrthbwyso.

At hynny, ar ôl cymharu amserlen y mentrau marchnata a gynhaliwyd gan Invest NI gan gyfeirio at agor canolfannau gwasanaethau newydd yn Belfast, ymddengys i gyfran sylweddol o'r gweithgareddau marchnata hyn ddigwydd pan oedd y prif gyfranogwyr wedi cael eu sefydlu'n barod. Mae bron yn sicr mai'r rheswm dros hyn – fel y byddwn yn ei

ddangos yn awr – oedd canfyddiad ymhlith penderfynwyr allweddol ynglŷn â lleoli canolfannau gwasanaethau bod marchnad Belfast bellach yn rhy orlawn i barhau fel dewis leoliad ar gyfer buddsoddi mewn canolfannau gwasanaethau.

> *"We ruled out Northern Ireland on the basis of political uncertainty in relation to Brexit, but also due to travel considerations and congestion with a number of firms there. We were looking at places that were largely not already used by large law firms for their nearshoring."*
>
> *"Looking at the stats, such as real estate, Northern Ireland would have been best for us. But we felt that, in the professional services sector, the rates have been pushed up massively. There's a real talent war for the best people. As a location [for law firm nearshoring] it's done."*
>
> "If I was advising someone [on where to nearshore], I would say 'stay away from Northern Ireland' these days."

Gyda'i gilydd, mae'r sylwadau hyn yn awgrymu mai dim ond capasiti cyfyngedig sydd gan farchnadoedd cyfreithiol llai y DU, fel Belfast, i gynnal sawl canolfan gwasanaethau. Pan gyrhaeddir y dirlawnbwynt hwnnw, bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â lleoli canolfannau cyfagos yn newid yn lle hynny i chwilio am leoliadau eraill. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod Belfast ar fin cyrraedd y dirlawnbwynt hwn. Mae'n amlwg nad yw Caerdydd wedi. Felly, mae ei photensial fel lleoliad ar gyfer un neu fwy o ganolfannau gwasanaethau gan gwmnïau cyfreithiol arwyddocaol yn dal i fod yn gryf.

## Sefydlu canolfannau cyfagos practisiau cyfreithiol mewn rhannau eraill o'r DU

Caiff y canfyddiad bod Belfast wedi peidio â bod yn ddewis leoliad ar gyfer canolfannau gwasanaethau practisiau cyfreithiol ei ddangos ymhellach gan dabl 21 isod. Yn arbennig ers 2014, pan sefydlwyd Allen & Overy, Herbert Smith Freehills, Baker McKenzie ac Axiom i gyd yn Belfast, mae sawl practis cyfreithiol rhyngwladol mawr wedi dewis sefydlu eu canolfannau gwasanaethau eu hunain mewn lleoliadau eraill yn y DU.

### Tabl 21: gweithrediadau cyfagos cwmnïau cyfreithiol yn y DU – heblaw Belfast

| Enw'r cwmni | Lleoliad(au) | Blwyddyn cyhoeddi / agor | Bras amcan o'r niferoedd | Yn cyflogi / chwilio am gyfreithwyr cymwysedig? |
|---|---|---|---|---|
| Addleshaw Goddard | Tîm cymorth Gwasanaethau Trafodol wedi'i wasgaru ar draws pedair swyddfa | 2010 | 175 | Ydy |
| Lewis Silkin | Caerdydd | 2012 | 43 | Ydy |
| Ashurst | Glasgow | 2013 | 350 | Ydy |
| Bryan Cave Leighton Paisner | Manceinion (Swyddfa Model Gwasanaethau Cleientiaid Integredig) | 2014 | Wedi gwrthod datgelu | Wedi gwrthod datgelu |
| Hogan Lovells | Birmingham | 2014 | 55 | Ydy |
| Freshfields | Manceinion | 2015 | 800 | Ydy |
| Latham & Watkins | Manceinion | 2015 | Wedi gwrthod datgelu | Ydy |
| Norton Rose Fulbright | Newcastle | 2016 | 140 (arfaethedig) | Ydy |
| Clifford Chance | Newcastle | 2018 | 60 | Ydy |
| Reed Smith | Leeds | 2018 | 30 | Wedi gwrthod datgelu |
| Taylor Wessing | Lerpwl | 2018 | 25 | Ydy |

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Manceinion wedi dod i'r amlwg fel dewis allweddol ar gyfer canolfannau gwasanaethau yn lle Belfast, ac mae bellach yn gartref i bedair canolfan o'r fath, gan gynnwys Tîm Gwasanaethau Trafodion (TST) Addleshaw Goddard. Gellir dadlau felly y gallai Manceinion, hefyd, gyrraedd dirlawnbwynt cyn bo hir, o ran gallu'r ddinas i amsugno mwy o ganolfannau gwasanaethau cwmnïau cyfreithiol. Mae eisoes yn sector cyfreithiol o bwys yn ei rhinwedd ei hun, ac mae uchelgais Freshfields i gyflogi 800 o bobl yn lleol[131] yn debygol o ychwanegu rhagor o bwysau cystadleuol at farchnad gyfreithiol orlawn Manceinion.

Mae poblogrwydd mwy diweddar Newcastle i'w weld yn strategol yn bennaf, yn achos Norton Rose Fulbright[132], ac yn oportiwnistaidd i raddau helaeth, yn achos Clifford Chance. Cangen gwasanaethau paragyfreithiol a gwasanaethau cyfreithiol a reolir ar gyfer nwyddau Carillion oedd cnewyllyn gweithrediadau Clifford Chance yn Newcastle[133]. Cafodd y tîm hwn ei gaffael gan Clifford Chance ar ôl i riant-gwmni Carillion ddod i ben. Nid yw ehangiad oportiwnistaidd Cliffordd Chance i Newcastle yn ddatblygiad y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi dylanwadu arno, wrth gwrs, o ran gwneud Caerdydd yn opsiwn arall deniadol i'r cwmni hwn ar gyfer buddsoddi mewn canolfan gwasanaethau. Ond, o safbwynt Cymru, efallai mai'r ffordd orau o feddwl am y cysylltiad rhwng Clifford Chance a Carillion yw ei fod yn gwthio marchnad gyfreithiol canolfannau cyfagos Newcastle yn nes at y dirlawnbwynt, fel Belfast ac (o bosibl) Manceinion cyn hynny. Yn ddiofyn bron, bydd dengarwch Caerdydd fel lleoliad posibl ar gyfer canolfannau gwasanaethau yn cynyddu o ganlyniad i'r cyfuniad Clifford Chance / Carillion.

## Rhan dau: sut y mae Singapôr wedi mynd ati'n frwd i geisio bod ar flaen y gad yn y farchnad gyfreithiol fyd eang - ddwywaith

Mae rhai agweddau ar sector cyfreithiol Singapôr yn ei gwneud yn ymgeisydd annhebygol i fod yn ganolfan ryngwladol gyfreithiol. Mae'r wlad yn enwog am fod yn gyfyngus mewn perthynas â nifer y cwmnïau cyfreithiol tramor y mae'n caniatáu iddynt gynghori ar gyfraith leol Singapôr o fewn ei ffiniau: dim ond naw a gaiff wneud hynny ar hyn o bryd. Hefyd, rhaid i hawl y cwmnïau hyn i weithredu yn Singapôr gael ei hail-gymeradwyo bob hyn a hyn[134].

Ac eto, er gwaethaf y cyfyngiad sylweddol hwn ar fynediad at y farchnad gyfreithiol, mae Singapôr – yn y blynyddoedd diwethaf – wedi dod i'r amlwg fel lleoliad byd-eang o bwys ar gyfer cyflafareddu rhyngwladol. Erbyn hyn, mae'r wlad yn gartref i un o'r "tair mawr" ymhlith y canolfannau cyflafareddu rhyngwladol[135], sef Canolfan Gyflafareddu Ryngwladol Singapôr (SIAC). Yn nodedig, dim ond ym 1991 y sefydlwyd SIAC[136] – yn llawer mwy diweddar na'i dau gystadleuwr agosaf – sef Siambr Fasnach Ryngwladol Paris (a sefydlwyd ym 1923)[137] a'r sefydliad sydd bellach yn masnachu fel Llys Cyflafareddu Rhyngwladol Llundain (a sefydlwyd yn wreiddiol ym 1891)[138]. Fel yr enghraifft flaenorol a ddefnyddiwyd gennym fel hanes achos, Belfast, mae llwyddiant SIAC yn dangos sut y mae'n bosibl i leoliad fynd ati'n gyflym i sefydlu enw da sydd ar flaen y gad yn y farchnad am fath penodol o wasanaethau cyfreithiol.

O ran llwyth gwaith, mae adroddiad blynyddol SIAC ar gyfer 2018[139] yn nodi bod cyfanswm o 402 o achosion newydd wedi dod i law. Er nad yw hynny'n fawr o ran nifer, mae'r anghydfodau hyn yn tueddu i fod yn uchel mewn gwerth: Cyflwynwyd gwerth SGD 7.06 biliwn o hawliadau newydd yn 2018 – sy'n gyfwerth fwy neu lai â £5.44 biliwn.

131 The Lawyer. *Freshfields nears 800-strong Manchester target with new fit out,* 13 Mawrth 2018.
132 Chronical Live. *Norton Rose Fulbright doubles North East Presence after successful first year,* 11 Tachwedd 2018.
133 Clifford Chance. *Clifford Chance acquires CAS in Newcastle*, 14 Chwefror 2018.
134 Gweinyddiaeth y Gyfraith. *Updates on qualifying foreign law practices licences renewed in 2014,* 18 Rhagfyr 2018.
135 Queen Mary University / White & Case. *2018 International arbitration survey: the evolution of international arbitration,* t9.
136 http://siac.org.sg/2014-11-03-13-33-43/about-us.
137 https://iccwbo.org/about-us/who-we-are/history/.
138 https://www.lcia.org/LCIA/history.aspx.
139 SIAC. *Where the world arbitrates.* Annual Report 2018.

Ar sail cyfartaledd, mae hyn yn awgrymu bod pob cyflafareddiad yr ymdriniwyd ag ef gan SIAC yn werth oddeutu SGD 17.56 miliwn / £13.43 miliwn[140]. Mae'n amlwg felly bod y math o anghydfodau y mae SIAC yn ymdrin â hwy ym mhen uchaf y farchnad anghydfodau. Anghydfodau gwerth uchel, wrth gwrs, yw un o'r mathau mwyaf proffidiol o waith i gyfreithwyr.

Roedd yr anghydfodau yr ymdriniodd SIAC â hwy hefyd yn rhyngwladol iawn o ran eu natur: dim ond 16% oedd yn achosion domestig, o'i gymharu ag 84% a oedd yn rhyngwladol. Yn 2018, roedd rhai o'r "taleithiau cartref" mwyaf poblogaidd ar gyfer partïon newydd yn cynnwys Ynysoedd Cayman, UDA, y Swistir a'r Emiraethau Arabaidd Unedig. Er bod ychydig dros hanner yr achosion a gyflwynwyd i SIAC yn 2018 yn cael eu llywodraethu gan gyfraith Singapôr, nid oedd hynny'n wir am nifer sylweddol ohonynt – gan gynnwys 18% a oedd yn cael eu llywodraethu gan gyfraith Lloegr. I bob pwrpas, yr hyn y mae'r data hwn yn ei ddangos yw bod SIAC wedi gallu tyfu marchnad ar gyfer gwaith cyfreithiol gwerth uchel – h.y. cyflafareddu – sydd â'i wreiddiau'n amlwg mewn lleoliad penodol, gan hefyd beidio â bod yn gwbl ddibynnol ar gyflwr yr economi yn y lleoliad hwnnw am ei llwyddiant. Yma, gellir dwyn cymhariaeth â system addysg gyfreithiol Cymru, y mae ei hiechyd cyffredinol yn dibynnu'n sylweddol ar y farchnad fyd-eang, yn hytrach na chyflenwad lleol – a gellir dadlau ei bod yn fwy cadarn oherwydd hynny.

Yn anffodus, yn yr amser a oedd ar gael i wneud yr adolygiad cyflym hwn, nid ydym wedi gallu mesur faint o waith y mae sefydliadau megis SIAC yn ei gynhyrchu ar gyfer marchnad gyfreithiol Singapôr. Serch hynny, efallai y byddai'n ddefnyddiol nodi, er mai 5,336 yw cyfanswm y cyfreithwyr a gofrestrwyd fel rhai sy'n gweithio yn Singapôr[141], bod dros 1,000 o gyfreithwyr Singapôr wedi nodi'n swyddogol bod ganddynt gymhwysedd mewn gwaith cyflafareddu[142]. Ar lefel fwy ansoddol, mae dwsinau o gyfreithwyr – o nifer fawr o bractisiau cyfreithiol cartref a rhyngwladol – wedi'u rancio o ran eu harbenigedd cyflafareddu yn Singapôr, yng nghyfeiriaduron *Chambers & Partners* a *Legal 500*. Rydym felly'n cael argraff bendant bod bodolaeth – a llwyddiant – SIAC wedi galluogi nifer fawr o ymarferwyr sydd wedi'u lleoli yn Singapôr i greu gyrfa lwyddiannus iddyn nhw eu hunain mewn perthynas â'r arbenigaeth gyfreithiol hon.

Mae SIAC yn sefydliad annibynnol, di-elw, yn hytrach nag endid gwladwriaethol. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd, mae gwladwriaeth Singapôr wedi cychwyn amryw fesurau sydd wedi cyfrannu at lwyddiant SIAC. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:

- Ymrwymo, ar 21 Awst 1986, i Gonfensiwn Efrog Newydd 1958[143]. Mae dod yn rhan o'r confensiwn hwn yn galluogi dyfarniadau cyflafareddu yn Singapôr i gael eu gorfodi mewn 150 o wledydd
- Cyflwyno deddfwriaeth sy'n galluogi cyllid trydydd parti ar gyfer cyflafareddu masnachol rhyngwladol yn Singapôr[144]
- Rhoi cymorth i sefydlu, ac yn ddiweddarach adnewyddu, Siambrau Maxwell – lleoliad pwysig ar gyfer gwrandawiadau SIAC[145]
- Caniatáu i gwmnïau cyfreithiol tramor gynghori ar achosion cyflafareddu a chymryd rhan ynddynt[146]
- Sicrhau nad yw'n ofynnol i gyfreithwyr dibreswyl gael hawlenni gweithio er mwyn darparu gwasanaethau cyflafareddu yn y wlad[147]

140 Barnwriaeth Cymru a Lloegr. *Business and Property Courts: the Commercial Court Report 2017 – 2018 (Including the Admiralty Court Report),* T11
141 Cymdeithas Cyfreithwyr Singapôr. *General Statistics as of 31 August 2018.*
142 www.mlaw.gov.sg/eservices/lsra/search-lawyer-or-law-firm/.
143 Confensiwn Cyflafareddu Efrog Newydd. *Contracting states.*
144 Gweinyddiaeth y Gyfraith Singapôr: *Public consultation to seek feedback on the third-party funding framework.*
145 *Anerchiad cyweirnod gan MS Indranee Rajah S.C., uwch weinidog y wladwriaeth, Gweinyddiaeth y Gyfraith a Chyllid, adeg torri'r dywarchen gyntaf ar gyfer 28 Maxwell Road ar 22 Mehefin 2017 yn Siambrau Maxwell.*
146 SIAC. *Arbitration in Singapore.*
147 SAIC. *Our rules* – rheol 37.

Mae'r enghraifft fer hon yn dangos sut y gall amrywiaeth o gyfranwyr – sy'n perthyn i'r wladwriaeth ac nad ydynt yn perthyn i'r wladwriaeth fel ei gilydd – fynd ati ar y cyd i hwyluso'r broses o sefydlu arbenigaeth gyfreithiol broffidiol iawn mewn lleoliad penodol. Yn ddefnyddiol, er bod y datblygiad hwn o gymorth i greu ac ehangu ecosystem gyfreithiol o fewn y lleoliad hwnnw, nid yw llwyddiant yr ecosystem honno'n dibynnu'n llwyr ar fympwyon y farchnad gyfreithiol leol y mae wedi'i lleoli ynddi. Yn hytrach, daw llawer o lwyddiant yr ecosystem – a'r llwyth gwaith – o sylfaen gleientiaid ryngwladol amrywiol. Awgrymwn fod hwn yn ddull cadarn a chynaliadwy o dyfu marchnad gyfreithiol.

Marchnad arall lle mae Singapôr wedi ceisio ennill troedle fel canolfan ragoriaeth fyd-eang yw Technoleg Gyfreithiol. I'r perwyl hwnnw, mae Academi'r Gyfraith Singapôr (SAL) – yr asiantaeth yn y wlad sydd â gorchwyl i ddatblygu Singapôr fel canolfan gwasanaethau cyfreithiol – wedi amlinellu "Gweledigaeth" eang dros bum mlynedd ar gyfer technoleg gyfreithiol[148]. Ymhlith y syniadau sydd wedi'u cynnwys yn y weledigaeth hon mae creu cronfa ddata agored o dempledi a chynseiliau contractau, cynlluniau i wreiddio Technoleg Gyfreithiol mewn modiwlau a ddilynir yn ysgolion y gyfraith, a rhoi anogaeth ar gyfer mannau cydweithio i gyfreithwyr a chwmnïau newydd ym maes Technoleg Gyfreithiol. Yn ddefnyddiol, mae awduron y weledigaeth hon yn cynnwys rhanddeiliaid lefel uchel o fewn cymuned gyfreithiol Singapôr, gan gynnwys ustusiaid y Goruchaf Lys, cynrychiolwyr Gweinyddiaeth y Gyfraith, ysgolion y gyfraith ac ymarferwyr preifat.

Ers hynny, mae'r weledigaeth gyffredinol hon wedi cael ei hymgorffori mewn nifer o fentrau Technoleg Gyfreithiol penodol, gan gynnwys:

- Rhaglen Arloesi Dyfodol y Gyfraith (FLIP) – "industry-wide initiative to drive innovation and encourage the adoption and invention of new technology among law firms, legal departments and legal tech startups to create a vibrant legal technology ecosystem in Singapore"[149] Mae digwyddiadau FLIP yn cynnwys sgyrsiau cyfreithiol misol ar arloesi mewn ymarfer cyfreithiol, arddangosiadau Technoleg Gyfreithiol ddwywaith y mis, gweithdai misol i grwpiau bach, a digwyddiadau ad hoc fel gwyliau technoleg a chystadlaethau brolio

- Rhaglen "Tech Start for Law" werth SNG 2.8 miliwn a gefnogir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gyda'r nod o roi cymorth i bractisiau cyfreithiol Singapore wella eu cynhyrchiant trwy dechnoleg. Darparodd y gronfa hyd at 70% o gostau blwyddyn gyntaf mabwysiadu cynhyrchion technoleg sy'n ymwneud â rheoli practis, ymchwil ar-lein a marchnata ar-lein[150]

- Cynllun achredu "SmartLaw" a gefnogir gan Gymdeithas Cyfreithwyr Singapôr ar gyfer practisiau cyfreithiol sydd wedi mabwysiadu rhai technolegau cyfreithiol. Ar 31 Hydref 2018, roedd 45 o bractisiau wedi cael yr achrediad hwn[151]

- Cynllun cost-isel, sy'n galluogi cwmnïau cyfreithiol sy'n BBaCh i dalu am ymgynghorydd i'w helpu i ad-drefnu eu llif gwaith. Nod y cynllun yw galluogi'r cwmnïau hyn i fabwysiadu technoleg newydd, ac felly weithredu'n fwy effeithiol ac effeithlon[152]

- Creu sbardunwr cwmnïau Technoleg Gyfreithiol newydd, sydd i fod i gynnig cymorth mentora, cyngor ar y farchnad leol, a chyngor ar strategaeth a rheoli busnes[153]

[148] Academi'r Gyfraith Singapôr. *Legal technology vision. Towards the digital transformation of the legal sector.*
[149] Future of Law Innovation Programme 2019 Info pack.
[150] Gov.sg. *$2.8m Tech Start Programme to Help Singapore Law Practices Adopt Technology,* 27 Chwefror 2017.
[151] Cymdeithas Cyfreithwyr Singapôr. *SmartLaw.*
[152] FLIP. *A year on, Singapore Academy of Law's FLIP continues to drive legal innovation,* 1 Chwefror 2019.
[153] Gweler uchod.

O fewn y gymuned practisiau preifat, mae arwyddion hefyd bod rhai practisiau cyfreithiol blaengar wedi dechrau ystyried Singapôr fel lleoliad o ddewis ar gyfer arbrofi ag arloesi mewn ymarfer. Er enghraifft, yn ddiweddar lansiodd y cwmni cyfreithiol byd-eang, Clifford Chance, labordy arloesi sydd wedi'i leoli yn Singapôr, sef Create+65. Nod Create+65, yn ôl y cwmni, yw "initiative to identify, incubate, test and pilot new legal technology solutions to enhance the firm's, and the wider industry's, service offering to clients". Bydd labordy arloesi Clifford Chance, sydd hefyd yn cael ei gefnogi gan FLIP, SAL a Bwrdd Datblygu Economaidd Singapore, yn rhan o hwb arloesi a darpariaeth orau'r cwmni ar gyfer rhanbarth Asia a'r Môr Tawel[154]. Yn olaf, ac yn ddiweddar iawn, cyhoeddodd EY, un o'r Pedwar Mawr ymhlith cwmnïau cynghori ar wasanaethau proffesiynol y byd, ei fod yn creu ei raglen ddeori ei hun yn Singapôr, a adwaenir fel EY Foundry. Fel rhan o'r rhaglen hon bydd pum cwmni newydd – o'r sectorau technoleg gyfreithiol, treth, cyfrifyddiaeth, technoleg ariannol a thechnoleg reoleiddiol – yn cael cymorth ar ffurf preswyliaeth am ddim am chwe mis yn swyddfeydd EY, ynghyd â gwerth $88,000 o gredydau Microsoft Azure[155].

At ei gilydd, mae graddfa ymdrechion Singapôr i gofleidio arloesi cyfreithiol a Thechnoleg Gyfreithiol yn drawiadol. Yn y bôn, mae'n cynnig dull "rhywbeth i bawb" o wella perfformiad y sector – o bractisiau cyfreithiol sy'n BBaCh ac yn ceisio gosod Technoleg Gyfreithiol sylfaenol i ddatrysiadau blaengar a gefnogir gan gwmnïau cyfreithiol mwyaf y byd. Yn hollbwysig, cefnogir y fenter gan lawer o'r ffigurau allweddol ar draws y sector cyfreithiol, o Ustusiaid y Goruchaf Lys i fyfyrwyr y gyfraith. Bydd yn ddiddorol iawn gweld a yw Singapore yn gallu ennill ei phlwyf yn gyflym fel arweinydd byd-eang mewn perthynas â Thechnoleg Gyfreithiol, yn union fel y mae wedi'i wneud mewn perthynas â chyflafareddu rhyngwladol.

## Casgliadau ac argymhellion

Yn bennaf oll, awgrymwn y dylai Llywodraeth Cymru gydnabod bod swyddi yng nghanolfannau gwasanaethau cyfagos cwmnïau cyfreithiol yn ffynhonnell gyflogaeth ddymunol i'r wlad: mae cyflog rolau o'r fath yn aml yn gymharol dda, boed trwy gyfeirio at amodau'r farchnad leol neu normau'r farchnad dasg-benodol. Maent hefyd yn gynyddol yn cynnig gwaith crefftus iawn, o ran personél cymorth a gwasanaethau cyfreithiol. Yn olaf, mae'r tueddiad i ganolfannau gwasanaethau cyfagos ddod yn ganolfannau arloesi hefyd yn awgrymu rhywfaint o ddiogelu at y dyfodol, o ran hyfywedd hirdymor y rolau a gyflawnir mewn canolfannau o'r fath. Mae'r cydadwaith cynyddol rhwng y rolau Technoleg Gyfreithiol a gyflawnir yng nghanolfannau gwasanaethau cwmnïau cyfreithiol a chyrsiau arloesol a gynigir gan brifysgolion lleol hefyd yn dynodi cylch rhinweddol o gyfleoedd hyfforddi lleol, sy'n arwain at gyfleoedd cyflogaeth sydd â chysylltiad agos – ac sy'n lleol. Ar hyn o bryd, mae gan Gymru hyrwyddwr academaidd amlwg ar gyfer Technoleg Gyfreithiol: Prifysgol Abertawe. Yr hyn sydd i'w weld yn brin yng Nghymru yw ffynhonnell gyflogaeth leol ar gyfer y cyflenwad hwn o dalent.

Nid ydym yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn dilyn dull buddsoddi Gogledd Iwerddon o weithgareddau marchnata di-ildio ar raddfa fawr sydd, yn y blynyddoedd diwethaf, wedi dwyn adenillion sy'n lleihau'n gyflym. Yr hyn yr ydym yn erfyn ar Lywodraeth Cymru i'w gefnogi'n frwd – ar y lefel wleidyddol uchaf – fodd bynnag, yw ymgyrch wedi'i dargedu'n fanwl i ddenu practisiau cyfreithiol i sefydlu canolfannau cyfagos yng Nghymru. Dylai'r ymgyrch hwn dargedu unrhyw fath o bractis mawr nad yw eto'n gweithredu ei ganolfan gwasanaethau ei hun, gan gynnwys cwmnïau cyfreithiol traddodiadol a hefyd practisiau cyfrifyddiaeth mawr sy'n gweithredu is-adrannau ymarfer cyfreithiol sylweddol.

Nid ydym yn awgrymu ychwaith bod Llywodraeth Cymru yn ceisio creu cystadleuwr i Singapore, naill ai fel canolfan cyflafareddu ryngwladol neu, yn wir, fel canolbwynt Technoleg Gyfreithiol. Yr hyn y mae ein henghreifftiau, fodd bynnag, yn ei ddangos yw sut y gall ymdrech parhaus i dyfu marchnad gyfreithiol arwain weithiau at leoliad sy'n ennill enw da fel un sydd ar flaen y gad yn y farchnad fyd-eang. Byddem ni'n awgrymu y dylai cymorth i'r sector cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol ganolbwyntio ar hyrwyddo Caerdydd fel lleoliad i sefydlu canolfannau cyfagos ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol a chyfrifyddiaeth amlddisgyblaethol.

154 Clifford Chance. *Clifford Chance launches its first innovation lab, Create+65,* 18 Rhagfyr 2018.
155 Asian Legal Business. *EY launches incubator in SG for startups in legaltech, tax and more,* 25 Ebrill 2019.

# Pennod un deg pump: Modelau busnes newydd posibl ar gyfer darparu gwasanaethau cyfreithiol, gan gynnwys effaith technoleg

Yn y bennod hon, rydym yn amlinellu'r hyn sydd yn ein tyb ni'n enghreifftiau o bractisiau cyfreithiol arloesol a chwmnïau technoleg gyfreithiol nodedig sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae rhai o'r sefydliadau hyn, ond nid pob un, yn gyflogwyr pwysig yng Nghymru. Yn yr un modd, mae rhai, ond nid pob un, ymhlith y darparwyr gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r gyfraith mwyaf yng Nghymru, pan gânt eu gwerthuso ar sail trosiant blynyddol.

Wrth gynnig ein henghreifftiau darluniadol, rydym yn gwneud pwynt rhagarweiniol pwysig: rydym wedi gwneud penderfyniad pwrpasol yn erbyn defnyddio statws "strwythur busnes amgen" (ABS) practis cyfreithiol fel dangosydd procsi ar gyfer arloesi. Pan gafodd y farchnad gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr ei rhyddfrydoli'n sylweddol yn 2007, tybiwyd yn eang y byddai ABS yn sbardun ar gyfer galluogi gwasanaethau cyfreithiol i gael eu darparu mewn ffyrdd newydd, am eu bod yn caniatáu i "rai nad ydynt yn gyfreithwyr" ddod yn gyfranddalwyr mewn practisiau cyfreithiol am y tro cyntaf. Yn wir, mae'r diwygiad hwn wedi profi i fod yn dipyn o wrth-uchafbwynt: yn hytrach na'i fod wedi peri i wasanaethau o'r math "cyfraith Tesco" flodeuo, mae wedi arwain yn fwy cyffredin at senario lle mae cyfarwyddwr ariannol nad yw'n gyfreithiwr yn dod yn bartner mewn cwmni cyfreithiol cwbl draddodiadol. Efallai na ddylai'r canlyniad hwn fod yn syndod: mae ymchwil yn awgrymu bod tua 80% o'r cwmnïau ABS yn bractisiau cyfreithiol a oedd eisoes yn bodoli, yn hytrach na newydd-ddyfodiaid i'r farchnad[156].

Fodd bynnag, er mwyn cyflawnder, nodwn fod data a ddarparwyd gan yr ARhC yn ein hysbysu bod Cymru'n gartref i 25 o gwmnïau ABS, o'i gymharu â 750 yn Lloegr. I roi cyfansymiau'r cwmnïau ABS hyn yn eu cyd-destun, mae Cymru yn gartref i gyfanswm o 391 o gwmnïau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yn y wlad, o'i gymharu â 10,110 sydd wedi'u lleoli yn Lloegr. Mae hyn yn awgrymu bod y gymhareb cwmni ABS i gwmni cyfreithiol ychydig yn is yng Nghymru nag yn Lloegr. Yng Nghymru, mae un o bob 15.64 o gwmnïau cyfreithiol hefyd yn ABS, o'i gymharu ag un cwmni cyfreithiol ym mhob 13.48 cwmni cyfreithiol yn Lloegr.

## Darparwyr gwasanaethau cyfreithiol amgen

Nid yw'r enghreifftiau a gynigiwn isod wedi'u bwriadu i roi cyfrif cynhwysfawr o'r ddarpariaeth gwasanaethau cyfreithiol amgen yng Nghymru. Yn hytrach, bwriedir iddynt fod yn ddangosol, ac maent yn adlewyrchu amrywiaeth y ffyrdd y mae practisiau cyfreithiol yng Nghymru yn torri cwys newydd o ran sut y maent yn darparu gwasanaethau cyfreithiol. Wrth benderfynu a fyddai model busnes practis cyfreithiol yng Nghymru yn cael ei ystyried yn newydd neu'n arloesol, y pwynt cymharu yw'r cwmni cyfreithiol traddodiadol sy'n cyd-fynd â'r stereoteip.

Hynny yw, practis cyfreithiol sydd:

- Yn bractis cyfreithiol cyffredinol
- Yn cael ei berchnogi gan ei bartneriaid sy'n gyfreithwyr ac yn gyfranddalwyr a'r rhain yn unig
- Yn cynnig dim ond cyngor cyfreithiol, yn hytrach na mathau eraill o wasanaethau cynghori

Cyflwynir yr enghreifftiau isod yn nhrefn yr wyddor.

[156] Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol. *Evaluation: ABS and investment in legal services 2011/12-2016/17,* Mehefin 2017, t16

## Admiral Law

Trafodwyd Admiral law yn flaenorol ym mhennod tri o’r adroddiad hwn. Yma, y cyfan a wnawn yw ailadrodd bod y cwmni hwn yn gyflogwr sylweddol, er yn anghonfensiynol, o fewn y sector cyfreithiol yng Nghymru. Yn 2017, roedd trosiant Admiral Law yn £18.44m, yn ôl y cyfrifon a gyflwynodd i Dŷ’r Cwmnïau.

## Carbon Law

Mae Carbon Law yn un o nifer cynyddol o bractisiau cyfreithiol lle mae tîm canolog yn darparu "platfform" o gymorth canolog i’w gyfreithwyr, sydd wedyn yn gweithio ar sail annibynnol a / neu lawrydd i raddau helaeth[157]. Mae gweithredwyr eraill yn y farchnad hon yn cynnwys Setfords Solicitors yn Guildford, y gwasanaeth Vario a ddarperir gan Pinsent Masons, Lawyers on Demand a’r cwmni sydd wedi’i restru ar Gyfnewidfa Stoc Llundain, Keystone Law Group. Mae’n hysbys bod y mathau hyn o wasanaethau yn ddeniadol i gyfreithwyr sy’n dymuno manteisio ar gymorth cefn-swyddfa canolog, ond nad ydynt am weithio mewn cwmni cyfreithiol traddodiadol.

Yn 2015, cafodd Carbon Law grant o £325,000 gan Lywodraeth Cymru i roi cymorth iddo adleoli o’i ganolfan gychwynnol yn y Bont-faen i swyddfa newydd yng nghanol Caerdydd. Yn fwy diweddar, daeth Carbon Law yn ABS[158] a chyhoeddodd hefyd ei fwriad i symud tuag at strwythur "perchenogaeth cyfranddalwyr". Yn wahanol i gwmnïau cyfreithiol traddodiadol, lle mae perchenogaeth ar y practis yn tueddu i gael ei neilltuo i uwch gyfreithwyr y practis, mae Carbon Law wedi cadarnhau y bydd ei dîm rheoli a chymorth canolog yn gymwys i gael cyfranddaliadau yn y cwmni[159].

## CJCH Solicitors

Mae’r cwmni hwn a ffurfiwyd pan unwyd Colin Jones Solicitors a Clarke & Hartlant Solicitors yn 2013 – ac a arferai fod yn gwmni traddodiadol – bellach hefyd yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau ymgynghoriaeth, yn ogystal â gwasanaethau cyfreithiol. Mae gwasanaethau ymgynghoriaeth CJCH yn cynnwys ymchwil i atal lladrad cynnyrch, ymgynghoriaeth busnes a risg, gorfodaeth a chydymffurfio â thrwyddedau, seiberddiogelwch a diogelwch TG[160]. Deellir bod y cyfanswm o 130 o gyflogeion sydd gan y cwmni wedi’u rhannu yn ôl cymhareb 50:50 rhwng y rhai sy’n gweithio i’w bractis cyfreithiol traddodiadol a’r rhai sy’n gweithio i’w fusnes ymgynghoriaeth.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddwyd fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi grant o £432,000 i CJCH i greu 71 o swyddi newydd o fewn ei uned atal lladrad cynnyrch[161].

## NewLaw Solicitors

Ers 2014, mae NewLaw Solicitors wedi bod yn rhan o Redde plc, cwmni â throsiant o £527m sy’n canolbwyntio ar gymorth rheoli damweiniau, gwasanaethau cyfreithiol, rheoli fflyd a gwasanaethau cyflawni polisïau. Mae cyfanswm gweithlu Redde yn cynnwys 2,300 o gyflogeion ledled Prydain[162], tra bod NewLaw yng Nghaerdydd yn cyflogi mwy na 500 o staff[163]. Yn ôl y cyfrifon diweddaraf a gyflwynwyd ganddo i Dŷ’r cwmnïau, roedd trosiant NewLaw yn £22.01m yn 2017[164].

157 Law Society’s Gazette. *Welsh government boosts ‘new-style’ firm with £325,000 grant,* 3 Mehefin 2015.
158 Carbon Law. *Carbon Law Partners granted alternative business structure status.*
159 Carbon Law. S*takeholder firm Carbon leads the way.*
160 https://cjchconsulting.co.uk/services/.
161 CHCH Solicitors. *CJCH Solicitors to create 71 jobs in Cyber Security with backing from Welsh Government,* 27 Mawrth 2017.
162 Redde plc. *About Us – Company Info.*
163 NewLaw Solicitors. *We are NewLaw Solicitors.*
164 Legal Futures. *ABS-hungry NewLaw eyes more join ventures,* 28 Chwefror 2017.

Mae NewLaw yn adnabyddus am ei nifer helaeth o bartneriaethau cydfenter, gan gynnwys y rhai gyda’r cwmni yswiriant Ageas, Cymdeithas Feddygol Prydain, y Coleg Nyrsio Brenhinol a You Law LLP[165].

Ym mis Hydref 2013, cyn cael ei gaffael gan Redde, rhoddodd Llywodraeth Cymru grant o £156,690 i NewLaw, i helpu i greu 86 o swyddi newydd yng Nghaerdydd[166].

## Partneriaethau gydag ymgynghorwyr ariannol annibynnol / cyfrifwyr

Yn ein hamlinelliad cychwynnol o’r prosiect, cytunwyd y dylem archwilio modelau busnes newydd ym maes gwasanaethau cyfreithiol, fel y rhai a gynigir mewn partneriaeth gydag ymgynghorwyr ariannol annibynnol neu gyfrifwyr. I egluro cyd-destun yr ymchwil hon: hyd 2007, roedd y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yn gorfod dilyn rheolau caeth, a oedd yn llesteirio gallu cyfreithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i ymuno â’i gilydd a chynnig gwasanaeth "siop un stop" i gleientiaid gydag elfen gyfreithiol. Dros 10 mlynedd ar ôl rhyddfrydoli’r sector, rydym wedi ceisio canfod i ba raddau y mae sector cyfreithiol Cymru wedi manteisio ar ei ryddid i gynnig cyngor proffesiynol amlddisgyblaethol i’w cleientiaid.

Ar ôl chwilio am enghreifftiau o ddarparu gwasanaethau o’r fath yng Nghymru, rydym wedi nodi nifer fach iawn o ddarparwyr amlddisgyblaethol yn y wlad, yn ychwanegol at y rhai a nodir uchod. Mae’r darparwyr gwasanaethau ychwanegol hyn yn cynnwys:

- Hugh James, y mae ei dîm o bump o gynghorwyr ariannol annibynnol yn gweithio yng Nghaerdydd. Mae’r gwasanaethau a gynigir gan y cwmni hwn yn cynnwys buddsoddi a rheoli cyfoeth, cynllunio trethi etifeddiant ac ymddiriedolaethau
- Mae’r Goldsboro Group yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau proffesiynol trwy amryw bractisiau partneriaid cysylltiedig. Mae'r practisiau cysylltiedig hyn yn cynnwys cyfraith Amparo ac Equilibrium Law yn y sector cyfreithiol, The Alexander Partnership (Accounts) Limited yn Ninbych-y-pysgod ym maes cyfrifyddiaeth, a’r cwmni sydd wedi’i leoli yng Nghaerdydd, Qwill, ym maes ysgrifennu ewyllysion ac atwrneiaeth arhosol

Rydym yn cyfaddef nad oes nifer fawr o enghreifftiau yma. Fodd bynnag, gellid dadlau ei fod yn adlewyrchu realiti practisiau cyfreithiol newydd yng Nghymru. Ym mhennod tri o’n hadroddiad, darparwyd crynodeb o broffesiwn cyfreithwyr Cymru, gan ddefnyddio data a ddarparwyd inni gan yr ARhC. Dangosodd y data hwn fod 391 o gwmnïau cyfreithwyr wedi’u lleoli yng Nghymru – ond dim ond 1% o’r practisiau sydd â’u pencadlysoedd yng Nghymru sy’n cynnig cyngor a gwasanaethau ariannol a reoleiddir gan yr ARhC[167].

Nid oedd data’r ARhC a ddarparwyd i ni yn cofnodi nifer y cwmnïau cyfreithiol yng Nghymru a oedd hefyd yn cynnig gwasanaethau cyfrifyddiaeth neu ysgrifennu ewyllysion. Fodd bynnag, ar ôl methu â dod o hyd i unrhyw enghreifftiau o Gymru heblaw am y rhai a nodwyd gennym uchod, rydym yn meddwl tybed ai’r rheswm dros hyn yw mai prin iawn yw eu nifer. Er enghraifft, ar ôl adolygu lleoliadau swyddfeydd cyhoeddus – yn hytrach na gwasanaethau cefn-swyddfa – canghennau cyfreithiol y Pedwar Mawr ymhlith y practisiau cyfrifyddiaeth, nid ydym wedi gallu canfod unrhyw rai ohonynt sy’n cynnig gwasanaethau amlddisgyblaethol sydd wedi’u targedu’n agored at farchnad gyfreithiol Cymru.

165 Legal Futures. *“A new type of law firm” is needed to tackle PI reforms,* 1 Chwefror 2019.
166 Law Society’s Gazette. *NewLaw creates 86 jobs in Cardiff, 11 Hydref 2013*.
167 Jomati. *The Legal Sector in Wales – a rapid review (Part one),* Mawrth 2019, t9 – 122.

Mae'r diffyg cydweithio amlddisgyblaethol rhwng cyfreithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill yng Nghymru yn ôl pob golwg yn peri penbleth i ni, o gofio cyfansoddiad y proffesiwn cyfreithiol yn y wlad. Mae data'r ARhC yn dweud wrthym fod cwmnïau cyfreithiol yng Nghymru yn aml yn fach, o ran nifer y cyflogeion a refeniwiau. Gallai rhywun fod wedi meddwl y byddai rhannu gorbenion â gweithwyr proffesiynol eraill yn beth cyffredin ymhlith practisiau cyfreithiol bach – er budd y practisiau eu hunain, heb sôn am eu cleientiaid. Wedi dweud hynny, rydym yn gwerthfawrogi nad yw'r math hwn o gydweithio rhyngbroffesiynol wedi dod yn gyffredin yn Lloegr ychwaith.

## Gwasanaethau cyfreithiol ar-lein

Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol, dim ond 8% o ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol ledled Cymru a Lloegr sy'n darparu gwasanaethau ar-lein i gleientiaid ar hyn o bryd. O ran cyfreithwyr a siambrau bargyfreithwyr yn benodol, dim ond 6% yw'r ffigwr hwnnw ar hyn o bryd[168]. Yng ngoleuni'r canrannau eithriadol o isel hyn ar draws y gymuned gyfreithiol gyfan yng Nghymru a Lloegr, efallai nad yw'n syndod – er i ni chwilota ar wefannau nifer dirifedi o bractisiau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru – nad oeddem yn gallu dod o hyd i enghreifftiau o bractisiau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac sy'n cynnig gwasanaethau cyfreithiol ar-lein. Os yw gwasanaethau cyfreithiol ar-lein yn cael eu cynnig gan bractisiau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, ychydig sy'n cael ei wneud i dynnu sylw defnyddwyr atynt. Mae hyn er gwaethaf y ffaith y byddai gwasanaethau o'r fath yn ffynhonnell glir ar gyfer gwahaniaethu o fewn marchnad gyfreithiol Cymru.

Wrth ystyried yr hyn y gellid yn ddilys ei ystyried yn "wasanaeth cyfreithiol ar-lein", y diffiniad a ffafrir gennym ni yw y dylai'r gwasanaeth gynnwys elfen ryngweithiol – h.y. nid gwybodaeth gyfreithiol yn unig – ac y dylai ddwyn allbwn cyfreithiol pendant – yn hytrach nag un gweinyddol. Un enghraifft o wasanaeth o'r fath fyddai gwasanaeth hunanlunio dogfen gyfreithiol, tebyg i'r rhai a gynigir yn y DU gan wefannau megis legalzoom, MyLawyer a Rocket Lawyer. Byddai math arall o wasanaeth cyfreithiol ar-lein yn cynnwys y rhai a gynigir gan donotpay.com, y sgwrsbot "grace" gan rrader[169], a'r sgwrsbot "Parker" a ddarperir gan y cwmni cyfreithiol byd-eang Norton Rose Fulbright[170].

Yn anffodus, ymddengys nad yw nifer o'r enghreifftiau sy'n benodol i Gymru a gynigiwn isod yn cyd-fynd yn llawn â'r hyn yr ydym ni'n ei ystyried yn wasanaethau cyfreithiol ar-lein. Serch hynny, rydym yn eu cynnwys – dim ond i ddangos pa mor gyfyngedig yw'r ddarpariaeth gwasanaethau cyfreithiol ar-lein yng Nghymru.

## Enghraifft un: Qwill

Mae Qwill, sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd, yn galluogi defnyddwyr i baratoi eu hewyllysion eu hunain ar-lein, trwy ateb cyfres o gwestiynau ac yna talu am y gwasanaeth trwy PayPal. Fodd bynnag, ein dealltwriaeth ni yw nad yw'r gwasanaeth hwn yn gwbl awtomataidd. Mae gwefan y cwmni yn nodi y bydd yr wybodaeth a ddarperir gan ddefnyddwyr ar-lein wedyn yn cael ei defnyddio gan ysgrifennwr ewyllysion i "wirio a drafftio eich ewyllys". Felly gellid ystyried y gwasanaeth hwn yn un a gynigir ar-lein, er na chaiff ei ddarparu'n gyfan gwbl ar-lein.

## Enghraifft dau: Harding Evans

Ym mis Ebrill 2018, Harding Evans, sydd wedi'i leoli yng Nghasnewydd, oedd y cyntaf yng Nghymru i lansio ap cyfreithiol[171]. Disgrifiwyd yr ap hwn fel gwasanaeth sy'n galluogi cleientiaid i gael gafael ar ddogfennau a gwybodaeth allweddol ynglŷn â'u trafodion, a chwilio am ddiweddariadau ar gynnydd ar unrhyw adeg. Yn realistig, gan ei bod yn ymddangos bod y gwasanaeth hwn yn cefnogi elfennau gweinyddol, yn hytrach na rhai ymgynghorol cyfreithiol, ar fater cyfreithiol, rydym yn ei chael hi'n anodd ei ystyried yn enghraifft o wasanaeth cyfreithiol ar-lein.

168 Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol. *Technology and innovation in Legal Services – Main report,* Tachwedd 2018, t8.
169 Legal Practice Management. *Breaking the law,* Mehefin 2018, t20-21.
170 Financial Times. *Chatbots join the legal conversation.* 7 Mehefin 2018.
171 South Wales Argus. *Newport law firm first in Wales to launch legal app.* 20 Ebrill 2018.

### Enghraifft tri: Geldards

Mae Geldards yn cynnig datrysiad rheoli portffolio eiddo, o'r enw assetbox, y gall cleientiaid ei gyrchu a'i reoli ar-lein. Er mai ystorfa dogfennaeth gyfreithiol ydyw yn bennaf, mae assetbox hefyd yn cynnwys offeryn amserlennu awtomataidd. Mae'n ymddangos bod yr offeryn hwn yn nodi terfynau amser a dyddiadau allweddol sy'n ymwneud â'r unedau eiddo y cedwir eu manylion ynddo. Fodd bynnag, ein dealltwriaeth ni yw y byddai'r gwaith cyfreithiol sy'n deillio o sbarduno cerrig milltir o'r fath yn cael ei wneud gan fod dynol sy'n cael ffi am wneud, yn hytrach na'r datrysiad ei hun. Am y rheswm hwnnw, mae'n debyg na fyddem yn ystyried bod assetbox yn wasanaeth cyfreithiol ar-lein.

Yr ail wasanaeth a gynigir gan Geldards yw datrysiad hyfforddiant e-ddysgu GDPR ar-lein. Nid ydym wedi gallu cael cadarnhad gan Geldards a yw'r datrysiad hwn yn cynnwys elfen ryngweithiol, megis cwis ar-lein sy'n profi dealltwriaeth y defnyddwyr am gydymffurfiaeth. Byddai elfen ryngweithiol, yn ein barn ni, yn golygu y byddem yn ystyried bod y datrysiad hyfforddiant e-ddysgu GDPR hwn yn wasanaeth cyfreithiol gwirioneddol ar-lein. Os nad oes elfen ryngweithiol, byddem yn ei ystyried yn wasanaeth gwybodaeth gyfreithiol ar-lein yn unig.

### A yw o bwys mewn gwirionedd nad yw gwasanaethau cyfreithiol yn cael eu darparu'n rheolaidd ar-lein yng Nghymru?

Yn ein barn ni, ac yn wir, ym marn y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol, mae'n amlwg bod arloesi – gan gynnwys darparu gwasanaethau cyfreithiol ar-lein – yn beth da, am ei fod yn gallu helpu i oresgyn problem dra hysbys "angen heb ei ddiwallu"[172] am wasanaethau cyfreithiol. Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd mai prin yw'r dystiolaeth o newid parhaus i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol ar-lein, naill ai gan gwmnïau cyfreithiol yng Nghymru neu mewn gwledydd eraill[173].

Yng nghyd-destun Cymru, gellir dadlau ei bod yn berthnasol bod ymgeision – ysbeidiol - y sector cyfreithiol i symud gwasanaethau cyfreithiol ar-lein i'w gweld fel pe baent wedi digwydd i raddau helaeth ar sail Cymru a Lloegr gyfan. Awgrymwn fod hyn yn dwyn goblygiadau i'r drafodaeth sy'n ymwneud ag awdurdodaeth ar wahân i Gymru. Er enghraifft, nid yw o bwys ar hyn o bryd os oes prinder darparwyr gwasanaethau cyfreithiol ar-lein sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, oherwydd gall defnyddwyr yng Nghymru ddefnyddio gwasanaethau a gynigir gan wefannau megis legalzoom, MyLawyer a Rocket Lawyer yn lle hynny. Y rheswm dros hyn yw bod y gyfraith sy'n tanategu'r gwasanaethau hyn, ar hyn o bryd, yn gyffredin i'r ddwy awdurdodaeth.

Wrth edrych tua'r dyfodol, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymgysylltu'n weithredol â'r holl gyfranwyr allweddol sy'n llywio'r datblygiad tuag at wasanaethau cyfreithiol ar-lein – nid dim ond rhanddeiliaid y sector cyhoeddus fel Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, ond hefyd cyfranwyr yn y sector preifat megis legalzoom, MyLawyer a Rocket Lawyer. Dylai'r ymgysylltu hwn sicrhau nad yw unrhyw newid i greu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru yn llesteirio gallu defnyddwyr yng Nghymru i gael mynediad at yr ystod gyfyngedig o wasanaethau cyfreithiol sy'n cael eu darparu ar-lein ar hyn o bryd. Byddai'n anffodus pe bai defnyddwyr Cymru'n cael eu bod yn colli'r gallu, heb unrhyw fai arnynt hwy, i ddefnyddio'r darparwyr hynny sy'n cynnig gwasanaethau cyfreithiol ar-lein, a hynny'n syml am fod cyfraith Cymru wedi ymwahanu oddi wrth gyfraith Lloegr – a bod dim darparwyr yng Nghymru wedi camu i'r adwy i lenwi'r bwlch hwnnw yn y farchnad. Yn seiliedig ar yr hyn a welsom hyd yma, nid ydym yn hyderus bod darparwyr gwasanaethau cyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn debygol o gamu i'r adwy i lenwi unrhyw fylchau o'r fath sy'n dod i'r amlwg.

172 Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol. *Technology and innovation in legal services – Main report,* Tachwedd 2018, t74.
173 Ibid, t8.

## Offer technoleg

Yn ystod ein hymchwil, gwnaethom ymdrechion helaeth i ganfod crewyr offer Technoleg Gyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Roedd yr ymchwil hon yn cynnwys:

- Adolygu'r wasg Technoleg Gyfreithiol i chwilio am enghreifftiau o gwmnïau Technoleg Gyfreithiol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru
- Siarad gyda newyddiadurwyr Technoleg Gyfreithiol, gan gynnwys y rhai sydd wedi mynychu digwyddiadau Technoleg Gyfreithiol yng Nghymru yn ddiweddar
- Gofyn am farn aelodau o Cardiff Start – grŵp Caerdydd ar Facebook ar gyfer cwmnïau digidol creadigol a thechnolegol newydd sydd â 3,000 o aelodau
- Estyn allan at berchnogion y darparwr man cydweithio ar gyfer cwmnïau newydd, indycube
- Adolygu lleoliadau pencadlysoedd cwmnïau Technoleg Gyfreithiol newydd a restrir mewn canllaw cryno a gyhoeddwyd gan Legal Geek a Thomson Reuters
- Holi a oedd unrhyw gwmnïau Technoleg Gyfreithiol wedi'u lleoli yn Eagle Lab Barclays yng Nghaerdydd

Er gwaethaf yr ymdrech eang hwn i estyn allan, ni allem ond canfod un cwmni a oedd yn benodol yn darparu datrysiadau Technoleg Gyfreithiol ac a oedd wedi'i leoli yng Nghymru, a dau gwmni arall y gellid ystyried eu bod ar y cyrion o ran darparu datrysiadau o'r fath. Mae'r cyfanswm hwn braidd yn siomedig ac mae'n awgrymu nad yw Cymru ar hyn o bryd yn gartref i sector Technoleg Gyfreithiol annibynnol sy'n ffynnu.

O'r holl gwmnïau yng Nghymru y daethom ar eu traws, y gellid yn ddilys eu disgrifio fel rhai sy'n gweithredu yn y farchnad Technoleg Gyfreithiol, hoowla oedd yr enghraifft a oedd yn sefyll allan. Darparwr datrysiadau meddalwedd rheoli achosion cyfreithiol sydd wedi'i leoli yn Abertawe yw'r cwmni hwn. Er mai dim ond yn un o lawer o werthwyr sy'n weithredol yn yr rhan arbennig hon o farchnad Technoleg Gyfreithiol y DU yw hoowla, ymddengys fod y cwmni wedi datblygu sylfaen gleientiaid barchus, yn bennaf ymhlith cwmnïau cyfreithiol sy'n BBaCh ac sydd wedi'u lleoli yn Lloegr[174]. Mae hoowla hefyd yn nodedig fel enillydd cyntaf gwobr cwmni Technoleg Gyfreithiol newydd Legal Geek yn 2016[175].

Y tu hwnt i hoowla, gellir dadlau bod Properr Software sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd yn pontio'r sectorau Technoleg Gyfreithiol a Thechnoleg Eiddo. Nod y gwasanaeth "Track my move" gan Properr Software sy'n seiliedig ar system gwmwl yw symleiddio marchnad gwerthu eiddo'r DU, trwy alluogi asiantau gwerthu tai, prynwyr, gwerthwyr a thimau cyfreithiol i ddilyn hynt trafodion unigol. Ym mis Mehefin 2017, cadarnhawyd fod Properr Software wedi cael cyllid gwerth £850,000 i ddatblygu ei blatfform ar-lein, mewn cylch ariannu dan arweiniad Cyllid Cymru.

Rhoddodd hoowla a Properr gyflwyniadau a oedd yn egluro eu gwasanaethau yn nigwyddiad LegalTech Wales, a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Abertawe ym mis Ionawr 2018. Mae'r ddau gwmni felly'n adnabyddus i'r sefydliad hwn.

Y cwmni olaf o Gymru y daethom ar ei draws a allai, yn ymylol, gael ei ddisgrifio fel gwerthwr datrysiadau Technoleg Gyfreithiol yw Awen Collective, cwmni newydd sydd wedi'i leoli yng Nghaerffili. Un o gasgliad Awen Collective o ddatrysiadau yw "Profile", sef adnodd gwirio cydymffurfiaeth sydd wedi'i fwriadu ar gyfer y sector seilwaith hanfodol. Mae Profile yn galluogi sefydliadau yn y sectorau trydan, dŵr, olew a nwy – ymhlith eraill – i wirio eu

174 hoowla. Case Studies.
175 hoowla. *hoowla Wins LawTech Award,* 24 Hydref 2016.

cydymffurfiaeth â Chyfarwyddeb Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth yr UE a hefyd Fframwaith Seiber-asesu'r DU. Efallai y gall y ffaith bod Awen Collective yn gwmni technoleg yn hytrach na chwmni cyfreithiol traddodiadol fod o gymorth i esbonio pam nad yw wedi dod i sylw sefydliadau megis Ysgol y Gyfraith, Abertawe hyd yma. Nid yw pob menter, sy'n weithredol ym marchnad gwasanaethau cyfreithiol Cymru, yn eu strwythuro'u hunain mewn ffordd sy'n gyfarwydd i, neu'n hysbys i, gymuned gyfreithiol Cymru.

## Arloesi gan awdurdodau lleol

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd ffenomen gynyddol gyda thimau cyfreithiol mewnol mewn awdurdodau lleol yn Lloegr yn cyfuno, yn dod yn endidau corfforaethol annibynnol, ac – mewn rhai achosion – yn ceisio dod yn gynhyrchwyr refeniw i'w cyfranddalwyr sy'n awdurdodau lleol, trwy werthu eu harbenigedd cyfreithiol i gleientiaid allanol ar y farchnad agored. Mae'r awdurdodau yn Lloegr sydd wedi dilyn y llwybr hwn yn cynnwys:

- HB Public Law – practis â 150 o gyfreithwyr sy'n cyfuno swyddogaethau cyfreithiol mewnol Cyngor Dosbarth Aylesbury Vale, Cyngor Swydd Buckingham, a Chynghorau Bwrdeistref Barnet, Harrow, a Hounslow yn Llundain Fwyaf
- LGSS Law – practis â 58 o gyfreithwyr sy'n cyfuno timau cyfreithiol mewnol Cyngor Swydd Gaergrawnt, Cyngor Sir Northampton a Chyngor Canol Swydd Bedford
- nplaw – practis â 32 o gyfreithwyr sy'n cyfuno timau cyfreithiol mewnol Cyngor Bwrdeistref Great Yarmouth, Cyngor Sir Norfolk a Chyngor Dinas Norwich

Mae ein hymchwil yn awgrymu bod y dull a ddefnyddir gan dimau cyfreithiol mewnol mewn awdurdodau lleol yng Nghymru ychydig yn wahanol i'w timau cyfatebol yn Lloegr. Yn wahanol i nifer o'r enghreifftiau o Loegr a nodir uchod, nid yw awdurdodau lleol Cymru wedi trosglwyddo eu timau cyfreithiol i gyfryngau corfforaethol newydd. Yn hytrach, mae'r timau cyfreithiol hyn wedi tueddu i gael eu cyflogi gan eu hawdurdod lleol eu hunain sydd, yn ei dro, wedyn yn ffurfio Consortiwm aml-gyngor. Cafodd y consortia llywodraeth leol cyfreithiol mewnol hyn eu grwpio yn ôl tri rhanbarth daearyddol o fewn y wlad: Gogledd Cymru, Canol a De Cymru, De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru.

## Cydwasanaeth Cyfreithiol Canol a De-orllewin Cymru

Mae consortiwm Cydwasanaeth Cyfreithiol Canolbarth a De-orllewin Cymru (CSWWSLS) yn cynnwys saith awdurdod lleol: Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe.

Mae elfennau o gydwasanaeth CSWWSLS yn cynnwys:

- Cyfarfodydd misol ar lefel uwch, sy' n ceisio rhannu arferion gorau a chyfleoedd i gydweithio
- Cyd-gaffael systemau rheoli achosion, darpariaethau llyfrgell electronig, ac ati
- Cyfleoedd hyfforddi ar y cyd i gyfreithwyr y rhanbarth
- Cyfleoedd rhwydweithio
- Atgyfeirio gwaith rhwng awdurdodau, a ategir gan gyfraddau codi tâl rhwng awdurdodau y cytunwyd arnynt
- Grwpiau diddordeb arbennig ar y cyd
- Mynd ati ar y cyd ac mewn modd ad hoc i recriwtio cyfreithwyr sy'n cael eu rhannu rhwng awdurdodau
- Contractau hyfforddi ar y cyd ar gyfer cyfreithwyr iau

Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Ysgol Fusnes Caerdydd yn ein hysbysu bod cynllun CSWWSLS wedi'i gefnogi'n wreiddiol â grant o £151,830, a ddarparwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Fe wnaeth y grant hwn alluogi'r grŵp cyfunol i ddatblygu ei systemau TGCh cyffredin, ac i brynu gwasanaeth rheolwr practis / prosiect[176]. Yn ôl ein dealltwriaeth ni, daeth rôl y rheolwr practis / prosiect i ben pan ddaeth y grant ESF / CLlLC i ben.

## Gwasanaethau Cyfreithiol Gogledd Cymru yn Gweithio ar y Cyd

Yn ôl ein dealltwriaeth ni, mae'r timau cyfreithiol mewnol mewn chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru – Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam – yn cydweithredu o ran darparu gwasanaethau cyfreithiol. Gyda'i gilydd, adwaenir y grŵp hwn fel Gwasanaethau Cyfreithiol Gogledd Cymru yn Gweithio ar y Cyd (NWLSC). Mae elfennau o NWLSC yn cynnwys:

- Cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb misol rhwng penaethiaid gwasanaethau cyfreithiol y chwe chyngor
- Cyfarfodydd misol trwy fwrdd y prosiect ar lefel strategol
- Cyfarfodydd misol trwy dîm y prosiect ar lefel weithredol
- Digwyddiad hyfforddi undydd blynyddol
- Timau rhithwir i rannu gwaith sy'n ymwneud ag erlyn a gofal cymdeithasol
- Sefydlu grwpiau diddordeb arbennig (SIG). Mae grwpiau diddordeb arbennig yn galluogi staff i gwrdd â chydweithwyr mewn rhannau eraill o'r rhanbarth sy'n arbenigo mewn meysydd cyfreithiol tebyg ac i rannu gwybodaeth a phrofiad[177]
- System rheoli achosion gyffredin rhwng pedair adran gyfreithiol fewnol – Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam

Yn debyg i enghraifft CSWWSLS uchod, deellir bod NWLSC wedi cael arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop / gan CLlLC i helpu i gyflwyno'r prosiect, a lansiwyd yn ffurfiol ar 1 Ebrill 2012. Deallwn fod y cyllid hwn yn cynnwys cyfanswm o £214,700, y daeth £144,933 ohono o ESF a £69,767 oddi wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru[178]. Ers ei greu, mae NWLSC hefyd wedi sicrhau £30,000 o arian ADAPT, a ddefnyddiwyd i gefnogi rhaglen bythefnos yn Venue Cymru, Llandudno ym mis Medi 2012.

## Prosiect Cydwasanaeth Cyfreithiol De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru

Roedd Prosiect Cydwasanaeth Cyfreithiol De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru (SEMWSLSP) yn cwmpasu adrannau cyfreithiol mewnol y cynghorau canlynol yng Nghymru: Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Powys, Rhondda Cynon Taf, Torfaen ac – yn fwy diweddar – Bro Morgannwg[179].

Roedd cynllun peilot cychwynnol y prosiect yn cynnwys yr elfennau canlynol[180] :

176 Downe, J, Hayden C et al. E*valuation of Regional Collaborative Working, Final Report.* 10 Tachwedd 2016, t76. Ar gael yn: https://gweddill.gov.wales/docs/caecd/research/2016/161110-evaluation-regional-collaborative-working-en.pdf.
177 Ibid, t21.
178 Ibid, t73.
179 Bro Morgannwg. Prosiect Cydwasanaeth Cyfreithiol De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru. *Achos Busnes Amlinellol. Rhaglen ar gyfer cydweithio ar draws De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru, t2.*
180 http://apps.dataunitwales.gov.uk/RCC/View.aspx?region=3&id=148.

- Trefniadau cyfatebol ar gyfer gweithio a chydweithredu rhwng awdurdodau, yn seiliedig ar ffioedd penodedig
- Cydwasanaethau mewn perthynas ag erlyniadau a hawliadau yswiriant, i ddechrau
- Timau rhithwir a grwpiau diddordeb arbennig
- Cyd-gaffael deunyddiau ymchwil a llyfrgell ar-lein
- Cydgomisiynu hyfforddiant a datblygiad staff

Rhagwelwyd hefyd y gallai gwefan bwrpasol, a dull cyffredin o werthuso meddalwedd, gael eu creu maes o law. Fodd bynnag, yn ôl ein dealltwriaeth ni, nid yw tîm SEMWSLSP wedi cwrdd ers mis Chwefror 2018, ac mae'r grŵp bellach yn farw i bob pwrpas.

### Tîm cyfreithiol mewnol Cyngor Dinas Caerdydd

Ein dealltwriaeth ni yw nad yw tîm cyfreithiol mewnol Cyngor Dinas Caerdydd bellach yn rhan o gonsortiwm SEMWSLSP. Yn hytrach, mae'r tîm bellach wedi mabwysiadu dull gwahanol o hybu ei gynhyrchiant: mae'n mynd ati i chwilio am waith – ac felly refeniwiau – gan awdurdodau lleol a / neu gyhoeddus yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae sylfaen gleientiaid y tîm yn cynnwys ysgolion, y mae'n rhoi cyngor tribiwnlys cyflogaeth iddynt ac – yn arbennig – trefnwyr Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd tîm cyfreithiol mewnol Cyngor Dinas Caerdydd yn rhoi cyngor cyfreithiol sy'n ymwneud â materion adfywio ar gyfer y prosiect 20 mlynedd hwn gwerth £1.2 biliwn, sy'n cwmpasu 10 awdurdod lleol yng Nghymru. Yma, gellir dadlau ei bod yn berthnasol bod gan dîm cyfreithiol mewnol Cyngor Dinas Caerdydd ddigon o gryfder a dyfnder i wneud y gwaith ychwanegol hwn, heb fod angen perthyn i gonsortiwm rhanbarthol ehangach: gyda 29 o gyfreithwyr wedi'u cofrestru fel rhai sy'n gweithio i Gyngor Dinas Caerdydd, mae ei niferoedd cyfreithiol mewnol bron mor fawr ar ei ben ei hun â thimau consortia aml-gyngor eraill.

### Cymorth yn y dyfodol i wasanaethau cyfreithiol llywodraeth leol yng Nghymru?

Sut allai Llywodraeth Cymru helpu timau cyfreithiol mewnol awdurdodau lleol Cymru i weithredu'n well? Nid oedd llawer o gytundeb ymhlith ymatebwyr mewnol awdurdodau lleol i'n harolwg, pan geisiwyd adborth ar sut y gallai Llywodraeth Cymru eu helpu. Roedd yr ymatebion a gawsom yn amrywio o gais am fwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i dull gweithredu ar gyfer "draenio cynaliadwy" i apêl i gefnogi prentisiaethau cyfreithiol. Yn wir, roedd yr unig thema a grybwyllwyd gan fwy nag un ymatebydd i'r arolwg yn canolbwyntio ar gais am gymorth mewn perthynas â recriwtio ymarferwyr arbenigol. Fel y dwedodd un ymatebydd i'r arolwg:

> *"We have a recruitment crisis in respect of certain areas such as commercial; childcare practitioners and adult social care. I have been out to advert at least six times with no interest - and we pay one of the highest salaries in (X region). The pool is just not out there, and we end up spending a ridiculous amount of money on locums from England."*

Wrth edrych tua'r dyfodol, gallem weld mantais bosibl cymorth cymedrol gan Lywodraeth Cymru i ailsefydlu rhywbeth tebyg i gonsortiwm SEMWSLSP – gyda neu heb ymwneud gan Gyngor Dinas Caerdydd. Mae ein hargraff ni o'r ddau gonsortiwm rhanbarthol arall, sy'n dal i fodoli mewn rhannau eraill o Gymru, yn awgrymu bod y cymorth ariannol cymedrol a roddwyd i'r consortia hyn yn ystod eu priod gamau cychwynnol wedi cael ei werthfawrogi'n fawr, a bod angen mawr amdano. Yn y ddau achos, cyflogwyd rheolwyr prosiect, gyda'r bwriad penodol o helpu i greu'r seilwaith sefydliadol a oedd yn tanategu'r consortia yn ddiweddarach. Ein dealltwriaeth ni yw bod y seilwaith hwn yn parhau i fodoli yn y ddau gonsortiwm hyd heddiw. Gallwn ddweud felly ei bod yn ymddangos bod y buddsoddiad hwn ar raddfa fach wedi sicrhau gwerth hirdymor i'r rhai sy'n rhan o'r prosiect.

## Cymorth na ddylai Llywodraeth Cymru ei roi yn ein tyb ni – ddim eto, o leiaf

Un math o arloesi nad ydym yn credu, at ei gilydd, y dylai Llywodraeth Cymru roi cymorth ar ei gyfer ar hyn o bryd yw annog awdurdodau lleol Cymru i fabwysiadu dull mwy gorfasnachol o ddarparu eu gwasanaethau cyfreithiol - h.y. mynnu eu bod yn troi eu canghennau cyfreithiol yn gwmnïau deilliedig annibynnol, neu fynnu bod timau cyfreithiol mewnol yn ceisio dod yn ganolfannau elw. Rydym yn dweud hyn am un prif reswm: rydym wedi canfod tystiolaeth yn ddiweddar sy'n awgrymu bod y canlyniad hwn yn anodd iawn i'w gyflawni. I enghreifftio'r pwynt hwn, rydym yn tynnu sylw at ddwy enghraifft o swyddogaethau cyfreithiol mewnol yn Lloegr sydd wedi methu â dwyn enillion ariannol nodedig i'w priod gyfranddalwyr sy'n gynghorau.

Gellir dadlau mai'r enghraifft gyntaf a gynigiwn yw'r "hysbyseb fwyaf" ar gyfer arloesi mewn gwasanaethau cyfreithiol llywodraeth leol, Invicta Law. Roedd y cwmni deilliedig hwn â 150 o gyflogeion o Gyngor Sir Gaint, a sylfaenwyd fel strwythur busnes amgen yn 2017, wedi cael gorchwyl i dreblu ei refeniwiau dros gyfnod o ddeng mlynedd, o £10.8m yn ei flwyddyn gyntaf o fasnachu i £29.8m erbyn blwyddyn 10[181]. Ond, mewn gwirionedd, mae perfformiad ariannol cychwynnol Invicta Law wedi bod yn llai na disglair – dim ond yn ddiweddar y mae'r cwmni wedi dechrau cynhyrchu "elw masnachu sylfaenol" o £320,000 yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol sydd newydd ddod i ben. Yn wir, yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2017 / 2018, fe wnaeth Invicta Law golled o £428,000[182]. Mae anallu hirsefydlog Invicta Law i gyrraedd y targed refeniw a osododd iddo'i hun yn ei gynllun busnes yn golygu bod Cyngor Sir Gaint wedi wynebu diffyg difidend o £1 miliwn[183].

Yn yr un modd, mae adroddiadau diweddar yn y wasg yn awgrymu nad oedd y cwmni a sefydlwyd trwy gyfuno gwasanaethau cyfreithiol Cyngor Swydd Gaergrawnt, Cyngor Sir Northampton a Chyngor Canol Swydd Bedford – LGSS Law - wedi talu difidend i'w gyfranddalwyr sy'n awdurdodau lleol eto. Yn wir, yn lle hynny, mae wedi cael ei orfodi i gael benthyg arian[184] – yn anad dim am bod ar un o'r cynghorau sy'n gleientiaid iddo swm mawr o arian iddo[185].

Rydym yn awgrymu felly bod hanesion masnachu diweddar Invicta Law a LGSS Law yn nodi bod "creu refeniw o wasanaethau cyfreithiol mewnol" awdurdodau lleol yn fodel busnes nad yw wedi'i brofi eto.

## Casgliadau ac argymhellion

Byddai'n anghywir haeru bod marchnad gyfreithiol Cymru'n amddifad o arloesedd. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn amlygu sawl practis cyfreithiol arloesol yng Nghymru, gan gynnwys Admiral, CJCH Solicitors a NewLaw. Serch hynny, mae'n anffodus nad ydym wedi gweld darparwyr gwasanaethau cyfreithiol ar-lein, na mentrau amlddisgyblaethol "siop un stop" yn dod i'r amlwg yng Nghymru. Yn eu ffyrdd eu hunain, awgrymwn yn betrus y gallai'r naill neu'r llall o'r modelau busnes hyn leihau heriau o ran mynediad at gyfiawnder yng Nghymru – y cyntaf oherwydd y gallai gwasanaethau cyfreithiol ar-lein ddarparu rhai elfennau o fynediad at gyfiawnder, a'r ail oherwydd y gallai gwasanaethau siop-un-stop gynnig cyfle i BBaChau sy'n darparu gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau proffesiynol eraill rannu gorbenion busnes. Fel yr ydym wedi crybwyll o'r blaen, mae data'r ARhC yn dweud wrthym bod llawer o gwmnïau cyfreithiol yng Nghymru yn gymharol fach o'i gymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr.

O ran sut y gallai Llywodraeth Cymru roi anogaeth ar gyfer y naill neu'r llall o'r datblygiadau hyn, rydym yn gwneud yr awgrymiadau canlynol. Yn gyntaf, rydym yn ailadrodd ei bod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â'r ychydig ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol ar-lein sy'n bodoli'n barod, gyda'r bwriad o sicrhau eu bod yn

[181] Local Government Lawyer. *Kent County Council targets June launch for Invicta Law ABS,* 7 Mawrth 2017.
[182] Law Society's Gazette. *Kent Council ABS hails 'positive' half-year results,* 22 Tachwedd 2018.
[183] Cyngor Sir Gaint. Cabinet agenda, Dydd Llun 26 Mawrth 2018, t22 – 23.
[184] Law Society's Gazette. *Local authority ABS under spotlight over £1m overdraft.* 25 Mawrth 2019.
[185] The Comet. *Firm managing Central Beds Councils legal affairs runs up £3 million debt,* 31 Gorffennaf 2018.

ymwybodol ble mae cyfraith Cymru yn wahanol i gyfraith Lloegr, fel y gallant ailgyflunio'r hyn y maent yn ei gynnig yn unol â hynny. Awgrymwn hefyd fod unrhyw ymchwiliad gan Lywodraeth Cymru i anialdiroedd cyngor yn archwilio'r opsiwn o annog BBaChau sy'n darparu gwasanaethau cyfreithiol i ystyried rhannu safleoedd a phersonél gyda gweithwyr proffesiynol cysylltiedig, lle gallai gwneud hynny wella hyfywedd eu holl fusnesau.

Nid ydym, o reidrwydd, yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru geisio ysgogi arloesi yn y sector cyfreithiol trwy fuddsoddiad sylweddol gan y sector cyhoeddus – er ein bod yn nodi bod cwmnïau fel CJCH Solicitors a NewLaw wedi elwa o fuddsoddiadau o'r fath yn ddiweddar. Yn hytrach, rydym yn gweld rôl i Lywodraeth Cymru o ran meithrin cydweithio ar draws sectorau a chodi ymwybyddiaeth ar y ddwy ochr – er enghraifft rhwng prifysgolion sy'n cynnig cyrsiau Technoleg Gyfreithiol a chyflogwyr arloesol y mae'n debygol y bydd arnynt angen sgiliau graddedigion sy'n dilyn y cyrsiau hyn.

Mewn perthynas â swyddogaethau cyfreithiol mewnol Llywodraeth Leol, awgrymwn – gan bod consortiwm SEMWSLSP i'w weld fel pe bai wedi darfod – y dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi cyllid cymedrol i'w gyn-aelodau, er mwyn iddo'i ail-sefydlu ei hun – hyd yn oed os nad yw Cyngor Dinas Caerdydd yn dymuno cymryd rhan.

O ran arloesi mewn perthynas â chynhyrchu refeniw, ein prif awgrym yw bod Llywodraeth Cymru yn peidio â gwneud dim ar hyn o bryd – ond ei bod yn cadw golwg ar lwyddiant (neu ddiffyg llwyddiant) ariannol Invicta Law a LGSS Law yn y dyfodol. Dim ond os bydd y mentrau hyn yn profi'n llwyddiant masnachol y byddem yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn ystyried hyrwyddo'r model busnes hwn i awdurdodau lleol yng Nghymru. Hyd yma, mae'n ymddangos bod y dull cynnil, ad hoc o gynhyrchu refeniw allanol – fel yr hyn a fabwysiadwyd gan dîm cyfreithiol mewnol Cyngor Dinas Caerdydd – yn weddol lwyddiannus, a hefyd yn dwyn risg gymharol fach.

# Pennod un deg chwech: Casgliadau, ystyriaethau polisi a chynllun gweithredu awgrymedig

Ar y cyfan, mae ein hadroddiad yn cynnig darlun cymysg o'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru. Ar y naill law, mae ein hymchwil ym mhennod tri yn awgrymu bod rhai rhannau o'r farchnad gyfreithiol yng Nghymru i'w gweld fel pe baent dan fygythiad. Mae hyn am nifer o resymau, gan gynnwys lleihau cymorth cyfreithiol, cau llysoedd ynadon, a dibyniaeth uchel y sector ar y farchnad drawsgludo gylchol. Mae maint cymharol fach nifer o gwmnïau cyfreithiol Cymru, demograffeg y boblogaeth cyfreithwyr, y diffyg cyfleoedd ar gyfer contractau hyfforddi, a diffyg sector Technoleg Gyfreithiol nodedig yn ychwanegu at y risgiau sy'n wynebu'r farchnad gyfreithiol yng Nghymru. Ar y llaw arall, fel a nodwn ym mhenodau chwech a 15, mae ystod o bractisiau cyfreithiol anghonfensiynol yng Nghymru, megis Admiral law, CJCH Solicitors, NewLaw ac – o bosibl Deloitte – i'w gweld fel pe baent yn adrodd stori fwy cadarnhaol.

Roeddem hefyd yn falch o ddarganfod graddfa arloesi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn benodol mewn perthynas â chydweithredu o fewn rhanbarthau. Mae'n ymddangos bod yr hyn a ddatblygwyd wedi cael ei greu gyda chymorth ariannol gweddol fach yn unig – ond mae'r canlyniadau i'w gweld fel pe baent yn rhai parhaus i raddau helaeth. Mae'n debyg y byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i weld a all fod angen cymorth pellach, er mwyn atgyfodi Prosiect Cydwasanaeth Cyfreithiol De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru o bosibl. Hwn yw'r unig un o dri phrosiect ar y cyd rhwng gwasanaethau cyfreithiol awdurdodau lleol yng Nghymru sydd yn ôl pob golwg wedi methu.

Gan aros ar bwnc cymorth gan Lywodraeth Cymru: nodwn fod Cynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn cefnu ar y drefn o roi cymorth wedi'i dargedu i sectorau diwydiant penodol. Rydym yn gyfforddus gyda'r polisi hwn, yn anad dim gan bod ein hymchwil - a amlinellwyd ym mhennod 10 - yn dangos bod proffesiwn cyfreithiol prif-ffrwd Cymru yn ddifater ynglŷn â chymorth gan Lywodraeth Cymru, os nad yn ei wrthwynebu. Hyd yn oed gyda cymorth marchnata brwdfrydig – wyneb yn wyneb - mae Llywodraeth Cymru felly'n debygol o wynebu cryn wrthwynebiad diwylliannol gan y sector cyfreithiol i dderbyn cymorth. Mae rhai arweinwyr cwmnïau cyfreithiol yng Nghymru'n gwrthwynebu cymorth gan y Llywodraeth, yn enwedig cymorth y tybir ei fod yn llurgunio'r farchnad, ar sail ideolegol.

Ymhellach, yng ngoleuni ein canfyddiadau ychwanegol – sydd hefyd wedi'u cynnwys ym mhennod 10 – rydym yn mynegi amheuon a fyddai gan broffesiwn cyfreithiol Cymru unrhyw awydd i'w hyrwyddo ei hun ar y cyd i'r byd y tu allan, hyd yn oed gydag anogaeth weithredol gan Lywodraeth Cymru. Mae ein profiad ni'n awgrymu bod cyfreithwyr Cymru yn hapus i ddod at ei gilydd at ddiben cyffredin, lle credant fod cydweithredu o'r fath o fudd uniongyrchol iddynt. Yn niffyg diben cyffredin, clir, mae arweinwyr practisiau cyfreithiol yng Nghymru yn tueddu i ddychwelyd at feddwl am eu cymheiriaid lleol fel cystadleuwyr, nad oes angen iddynt gydweithredu gyda hwy.

Wedi dweud hynny, mae'n amlwg o'n cyfweliadau bod nifer o gwmnïau cyfreithiol yng Nghymru yn ei chael yn anodd ymateb i ffenomen Technoleg Gyfreithiol. Mae'n ymddangos mai eu hangen allweddol yw deall pa dechnoleg sydd ar gael a sut y gellir ei chymhwyso i'r busnes. Yn ddefnyddiol, fel y nodwn hefyd ym mhennod 10 o'r adroddiad hwn, mae nifer o ddigwyddiadau ar Dechnoleg Gyfreithiol wedi cael eu cynnal yng Nghymru o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf, gydag un arall – ym Mhrifysgol Abertawe – i fod i ddigwydd ym mis Awst eleni. Mae'r lefel hon o weithgarwch addysgol ym maes Technoleg Gyfreithiol yng Nghymru yn awgrymu wrthym ni nad oes angen penodol i Lywodraeth Cymru drefnu digwyddiad tebyg yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, byddem yn annog

Llywodraeth Cymru i fynd ati i hyrwyddo'r digwyddiadau hynny sydd yn yr arfaeth. Dylai'r anogaeth hon nid yn unig helpu i godi ymwybyddiaeth o Dechnoleg Gyfreithiol o fewn y sector cyfreithiol, byddai hefyd yn tynnu sylw'r byd ehangach at y ffaith bod elfennau o'r farchnad gyfreithiol yng Nghymru'n cofleidio Technoleg Gyfreithiol yn frwd.

Mae ein hymchwil ym mhennod chwech yn awgrymu nad yw cymhellion ariannol, sy'n cael eu cynnig gan lywodraethau, yn chwarae rhan sylweddol ym mhroses benderfynu practisiau cyfreithiol lle mae sefydlu canolfannau cyfagos yn y cwestiwn. Wedi dweud hynny, gan fod ein hymchwil ym mhennod 14 yn dangos bod lleoliadau eraill lle ceir canolfannau cyfagos yn y DU bron yn orlawn o safbwynt y sector cyfreithiol, rydym yn credu y gallai ymyriadau anariannol achlysurol gan Lywodraeth Cymru fod yn ddefnyddiol i helpu Caerdydd i "groesi'r llinell" yn ystod gwerthusiadau yn y dyfodol ynglŷn â buddsoddi mewn canolfannau gwasanaethau cyfagos. Ar ôl sylwi sut y mae Gogledd Iwerddon wedi bod yn defnyddio uwch-wleidyddion dro ar ôl tro yn ei hymdrechion blaenorol – a oedd yn aml yn llwyddiannus – i ddenu practisiau cyfreithiol i sefydlu canolfannau gwasanaethau cyfagos yn Belfast, awgrymwn hefyd y dylai uwch wleidyddion Llywodraeth Cymru ddilyn trywydd tebyg. Rydym yn argymell y dylai cynrychiolwyr ar lefel weinidogol gymryd rôl weithredol wrth hyrwyddo Caerdydd fel lleoliad posibl ar gyfer canolfannau gwasanaethau cyfreithiol cyfagos. Deallwn fod yr unigolion sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddi mewn canolfannau gwasanaethau cyfagos ar gyfer practisiau cyfreithiol yn ymateb yn dda i gymorth a gynigir gan arweinwyr gwleidyddol cenedlaethol, yn hytrach na rhai rhanbarthol / dinesig.

O ran sut y gall Llywodraeth Cymru – a'r sector cyhoeddus ehangach – gefnogi'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru drwy'r broses gaffael, awgrymwn mai'r man cychwyn cysyniadol y dylai'r sector cyhoeddus yng Nghymru ei ddefnyddio mewn perthynas â'r mater hwn yw gwerthfawrogiad o wendid ei rym prynu cyffredinol. Mewn gwirionedd, mae lefelau gwariant sector cyhoeddus Cymru yn nodweddiadol yn ganran fach o incwm sector cyfreithiol Cymru yn ei gyfanrwydd – a hyd yn oed o incwm practisiau cyfreithiol unigol a gyfarwyddir.

Yng ngoleuni'r data ar wariant cyfreithiol sector cyhoeddus Cymru a ddadansoddwyd gennym, mae ein canfyddiadau ym mhenodau saith ac wyth yn awgrymu nad ydym yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru, na'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru, fynd ati i geisio gwella faint o waith sy'n mynd i gwmnïau cyfreithwyr yng Nghymru: mae cwmnïau â phresenoldeb yng Nghymru eisoes yn cael eu cyfarwyddo i raddau anghymesur, o'i gymharu â'u cymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU.

Er hynny, awgrymwn y dylai'r broses gaffael ar gyfer gwasanaethau cyfreithwyr yng Nghymru fod yn symlach, nid yn fwy beichus: yn wir, mae model o symlrwydd eisoes yn bodoli mewn perthynas â chaffael gwasanaethau bargyfreithwyr yng Nghymru. Wedi dweud hynny, rydym hefyd o'r farn y byddai'n fuddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn dangos parodrwydd i gymryd risgiau cymedrol mewn perthynas â chaffael gwasanaethau cyfreithiol. Yn enwedig mewn perthynas â meysydd newydd o fewn y gyfraith, credwn ei bod yn iawn rhoi anogaeth i ddatblygu arbenigedd yn lleol yng Nghymru.

Mewn cyferbyniad â'r broses o brynu gwasanaethau cyfreithwyr, credwn fod angen mwy dybryd i adolygu'r broses o gaffael gwasanaethau bargyfreithwyr. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y broses o gaffael gwasanaethau bargyfreithwyr yng Nghymru yn agored ac yn syml. Fodd bynnag, credwn fod hyn wedi arwain at ei broblemau ei hun: yn ein barn ni, mae gormod o fargyfreithwyr - yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill – yn dal i fod ar banelau Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol, a hwythau heb gael rhyw lawer o gyfarwyddiadau, neu unrhyw gyfarwyddiadau gan y sector cyhoeddus. Awgrymwn felly y dylid cyflwyno gwerth cywir cyfarwyddiadau diweddar i aelodau presennol y panelau mewn perthynas â'u harbenigaeth benodol. Dylai'r ymarfer hwn fod yn amcanu at annog bargyfreithwyr sydd heb fawr o obaith neu heb unrhyw obaith o gael cyfarwyddiadau o werth ariannol rhesymol i dynnu'n ôl o'r panelau. O ran rhoi anogaeth i wneud mwy

o ddefnydd o fargyfreithwyr Cymru, awgrymwn y byddai o gymorth pe bai mentrau allgymorth presennol Llywodraeth Cymru yn parhau, ac yn cael eu hestyn efallai i gynnwys yr endidau hynny yn y sector cyhoeddus sy’n comisiynu gwasanaethau bargyfreithwyr trwy fframwaith ehangach y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

Ym mhennod tri o’n hadroddiad, rydym yn tynnu sylw at natur gymhleth yr anialdiroedd cyngor, ac yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull hynod ronynnog o asesu maint y broblem hon yng Nghymru. Yn ddiweddarach, ym mhennod 11, rydym yn esbonio’n fyr sut y mae rhai rhannau o’r sector cyfiawnder wedi ymateb i’r cwymp o ran darparu gwasanaethau cyfreithiol – a ysgogwyd gan doriadau i gymorth cyfreithiol – trwy fod yn ddyfeisgar iawn o ran sut y maent yn darparu'r gwasanaethau hynny trwy ddulliau amgen. Wrth i Lywodraeth Cymru geisio cael cymhwysedd dros wariant cymorth cyfreithiol, fel rhan o’i hymgais i greu awdurdodaeth ar wahân i Gymru, rydym yn awgrymu ei bod yn dysgu o’r ychydig flynyddoedd diwethaf o arbrofi a orfodwyd gan gyni cyllidol o ran darparu gwasanaethau cyfreithiol amgen. Mewn rhai sefyllfaoedd, efallai y daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad ei bod yn dymuno gwrthdroi toriadau gwariant yn y gorffennol, ac adfer gwariant ar gyfreithwyr a chynghorwyr cymorth cyfreithiol eraill. Ond, lle mae gwasanaethau cyfreithiol a ddarperir trwy ddulliau amgen wedi profi i fod yr un mor effeithiol – os nad yn fwy felly – yna awgrymwn y dylid cefnogi’r mecanweithiau darparu hyn.

Un ateb posibl – hyd yn oed os yw’n un rhannol – i’r her anialdiroedd cyngor cyfreithiol yng Nghymru yw darparu gwasanaethau cyfreithiol ar-lein. Fodd bynnag, fel yr amlygwn ym mhennod 15, ymddengys fod y ddarpariaeth o ran gwasanaethau cyfreithiol gwirioneddol ar-lein yng Nghymru bron yn gyfan gwbl absennol. Os na cheir newid amlwg lle mae’r gymuned gyfreithiol practisiau preifat yng Nghymru’n darparu gwasanaethau cyfreithiol ar-lein, awgrymwn y dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â darparwyr yn Lloegr sydd eisoes yn cynnig gwasanaethau o’r fath, gyda’r bwriad o’u hannog i ddarparu gwasanaethau sydd ag elfen sy’n ymwneud â chyfraith sy’n berthnasol i Gymru yn unig – lle y bo’n briodol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau nad yw trigolion Cymru o dan anfantais oherwydd yr ymwahanu parhaus rhwng cyfraith Cymru a Lloegr, a’r camau arfaethedig i greu awdurdodaeth ar wahân i Gymru.

Gan aros gyda thema awdurdodaeth ar wahân i Gymru, mae ein hymchwil ym mhennod 11 yn nodi bod barn proffesiwn cyfreithiol Cymru ar y pwnc hwn yn un hynod amlweddog, ond hefyd yn seiliedig ar bryder cyffredin – yn y bôn: a yw hyn yn mynd i helpu, ynteu llesteirio, fy musnes? Awgrymwn felly y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i "werthu" ei chynllun i’r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru ar lefel weddol ronynnog. Dylid egluro, er enghraifft, beth fyddai cymryd rheolaeth ar bolisi cyfiawnder yn ei olygu i ymarferwyr y mae’n debygol y bydd datblygiad o’r fath yn effeithio arnynt. Er mwyn cyflawni’r amcan hwn, awgrymwn y dylai cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru fynychu cymaint â phosibl o ddigwyddiadau "ymbarél" sydd eisoes yn bodoli yn y sector cyfreithiol dros gyfnod estynedig o amser, er mwyn ymgysylltu â phob sector ym mhroffesiwn cyfreithiol Cymru – boed hwy’n gyfreithwyr neu’n academyddion, mewn practisiau preifat neu wasanaethau mewnol, yn y sector cyhoeddus neu’r sector preifat. I weithwyr proffesiynol mewn practisiau preifat yn benodol, awgrymwn y dylai rhaglen ymgysylltu o’r fath ganolbwyntio’n benodol ar hawliau ymarfer: dylai Llywodraeth Cymru egluro’n benodol sut y mae’n bwriadu sicrhau y bydd cyfreithwyr, a hefyd gwaith cyfreithiol, yn parhau i lifo’n rhydd dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

Rhan bwysig o ddatblygu awdurdodaeth newydd yw creu cronfa o dalent sy’n gyfarwydd â’i deddfau. Fodd bynnag, fel y mae ein canfyddiadau ym mhenodau pedwar a 12 yn ei nodi, dylai Llywodraeth Cymru werthfawrogi bod ysgolion y gyfraith yng Nghymru yn annhebygol o wneud cyfraith Cymru yn ganolog i’w cyrsiau addysgu israddedig na’u ffocws ymchwil: mae addysg gyfreithiol Cymru yn seiliedig i raddau helaeth ar allforio talent gyfreithiol. O ganlyniad, nid oes cymhellion clir gan ysgolion y gyfraith yng Nghymru i ganolbwyntio’n gryf ar addysgu cyfraith Cymru yn hytrach na chyfraith Lloegr. Gallai cydnabod y ffaith hon, yn ei dro, hwyluso’r broses o feddwl yn greadigol sut y gellid ysgogi arbenigedd ymarferwyr yng nghyfraith Cymru. Yn hytrach na disgwyl y gallai cyfraith Cymru ddod yn ganolbwynt wrth astudio’r gyfraith ar lefel israddedig, gallai fod yn fwy cynhyrchiol i Lywodraeth Cymru gefnogi’r drefn ar gyfer addysgu am gyfraith Cymru ar lefel ôl-raddedig, gyda chyrsiau wedi’u hanelu at ymarferwyr sydd wedi’u lleoli yng Nghymru. Os yw Llywodraeth Cymru yn dymuno bod ymchwil i gyfraith Cymru – neu sylwebaeth arni – yn cael ei llunio, mae’n debygol y bydd angen iddi dalu i gefnogi’r broses o’i chynhyrchu.

Gan barhau â'r sector prifysgolion, awgrymwn fod y sector cyhoeddus yng Nghymru – ar y cyd – yn sefydlu mecanwaith caffael ffurfiol ar gyfer prynu gwasanaethau arbenigol mewn perthynas â chyfraith Cymru gan y gymuned academaidd gyfreithiol. Efallai y bydd yn briodol cynnwys y mecanwaith caffael hwn yn y diwygiadau ehangach i'r gyfundrefn tendro am wasanaethau cyfreithiol yn y sector cyhoeddus. Byddai'r dull hwn yn rhoi trosolwg gyffredinol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i weld i ba raddau y mae'n rhoi galwadau ar y gymuned gyfreithiol academaidd ar gyfer materion sy'n ymwneud â chyfraith Cymru. Deallwn nad yw ymgysylltiad y sector cyhoeddus yng Nghymru â chymuned academaidd cyfraith Cymru yn cael ei ddogfennu'n ganolog ar hyn o bryd. Mae hyn wedi arwain at gwynion bod galwadau gormodol yn cael eu rhoi ar amser rhai academyddion – heb dâl priodol. I ddechrau'r broses werthuso hon, rydym yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i ymgysylltu ag arweinwyr ysgolion y gyfraith yng Nghymru, gyda golwg ar ddeall faint o alwadau sy'n cael eu rhoi ar amser arbenigwyr ar gyfraith Cymru gan y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ar hyn o bryd.

Ym mhennod pump, rydym yn mynegi bod y rhaglen prentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru wedi dod i ben yn ôl pob golwg. Yr un mor bwysig, cawsom ein siomi hefyd gan ansawdd gwael y data swyddogol sy'n ymwneud â phrentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru. Mae ansawdd gwael y data hwn wedi ei gwneud yn anodd i ni adnabod yn hyderus pa gymwysterau cyfreithiol galwedigaethol sy'n wirioneddol boblogaidd ymhlith trigolion Cymru, yn hytrach na nodi pa arholiadau galwedigaethol cyfreithiol sy'n digwydd cael eu dilyn mewn canolfannau asesu yng Nghymru. Cyn y gwneir unrhyw waith i ailgyflunio cynllun prentisiaethau cyfreithiol Cymru, awgrymwn fod y diffyg data – a nodwyd ym mhennod pump o'r adroddiad hwn – yn cael ei unioni.

Unwaith y bydd yr ymarfer hwn wedi'i gwblhau, awgrymwn y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio dull seiliedig-ar-dystiolaeth lle mae darparu prentisiaethau cyfreithiol yng Nghymru yn y dyfodol yn y cwestiwn. Fel rhan o newid mwy cyffredinol i fframweithiau prentisiaeth lefel uwch newydd, awgrymwn y dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â chymuned gyfreithiol Cymru ynghylch pa fath o brentisiaeth y maent am ei chael, ac amcanu at gyflawni'r canlyniad hwnnw. O ran pwy ddylai ddarparu'r hyfforddiant hwnnw, awgrymwn fod Llywodraeth Cymru'n dewis gweithio gyda'r rhai sydd â hanes profedig o ddarparu cymwysterau, megis CILEx a Pearson. Yn olaf, os yw'r data – a fydd bellach yn gadarnach – ynghylch prentisiaethau yn cadarnhau bod prentisiaethau lefel 6 yn wirioneddol boblogaidd ymhlith ymgeiswyr Cymru, yna awgrymwn y dylai Llywodraeth Cymru roi cymorth i ddarparu cymwysterau o'r fath yng Nghymru.

Mae ein trafodaeth fer ar effaith bosibl Brexit ar sector cyfreithiol Cymru wedi'i nodi ym mhennod 13. Mewn perthynas â mater Brexiut, awgrymwn fod Llywodraeth Cymru yn defnyddio dull wedi'i dargedu'n fanwl ar gyfer unrhyw gymorth a gynigir i'r sector cyfreithiol. Er enghraifft, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn ei chael yn ddefnyddiol mynd ati'n weithredol i fonitro nifer y myfyrwyr israddedig yn y gyfraith sy'n cofrestru yn ysgolion y gyfraith yng Nghymru, rhag ofn y bydd unrhyw ostyngiad mewn niferoedd yn achosi i gyrsiau beidio â bod yn hyfyw. Yn yr un modd, awgrymwn raglen o fonitro gweithredol ar gyfer y rhannau hynny o farchnad gyfreithiol Cymru sydd fwyaf dan fygythiad os collir hyder yn economi ehangach Cymru. Rydym yn awgrymu y byddai'r farchnad drawsgludo yn ganolbwynt amlwg i waith monitro Llywodraeth Cymru, o ystyried ei phwysigrwydd cymharol uchel i sector cyfreithiol Cymru.

Oherwydd natur fyrdymor yr adolygiad ac ehangder y cylch gorchwyl, ni fu'n bosibl darparu argymhellion manwl mewn perthynas â phob agwedd ar yr adroddiad. Yn benodol, nid oeddem yn gallu ymgysylltu mor eang ledled Cymru, yn enwedig yn y Gogledd ac mewn ardaloedd mwy gwledig, ag y byddem wedi dymuno. Nid oeddem ychwaith yn gallu cael gafael ar y lefel o ddata mewn perthynas â BBaChau sy'n ofynnol i wneud argymhellion cadarn ar gyfer cefnogi'r sector yn y meysydd hyn. Fel yr ydym yn nodi ym mhennod 3 rydym yn cydnabod bod anialdiroedd cyngor posibl yn dod i'r amlwg ledled Cymru. Rydym yn awgrymu efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru wneud rhagor o waith yn y ffordd a nodwyd gennym. Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â chwmnïau cyfreithiol hefyd, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd mwy gwledig, er mwyn adnabod y materion a wynebir ar hyn o bryd ac archwilio'r awgrymiadau a wnaed gennym yn fwy manwl.